Llywodraeth Cymru
Welsh Government


# Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru

2022-23







llyw.cymru

## Deddf Llywodraeth Cymru 2006

Paratoir cyfrifon Llywodraeth Cymru yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023, ynghyd â Thystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru arnynt.

Fe'u gosodir gerbron y Senedd yn unol ag Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

OGL © Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47979 ISBN digidol 978-1-83577-155-6

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg



**Dr Andrew Goodall**
Yr Ysgrifennydd Parhaol

# Trosolwg

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r cyfrifon cyfunol ar gyfer 2022-23 ar ran Llywodraeth Cymru.

Maent yn cwmpasu blwyddyn a oedd, yn ddi-os, yn un arall heriol i'r sefydliad – yn enwedig o ran ein hymateb parhaus i lawer o'r digwyddiadau ledled y byd sydd y tu hwnt i'n rheolaeth.

Mae'r Prif Weinidog wedi'i gwneud yn flaenoriaeth inni helpu i liniaru effaith yr argyfwng costau byw sy'n dal i effeithio ar gynifer o bobl yng Nghymru. Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi datblygu a chyflawni ymyriadau wedi'u targedu, gan gynnal amrywiaeth eang o gynlluniau i helpu gyda chostau byw ar yr un pryd. Darparwyd £1.6 biliwn yn 2022-23 i helpu pobl yn ystod yr argyfwng, wedi'i rannu rhwng adrannau er mwyn sicrhau cymaint o effaith â phosibl.

Mae ein hymateb i'r argyfwng yn Wcráin hefyd wedi parhau ar gyflymder, gan groesawu pobl sy'n chwilio am noddfa yng Nghymru. Rydym wedi cyflwyno ymateb integredig sy'n seiliedig ar ddull Cymru ar y Cyd (ar draws Llywodraeth Cymru, Cymru gyfan, amlasiantaethol) mewn cydweithrediad â'n partneriaid strategol allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector. Mae ein hatebion polisi a'n hatebion gweithredol wedi cael eu cydgynhyrchu a'u cyflawni gyda'n partneriaid.

Hefyd, wrth gwrs, nid yw pandemig COVID-19 wedi diflannu. Mae ei effeithiau'n dal i gael eu teimlo i raddau helaeth ledled Cymru. Fel llywodraeth, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar adfer ar ôl COVID-19, yn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, yn ein hysgolion ac mewn addysg uwch, yn ein hawdurdodau lleol, ein busnesau a'n seilwaith trafnidiaeth.

Lansiwyd Ymchwiliad y Deyrnas Unedig (DU) gyfan i COVID-19 ar 21 Gorffennaf 2022. Mae Tîm yr Ymchwiliad bellach yn arwain ein paratoadau, gan gasglu gwybodaeth am ein gwaith a'n cynlluniau. Mae cyfrifoldeb corfforaethol arnom i sicrhau ein bod yn rhoi adroddiad cynhwysfawr i'r ymchwiliad ar yr hyn a wnaethom ac i gyflwyno tystiolaeth gywir ac ystyrlon.

Er gwaethaf yr heriau parhaus hyn, rwy'n falch o ddweud ein bod wedi parhau i gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu ag egni ac ar gyflymder. Ein prif ddiben yw helpu Gweinidogion i greu Cymru gryfach, decach, wyrddach a mwy tosturiol. Boed wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth, darparu gwasanaethau hanfodol, gwarchod treftadaeth Cymru, neu helpu'r sefydliad i redeg yn ddidrafferth, y diben hwn yw'r llinyn euraid sy'n rhedeg drwy bopeth a wnawn. Fel y mae ein hymateb i ddigwyddiadau diweddar ledled y byd wedi'i

ddangos, yr egwyddorion hyn o ran cyfiawnder economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n gwbl ganolog i'n gwaith.

Rwyf am i Lywodraeth Cymru gael ei gweld fel esiampl wrth osod y safonau hyn; nid dim ond i ni ein hunain, ond i eraill hefyd. Hoffwn dynnu sylw at ddwy enghraifft benodol yn hyn o beth, sef Cymru Sero Net a'n Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Cymru Sero Net yw ein cynllun lleihau allyriadau. Mae ein dull yn golygu mai dim ond un elfen ochr yn ochr â gweithredu ar y cyd yn llawer ehangach ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, ein heconomi a'n cymunedau yw'r camau a gymerir gan y llywodraeth. Mae ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru ond hefyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Mae 19 o gamau gweithredu i'w hystyried fel cyflogwr, ac mae i bob un ohonynt eu hallbynnau a'u terfynau amser eu hunain. Gallwch gael rhagor o wybodaeth am y naill a'r llall yn yr adroddiad hwn.

A throi at y sefydliad ei hun, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu dwys â'n holl staff, cyflwynais raglen Llywodraeth Cymru 2025. Hwn yw ein cynllun tair blynedd ar gyfer datblygu'r sefydliad er mwyn iddo fod yn addas at y diben yn y byd sydd ohoni ar ôl y pandemig ac ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Rwy'n fodlon ar y cynnydd cynnar rydym wedi'i wneud, yn enwedig o ystyried yr amgylchedd heriol rydym yn gweithredu ynddo.

Un o'r darnau cyntaf o waith a wnaethom fel rhan o raglen Llywodraeth Cymru 2025 oedd mynd ati gyda'n staff ac undebau llafur i gydgynhyrchu fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau ar gyfer y sefydliad. Y fframwaith newydd hwn yw'r sail ar gyfer y rhaglen newid a datblygu gyfan ac mae'n cyd-fynd â'n hymrwymiadau o dan God y Gwasanaeth Sifil a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'n gosod disgwyliadau clir o ran yr hyn rydym yn ei ddisgwyl gennym ni ein hunain a'n gilydd yn ein ffyrdd o weithio. Yn ogystal ag egluro ein disgwyliadau, rydym yn atgyfnerthu ein dull ar gyfer cynllunio'r gweithlu'n strategol drwy sicrhau lefelau priodol o atebolrwydd a dirprwyo a buddsoddi mewn sgiliau a galluoedd allweddol, gan gynnwys y Gymraeg.

Yn dilyn ein profiad o newid i weithio o bell yn ystod y pandemig, rydym bellach wedi newid i fodel newydd o weithio hybrid, gan gydnabod y ffaith bod gwahanol fathau o waith yn galw am wahanol fannau gwaith. Rydym wedi buddsoddi mewn mannau newydd ym mhob rhan o'n hystad lle y gallwn gysylltu, cydweithio a chanolbwyntio, yn ogystal â helpu cydweithwyr i weithio'n effeithiol y tu allan i amgylchedd y swyddfa.

Fel rhan o'n model gweithio hybrid, rydym yn croesawu partneriaid yn y sector cyhoeddus i gydleoli gyda ni yn ein prif ganolfannau swyddfa. Rwy'n gweld hyn fel cam cadarnhaol ymlaen o ran gwneud y gorau o ôl troed ein swyddfeydd, sicrhau arbedion effeithlonrwydd, a helpu i wireddu uchelgeisiau Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Mae'r hyn y byddwn yn ei gyflawni gyda'n gilydd yn llawer pwysicach na ble.

Rwyf hefyd wedi ad-drefnu ein strwythur grwpiau yn flaenorol er mwyn adlewyrchu ein blaenoriaethau Gweinidogol yn well. Roedd hyn yn gam pwysig er mwyn sicrhau bod ein strwythurau'n adlewyrchu ble rydym arni ac yn cefnogi'r ffordd rydym yn gweithredu. Gan fod ein gweithgareddau cydgysylltu ar gyfer COVID-19 bellach wedi cael eu dirwyn i ben a bod ein mesurau newydd a arweinir gan iechyd wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn, rwyf wedi diweddaru ein strwythur ymhellach er mwyn adlewyrchu'r amgylchedd gwaith yn well. Drwy rannu ein strwythurau a'n trefniadau llywodraethiant yn agored, gallwn seilio'r sefydliad ar eglurder – gan daflu goleuni ar bwy ydym ni, sut rydym yn gweithredu, a sut rydym yn sicrhau canlyniadau gwirioneddol ar gyfer pobl Cymru.

Hoffwn sôn yn fras nawr am ein hymateb i rai digwyddiadau pwysig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Gwnaethom ymateb i Ymgyrch Pont Llundain ar achlysur trist marwolaeth y Frenhines Elizabeth II. Hoffwn ddiolch yn fawr am ymdrech ac ymroddiad gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i roi'r cynllun ar waith, ac i groesawu'r brenin newydd, y Brenin Charles III.

Hoffwn hefyd gyfeirio at y ffaith bod Cymru wedi cyrraedd Cwpan y Byd FIFA 2022, gan ddychwelyd i brif lwyfan pêl-droed rhyngwladol am y tro cyntaf ers 64 mlynedd. Roedd y twrnamaint yn gyfle inni godi proffil byd-eang brand Cymru a hyrwyddo ein gwerthoedd i'r byd.

Yn olaf, hoffwn gloi drwy nodi fy mod mor falch o'r sefydliad hwn. Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu'r sefydliad, rwyf mewn sefyllfa unigryw i weld yr holl waith sydd wedi cael ei wneud i ymateb i'r heriau diweddar. Braint o'r mwyaf yw arwain y gwasanaeth sifil yng Nghymru. Er na all yr un ohonom fod yn sicr beth yn union sydd o'n blaenau y flwyddyn nesaf, edrychaf yn ôl ar bopeth rydym wedi'i gyflawni dros y deuddeg mis diwethaf a theimlaf yn hyderus yn ein gallu ar y cyd i wynebu'r heriau sydd ar y gorwel.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

# Cyflwyniad gan Gadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

Diben Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru (ARAC Llywodraeth Cymru) drwy gydol y flwyddyn fu parhau i roi cymorth a chyngor i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu ar faterion sy'n ymwneud â rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethiant yn unol â'r egwyddorion a'r canllawiau yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Trysorlys Ei Fawrhydi.

Ar 1 Ebrill 2022, ad-drefnwyd strwythur grwpiau mewnol Llywodraeth Cymru a chafodd y pwyllgorau archwilio a sicrwydd sy'n cefnogi'r grwpiau (ARACs y Grwpiau) eu haildrefnu yn unol â hynny. Erbyn hyn, mae pedwar ARAC yn cyd-fynd â'r grwpiau mewnol, sef: Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad; Newid Hinsawdd a Materion Gwledig; ac Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol, y Gymraeg, Ymateb i COVID-19 a Llywodraeth Leol. Mae Cadeiryddion Annibynnol ARACs y Grwpiau hefyd yn aelodau annibynnol o ARAC Llywodraeth Cymru.

Ochr yn ochr ag ailstrwythuro'r grwpiau mewnol, sefydlwyd grŵp newydd, sef Grŵp y Prif Swyddog Gweithredu, a phenodwyd Prif Swyddog Gweithredu. Mae ARAC Llywodraeth Cymru wedi cyflawni swyddogaethau craffu a chymorth o ran archwilio a sicrwydd risg ar gyfer y grŵp hwn, a bydd yn parhau i wneud hynny hyd y gellir rhag-weld.

Roedd yr amgylchedd risg yn heriol dros ben drwy gydol y flwyddyn. Dechreuodd effaith lawn y rhyfel yn Wcráin ddod i'r amlwg yn y risgiau sy'n gysylltiedig â diogeledd ynni a bwyd. Er i effaith uniongyrchol pandemig COVID-19 gilio, dechreuodd y canlyniadau anuniongyrchol a'r sgil-effeithiau ddod yn gliriach ar yr un pryd â'r rhyfel yn Wcráin, ar ffurf cynnydd sydyn mewn chwyddiant ac argyfwng costau byw. Cafodd y risgiau enfawr hyn, er eu bod y tu hwnt i reolaeth Llywodraeth Cymru, eu monitro'n agos o ran effaith a ffyrdd o'u lliniaru lle bo modd ym mhob rhan o'r sefydliad.

Yn sgil yr amgylchedd risg byd-eang ehangach, dechreuodd ARAC Llywodraeth Cymru edrych ar risgiau strategol rhagweladwy eraill a allai wynebu Cymru ac, ym mis Hydref 2022, gofynnodd i swyddogion gyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ar y tueddiadau demograffig amcanestynedig ar gyfer Cymru dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae'r data o'r adroddiad hwnnw'n rhag-weld newid sylweddol iawn mewn proffil demograffig a fydd yn peri heriau a risgiau enfawr i Lywodraeth Cymru ym mhob agwedd ar fywyd yng Nghymru. Mae ARAC Llywodraeth Cymru wedi annog swyddogion i ymgorffori'r data hyn a gwaith dadansoddi risgiau strategol ehangach mewn gwaith datblygu polisi parhaus a rhaglenni gwaith a gaiff eu datblygu yn y dyfodol.

Cyfarfu ARAC Llywodraeth Cymru chwe gwaith yn ystod y flwyddyn a chyfarfu ARACs y Grwpiau (ar eu ffurfiau cyn ac ar ôl ailstrwythuro) yn rheolaidd. Yn bresennol fel mater o drefn yng nghyfarfodydd ARAC Llywodraeth Cymru y mae'r Ysgrifennydd Parhaol, y Prif Swyddog Gweithredu, y Cyfarwyddwyr Cyffredinol,

Swyddogion, y Pennaeth Archwilio Mewnol, Sicrwydd ac Atal Twyll, Pennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol a chynrychiolwyr Archwilio Cymru.

Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd hyn, cymerodd aelodau ARAC Llywodraeth Cymru ran yn y canlynol:

- Cyfarfod briffio ARAC gydag Archwilio Cymru ar 27 Medi 2022 er mwyn ystyried ymhellach y materion a oedd yn codi o'r archwiliad o gyfrifon cyfunol 2020-21 Llywodraeth Cymru.
- Sesiwn friffio gyda Chadeiryddion ARACs y Grwpiau ac ARAC Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifennydd Parhaol ar 30 Tachwedd 2022 i ystyried ymhellach y materion a oedd yn codi o'r archwiliad o gyfrifon cyfunol 2020-21 Llywodraeth Cymru.
- Digwyddiad codi ymwybyddiaeth ar draws ARACs ar 26 Ionawr 2023 a drefnwyd gan ARAC Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad, i ystyried polisi economaidd Llywodraeth Cymru a'i hymateb yn wyneb amgylchedd a rhagolwg economaidd sy'n gwaethygu.
- Diwrnod datblygu ar draws ARACs ar 29 Mawrth 2023 y cafodd yr holl aelodau ARAC annibynnol a swyddogion priodol eu gwahodd iddo. Roedd y diwrnod yn gyfle hyfforddi a datblygu i bawb a oedd yn bresennol, gan gynnwys cyflwyniadau gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Pennaeth Atal Twyll, y Prif Swyddog Gweithredu a Sefydliad Siartredig yr Archwilwyr Mewnol. Hefyd, cafwyd cyflwyniad allanol gan Gadeirydd ARAC Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau Llywodraeth y DU a chyfle i gynnal trafodaeth eang ei chwmpas.

Mae'n bleser mawr gennyf nodi, yn achos rhaglen waith arferol ARAC Llywodraeth Cymru a'r cyfarfodydd ychwanegol a gynhaliwyd, fod presenoldeb wedi bod yn ardderchog a lefel yr ymgysylltu a'r trafod wedi bod yn agored, yn dryloyw ac yn adeiladol. Mae'n bleser gennyf hefyd nodi bod ARAC Llywodraeth Cymru ac ARACs y Grwpiau wedi parhau i gael cymorth effeithiol ac ymatebol gan yr ysgrifenyddiaeth a swyddogion.

Ar ddyddiad llofnodi'r cyflwyniad hwn, mae chwyddiant a'r argyfwng costau byw yn aruthrol o heriol o hyd. Yn benodol, mae chwyddiant a'i ganlyniadau di-rif wedi erydu'r gyllideb sydd ar gael i Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24. O ganlyniad, bu raid i Lywodraeth Cymru adolygu a nodi blaenoriaethau ar fyrder i sicrhau atebion yn ystod y flwyddyn i bontio'r diffyg cyllidebol. Er bod y gyllideb ar gyfer 2024-25 yn ansicr o hyd ar hyn o bryd, mae hinsawdd gyllidol gyffredinol a rhagolwg economaidd y DU yn edrych yn heriol iawn. Gallai hyn fod â goblygiadau sylweddol i'r gyllideb a fydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn y tymor byr. Byddai'r risgiau posibl sy'n gysylltiedig ag amgylchedd o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru asesu a gweithredu atebion lliniaru. Caiff y risgiau posibl hyn eu monitro'n agos iawn gan swyddogion ac ARAC Llywodraeth Cymru ac ARAC y Grwpiau ochr yn ochr â'r rhaglen reolaidd o waith sicrwydd archwilio a rheoli risg mewnol.

Hoffwn achub y cyfle hwn i ddiolch i'r Ysgrifennydd Parhaol, yr holl uwch-swyddogion, yr archwilwyr a'r ysgrifenyddiaeth am eu cymorth cyson i ARAC Llywodraeth Cymru ac ARACs y Grwpiau wrth ymgymryd â'u gwaith.

**Gareth Lynn FCCA**
Cyfarwyddwr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru
a Chadeirydd Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru

# Cynnwys


**8 Rhan Un:**

8 Beth sydd yn yr Adroddiad a’r Cyfrifon: Ciplun

10 Adroddiadau Llywodraeth Cymru

12 Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru

14 Y Cabinet

15 Y Gwasanaeth Sifil

18 Y Rhaglen Lywodraethu

20 Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau’r Dyfodol

26 Newid Hinsawdd – Y Rhagolwg ar gyfer Cymru

35 Adfer ar ôl COVID-19

44 Ymateb i Argyfwng Wcráin

46 Costau Byw

48 Yr Agenda Ddigidol

51 Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol

55 Rheoli Trefniadau Pontio’r UE

56 Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

66 Llywodraeth Cymru 2025

71 Newid Hinsawdd – rhagolwg ar gyfer y sefydliad ac adrodd ar gynaliadwyedd

75 Gweithio’n Ddwyieithog

77 Ein Hymrwymiad i Urddas a Pharch

88 Gohebiaeth a Chwynion

| | |
|---|---|
| **91** | Llifau Cyllido Llywodraeth Cymru |
| **92** | Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol |
| **93** | Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru |
| **98** | Y Berthynas rhwng Cyfrifon, a Benthyca |
| **100** | Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru |
| **106** | Gweinyddu Cyllid Grant |
| **111** | Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru |
| **115** | Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol |
| **117** | **Rhan Dau:** |
| **117** | Adroddiad Atebolrwydd |
| **119** | Datganiad Llywodraethiant |
| **204** | **Rhan Tri:** |
| **204** | Datganiadau Ariannol |
| **211** | Nodiadau ar y Cyfrifon |
| **250** | Atodiad A: Polisïau Cyfrifyddu |

# Beth sydd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon: Ciplun

Dyma Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Mae'n rhoi darlun manwl o'n sefyllfa ariannol a sut mae wedi cael ei rheoli, ein rhwymedigaethau statudol a sut rydym wedi'u cyflawni, yn ogystal â Llywodraeth Cymru fel sefydliad drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn seiliedig ar amcanion llesiant y llywodraeth. Bydd Gweinidogion Cymru yn adrodd ar gynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion llesiant a'r ymrwymiadau cysylltiedig yn y Rhaglen Lywodraethu bob blwyddyn yn Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru.[1]

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'r adroddiad hwn – yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon – wedi'i rannu'n dair adran.

Mae **Rhan Un** o'r naratif wedi'i rhannu'n adrannau penodol ar gyfer eleni. Mae **Pwy ydym ni** yn ymdrin â'n gofynion adrodd ac yn rhoi trosolwg o'n cyfrifoldebau a'r ddeddfwriaeth ategol. Hefyd, mae'n cynnwys gwybodaeth am aelodaeth y Cabinet ac uwch-arweinwyr y Gwasanaeth Sifil.

Mae **Yr hyn a wnawn** yn trafod amrywiaeth o allbynnau, o'r Rhaglen Lywodraethu i gyflawni ein hymrwymiad i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y ffordd rydym yn ymateb i newid hinsawdd yng Nghymru, ein gwaith ar adfer ar ôl COVID-19, a'r hyn rydym yn ei wneud i gefnogi pobl yn sgil yr argyfwng yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Mae'n cynnwys gwybodaeth am ein hagenda ddigidol, sut rydym yn rheoli ein rhaglen ddeddfwriaethol a threfniadau pontio'r UE.

Mae **Sut rydym yn perfformio** yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Mae **Sut rydym yn trefnu ein hunain i gyflawni** yn trafod Llywodraeth Cymru 2025 (ein cynllun gweithredu ar gyfer newid a gwella'r sefydliad) a'r hyn rydym yn ei wneud fel sefydliad ein hunain i ymateb i her newid hinsawdd. Hefyd, mae'n trafod sut rydym yn gweithio'n ddwyieithog, ein hymrwymiad i urddas a pharch a'n ffordd o ymdrin â gohebiaeth a chwynion.

Mae **Sut y cawn ein cyllido a sut rydym yn gwario'r cyllid hwnnw** yn rhoi manylion am lifau cyllido Llywodraeth Cymru, ein polisi trethi a'n rhagolygon cyllidol. Mae'n trafod ein ffin gyfrifyddu, y berthnynas rhwng cyfrifon, a benthyca. Mae'n nodi'r prif feysydd gwariant, sut rydym yn gweinyddu grantiau (gan gynnwys Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru) a throsolwg o'r asedau a'r rhwymedigaethau yn Natganiad Cyfunol Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol.

1 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022 | LLYW.CYMRU

Mae **Rhan Dau** yn cynnwys yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae’r rhan hon o’r Adroddiad a’r Cyfrifon yn rhoi gwybodaeth am dâl Gweinidogion ac uwch-staff ac yn rhoi trosolwg o alldro ariannol Llywodraeth Cymru yn erbyn y gyllideb y pleidleisiwyd arni. Mae hefyd yn cynnwys y Datganiad Llywodraethiant blynyddol gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn ei rôl fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu.

Mae’r Datganiad Llywodraethiant yn amlinellu’r prosesau rheolaeth, llywodraethiant a rheoli risg sydd ar waith i alluogi’r Prif Swyddog Cyfrifyddu a’r Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i gyflawni eu cyfrifoldebau i reoli adnoddau’r sefydliad.

Mae **Rhan Tri** yn ymwneud â’r cyfrifon eu hunain. Mae’r cyfrifon yn ddatganiad cynhwysfawr am y costau y mae Llywodraeth Cymru wedi mynd iddynt a manylion ei holl asedau a rhwymedigaethau.

# Adroddiadau Llywodraeth Cymru

Mae'r Cyfrifon Cyfunol yn un yn unig o'r adroddiadau allweddol sy'n ymdrin â chyflawni a gweithgareddau Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil. Mae'r lleill yn cynnwys:

| | Adroddiadau allweddol | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
| | **Proses y Gyllideb** | **Adroddiad Alldro** | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** | **Adroddiad Llesiant Cymru** | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** |
| Deddfwriaeth | Adrannau 125 a 126 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006<br>Rheolau Sefydlog 20.7 – 20.24; 20.25 – 20.37 | Amh. | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Deddf Llywodraeth Cymru – Adrannau 131-136 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 |
| Arwain | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol | Y Prif Weinidog | Yr Ysgrifennydd Parhaol | Y Prif Ystadegydd | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol |
| Diben | Cynnig y cynlluniau cyllid a chytuno arnynt, a symiau'r adnoddau a'r arian parod y mae'r llywodraeth yn bwriadu eu defnyddio ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol (gyda symiau dros dro ar gyfer y ddwy flwyddyn ddilynol neu unrhyw gyfnod arall sy'n briodol ym marn y Gweinidog) a diwygiadau i'r gyllideb honno yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol | Yn unol ag ymrwymiad Llywodraeth Cymru i weithio'n agored a thryloyw, cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu adroddiad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyllid ar yr alldro terfynol.<br>Mae'r adroddiad yn cynnwys cymhariaeth â'r cynlluniau gwario a nodwyd yng Nghyllideb Atodol olaf y flwyddyn ac esboniad o'r amrywiadau sylweddol | Cynnydd tuag at gyflawni 10 amcan llesiant Llywodraeth Cymru | Manylion ynglŷn â sut y caiff Llywodraeth Cymru ei rhedeg, gan gynnwys sut mae'n rheoli ei chyllid ac yn cyflawni ei rhwymedigaethau statudol | Cynnydd a wnaed drwy gyfraniad cyfunol pob corff cyhoeddus, sefydliad ac unigolyn tuag at y saith nod llesiant drwy ddefnyddio'r dangosyddion llesiant cenedlaethol | Mae'n amlinellu tueddiadau tebygol yn y dyfodol o ran llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru ac unrhyw wybodaeth ddadansoddol arall sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru |

| Adroddiadau allweddol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Gweinidogol | | | Sefydliad | Data Ystadegol | |
| | **Proses y Gyllideb** | **Adroddiad Alldro** | **Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru** | **Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon** | **Adroddiad Llesiant Cymru** | **Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol** |
| Amserlenni | Dim byd penodol ond cyn toriad yr haf mae'n ofynnol i'r Gweinidog Cyllid ysgrifennu at y Pwyllgor Busnes i gytuno ar amserlen y gyllideb | O fewn 3 wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol | Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol | Erbyn 30 Tachwedd bob blwyddyn | Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol – ond yn dibynnu ar ddata'r Arolwg Cenedlaethol ym mis Mehefin/ Gorffennaf | O fewn 12 mis i etholiad – sleidiau'n cael eu diweddaru'n rheolaidd |
| Amserlenni eleni | Cyllideb ddrafft 20 Rhagfyr 2021<br>Cyllideb derfynol 1 Mawrth 2022<br>Cyllideb Atodol Gyntaf 21 Mehefin 2022<br>Ail Gyllideb Atodol 14 Chwefror 2023 | O fewn 3 wythnos i gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol | Mehefin 2022 | 30 Tachwedd 2023 | Ar ddiwedd mis Medi | Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2021 a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021 |
| Craffu | Y Pwyllgor Cyllid a'r pwyllgorau pwnc | Y Pwyllgor Cyllid | Dadl yn y cyfarfod llawn Y Prif Weinidog Y Pwyllgor Craffu | Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus | Amh. | Amh. |

# Cyflwyniad i Lywodraeth Cymru



## Cipolwg

Llywodraeth Cymru yw llywodraeth ddatganoledig Cymru sy'n gweithio yn y meysydd allweddol canlynol mewn bywyd cyhoeddus:

- Addysg
- Iechyd
- Llywodraeth leol
- Trafnidiaeth
- Cynllunio
- Datblygu economaidd
- Gwasanaethau cymdeithasol
- Diwylliant
- Y Gymraeg
- Yr amgylchedd
- Amaethyddiaeth a materion gwledig

Fe'i crëwyd yn ffurfiol yn 2007 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru, a wahanodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y ddeddfwrfa) a Llywodraeth Cynulliad Cymru (y weithrediaeth).

Ers hynny, mae Deddf Cymru 2014 wedi newid yr enw yn gyfreithiol i Lywodraeth Cymru. Yn yr un modd, o dan Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael ei alw'n Senedd Cymru (y Senedd fel arfer).

Mae setliad datganoli Cymru wedi datblygu'n ddramatig ers sefydlu Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 1999. O dan arweiniad y Prif Weinidog, mae Llywodraeth Cymru yn gwneud penderfyniadau ac mae'n gyfrifol am gyflawni yn y meysydd a ddatganolwyd iddi, fel y'u nodwyd yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017. Mae hyn yn golygu datblygu polisïau a'u rhoi ar waith; sefydlu a chyfarwyddo trefniadau cyflawni a llywodraethiant; cynnig cyfreithiau i Gymru (Biliau'r Senedd): a gwneud is-ddeddfwriaeth, megis rheoliadau. Mae hefyd yn cyllido Cyrff Hyd Braich yng Nghymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am gyfrifoldebau Llywodraeth Cymru ar ei gwefan.[2]

2 www.llyw.cymru/ein-rol-ni

# Y Cabinet




Ar gyfer y cyfnod y mae'r cyfrifon hyn yn ymdrin ag ef, y Cabinet a'r Gweinidogion oedd:

| | |
|---|---|
| Y Gwir Anrh. Mark Drakeford | Y Prif Weinidog |
| Mick Antoniw | Y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad |
| Rebecca Evans | Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol |
| Vaughan Gething | Gweinidog yr Economi |
| Lesley Griffiths | Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd |
| Jane Hutt | Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol |
| Julie James | Y Gweinidog Newid Hinsawdd |
| Jeremy Miles | Gweinidog y Gymraeg ac Addysg |
| Eluned Morgan | Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Dawn Bowden | Dirprwy Weinidog y Celfyddydau a Chwaraeon, a'r Prif Chwip |
| Hannah Blythyn | Y Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol |
| Lee Waters | Y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd |
| Julie Morgan | Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Lynne Neagle | Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant |

# Y Gwasanaeth Sifil

Y Gwasanaeth Sifil yw'r weinyddiaeth anwleidyddol sy'n cefnogi Prif Weinidog a Gweinidogion Llywodraeth Cymru.

Mae cryfderau craidd y Gwasanaeth Sifil, sef niwtralrwydd gwleidyddol; gweinyddu effeithlon; llywodraethiant da a rheoli arian cyhoeddus yn gadarn, yn rhoi sylfaen gref i gefnogi Llywodraeth Cymru.

## Y Tîm Uwch-arweinwyr

Yr Ysgrifennydd Parhaol yw pennaeth y sefydliad, a gwas sifil lefel uchaf Cymru. Ar gyfer cyfnod y cyfrifon hyn o 1 Ebrill 2022, bu pob aelod o'r staff yn gweithio mewn un o saith Grŵp o dan yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol.





**Andrew Goodall**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol**

- Goruchwylio Uned y Cytundeb Cydweithio
- Swyddfa'r Prif Weinidog
- Priodoldeb a Moeseg
- Yr Ymchwiliad Cyhoeddus i COVID-19



**Andrew Slade**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad**

- Y Cyfansoddiad a Chyfiawnder
- Y Prif Gwnsler Deddfwriaethol
- Buddsoddi Rhanbarthol a Ffiniau
- Gwasanaethau Cyfreithiol
- Cysylltiadau Rhyngwladol a Masnach
- Trysorlys Cymru
- Busnes a Rhanbarthau
- Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
- Y Prif Gynghorydd Gwyddonol
- Cyllid a Gweithrediadau



**Judith Paget**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru**

- Polisi strategol ar systemau iechyd a gofal cymdeithasol
- Goruchwyliaeth weithredol dros y GIG yng Nghymru
- Swyddfa'r Prif Swyddog Gofal Cymdeithasol
- Swyddfa'r Prif Swyddog Meddygol
- Y Swyddfa Trawsnewid Digidol a'r Prif Swyddog Digidol



**Jo-Anne Daniels**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg**

- Cymunedau a Threchu Tlodi
- Addysg a'r Gymraeg
- Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes
- Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
- Yr Ymateb i Sefyllfa Wcráin
- Gweithrediadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil



**Reg Kilpatrick**
**Cyfarwyddwyr Cyffredinol, Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol**

- Adfer ar ôl COVID-19
- Llywodraeth Leol
- Risg, Cydnerthedd a Diogelwch Cymunedol



**Tim Moss**
**Y Prif Swyddog Gweithredu**

- Cyllid
- Adnoddau Dynol
- Masnachol a Chaffael
- Digidol, Data a Thechnoleg
- Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
- Arolygiaeth Gofal Cymru
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Gwelliant Parhaus
- Cyfathrebu Strategol



**Tracey Burke**
**Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**

- Materion Gwledig
- Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol
- Newid Hinsawdd, Ynni a Chynllunio
- Tai ac Adfywio
- Cynaliadwyedd Amgylcheddol
- Trafnidiaeth a Chysylltedd Digidol

## Ailstrwythuro'r Grwpiau

Mae'r Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol a nodir uchod ac a arweinir gan Reg Kilpatrick wedi bod yn ateb dros dro i helpu Llywodraeth Cymru i ymateb i effeithiau uniongyrchol y pandemig. Gan fod gweithgareddau i gydgysylltu'r ymateb i COVID-19 bellach wedi cael eu dirwyn i ben a bod mesurau newydd a arweinir gan iechyd ar gyfer ymateb i'r pandemig wedi cael eu rhoi ar waith yn llawn ac yn gweithio, mae strwythurau'r grwpiau wedi cael eu hadolygu a bydd y Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol yn uno â'r Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg a arweinir gan Jo-Anne Daniels.

Bydd yr uno'n digwydd yn ystod cyfnod adrodd 2023-24 ac enw'r grŵp newydd fydd y Grŵp Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg, gan ddwyn ynghyd bob agwedd ar addysg, sgiliau a dysgu gydol oes; ein rôl arwain ar gyfer llywodraeth leol ac argyfyngau sifil posibl ynghyd â'n gwaith ar helpu i greu cymunedau a gweithleoedd tecach a mwy diogel. Mae swydd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Gymraeg wedi cael ei hysbysebu a chaiff trefniadau'r Grŵp newydd eu rhoi ar waith ar ôl i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol ddechrau yn ei swydd.

# Y Rhaglen Lywodraethu



Mae'r Rhaglen Lywodraethu[3] yn seiliedig ar faniffesto Llafur Cymru, sef y mandad y cafodd y llywodraeth hon ei hethol arni. Mae wedi'i strwythuro ar sail 10 amcan llesiant[4] ar gyfer creu Cymru gryfach, decach, wyrddach a mwy tosturiol. Y Cabinet ar y cyd sy'n gyfrifol am yr ymrwymiadau a nodir o dan yr amcanion llesiant, gan gydnabod yr angen am waith trawslywodraethol, ac mae'r ymrwymiadau sy'n weddill wedi'u nodi fesul portffolio gweinidogol.

Cafodd y Rhaglen Lywodraethu ei diweddaru ym mis Rhagfyr 2021 i gynnwys ymrwymiadau sydd yn y Cytundeb Cydweithio[5]; sef rhaglen waith dair blynedd o hyd gyda Phlaid Cymru a lofnodwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru[6] am y tro cyntaf yn ystod tymor y Senedd hon ym mis Gorffennaf 2022, gan nodi'r cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant a'r Rhaglen Lywodraethu.

Er gwaethaf y cyd-destun economaidd heriol a'r argyfwng costau byw, mae'r gwaith o gyflawni'r Rhaglen Lywodraethu wedi parhau ag egni ac ar gyflymder. Mae effaith pwysau chwyddiant wedi lleihau gwerth cyllidebau ac mae'r cyd-destun economaidd gwaeth wedi ychwanegu at effeithiau parhaus COVID-19 a'r her ddyngarol yn Wcráin.

3 www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu
4 Rhaglen lywodraethu 2021 i 2026: Datganiad llesiant [HTML] | LLYW.CYMRU
5 Y Cytundeb Cydweithio: 2021 | LLYW.CYMRU
6 Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru 2022 | LLYW.CYMRU

Mae'r Rhaglen Lywodraethu'n parhau i gael ei monitro, ac mae adroddiadau misol yn cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru. Mae'r Cabinet yn cael diweddariadau ar gynnydd bob hanner tymor ac mae'r Prif Weinidog yn cadeirio Is-bwyllgor y Cabinet ar y Rhaglen Lywodraethu sy'n cyfarfod bob mis i fynd i'r afael â materion gweithredol a llywio'r gwaith cyflawni.

Mae rhaglen datblygu sefydliadol Llywodraeth Cymru, sef Llywodraeth Cymru 2025, yn gyson â'r Rhaglen Lywodraethu ac yn canolbwyntio ar sut y gall y sefydliad barhau i wella er mwyn helpu Gweinidogion i gyflawni ar gyfer pobl Cymru.

# Cyflawni ein Hymrwymiad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl mwy am yr hirdymor, gweithio gyda phobl, cymunedau a'i gilydd yn well, canolbwyntio ar atal problemau cyn iddynt godi, a mabwysiadu dull gweithredu mwy cydgysylltiedig. Mae saith nod llesiant ac egwyddor datblygu cynaliadwy (pum ffordd o weithio) y Ddeddf yn darparu fframwaith clir ar gyfer gwneud penderfyniadau ynghylch gwasanaethau cyhoeddus.

## Arweinyddiaeth

Fel y nodwyd yn yr adran flaenorol, gwnaethom gyhoeddi adroddiad blynyddol cyntaf[7] tymor y Senedd hon gan nodi'r cynnydd rydym wedi'i wneud tuag at gyflawni'r deg amcan llesiant[8].

Gwnaethom ymateb[9] i waith craffu blynyddol y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, a oedd yn cynnwys tri argymhelliad i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys un[10] a oedd yn ymwneud â gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru. Rydym yn parhau i roi'r

7 www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-llywodraeth-cymru-2022-html
8 www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu
9 www.senedd.cymru/media/qftdkdow/gen-ld15136-w.pdf
10 www.busnes.senedd.cymru/documents/s126017/Llythyr%20gan%20yr%20Ysgrifennydd%20Parhaol%20-%2027%20Mai%202022.pdf

wybodaeth ddiweddaraf[11] am gynnydd Llywodraeth Cymru tuag at weithredu argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (pumed Senedd) *Cyflawni ar gyfer Cenedlaethau'r Dyfodol: y stori hyd yn hyn.*

Yn ystod haf 2022, graddiodd chwech o swyddogion Llywodraeth Cymru o Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol[12]. Mae buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn yr Academi yn helpu i sicrhau bod gan bobl ifanc ledled Cymru y sgiliau, yr hyder a'r brwdfrydedd i hyrwyddo gwerthoedd ac ethos Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym yn parhau i gydweithio â'n partneriaid ar Fforwm Rhanddeiliaid Cenedlaethol Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol[13], gan gynnwys pynciau trafod megis yr Adolygiad o Werth Cyhoeddus, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Llywodraeth Agored, a phrosiectau gan Academi Wales. Yn 2023, byddwn yn ymestyn aelodaeth y Fforwm er mwyn adlewyrchu cwmpas ac ehangder yr agenda datblygu cynaliadwy yng Nghymru yn well. Mae'r Fforwm bellach yn ei drydedd flwyddyn, ac mae'n parhau i helpu i lywio'r ffordd rydym yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gyda'n gilydd.

Fel rhan o'r paratoadau ar gyfer ychwanegu cyrff newydd at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yr ymgynghorwyd arnynt yn 2022, rydym wedi hwyluso tair sesiwn cyfnewid arferion da hyd yn hyn. Mae'r rhain wedi dod â chyrff newydd arfaethedig, cyrff presennol a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilio Cymru ynghyd i rannu arferion sy'n ymwneud â'r ffordd y mae cyrff yn paratoi ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## Adolygiad Adran 20

Ym mis Ionawr 2022, cynhaliodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adolygiad o'r modd y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru yn gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a chyhoeddwyd yr adroddiad[14] ym mis Rhagfyr 2022. Roedd yr adroddiad yn gyfle amserol inni bwyso a mesur y sefyllfa, myfyrio ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni hyd yn hyn, ac achub ar gyfleoedd newydd i ddyfnhau'r ddealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, a'r ffordd y caiff yr egwyddor ei dilyn.

Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol rydym wedi'i wneud o ran gwreiddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein ffordd o weithio ac mae'n cydnabod natur flaengar y ddeddfwriaeth hon a'n haeddfedrwydd fel sefydliad sy'n arwain y newid, gan nodi meysydd lle y gallwn wella hefyd.

Ymatebodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol[15] i'r adroddiad gan dderbyn yr un argymhelliad, a oedd yn cydnabod y cyfle roeddem wedi'i nodi i ddod â'n camau gweithredu a'r meysydd ar gyfer gwella ynghyd mewn un cynllun cydlynol. Galluogodd hyn ni i fireinio ac ail-lunio ein ffordd o weithredu yn y ddogfen Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus.

---

11 www.busnes.senedd.cymru/documents/s500009218/PAPA6-18-22%20PTN2-Diweddariad%20gan%20LlC%20ar%20yr%20argymhellion%20yn%20Adroddiad%20y%20Pwyllgor%20ar%20Gyflawni%20ar%20gy.pdf
12 www.futuregenerations.wales/cy/leadership-academy-2/
13 www.llyw.cymru/fforwm-rhanddeiliaid-cenedlaethol-llesiant-cenedlaethaur-dyfodol/yr-aelodaeth
14 www.futuregenerations.wales/cy/section-20/
15 www.llyw.cymru/ymateb-llywodraeth-cymru-ir-adolygiad-adran-20-gan-gomisiynydd-cenedlaethaur-dyfodol-cymru

## Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus 2023-25

Mae Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus 2023-25[16], sy'n cynnwys rhagair ar y cyd gan y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Ysgrifennydd Parhaol, yn dod â mwy na 50 o gamau gweithredu ynghyd, gyda'r nod o ddyfnhau'r ddealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn Llywodraeth Cymru a'r ffordd y caiff ei dilyn. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar ein cynnydd.

Mae'r cynllun wedi'i ymgorffori yn ein menter newid, sef Llywodraeth Cymru 2025, gan gydnabod bod llawer o'r gwelliannau y bydd angen inni eu gwneud yn gysylltiedig â newid sefydliadol. Mae ein cynllun yn ein galluogi i gyfleu'r cynnydd rydym wedi'i wneud, a'n cynlluniau ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol, yn fwy effeithiol.

Rhannwyd y cynllun â'n sefydliadau partner ac mae wedi cael ei ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer trafodaethau ynghylch sut y gallwn fynd ati gyda'n gilydd i fod yn wlad fwy cynaliadwy a chydnerth. Credwn y bydd ein ffordd o weithredu'n anfon neges bwysig i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod angen i agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn destun gwella a myfyrio parhaus.

## Meithrin enw da a rhwydweithiau rhyngwladol

Mewn ymateb i ddiddordeb rhyngwladol parhaus a chynyddol yn null Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r agenda datblygu cynaliadwy a llesiant drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn parhau i rannu ein profiad â gwledydd a rhanbarthau eraill. Fel aelod o bartneriaeth Llywodraethau'r Economi Llesiant (WEGo), rydym yn cydweithio â swyddogion o'r Alban, Seland Newydd, y Ffindir, Gwlad yr Iâ a Chanada i feithrin arbenigedd, rhannu arferion polisi a datblygu ein huchelgais a rennir i greu economïau sy'n seiliedig ar lesiant.

Yn ogystal â rhaglen o labordai polisi, ym mis Tachwedd 2022, gwnaeth swyddogion o wledydd WEGo gyfarfod yn Glasgow i gymryd rhan mewn digwyddiadau cyfnewid gwybodaeth ac yng nghynhadledd Wealth of Nations 2.0. Rhoddodd Llywodraeth Cymru gyflwyniad ar ei dull o weithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r gwaith ar y cerrig milltir cenedlaethol.

Mae ein haelodaeth o Regions4[17] – sef rhwydwaith byd-eang o fwy na 43 o wladwriaethau a rhanbarthau sy'n gweithio ar ddatblygu cynaliadwy, newid yn yr hinsawdd a bioamrywiaeth, yn parhau i fod yn rhwydwaith pwysig i gysylltu ag eraill mewn perthynas â hyrwyddo datblygu cynaliadwy.

Ym mis Mawrth 2023, amlinellodd y Prif Weinidog ffordd arloesol Cymru o ymdrin â llesiant cenedlaethau'r dyfodol wrth arweinwyr gwledydd Ewropeaidd ym mrecwast briffio'r Ganolfan Polisïau Ewropeaidd. Siaradodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am iechyd, llesiant, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn digwyddiad a gynhaliwyd gan Sefydliad Iechyd y Byd yn Copenhagen.

---

16 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/cynllun-dysgu-a-gwellan-barhaus-ar-gyfer-2023-i-2025-v1.pdf
17 www.regions4.org/

Hefyd, siaradodd y Prif Weinidog yn seminar ryngwladol Metropolis of the Future yn Bilbao ym mis Mawrth 2023. Byddwn yn parhau i arwain yr agenda llesiant drwy ein hymdrechion rhyngwladol, gan gyflawni ein hamcan llesiant i roi'r presenoldeb cryfaf posibl i Gymru ar y llwyfan byd-eang.

Drwy ein partneriaeth â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, rydym wedi cyllido gweithgarwch i atgyfnerthu ein cysylltiadau rhyngwladol â chymheiriaid yn Iwerddon, Canada a'r Almaen, ac i hyrwyddo Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn digwyddiadau gan gynnwys COP27 a chyfarfod Stockholm+50 y Cenhedloedd Unedig.

## Llunio Dyfodol Cymru – dangosyddion, cerrig milltir, a thueddiadau'r dyfodol

Gwnaethom gyhoeddi'r adroddiad Llesiant Cymru diweddaraf[18] ym mis Medi 2022, ynghyd ag adroddiad ar wahân ar lesiant plant a phobl ifanc. Gwnaethom hefyd gyhoeddi fersiynau hawdd eu deall o'r ddau adroddiad.

Rhoddwyd statws Ystadegau Gwladol i'r gyfres o allbynnau sy'n cynnwys adroddiad Llesiant Cymru a'r dangosfwrdd o Ddangosyddion Cenedlaethol, sy'n golygu bod asesiad annibynnol wedi cadarnhau ei bod yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd, a gwerth. Mae'r adroddiad yn ystyried cynnydd yn erbyn y 50 o ddangosyddion cenedlaethol sy'n mesur saith nod llesiant Cymru, ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddata perthnasol eraill.

Yn 2022, gwnaethom ymgynghori[19] ar yr ail don o gerrig milltir cenedlaethol i Gymru[20], a'u gosod. Bydd y rhain yn cynorthwyo Gweinidogion Cymru i asesu cynnydd tuag at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn dilyn cais llwyddiannus am gymrawd polisi wedi'i ariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC), mae gwaith ymchwil yn y camau olaf ar gyfer prosiect yn canolbwyntio ar atgyfnerthu'r dyfodol a rhagwelediagaeth ar gyfer datblygu cynaliadwy a llesiant yng Nghymru.

## Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru

Rydym yn parhau i wreiddio ac ymgorffori gwybodaeth am berfformiad o ran yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys data ar y Mynegai Datblygu Cynaliadwy, sy'n defnyddio gwybodaeth o'n harolwg pobl.

Mae canlyniadau'r arolwg pobl ar gyfer 2022 yn dangos cynnydd mewn cydweithio, sy'n adeiladu ar ganlyniadau Mynegai Datblygu Cynaliadwy 2021, a oedd yn dangos gwell ymgysylltu o ganlyniad i fwy o gydweithio a lefelau cymharol uchel ym mhob ymddygiad ffordd o weithio, yn enwedig 'atal' a 'hirdymor'.

18 www.llyw.cymru/llesiant-cymru-2022
19 www.llyw.cymru/defnyddio-cerrig-milltir-a-dangosyddion-cenedlaethol-i-fesur-cynnydd-ein-cenedl
20 www.llyw.cymru/cerrig-milltir-cenedlaethol-i-fesur-cynnydd-ein-cenedl

## Swyddogaeth Bolisi

Rydym yn canolbwyntio ein hymdrechion ar ddyfnhau dull Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn y swyddogaeth llunio polisïau. Mae llunio polisïau yn un o'r gweithgareddau craidd y mae Llywodraeth Cymru yn eu cyflawni ac mae'n gofyn am lunwyr polisïau sy'n gallu helpu Gweinidogion i lunio polisïau effeithiol a chyflawnadwy er mwyn cyflawni amcanion a sicrhau manteision i ddinasyddion, nawr ac yn y dyfodol.

Rydym yn awyddus i adeiladu ar ein galluoedd llunio polisïau presennol a gweithio'n barhaus i wella'r wybodaeth, y sgiliau a'r ffyrdd o weithio sydd eu hangen i ddatblygu polisïau'n llwyddiannus er mwyn ein galluogi i barhau i fod yn sefydliad a gaiff ei gydnabod am brosesau llunio polisïau arloesol o safon uchel mewn gwlad fach.

Rydym yn datblygu strategaeth i atgyfnerthu galluogrwydd polisi Llywodraeth Cymru er mwyn datblygu system bolisïau sy'n perfformio'n dda ac sy'n cefnogi ac yn galluogi prosesau gwneud penderfyniadau da er mwyn helpu i sicrhau polisïau gwell ar gyfer dinasyddion Cymru. Caiff ein dull strategol ei ategu gan gyfres o gamau gweithredu sy'n cynnwys Fframwaith Galluogrwydd Polisi wedi'i ddiweddaru.

Lluniwyd y Fframwaith hwn er mwyn cefnogi datblygiad pob gweithiwr proffesiynol ym maes polisi yn y llywodraeth ac mae'n amlinellu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ffyrdd o weithio y disgwylir i lunwyr polisïau eu harddangos. Mae'r gwaith hwn wedi ein galluogi i atgyfnerthu'r ddealltwriaeth o agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r pum ffordd o weithio, a'r ffordd y cânt eu rhoi ar waith, o fewn ein disgwyliadau ar gyfer llunwyr polisïau effeithiol a'r ffordd y caiff polisïau Llywodraeth Cymru eu dylunio a'u cyflawni.

Yn ogystal ag amlinellu ein disgwyliadau, mae'r Fframwaith wedi'i ategu gan gynnig cymorth cynhwysfawr, sy'n tywys cydweithwyr ym maes polisi ar hyd llwybr dysgu a datblygu i feithrin eu galluoedd ymhellach.

## Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus[21] o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fel partneriaethau statudol ym mhob awdurdod lleol (er bod rhai wedi uno er mwyn creu olion troed mwy o faint). Eu prif ddiben yw cyflwyno cynllun llesiant, sy'n disgrifio sut y bydd yr aelodau yn cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal.

Gwahoddir Gweinidogion Cymru i gymryd rhan yng nghyfarfodydd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac fe'u cynrychiolir gan aelodau o'r Uwch Wasanaeth Sifil. Maent yn chwarae rôl arwain bwysig drwy gadarnhau'r ymrwymiad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er enghraifft, maent yn cyfrannu gwybodaeth am weithgareddau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Maent hefyd yn rhannu gwybodaeth a ddarperir gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus â Llywodraeth Cymru er mwyn llunio a chyflwyno polisïau gwell. Maent yn chwarae rôl gysylltu allweddol rhwng llywodraeth genedlaethol a gwasanaethau cyhoeddus rheng flaen, gan gefnogi'r ymrwymiad i Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Mae cymorth ar gyfer y cynrychiolwyr yn cael ei ddiweddaru yn Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus 2023-25[22].

21 www.llyw.cymru/byrddau-gwasanaethau-cyhoeddus
22 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/cynllun-dysgu-a-gwellan-barhaus-ar-gyfer-2023-i-2025-v1.pdf

## Astudiaeth Achos

### Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n cofrestru i bleidleisio

Ers iddynt gael yr hawl i bleidleisio yn 2020, roedd nifer y bobl ifanc 16/17 oed a gymerodd ran yn etholiad Senedd 2021 yn siomedig. Mewn ymateb i hynny, a chyn yr etholiadau llywodraeth leol yn 2022, aeth swyddogion ati i lunio a chyflawni nifer o ymyriadau mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, grwpiau trydydd sector ac ymgyrchwyr.

Roedd y gwaith hwn yn seiliedig ar yr egwyddor o wneud pethau'n wahanol a gweithredu mewn ffyrdd creadigol er mwyn cynnwys pobl ifanc mewn democratiaeth a chynyddu cyfraddau cofrestru. Ymhlith yr ymyriadau roedd sefydlu Swyddogion Cymorth Cofrestru Etholiadol o fewn awdurdodau lleol, gan olygu bod gan bron pob awdurdod yng Nghymru swyddog penodedig a oedd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phobl ifanc i gynyddu'r cyfraddau cofrestru, a rhannu arferion gorau ac atebion ar draws rhwydwaith Cymreig.

Cafodd hyn ei ategu gan gynllun grantiau ar gyfer prosiectau bywiog, egnïol ac arloesol yn y trydydd sector ledled Cymru, fel nosweithiau pizza a gwleidyddiaeth a sesiynau deialog ddigidol mewn ysgolion, sy'n rhoi pobl ifanc mewn cysylltiad â'u cynrychiolwyr mewn seneddau lleol a chenedlaethol. Gwnaeth unigolion a sefydliadau a oedd yn cydweithio â'i gilydd ar yr agenda hon gyfarfod yn rheolaidd fel rhwydwaith a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu o waith ymchwil, deall ymddygiad a gwrando ar bobl ifanc.

Cafodd yr ymyriadau effaith gadarnhaol ac, ar gyfartaledd, nododd yr awdurdodau lleol hynny a gyflogodd swyddogion gynnydd o bedair gwaith mewn cyfraddau cofrestru o gymharu ag awdurdodau na wnaeth hynny. Dangosodd Adroddiad y Comisiwn Etholiadol[23] ar gofrestru etholiadol ym Mhrydain Fawr yn 2022 fod cyfraddau cofrestru yng Nghymru wedi gwella ar gyfradd uwch rhwng 2021 a 2022 o gymharu â'r Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Dangosodd y dull fanteision torri drwy ffiniau sefydliadol a gweithio mewn rhwydwaith cydgefnogol a dyfeisgar sy'n llawn arloesedd a arweinir gan gymheiriaid.

23 www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/ein-safbwyntiau-hymchwil/ein-hymchwil/cofrestru-etholiadol-ym-mhrydain-fawr-yn-2022

# Newid Hinsawdd – Y Rhagolwg ar gyfer Cymru



Yn ôl y Cenhedloedd Unedig, newid hinsawdd yw mater diffiniol ein hoes ac rydym ar adeg ddiffiniol[24]. O newidiadau mewn patrymau tywydd sy'n effeithio ar gynhyrchu bwyd, risgiau o lifogydd, cynnydd mewn tywydd poeth a'r effaith ar iechyd a llesiant, bydd newid hinsawdd yn effeithio ar bob agwedd ar ein bywydau a'n gwaith llunio polisïau.

Eleni, cyhoeddodd y Panel Rhynglywodraethol ar Newid Hinsawdd ei Adroddiad Synthesis, sy'n crynhoi mwy na 10,000 o dudalennau o wyddoniaeth hinsawdd flaengar o'i chweched cylch asesu. Mae'n rhybudd enbyd o ganlyniadau newid hinsawdd, os na fyddwn yn gweithredu, ac yn lasbrint ar gyfer dyfodol hyfyw a chynaliadwy. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen inni gymryd camau cadarn ar y cyd i leihau maint y newid ac addasu i'r heriau sydd o'n blaenau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau ar fyrder i leihau allyriadau a sicrhau y gall Cymru wrthsefyll effeithiau anochel newid yn yr hinsawdd. Fel y nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu, rydym wedi mynd ati i ymgorffori ein hymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur ym mhopeth a wnawn, gan sicrhau bod yr amgylchedd wrth wraidd ein prosesau gwneud penderfyniadau.

24 www.un.org/en/global-issues/climate-change#:~:text=Climate%20Change%20is%20the%20defining,scope%20and%20unprecedented%20in%20scale

Adlewyrchir yr ymrwymiad hwn i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn ein deddfwriaeth ynglŷn â datblygu cynaliadwy a'n deddfwriaeth amgylcheddol y cydnabyddir eisoes eu bod yn arwain y byd. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi atgyfnerthu ein fframwaith deddfwriaethol a'n huchelgais drwy osod targed cyfreithiol o allyriadau sero net erbyn 2050, yn ogystal â fframwaith cyllidebu carbon ategol. Er mwyn helpu i gyflawni hyn ac ysgogi camau gweithredu, rydym wedi sefydlu trefniadau llywodraethiant mewnol ar gyfer datblygu a chyflawni Cymru Sero Net, sy'n cynnwys y canlynol:

- Cabinet Trawslywodraethol a gefnogir gan ddau Weinidog hinsawdd a grŵp sy'n cwmpasu Newid Hinsawdd a Materion Gwledig, gan ddod â'r meysydd polisi allweddol ynghyd er mwyn helpu Cymru i gyrraedd ei tharged cyfreithiol rwymol o gyrraedd sero net erbyn 2050.
- Bwrdd Portffolio a gadeirir gan yr Uwch-swyddog Cyfrifol ar gyfer Newid Hinsawdd gyda swyddogion arweiniol ar gyfer pob sector allyriadau a maes polisi trawsbynciol.

Yn ogystal ag adroddiadau cynnydd annibynnol gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd a gwaith craffu gan y Senedd a'i Phwyllgorau, rydym hefyd yn cadw golwg ar gynnydd lefel uchel tuag at dargedau a chyllidebau Cymru yn flynyddol fel rhan o'n cyfres ehangach o ddangosyddion ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi datganiad terfynol[25] ar gyfer y cyfnod cyllidebu carbon cyntaf rhwng 2016 a 2022 fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'n dangos bod Cymru wedi cyflawni'r gyllideb garbon gyntaf a'r targedau interim. Y targed interim ar gyfer 2020 oedd gostyngiad o 27%. Roedd Cyfrif Allyriadau Net terfynol Cymru ar gyfer blwyddyn y targed interim, sef 2020, yn dangos gostyngiad o 39.2% (cyfanswm yr allyriadau oedd 33,612 kt$CO_2$e). Felly, mae Cymru nid yn unig wedi cyrraedd Targed Interim 2020, ond wedi rhagori ar y targed gwreiddiol.

Y gyllideb garbon gyntaf (CB1) oedd gostyngiad o 23% ar gyfartaledd. Roedd Cyfrif Allyriadau Net terfynol Cymru ar gyfer CB1 yn dangos gostyngiad o 27.8%. Felly, mae Cymru hefyd wedi cyflawni CB1 ac wedi rhagori ar y targed gwreiddiol. Yn ogystal â chyflwyno adroddiadau ynghylch a yw targedau a chyllidebau Llywodraeth Cymru wedi cael eu cyflawni, mae Deddf yr Amgylchedd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol inni dynnu sylw at y rhesymau pam y maent wedi cael eu cyflawni, a chynnig asesiad o gynnydd.

25 www.llyw.cymru/cyllideb-garbon-1-cb1-datganiad-terfynol-o-gynnydd-2016-i-2020

## Astudiaeth Achos

### Fy Nghoeden, Ein Coedwig

Dechreuodd Fy Nghoeden, Ein Coedwig fel cysyniad ar gyfer ymgyrch ymgysylltu genedlaethol er mwyn annog pobl i blannu coed er mwyn dechrau creu Coedwig Genedlaethol Cymru. Yr uchelgais oedd y byddai pob aelwyd yng Nghymru yn cael cyfle i gael coeden i'w phlannu.

Gall pob aelwyd gasglu coeden drwy dri dull gwahanol: o ganolfan a gaiff ei rhedeg gan wirfoddolwyr, drwy lenwi ffurflen ar-lein ar wefan Coed Cadw i wneud cais i gael coeden drwy'r post, neu drwy ofyn i goeden gael ei phlannu ar ran rhywun. Caiff y coed y gwneir cais amdanynt drwy'r trydydd dull eu plannu gan dirfeddianwyr lleol gan gynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, grwpiau cymunedol, cynghorau lleol a thirfeddianwyr preifat.

Roedd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i'r prosiect, a bu Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Coed Cadw, Llais y Goedwig, Working Word, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cyfoeth Naturiol Cymru, RSPB, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru a mwy.

Roedd yr ymgyrch Mawrthnata a chyfathrebu yn llwyddiant ysgubol, gan gyrraedd llawer iawn o bobl. Fel rhan o hynny, roedd ffilm a oedd yn cynnwys y seren rygbi Scott Quinnell yn arbennig o lwyddiannus ar sianeli cyfryngau cymdeithasol ein holl bartneriaid. Cyhoeddwyd 150 o eitemau yn y cyfryngau print, ar-lein a darlledu, gan gynnig mwy nag 850 miliwn o gyfleoedd i'w gweld, ac arweiniodd hynny at gyfradd ymgysylltu lawer uwch na'r arfer yn y cyfryngau cymdeithasol.

Hyd yn hyn, mae 300,000 o goed wedi cael eu plannu ledled Cymru drwy'r tri dull gwahanol. Mae sgyrsiau eisoes yn mynd rhagddynt rhwng Coed Cadw, Llywodraeth Cymru a Llais y Goedwig ynglŷn â sut y gall y tri sefydliad gydweithio â'i gilydd i ddatblygu'r prosiect ymhellach fyth.

## Cymru Sero Net

Mae'r ffocws bellach wedi troi at gyflawni Cymru Sero Net[26], sef ein cynllun lleihau allyriadau sy'n canolbwyntio ar gyflawni ein hail gyllideb garbon (2021-2025). Hefyd, mae'r cynllun yn dechrau gosod y sylfeini ar gyfer Cyllideb Garbon 3 (2026-2030) a thu hwnt. Mae ein llwybr tuag at sero net yn gofyn am ddull gweithredu lle mai dim ond un elfen o'n hymateb, ochr yn ochr â gweithredu ar y cyd ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus, ein heconomi a'n cymunedau, yw'r camau a gymerir gan y llywodraeth.

Prif nod ein gwaith ymgysylltu yw cynnal trafodaeth gynnar a chydgysylltiedig am y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol. Bydd hyn yn sicrhau y caiff pawb y cyfle i chwarae eu rhan drwy ddull Cymru ar y Cyd.

26 www.llyw.cymru/cymru-sero-net-cyllideb-garbon-2-2021-i-25

Rydym wedi cyhoeddi cynllun Ymgysylltu â Rhanddeiliaid wedi'i ddiweddaru[27] ar gyfer Cymru Sero Net ac wedi ymgynghori ar ein Strategaeth Ddrafft ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Wrth inni bontio i sero net, rhaid inni sicrhau y caiff y broses ei chynllunio'n effeithiol ac yn deg. Mae'n hanfodol pontio i sero net mewn ffordd gyfiawn, a rhaid inni ddod â phob un o ddinasyddion Cymru gyda ni heb adael neb ar ôl wrth inni symud at ddyfodol gwyrddach, tecach a gwell.

I ategu hyn, gwnaethom gyhoeddi galwad am dystiolaeth ar bontio teg[28] ym mis Rhagfyr 2022. Mae'r alwad bellach wedi dod i ben, ac rydym yn dadansoddi'r ymatebion er mwyn ein helpu i lywio ein ffordd o weithredu yn y dyfodol. Mae camau gweithredu ehangach mewn perthynas â newid hinsawdd wedi'u hamlinellu isod.

## Ynni

Mae Llywodraeth Cymru yn y broses o sefydlu cwmni datblygu ynni adnewyddadwy newydd gyda'r nod o ddechrau gweithredu erbyn mis Ebrill 2024. Bydd ein dull datblygu dan arweiniad y sector cyhoeddus yn sicrhau y byddwn yn cadw manteision a gwerth o fewn cymunedau ledled Cymru. Ochr yn ochr â sefydlu'r cwmni newydd, rydym eisoes yn gwneud gwaith dichonoldeb ar amrywiaeth o safleoedd posibl ledled Cymru.

Mae cyllid wedi cael ei ddyrannu i sefydlu'r cwmni newydd, gan gynnwys recriwtio'r arbenigedd gofynnol i arwain datblygiadau yng Nghymru a thalu'r costau datblygu a fydd yn ofynnol yn y camau cynnar ar gyfer y safleoedd a ddewisir. Bydd y gwaith hwn yn pennu maint ein huchelgais.

Er mwyn cefnogi ein huchelgais i newid i system ynni sero net gynaliadwy yng Nghymru, mae'n hanfodol bod gennym gynlluniau ynni ardaloedd lleol manwl a fydd yn rhoi'r strategaethau ynni rhanbarthol sydd eisoes wedi'u datblygu ar waith. Rydym wedi penodi'r Catapwlt Systemau Ynni i gefnogi'r gwaith hwn drwy roi cymorth technegol i ardaloedd lleol a sicrhau y caiff y cynlluniau eu datblygu'n gyson er mwyn helpu i ddatblygu cynllun Ynni Cenedlaethol yn ystod 2024.

Un her allweddol sydd wedi'i nodi yn Sero Net Cymru yw'r angen i ddatgarboneiddio systemau gwresogi mewn adeiladau domestig a diwydiannol. Eleni, rydym wedi dechrau datblygu strategaeth wres a fydd yn nodi ein huchelgais a'n llwybr ar gyfer symud i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil mewn ffordd sy'n gyson â'r strategaeth sero net.

## Datgarboneiddio'r Sector Cyhoeddus

Fel cyflogwr pwysig yn y sector cyhoeddus sydd ag adnoddau ariannol sylweddol, mae gan Lywodraeth Cymru rôl bwysig i'w chyflawni er mwyn cyfrannu at uchelgais sero net 2030 ac arwain drwy esiampl drwy ddangos beth y gellir ei gyflawni er mwyn mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Mae rhagor o wybodaeth wedi'i nodi ar dudalen 71 am ein camau gweithredu a'n Cynllun Strategol Sero Net, sy'n nodi sut byddwn yn chwarae ein rhan er mwyn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a'r her o gyflawni sero net.

27 www.llyw.cymru/dull-ymgysylltu-o-amgylch-y-newid-yn-yr-hinsawdd-2022-26
28 www.llyw.cymru/pontio-teg-tuag-sero-net-cymru

Fel rhan o'n huchelgais i'r sector cyhoeddus gyrraedd sero net gyda'i gilydd erbyn 2030, sef polisi allweddol a sefydlwyd yng nghynllun Sero Net Cymru, mae swyddogion wedi cyflwyno cylch adrodd blynyddol ar allyriadau carbon gan y sector. Yn unol â Chanllaw Adrodd y Sector Cyhoeddus, nid oes rhaid cyflwyno'r data hyn. Gwnaeth pob un o'r 60 o gyrff sector cyhoeddus a nodwyd gyflwyno eu data, gan sicrhau cyfradd ddychwelyd o 100%.

Cafodd adroddiad Sero Net y Sector Cyhoeddus yng Nghymru: Yr wybodaeth ddiweddaraf am allyriadau ac argymhellion ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2022[29]. Dyma grynodeb o'r allyriadau a'r canfyddiadau allweddol:

- Yr amcangyfrif presennol ar gyfer cyfanswm allyriadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru ar gyfer 2021-22 yw 2875 kt $CO_2$e.
- Awdurdodau lleol a byrddau iechyd yw'r cyfranwyr mwyaf at y cyfanswm o hyd.
- Y prif allyriadau gweithredol yw adeiladau; y defnydd o ynni ar gyfer systemau gwresogi/oeri, dŵr poeth a goleuadau.
- Cerbydau fflyd a thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am yr allyriadau gweithredol ail uchaf.
- Allyriadau cadwyn gyflenwi (cwmpas 3) o nwyddau a gwasanaethau a brynir sy'n gwneud y cyfraniad anuniongyrchol mwyaf at gyfanswm yr allyriadau ym mhob sefydliad.

Proses o welliant parhaus yw'r cylch adrodd. Drwy ymgysylltu a'r sector cyhoeddus, rydym wedi gwella'r broses adrodd ar gyfer eleni, gan sicrhau set fwy cadarn o ddata.

Dangosodd y cyfnod adrodd diweddaraf, sef 2021-22, leihad mewn allyriadau carbon, a hynny'n bennaf oherwydd lleihad mewn allyriadau cwmpas 3, ond, gan mai dim ond y drydedd flwyddyn adrodd yw hon, nid ydym yn gallu canfod unrhyw dueddiadau penodol yn y data. Ar hyn o bryd, ein nod yw dadansoddi a deall y prif feysydd lle y ceir allyriadau. Mae'r data'n cael eu rhannu â sefydliadau unigol er mwyn eu helpu i ddatblygu eu cynlluniau datgarboneiddio ac er mwyn helpu i lywio ein cymorth ar eu cyfer.

Rydym yn helpu i ddatblygu a chyflawni cynlluniau ar gyfer datgarboneiddio'r sector cyhoeddus drwy Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru a Rhaglen Gyllido Cymru. Mae'r contract ar gyfer darparu Gwasanaeth Ynni newydd Llywodraeth Cymru wedi cael ei ddyfarnu i gonsortiwm a arweinir gan yr Ymddiriedolaeth Garbon, partneriaethau lleol a'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni.

Bydd y contract newydd yn rhedeg o fis Ebrill 2023 am y pedair blynedd nesaf. Yn 2022-23, rhoddodd Llywodraeth Cymru £8 miliwn o gymorth cyfalaf ychwanegol i'r sector cyhoeddus ar gyfer prosiectau datgarboneiddio, sy'n golygu mai cyfanswm y cyllid a oedd ar gael drwy Raglen Gyllido Cymru oedd tua £18.5m. Yn 2023-24, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi £12 miliwn o gymorth cyfalaf ychwanegol i'r sector cyhoeddus.

Mae'r cyfuniad o gymorth ariannol a thechnegol gan Wasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru wedi helpu'r sector cyhoeddus a mentrau cymunedol yng Nghymru i sicrhau buddsoddiad sylweddol er mwyn datblygu prosiectau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau di-allyriadau.

29 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-02/data-argymhellion-sero-net-sector-cyhoeddus-diweddariad-rhag-2022.pdf

Rhwng mis Gorffennaf 2018 a mis Mawrth 2022, rydym wedi helpu'r sector cyhoeddus a mentrau cymunedol yng Nghymru i sicrhau buddsoddiad gwerth £155 miliwn er mwyn datblygu prosiectau'n ymwneud ag effeithlonrwydd ynni, ynni adnewyddadwy a cherbydau di-allyriadau: gan arbed gwerth 716,000 o dunelli o $CO_2$ o allyriadau – mae hynny'n gyfwerth â thynnu 300,000 o geir oddi ar y ffordd am flwyddyn a chynhyrchu £322 miliwn mewn incwm ac arbedion lleol[30].

## Llywodraeth Leol

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.5m o gyllid dros bum mlynedd er mwyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) gyflwyno rhaglen cymorth hinsawdd i helpu awdurdodau i leihau allyriadau a chyflawni eu hymrwymiadau o ran sero net. Mae'r gwaith cydgysylltu canolog hwn yn cefnogi ffordd strategol o weithredu, yn osgoi dyblygu ymdrechion ac yn sicrhau y caiff gwersi a ddysgwyd eu rhannu'n gyson er mwyn i weithgareddau allu cael eu datblygu neu eu hehangu er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau y mae pen draw iddynt.

Mae'r rhaglen yn darparu amrywiaeth o gymorth o dan bob un o bedair thema Trywydd Sector Cyhoeddus Cymru[31] (Trafnidiaeth, Adeiladau, Defnydd Tir a Chaffael) gan gynnwys pecynnau cymorth, canllawiau, hyfforddiant i feithrin gwybodaeth ac arbenigedd, a digwyddiadau i hwyluso rhannu arferion gorau.

Gwnaeth adolygiad a gynhaliwyd yn 2021 o gynllun gweithredu pob awdurdod nodi arferion da, bylchau, a'r camau nesaf er mwyn nodi ble y dylid targedu cymorth pellach. Mae ail adolygiad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd, y disgwylir iddo gael ei gwblhau ym mis Mai 2023, i asesu cynnydd a llywio cam nesaf y cymorth. Mae'r rhaglenni gwaith hyn yn rhoi cymorth uniongyrchol ar gyfer newid sefydliadol, arweinyddiaeth a chynnwys datgarboneiddio mewn prosesau gwneud penderfyniadau. Maent yn canolbwyntio ar gyflawni'r ymrwymiadau uchelgeisiol ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghynllun Cymru Sero Net.

Hefyd, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi gwaith Panel Strategaeth Hinsawdd Llywodraeth Leol, a sefydlwyd yn wreiddiol ym mis Tachwedd 2020 i ystyried datgarboneiddio ond sydd bellach wedi ehangu i gynnwys ymaddasu. Mae'n rhoi cyfeiriad strategol i raglen gymorth CLILC. Mae'r panel yn helpu i arwain, cefnogi a rhoi trosolwg strategol ym meysydd datgarboneiddio a gwaith ymaddasu o fewn llywodraeth leol.

Mae'r Panel Strategaeth yn cynnwys prif weithredwyr cynrychioliadol o awdurdodau lleol ledled Cymru sy'n cynrychioli eu rhanbarth (nid dim ond eu sefydliad eu hunain), aelodau o Lywodraeth Cymru, CLILC ac ochr yr undebau llafur ynghyd ag arbenigwyr technegol ac mae'n cyfarfod bob mis.

Gan gydweithio â'i gilydd, mae'r Panel yn rhannu arbenigedd, tystiolaeth ac atebion er mwyn sicrhau bod buddsoddiad, strategaeth a pholisi mor effeithiol â phosibl. Er mwyn cael goruchwyliaeth wleidyddol, mae'r Panel yn adrodd i Weinidogion ac arweinwyr y sector cyhoeddus drwy Gyngor Partneriaeth Cymru ac yn rhannu'r dull gweithredu a'r hyn a ddysgir â'r sector cyhoeddus ehangach.

30 Adroddiad Blynyddol: Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru 2021-2022
31 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-07/trywydd-ar-gyfer-datgarboneiddio-ar-draws-sector-cyhoeddus-cymru.pdf

# Iechyd

Mae GIG Cymru yn parhau i fod yn un o'r ffynonellau mwyaf o allyriadau yn y Sector Cyhoeddus oherwydd maint yr ystad, yr ynni sy'n angenrheidiol i ddarparu gwasanaeth ddydd a nos, saith diwrnod yr wythnos drwy gydol y flwyddyn a'r galw uchel parhaus am wasanaethau a nwyddau iechyd. Er mwyn llywio'r gwaith o gyflawni Cynllun Cyflenwi Strategol Datgarboneiddio GIG Cymru[32] (y Cynllun Cyflenwi), a sicrhau y bydd GIG Cymru yn cyfrannu at wireddu uchelgais sero net Sector Cyhoeddus 2030, mae sefydliadau'r GIG wedi cyflwyno Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio sy'n mapio eu hymrwymiad i'r 46 o fentrau yn y Cynllun Cyflenwi Strategol.

Mae Rhaglen Genedlaethol a Bwrdd Rhaglen Genedlaethol yr Argyfwng Hinsawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol (menter gydweithredol rhwng Llywodraeth Cymru, clinigwyr, y GIG ac arweinwyr a chynrychiolwyr gofal cymdeithasol, a sefydlwyd i arwain a chefnogi'r agenda newid hinsawdd a datgarboneiddio) yn monitro'r gwaith cyflawni ac yn rhoi sicrwydd ynghylch cynnydd y Cynlluniau Gweithredu Datgarboneiddio drwy adolygiadau ansoddol rheolaidd ac adroddiadau meintiol blynyddol drwy broses Adrodd ar Sero Net y Sector Cyhoeddus.

Er mwyn ehangu'r agenda ymhellach ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, lansiwyd *Fframwaith Gofal Sylfaenol Gwyrddach*[33] ym mis Mehefin 2022 a chyhoeddwyd *Gofal Cymdeithasol yng Nghymru – Trywydd Datgarboneiddio tuag at Sero Net erbyn 2030*[34], ym mis Gorffennaf 2022, gan helpu'r sector i ysgogi gofal cymdeithasol gwyrddach yng Nghymru a lleihau allyriadau carbon drwy amrywiaeth o feysydd targed. Mae gweithgarwch bellach yn mynd rhagddo er mwyn deall allyriadau gofal cymdeithasol a gofal sylfaenol yn well.

Hefyd, gofynnwyd i gyrff y GIG ledled Cymru ystyried sut y dylent addasu er mwyn paratoi ar gyfer effeithiau newid hinsawdd o ran ei risg i iechyd poblogaethau, a'i risg i'r gwasanaethau a ddarperir. Mae'r dull o gynllunio ar gyfer addasu yn llai aeddfed na datgarboneiddio ac, er mwyn symud ymlaen yn gyflym, mae'n bosibl y bydd angen arbenigedd allanol i godi ymwybyddiaeth a datblygu'r canllawiau a'r pecynnau cymorth sydd eu hangen er mwyn helpu i lunio cynlluniau gwell.

Yn 2022-23, neilltuwyd £800k o gyllid refeniw i gefnogi amrywiaeth o fentrau llawr gwlad bach a chanolig mewn gwahanol rannau o'r GIG sy'n helpu i leihau allyriadau neu sy'n helpu'r sector i addasu i effeithiau newid hinsawdd, ac sydd â'r potensial i dyfu ac ehangu i bob rhan o'r GIG. Mae'r cyllid hwn yn rhan o gynllun cyllid refeniw gwerth £2.6m dros dair blynedd (2022-23-24-25) i gefnogi'r Rhaglen Genedlaethol.

Er mwyn helpu Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru i gyflawni ei rôl gyflawni drwy Gymru gyfan mewn perthynas â mentrau allweddol o dan y Cynllun Cyflenwi a thargedau sero net, mae cyllid refeniw cylchol o £440k wedi cael ei neilltuo er mwyn sicrhau adnoddau ychwanegol; mae'r tîm hwn bellach wedi'i sefydlu.

Roedd y cyllid cyfalaf ar gyfer 2022-23 yn cynnwys £4.5m tuag at brosiectau Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru er mwyn lleihau allyriadau carbon a sicrhau arbedion ym mhob rhan o'r sector iechyd. Fel rhan o gyllid cyfalaf diwedd blwyddyn 2022-23, blaenoriaethwyd £2.466m ar gyfer targedu cynlluniau arbedion ynni a lleihau allyriadau carbon ym mhump o sefydliadau'r GIG.

---

32 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-03/cynllun-cyflenwi-strategol-datgarboneiddio-gig-cymru_1.pdf
33 www.awttc.nhs.wales/news-meetings-and-events/news1/the-greener-primary-care-wales-framework-award-scheme-2023/
34 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-07/gofal-cymdeithasol-yng-nghymru-trywydd-datgarboneiddio-tuag-at-sero-net-erbyn-2030.pdf

# Yr Argyfwng Natur

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod colled bioamrywiaeth a dirywiad ecosystemau yn anghynaliadwy a bod yr amgylchedd naturiol yn sail i'n llesiant a'n ffyniant economaidd. Er mwyn sicrhau y gall cenedlaethau'r dyfodol fwynhau ein treftadaeth naturiol hardd, bydd angen inni gyflymu'r camau rydym eisoes yn eu cymryd i atal dirywiad bioamrywiaeth, ac mae ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu i greu a gwella mannau gwyrdd, datblygu targedau cyfreithiol rwymol ar gyfer bioamrywiaeth a sefydlu cynllun adfer ar gyfer morwellt a morfa heli.

Nododd yr 'Archwiliad Dwfn' a gynhaliwyd gennym ar fioamrywiaeth gamau gweithredu i gyrraedd y targed 30x30 ac argymhellion cysylltiedig. Mae cynllun gweithredu'n cael ei gydgynhyrchu a'i oruchwylio gan grŵp craidd o arbenigwyr. Mae gweithgorau wedi cael eu sefydlu er mwyn datblygu ein dull ymhellach a llunio fframwaith monitro. Rydym hefyd yn adolygu ein Cynllun Adfer Natur er mwyn darparu ymateb Cymru i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan gynnwys gwerthuso'r rhaglen flaenorol a datblygu cyfres o ddangosyddion. Ymhlith ein rhaglenni cyflawni mae:

- Datblygu targedau bioamrywiaeth fel maes gwaith pwysig yn 2023-24, yn seiliedig ar yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu, a rhoi'r fframwaith rhyngwladol ar gyfer y cyfnod ar ôl 2020 a'r targedau ar gyfer bioamrywiaeth ar waith. Datblygu'r targedau cyfreithiol rwymol hyn ar gyfer bioamrywiaeth gan gynnwys papur gwyn a gaiff ei gyhoeddi yn nes ymlaen yn y flwyddyn galendr hon ac a fydd yn destun ymgynghoriad.
- Y Rhaglen Rhwydweithiau Natur, sef rhaglen tair blynedd o hyd sydd â'r nod o wella cyflwr a chysylltedd ein safleoedd gwarchodedig ar y tir ac ar y môr, gan greu rhwydweithiau ecolegol cydnerth a fydd yn galluogi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau sy'n wynebu'r perygl mwyaf i ffynnu a helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.
- Prosiect Cymru gyfan a arweinir gan Cyfoeth Naturiol Cymru mewn partneriaeth ag amrywiaeth o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol yw Natur am Byth, a'i nod yw targedu a gwrthdroi dirywiad rhai o'r rhywogaethau sy'n wynebu'r perygl mwyaf a hefyd gysylltu pobl â byd natur. Bydd y prosiect ar waith am y pedair blynedd nesaf, gyda'r mwyafrif o'r cyllid wedi'i sicrhau gan Gronfa Treftadaeth y Loteri. Mae naw maes ffocws sy'n integreiddio materion rheoli ar y tir a'r môr, cefnogi rhywogaethau morol agored i niwed yn ogystal â'r rhai ar dir ac mewn dŵr croyw.
- Bydd Llywodraeth Cymru yn gwella'r rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru drwy gyflwyno Parthau Cadwraeth Morol. Yn dilyn ymgynghoriad yn 2024, cyflwynir cynllun grantiau, a fydd yn sicrhau bod y safleoedd hyn yn cael eu rheoli'n dda ac yn symud tuag at gynnal 'cyflwr ffafriol'. Mae'r Fframwaith yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ac mae'n debygol y bydd yn seiliedig ar yr asesiad cyflwr diweddaraf, gan roi cyfeiriad mwy cywir ar gyfer mesurau rheoli i wella bioamrywiaeth a chynhyrchiant y safleoedd hyn. Disgwylir i Fframwaith wedi'i adnewyddu gael ei gyhoeddi yn 2024-25. Disgwylir i asesiad cyflwr cynhwysfawr wedi'u diweddaru ar gyfer y rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig gael eu cyhoeddi yn 2025.

– Mae datblygu cynllun adfer cynefinoedd ar gyfer morwellt a morfa heli yn ymrwymiad allweddol yn y Rhaglen Lywodraethu. Mae’r cynefinoedd hyn yn cyflawni rôl allweddol, nid yn unig o ran meithrin cydnerthedd rhag newid hinsawdd, ond o ran gwella bioamrywiaeth hefyd, gan greu mwy o gyfleoedd bwydo a meithrinfeydd planhigion ar gyfer rhai rhywogaethau.

## Astudiaeth Achos

### Porth y Brenin Caernarfon

Mae i gastell a muriau tref Caernarfon bwysigrwydd byd-eang ac mae hynny wedi cael ei gydnabod drwy statws treftadaeth y byd. Un o nodweddion allweddol y castell yw Porth y Brenin a’i amddiffynfeydd milwrol soffistigedig. Fodd bynnag, cragen anhygyrch oedd y Porth am ganrifoedd – wedi’i gyflwyno’n wael i’r cyhoedd ac yn cael ei ddeall yn wael ganddynt. Amcan prosiect Porth y Brenin oedd trawsnewid profiad ymwelwyr â’r strwythur unigryw hwn.

Roedd nifer o elfennau i’r prosiect gwerth £5m: lloriau newydd, darparu cyfleuster arlwyo, platfform gwylio newydd ar y lefel uchaf, gofod addysgol a gwell hygyrchedd. Fodd bynnag, mae’n bosibl mai’r elfen fwyaf dramatig oedd gwaith dehongli arloesol sy’n torri tir newydd, gyda darnau artistig ar y thema ‘y dwylo a adeiladodd y castell’.

Cafodd y gwaith ei wneud gan dîm amlddisgyblaethol o staff Cadw a chontractwyr gan gynnwys penseiri, gwarchodwyr, archaeolegwyr, adeiladwyr ac artistiaid. Un o’r egwyddorion sylfaenol allweddol oedd bod y prosiect yn bodloni’r disgwyliadau caeth sy’n gweddu i Safle Treftadaeth y Byd, gan sicrhau cyn lleied â phosibl o effaith ar yr adeiladwaith hanesyddol a bod yn gwbl ‘wrthdroadwy’. Mae’r prosiect hefyd wedi gwella ein dealltwriaeth archaeolegol o’r porthdy ac wedi cyfrannu at ei gadwraeth.

Fe’i hagorwyd i’r cyhoedd ym mis Ebrill 2023 ac mae wedi cael canmoliaeth helaeth gan ymwelwyr a’r cyfryngau yng Nghymru a’r DU. Mae wedi cael canmoliaeth arbennig am gynnig mynediad unigryw i’r atyniad hanesyddol hwn i dwristiaid ac am y ffordd y mae wedi adrodd hanes sy’n aml yn ddadleuol, a hynny mewn modd cytbwys a sensitif.

# Adfer ar ôl COVID-19



Pandemig COVID-19 oedd yr her fwyaf y mae Llywodraeth Cymru wedi'i hwynebu. Yn sgil y camau gweithredu i leihau'r risgiau uniongyrchol i iechyd, cyflwynwyd cyfyngiadau ar bob agwedd ar gymdeithas a'r economi. Ar ôl i frechlynnau COVID-19 gael eu darganfod a'u cyflwyno, bu modd dod â'r pandemig dan reolaeth a llacio'r cyfyngiadau.

O ystyried graddfa'r pandemig, bydd yn cymryd blynyddoedd o weithredu ar y cyd i adfer ar ei ôl. Mae ôl-groniadau o driniaethau'r GIG, cefnogi'r sector gofal cymdeithasol ar ôl y pandemig, a delio â'r tarfu ar ddysgu ym myd addysg i gyd yn faterion y bydd angen mynd i'r afael â nhw drwy'r sector cyhoeddus i gyd. Hefyd, mae angen ein cymorth ar fusnesau a'r trydydd sector er mwyn ymateb i effaith COVID-19.

Mae camau gweithredu gan bob rhan o Lywodraeth Cymru er mwyn helpu'r broses barhaus o adfer ar ôl y pandemig wedi'u nodi isod.

## Adfer y GIG

Lansiwyd y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Adfer a Thrawsnewid Gofal a Gynlluniwyd[35] ym mis Ebrill 2022 mewn ymateb i'r cynnydd digynsail mewn amseroedd aros a thwf rhestrau aros o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Mae Llywodraeth Cymru wedi clustnodi £1 biliwn o gyllid dros bum mlynedd er mwyn helpu i gyflawni cynllun adfer sy'n nodi nifer o uchelgeisiau ar gyfer gwella amseroedd aros i gleifion. Er nad yw ein targedau adfer cenedlaethol wedi cael eu cyrraedd mor gyflym â'r bwriad, mae cynnydd sylweddol wedi cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ers i'r cynllun gael ei lansio.

Yn ystod y flwyddyn, mae rhagor o waith wedi cael ei wneud ar wella mynediad ac amseroedd aros mewn perthynas â diagnosteg a thriniaethau canser fel rhan o Gynllun Adfer Cenedlaethol y GIG. Mynediad cleifion at ddiagnosis a thriniaeth ar gyfer canser yw'r gyfres nesaf o uchelgeisiau ar gyfer y rhaglen adfer.

O ran gwasanaethau gofal brys a gofal mewn argyfwng, mae'r adferiad ar ôl y pandemig wedi cael ei arwain gan raglen y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal mewn Argyfwng, sydd wedi buddsoddi £25 miliwn yn y saith Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Ambiwlans Cymru er mwyn gwella mynediad ac amseroedd aros mewn gwasanaethau brys.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi neilltuo £50m yn rhagor yn 2022-23, a fydd yn codi i £75m yn 2023-24 a £90m yn 2024-25 er mwyn cefnogi iechyd meddwl a llesiant, a gwella gwasanaethau. Mae hyn yng nghyd-destun gwaith trawslywodraethol ehangach i leihau effaith economaidd-gymdeithasol y pandemig ar iechyd meddwl, gyda'r nod o leihau pwysau ar wasanaethau iechyd meddwl.

## Adfer Gofal Cymdeithasol

O ran gofal cymdeithasol, gwnaethom arwain gweithgarwch cydgynhyrchu gydag amrywiaeth o gynrychiolwyr rhanddeiliaid ym maes gofal cymdeithasol, dros gyfres o gyfleoedd i gydweithio, i ddatblygu fframwaith adfer gofal cymdeithasol. Roedd y fframwaith yn nodi cyfres o flaenoriaethau wedi'u datblygu ar y cyd, i'w hymgorffori yng nghynlluniau partneriaid cyflawni perthnasol.

Roedd yn nodi'r prif ystyriaethau strwythurol (cwmpas, amserlen a phwyntiau adolygu, diffiniad o adfer, rolau adfer), materion (cyd-destun ac ailgydbwyso gofal a chymorth; cyfleoedd, heriau a risgiau) a themâu (canlyniadau a fwriedir, ystyriaethau, egwyddorion a blaenoriaethau cyffredinol) y byddai angen eu hystyried wrth gynllunio'n effeithiol ar gyfer adfer.

Ar y cyd, gwnaethom ddatblygu a dosbarthu Cronfa Adfer Gofal Cymdeithasol. Bwriedid i'r gronfa un flwyddyn, a oedd yn werth £40m yn wreiddiol, gael ei defnyddio gan y 22 awdurdod lleol yng Nghymru i ddiwallu'r anghenion a nodwyd yn y cynlluniau adfer canlyniadol.

35 www.llyw.cymru/trawsnewid-moderneiddio-gofal-gynlluniwyd-lleihau-rhestrau-aros-y-gig

## Adfer Addysg

Sefydlwyd ein Rhaglen Adnewyddu a Diwygio[36] ym mis Mehefin 2021 er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau'r tarfu a achoswyd gan bandemig COVID-19 ar ddysgu a datblygu a sicrhau tegwch i bob dysgwr, gan achub ar y cyfle i wella deilliannau.

Yn wreiddiol cafodd ei chefnogi gan £150m ym mis Mehefin 2021, a gododd i fwy na £278 miliwn erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2021-22 yn dilyn cylchoedd pellach o ddyraniadau cyllid, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau unigryw a oedd yn wynebu gwahanol grwpiau o ddysgwyr a chefnogi eu llesiant a'u cynnydd mewn ymateb i'r pandemig.

Roedd y Rhaglen Adnewyddu a Diwygio yn fodd inni sicrhau bod cyllid yn targedu'r heriau allweddol gan gynnwys meithrin gallu yn y system, helpu athrawon newydd gymhwyso i gael lleoliadau, sicrhau bod ein dysgwyr ieuengaf yn gallu cael cyfleoedd dysgu seiliedig ar chwarae o ansawdd, a helpu dysgwyr ôl-16 a dysgwyr mewn blynyddoedd pontio i symud ymlaen i'w camau nesaf.

Gwnaethom hefyd gefnogi dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys darparu cyllid i ehangu'r rhaglen trochi hwyr, drwy helpu dysgwyr mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a gollodd y cyfle i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd yn ystod y pandemig.

O 2022-23 ymlaen, nid oedd cronfa COVID-19 ar wahân, felly cafodd y strwythurau Adnewyddu a Diwygio eu diddymu. Yn lle hynny, cafodd mentrau addysg eu gwreiddio yn ein rhaglenni gwaith presennol a'u cysoni â blaenoriaethau'r Rhaglen Adnewyddu a Diwygio.

Ym mis Tachwedd 2022, gwnaethom gyhoeddi Canllawiau Parhad Dysgu newydd[37]. Diben y canllawiau yw sicrhau y caiff effeithiau unrhyw darfu ar ddysgu plant a phobl ifanc yn y dyfodol eu lleihau cymaint â phosibl a sicrhau na fydd tarfu ar ddysgu ar y raddfa a welwyd yn ystod pandemig COVID-19 yn digwydd yn ein hysgolion yng Nghymru byth eto.

## Adfer Ôl-16

Nodwyd mai dysgwyr ôl-16 a dysgwyr pontio oedd un o'r grwpiau yr effeithiodd COVID-19 arnynt fwyaf, ac y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer ymyriadau â ffocws pendant. Rydym wedi gweithio'n agos gyda darparwyr addysg ôl-16 gan fanteisio ar eu sgiliau, eu profiad a'u harbenigedd, ac ymgynghori â dysgwyr er mwyn sicrhau y caiff ymyriadau eu teilwra i ddiwallu eu hanghenion.

Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, rhoddwyd gwerth £31m o gyllid ychwanegol i sefydliadau addysg bellach a chweched dosbarth ysgolion er mwyn darparu oriau dysgu ychwanegol mewn grwpiau ac ar sail un i un er mwyn cefnogi cynnydd a llesiant dysgwyr yn dilyn y tarfu a achoswyd gan y pandemig. Rhoddwyd £21m yn rhagor ar gyfer adfer a chynnydd dysgwyr yn 2022-23.

---

36 www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-adnewyddu-diwygio-cefnogi-lles-chynnydd-dysgwyr
37 www.llyw.cymru/canllawiau-parhad-dysgu-html

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23, mae nifer o brosiectau'n parhau i gefnogi dysgwyr ôl-16 y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt. Ar ben y dyraniad blynyddol o £2m a roddir i sefydliadau addysg bellach ar gyfer llesiant dysgwyr a staff, dyrannwyd £4m yn rhagor yn ystod 2022-23 a £2m yn 2023-24 er mwyn helpu colegau i fynd i'r afael ag effeithiau COVID-19 ar iechyd meddwl a llesiant.

Ym mis Rhagfyr 2022, lansiodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg "alwad i weithredu' ar gyfer y sector addysg bellach, yn gofyn i bob sefydliad roi cynlluniau strategol ar waith ar gyfer dysgu digidol. Caiff hyn ei gefnogi gan o leiaf £8m o gyllid cyfalaf dros dair blynedd, a bydd yn helpu i sicrhau bod y sector yn adeiladu ar brofiadau o'r pandemig er mwyn gwreiddio dulliau cynaliadwy o ymdrin â dysgu digidol, yn ogystal â datblygu dulliau arloesol o ddefnyddio technoleg.

# Adfer Busnes

## Busnes Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi £20.9m y flwyddyn yng ngwasanaeth Busnes Cymru o fis Ebrill 2023 tan fis Mawrth 2025 ac mae wedi ymrwymo i barhau i roi cymorth rhagweithiol ar gyfer entrepreneuriaeth a BBaChau.

Bydd y dull yn ymgorffori ôl troed cenedlaethol cyffredinol ynghyd ag elfennau rhanbarthol; cydbwyso cymorth ar gyfer twf gan ledaenu ffyniant ledled Cymru ar yr un pryd; a hwyluso gwaith dyfnach ar draws y llywodraeth a'r ecosystem gyfan. Bydd y gwasanaeth yn datblygu ac yn cyfoethogi'r gwasanaeth presennol ac yn gwreiddio ei effaith ymhellach yn economi Cymru.

Mae adran Busnes Cyfrifol ar gael ar wefan Busnes Cymru[38] sy'n rhoi gwybodaeth a chyngor, yn hyrwyddo arferion gorau ac astudiaethau achos, ac yn cynnig adnoddau defnyddiol eraill megis yr adnodd busnes cyfrifol.

Ym mis Chwefror 2023, lansiodd Banc Datblygu Cymru Gynllun Benthyciadau Busnes Gwyrdd newydd – cynnig 'buddsoddi i arbed' sydd â'r nod o gefnogi gwariant cyfalaf ar welliannau o ran effeithlonrwydd ynni a phrosiectau datgarboneiddio. Mae Banc Datblygu Cymru yn cynnig benthyciadau am gyfraddau llog is na'i gynhyrchion safonol, ynghyd â gwasanaeth ymgynghori cymorthdaledig, er mwyn i fusnesau benderfynu pa fuddsoddiadau y dylent eu gwneud.

## Arloesedd

Mae ein Strategaeth Arloesi drawslywodraethol, sef Cymru'n Arloesi[39] yn nodi ein gweledigaeth ar gyfer y cyfraniad y gall arloesedd ei wneud at yr ymrwymiadau yn ein Rhaglen Lywodraethu gan gynnwys ein targedau sero net, economi ffyniannus a dinasyddion iachach.

Mae'n cydnabod yr ecosystem ehangach, gan gynnwys y sector academaidd, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus, a phwysigrwydd cydweithio a chydraddoldeb rhanbarthol a demograffig. Caiff y strategaeth ei rhoi ar waith ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru, a chan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

38 businesswales.gov.wales/cy
39 www.llyw.cymru/strategaeth-arloesi-i-gymru

## Cymorth Arloesi Hyblyg SMART (SMART FIS)

Yn dilyn lansio'r Strategaeth Arloesi "Cymru'n Arloesi", ni fydd cymorth arloesi wedi'i gyfyngu i fusnesau a sefydliadau ymchwil mwyach. Bydd ar gael i unrhyw sefydliad sefydledig sydd am ymgysylltu a buddsoddi mewn gwaith ymchwil, datblygu ac arloesi, gan gynnwys y trydydd sector, awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Drwy SMART FIS, bydd Llywodraeth Cymru yn helpu i greu swyddi a gwella bywydau pobl drwy ysgogi gwaith ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf. Cynllun unigryw gan Lywodraeth Cymru yw SMART FIS, a'i unig nod yw helpu sefydliadau yng Nghymru i gyflawni "Rhagoriaeth Arloesedd" drwy roi cymorth ar gyfer eu Cynlluniau Arloesi drwy dîm Llywodraeth Cymru o arbenigwyr, mynediad at arbenigedd, ymgynghorwyr a chyllid. Cynhaliwyd digwyddiad lansio ar 8 Mehefin 2023.

## Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru

Ardaloedd arbennig o fewn ffiniau'r DU lle y bydd rheoliadau economaidd gwahanol yn gymwys yw porthladdoedd rhydd. Drwy sicrhau buddsoddiad mewn safleoedd penodol sy'n cael budd o gymhellion o ran trethi a thollau, bwriedir i borthladdoedd rhydd greu miloedd o swyddi o safon uchel – gan gynnig cyfle i fanteisio ar botensial economaidd helaeth Cymru.

Rhaid i borthladd rhydd yng Nghymru weithredu'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ymrwymiadau sero net Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r rhaglen yn cynnwys ein polisïau ar waith teg a phartneriaeth gymdeithasol er mwyn sicrhau y caiff gweithwyr eu gwobrwyo'n deg, eu clywed a'u cynrychioli, fel y gallant gamu ymlaen mewn amgylchedd gwaith diogel, iach a chynhwysol lle y caiff eu hawliau eu parchu.

Ym mis Mawrth 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y cyd y byddai dau gynnig yn symud ymlaen i'r cam nesaf, sef Porthladd Rhydd Ynys Môn a'r Porthladd Rhydd Celtaidd. Mae'r rhaglen hon yn arwydd o newid sylweddol ac yn dempled cadarnhaol ar gyfer cydweithio yn seiliedig ar gyd-barch a phartneriaeth gyfartal. Cafodd y prosbectws cynnig a'r broses ddethol eu dylunio ar y cyd gan y ddwy lywodraeth; gwnaeth swyddogion o'r ddwy lywodraeth asesu'r cynigion ar y cyd (roedd hyn yn cynnwys croestoriad eang o swyddogion polisi yn cyfrannu arbenigedd a mewnbwn) ac roedd gan y ddwy lywodraeth lais cyfartal wrth wneud y penderfyniad terfynol ynghylch pa safleoedd a fyddai'n symud ymlaen yn y broses.

## Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu

Mae'r sector gweithgynhyrchu'n allweddol i ffyniant cymdeithasol ac economaidd Cymru. Mae tua 150,000 o bobl yn gweithio ynddo ac mae'n cyfrannu mwy nag 16% o'n hallbwn cenedlaethol, sydd gryn dipyn yn uwch na chyfartaledd y DU, sef tua 9%. Cafodd y Cynllun Gweithredu ar Weithgynhyrchu: Dyfodol Gweithgynhyrchu i Gymru – Fframwaith Gweithredu ei lansio ym mis Chwefror 2021, ac mae'n rhan amlwg o'n Cenhadaeth i Gryfhau ac Ailadeiladu'r Economi o ran diogelu'r sector hanfodol hwn at y dyfodol.

Mae wedi darparu fframwaith sydd wedi meithrin cydweithio ac wedi helpu i gydgysylltu gweithgarwch cymorth Llywodraeth Cymru, gan ganolbwyntio ar weithgynhyrchu. Mae wedi fframio ein gwaith i ddatgarboneiddio diwydiant, gan gynnwys sefydlu Diwydiant Sero Net Cymru, a ategir gan ein Cynllun Gweithredu Sgiliau Sero Net[40].

---

40 www.llyw.cymru/cymru-gryfach-decach-gwyrddach-sgiliau-sero-net

### Cynllun Gweithredu ar Fanwerthu

Cafodd y "Weledigaeth Strategol a Rennir" ar gyfer y sector manwerthu (y Weledigaeth), a gyhoeddwyd yn 2022, ei datblygu ar y cyd mewn partneriaeth gymdeithasol gan y Fforwm Manwerthu, sy'n cynnwys Llywodraeth Cymru, cyflogwyr, undebau llafur a chyrff cynrychiadol. Datblygwyd y Weledigaeth gan gydnabod rôl hanfodol y sector drwy gydol y pandemig, ond roedd yn nodi'r effeithiau negyddol sylweddol y mae'r cyfnod hwn wedi'u cael ar y sector.

Mae'r Fforwm Manwerthu wedi parhau i gydweithio i gydgynhyrchu'r Cynllun Gweithredu ar Fanwerthu[41] (y Cynllun) cyntaf ar gyfer y sector. Roedd y Cynllun yn cydnabod pwysigrwydd y sector, nid yn unig fel y cyflogwr sector preifat mwyaf yng Nghymru, ond hefyd o ran ei gyfraniad hanfodol at ganol ein trefi ac yn enwedig mewn cymunedau gwledig drwy ddarparu gwasanaethau hanfodol.

## Adfer Cymunedau

Mae'r Rhaglen Cydlyniant Cymunedol yn cyllido wyth tîm o swyddogion cydlyniant ledled Cymru i roi cymorth rheng flaen i gymunedau; mae hyn yn rhan bwysig o ymateb Llywodraeth Cymru i broblemau annisgwyl a ddaw i'r amlwg sy'n effeithio ar gymunedau yng Nghymru, fel y digwyddodd yn ystod pandemig COVID-19.

Yn 2021, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol o'r Rhaglen a ganmolodd y timau cydlyniant am eu gallu i addasu wrth gynorthwyo cymunedau a ymyleiddiwyd yn ystod y pandemig. Roedd hyn yn cynnwys amrywiaeth eang o ymyriadau megis monitro a lliniaru tensiynau cymunedol, sicrhau bod cymunedau'n cael negeseuon hawdd eu deall ac amlieithog ynglŷn â'r pandemig, helpu i ddosbarthu parseli bwyd, a pharhau â digwyddiadau cymunedol drwy eu cynnal ar-lein.

Ar gyfer 2022-2023, darparodd Llywodraeth Cymru £1,120,000 ar gyfer y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol. Un prif ffocws ar gyfer y timau cydlyniant yn ystod y cyfnod hwn oedd darparu cymorth ledled Cymru gyfan i awdurdodau lleol yn eu hymateb i'r mewnlifiad sydyn o fewnfudwyr o Wcráin, yn enwedig helpu i'w hintegreiddio drwy ddigwyddiadau cymdeithasol, helpu i gynnal gweithgareddau megis dosbarthiadau ESOL, a dosbarthu gwybodaeth, er enghraifft rhybuddio pobl o Wcráin cyn Noson Tân Gwyllt ynglŷn â'r sŵn rhag iddo godi ofn neu fraw arnynt.

Ym mis Ionawr 2023, cytunodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip y dylid parhau i gyllido'r Rhaglen tan 2025-2026, er mwyn sicrhau y gall y gwaith gwerthfawr hwn barhau yng Nghymru. Bydd ffocws yn parhau ar feithrin cysylltiadau da rhwng cymunedau, gyda ffocws o'r newydd ar ddatblygu digwyddiadau wyneb yn wyneb a phrosiectau i ddod â phobl o wahanol gymunedau ynghyd.

41 www.llyw.cymru/cynllun-gweithredu-manwerthu

## Astudiaeth Achos

### Presgripsiwn Newydd

Cyflwynodd Presgripsiwn Newydd ddiwygiadau pellgyrhaeddol i drefniadau contractiol fferylliaeth gymunedol ym mis Ebrill 2022. Dechreuwyd darparu Gwasanaeth Fferylliaeth Gymunedol Glinigol (CCPS) newydd, ac mae bellach ar gael mewn dros 99% o fferyllfeydd. Mae'n galluogi pobl i gael triniaeth a chyngor ar gyfer anhwylderau cyffredin, dulliau atal cenhedlu, brechiad tymhorol rhag y ffliw, a chyflenwadau o bresgripsiynau rheolaidd.

Roedd y diwygiadau'n golygu mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y DU i gyflwyno gwasanaeth presgripsiynu fferylliaeth gymunedol a gyfarwyddir yn genedlaethol; erbyn hyn, gall fferyllwyr sydd wedi'u hyfforddi i bresgripsiynu drin amrywiaeth o anhwylderau a fyddai fel arall yn cael eu trin gan feddygon teulu neu wasanaethau eraill y GIG. Ar gyfer y gwasanaeth hwn, a ddarperir gan un o bob chwech o fferyllfeydd yng Nghymru, dywedodd 99% o gleifion y byddent wedi mynd at eu meddyg teulu fel arall.

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, cynhaliodd fferyllfeydd bron i 600,000 o ymgyngoriadau CCPS, sef cynnydd o 28% o gymharu â'r flwyddyn cyn y diwygiadau a 154% o gymharu â'r lefelau gweithgarwch cyn y pandemig.

Gwnaeth fferyllfeydd roi mwy na 160,000 o frechiadau rhag y ffliw, cynnal 31,000 o ymgyngoriadau ar gyfer dulliau atal cenhedlu brys, pontio neu QuickStart, darparu 80,000 o gyflenwadau o feddyginiaeth ar bresgripsiwn, a rhoi cyngor a thriniaeth drwy fwy na 250,000 o ymgyngoriadau gwasanaeth anhwylderau cyffredin gan gynnwys 26,000 o ymgyngoriadau ar gyfer dolur gwddf, lle y defnyddiwyd profion yn y man lle y rhoddir gofal i benderfynu a oedd angen gwrthfiotigau; Cymru yw'r unig le yn y DU lle y caiff profion yn y man lle y rhoddir gofal ar gyfer dolur gwddf eu defnyddio fel mater o drefn i leihau defnydd diangen o wrthfiotigau.

## Adfer Trafnidiaeth

Ym maes trafnidiaeth, mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch adfer ar ôl COVID-19 yn adlewyrchu'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu gwahanol sectorau i reoli'r effaith ar ddefnydd. Ar gyfer gwasanaethau rheilffyrdd, bysiau a hedfan, mae niferoedd a thueddiadau teithwyr wedi newid o ganlyniad i effaith y pandemig.

Mewn rhai achosion, mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd (megis gwasgaru llwythi brig dros gyfnodau hwy) ond, mewn achosion eraill mae'n creu heriau newydd sy'n ymwneud â fforddiadwyedd. Bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus y cwantwm a'r strwythur cymorth priodol ar gyfer gwahanol sectorau trafnidiaeth i gyfrif am y newidiadau hyn.

## Adfer Llywodraeth Leol

Daeth cymorth penodol i awdurdodau lleol ar gyfer costau penodol a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig a cholled incwm i ben ar ddiwedd 2021-2022. Fodd bynnag, roedd llywodraeth leol yn bartner allweddol yn ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i bandemig COVID-19.

Parhaodd y cyllid drwy awdurdodau lleol ar gyfer cymorth penodol ar gyfer prydau ysgol am ddim yn ystod y gwyliau, taliadau hunanynysu ac ychwanegiad at dâl salwch i unigolion cymwys, ac yna'r cynllun taliadau tanwydd gaeaf, am chwe mis cyntaf y flwyddyn ariannol. Gyda'i gilydd, darparodd y cynlluniau hyn gyfanswm o £68.6m yn rhagor i'r bobl fwyaf agored i niwed gan effeithiau'r pandemig a'r cynnydd yng nghostau gwresogi, a daethant i ben am fod asesiad wedi pennu bod yr effeithiau hyn wedi lleihau.

Yn yr un modd â gwasanaethau cyhoeddus eraill, cafodd gwasanaethau awdurdodau lleol a'r cyd-destun ariannol eu newid gan brofiad y pandemig. Er bod y cymorth penodol i dalu costau'r awdurdodau lleol wedi dod i ben, cyfeiriodd Llywodraeth Cymru gryn dipyn o gymorth ariannol at lywodraeth leol drwy setliad refeniw llywodraeth leol sylweddol uwch, gyda chynnydd o 9.4% ar lefel Cymru, ac ni chafodd yr un awdurdod gynnydd llai nag 8.4% ar sail tebyg at ei debyg.

## Adfer y Trydydd Sector

Tynnodd y pandemig sylw at bwysigrwydd gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol o ran cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, sef rôl y maent yn parhau i'w chyflawni i liniaru'r anghydraddoldebau a amlygwyd gan y pandemig a'r argyfwng costau byw presennol.

Ym mis Awst 2020, gwnaeth y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip ar y pryd, yn ei rôl fel cadeirydd Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector, sefydlu Is-grŵp Adfer Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector. Rhoddodd hyn strwythur ffurfiol ar gyfer ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol yng Nghymru mewn perthynas ag adfer o COVID-19.

Mae'r adroddiad dilynol[42] a luniwyd ar y cyd â'r sector, yn sail ar gyfer gwaith Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'i chamau gweithredu a'i gweithgareddau parhaus. Roedd yn nodi tair ffrwd waith – Perthynas, Cefnogaeth, Gwirfoddoli – ynghyd â phum thema drawsbynciol: cydraddoldeb a chyfiawnder i bawb; adferiad gwyrdd a chyfiawn; sector gwirfoddol mwy cadarn; cydweithio cynhwysol a chynnwys dinasyddion; gweithredu a arweinir gan y gymuned.

Mae'r dull hwn yn adeiladu ar gryfder y perthnasoedd a ffurfiwyd yn ystod y pandemig a'n Cynllun y Trydydd Sector unigryw i greu amgylchedd sy'n cydnabod gwerth gwirfoddolwyr a'r sector gwirfoddol.

42 wcva.cymru/wp-content/uploads/2021/07/Adroddiad-Is-grwp-Adfer-Cyngor-Partneriaeth-y-Trydydd-Sector-ar-Covid-19-1.pdf

## Ymchwiliad Cyhoeddus y DU i COVID-19

Cafodd Ymchwiliad Cyhoeddus y DU i COVID-19 ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Mehefin 2022. Mae gan yr ymchwiliad Gylch Gorchwyl[43] eang sy'n cwmpasu materion polisi o bob rhan o Lywodraeth Cymru. Bydd yr ymchwiliad yn archwilio'r hyn a ddigwyddodd yn ystod y pandemig, a'i effaith, ac yn ceisio canfod gwersi y gellir eu dysgu, a fydd yn sail i argymhellion.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dysgu gwersi o'r pandemig yn rheolaidd o'r cychwyn cyntaf, ac mae'n parhau i wneud hynny ac yn gweld yr ymchwiliad fel rhan bwysig o'r gwaith myfyrio parhaus hwnnw. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan ei hymrwymiad i weithio gyda'r ymchwiliad a chefnogi'r Cadeirydd yn ei gwaith, gan ymateb i'w cheisiadau mewn ffordd agored, amserol a thryloyw. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi neilltuo adnoddau ar gyfer y gwaith hwn. Yn ystod 2022-23, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflenwi miloedd o ddogfennau sy'n ymwneud â materion rhwng 2009 a 2022, ac mae'n parhau i wneud hynny.

Yn ogystal â'r dogfennau, mae cyfres o ddatganiadau wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y modiwlau cyntaf y mae'r ymchwiliad yn eu harchwilio. Mae pob grŵp o fewn Llywodraeth Cymru wedi bod yn rhan o hyn, sy'n dangos ystod ac ehangder gwaith yr ymchwiliad. Bydd yr ymchwiliad yn fwy arwyddocaol fyth yn 2023-24 wrth iddo ennill momentwm, gan graffu ymhellach ar effaith gwaith y sefydliad yn ystod y pandemig.

## Effaith sefydliadol

Fel sefydliad, roedd y cyfyngiadau'n golygu y bu'n rhaid gwneud newidiadau sylweddol ar unwaith i'r ffordd roeddem yn gweithredu – gan newid o fod yn sefydliad a oedd yn gweithio mewn swyddfeydd yn bennaf i fod yn sefydliad a oedd yn gweithio o bell yn ddiofyn, a hynny bron dros nos. Llwyddodd y staff i addasu'n gyflym i dechnoleg newydd a ffyrdd newydd o weithio er mwyn cefnogi'r ymateb i COVID-19. Drwy raglen Llywodraeth Cymru 2025, rydym yn parhau i ddysgu gwersi o gyfnod y pandemig ac adeiladu ar y cynnydd a wnaethom i lywio'r sefydliad ar gyfer y dyfodol.

43 www.covid19.public-inquiry.uk/cy/documents/cylch-gorchwyl/

# Ymateb i Argyfwng Wcráin



Sefydlwyd Cyfarwyddiaeth Ymateb Dyngarol Wcráin yn gyflym ar ddechrau 2022 er mwyn cyflawni ymrwymiad Gweinidogion Cymru y byddai Cymru, fel cenedl noddfa, yn croesawu pobl a oedd am geisio lloches yng Nghymru o ganlyniad i ymosodiad Rwsia ar eu gwlad. O'r dechrau un, buom yn cydweithio â phartneriaid allweddol gan gynnwys awdurdodau lleol, Fforymau Lleol Cymru Gydnerth, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn.

Drwy gynnal y rhaglen hon, mae Llywodraeth Cymru wedi ymgymryd â rôl newydd i reoli pob agwedd ar drefniadau cysylltu, cyrraedd, llety a gwasanaethau gofal cofleidiol, yn ogystal ag integreiddio'r bobl rydym yn eu cefnogi yn uniongyrchol o dan y cynllun uwch-noddwyr.

Nid oedd gwasanaethau na systemau yn bodoli eisoes y gellid adeiladu arnynt na'u cyflwyno ar raddfa fwy. Yn hytrach, mae'r system gyfan wedi cael ei chreu a'i rhoi ar waith ar yr un pryd. Hyd yma, rydym wedi croesawu mwy na 3,200 o bobl drwy'r llwybr uwch-noddwr. Mae hyn yn ychwanegol at tua 3,600 o bobl sydd wedi cyrraedd drwy gynllun noddi unigol Cartrefi i Wcráin. Mae hyn gryn dipyn yn uwch na'r niferoedd a ragwelwyd yn wreiddiol.

I ddechrau, oherwydd cyflymder yr ymateb i'r argyfwng, canolbwyntiodd y tîm ar sefydlu seilwaith cymorth er mwyn cynnig llety a chymorth i'r bobl a oedd yn cyrraedd o Wcráin. Gofynnwyd i ddau Brif Berchennog Cyfrifol o'r adran Cymunedau a Threchu Tlodi a'r adran Tai ac Adfywio arwain yr ymateb, a chrëwyd tîm craidd, a oedd yn cynnwys staff a oedd yn gwirfoddoli i helpu yn y lle cyntaf, i ddatblygu'r ymateb cychwynnol.

Dros amser, mae'r rhaglen wedi dod yn fwy sefydlog, gyda thîm sylweddol wedi'i sefydlu ar sail penodiadau am 12-18 mis yn y lle cyntaf. Mae'r tîm yn cynnwys Cyfarwyddwr penodedig (a Phrif Berchennog Cyfrifol) a phedwar Dirprwy Gyfarwyddwr a'u timau sy'n cwmpasu: Cynllunio Strategol, Ymgysylltu a Chyllid; Croeso Cychwynnol a Llety; Llety Trosiannol; ac Integreiddio a Chymorth.

Mae cryn dipyn o ddysgu drwy brofiad wedi digwydd drwy gydol y rhaglen, yn ogystal â hyfforddiant wedi'i deilwra er mwyn cefnogi staff o ran trawma mechnïol a materion yn ymwneud â GDPR y DU gan fod y tîm yn rhannu llawer o ddata personol o fewn Llywodraeth Cymru a rhwng rhanddeiliaid.

Yn 2022-23, gwnaethom sefydlu Canolfan Gyswllt o fewn awdurdod lleol gyda gweithlu a oedd yn swyddogion olrhain cysylltiadau gynt er mwyn darparu gwasanaeth 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos. Rôl y Ganolfan Gyswllt oedd helpu i gydgysylltu'r broses o symud pobl o Wcráin i Gymru a thracio eu taith er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd eu llety cychwynnol dynodedig yn ddiogel.

Dros amser, wrth i'r mewnlifiad arafu, mae ffocws gwaith y Ganolfan Gyswllt, ynghyd â gwaith y tîm ehangach, wedi newid er mwyn helpu gwesteion o Wcráin i symud i lety mwy hirdymor. Mae nodau a ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd y rhaglen, ac mae'r rhaglen ei hun yn enghraifft o Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Rydym wedi cyflwyno ymateb integredig sy'n seiliedig ar ddull Cymru ar y Cyd (ar draws Llywodraeth Cymru, Cymru gyfan, amlasiantaethol) mewn cydweithrediad â'n partneriaid strategol allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol a'r trydydd sector. Caiff atebion o ran polisi a gweithrediadau eu cydgynhyrchu a'u cyflawni gyda a thrwy'r partneriaid hyn ledled Cymru.

# Costau Byw



Mae'r Prif Weinidog wedi ei gwneud yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru liniaru'r effeithiau y mae'r argyfwng costau byw wedi'u cael ar lawer iawn o bobl ledled Cymru. Ers i'r argyfwng daro a chael ei flaenoriaethu gan Weinidogion, rydym wedi datblygu a chyflawni ymyriadau wedi'u targedu, yn ogystal â pharhau i gynnal amrywiaeth o gynlluniau sy'n helpu i liniaru'r effeithiau.

Ar ddechrau'r argyfwng, trefnwyd tair uwch-gynhadledd costau byw/tlodi er mwyn ymgysylltu â phartneriaid sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau ac ymyriadau yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector. Rydym wedi parhau i ymgysylltu â phartneriaid drwy gydol yr argyfwng, gan wrando ar eu safbwyntiau wrth ddatblygu ymyriadau a thrwy gydol y broses o'u rhoi ar waith.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu cyfanswm o £1.6 biliwn yn 2022-23 i ymyriadau sydd wedi cefnogi pobl yn ystod yr argyfwng costau byw. Mae'r ymyriadau hyn wedi cael eu cyflawni mewn nifer o adrannau ac roedd angen eu rhoi ar waith mewn ffordd gydgysylltiedig er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymaint o effaith â phosibl.

Roedd cynnydd i'r cyllidebau ar gyfer y Gronfa Cymorth Dewisol, Prydau Ysgol am Ddim a Chynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf yn golygu bod rhaid i swyddogion weithio gyda'n partneriaid i'w cyflawni ar raddfa fwy. O ganlyniad i hyn, cafodd 527,000 o bobl fudd o'r Gronfa Cymorth Dewisol, cafodd Prydau Ysgol am Ddim eu hymestyn i 55,000 yn rhagor o ddisgyblion, a chafodd mwy na 190,000 yn rhagor o aelwydydd fudd o Gynllun Cymorth Tanwydd y Gaeaf.

Rydym wedi helpu i ddatblygu partneriaethau bwyd traws-sector fel rhan o'n hymateb i'r cynnydd enfawr ym mhrisiau bwydydd hanfodol, gan gynnwys darparu cyllid ychwanegol. Mae'r rhain yn helpu i feithrin cydnerthedd

mewn rhwydweithiau bwyd lleol drwy gydgysylltu gweithgareddau ar lawr gwlad yn ymwneud â bwyd sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol tlodi bwyd.

Dywedodd partneriaid wrthym nad yw pobl bob amser yn ymwybodol o'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl i'w cael. Cyflwynwyd ymgyrch Yma i Helpu er mwyn helpu pobl i ddeall yr holl gymorth ariannol sydd ar gael iddynt, a chael gafael arno.

Rydym wedi cefnogi ein partneriaid drwy ddarparu cyllid ar gyfer hybiau/canolfannau clyd yn ystod gaeaf 2022-23. Mae dros 700 o ganolfannau clyd – mannau y gall pobl fynd iddynt yn eu cymuned leol i gadw'n gynnes yn ystod y dydd – wedi cael eu sefydlu ledled Cymru. Mae'r canolfannau hyn hefyd wedi cynnig cyfle i roi gwybod i bobl am y cymorth sydd ar gael iddynt a rhoi cymorth yn uniongyrchol ar lefel leol, ac rydym wedi cael adborth cadarnhaol yn rheolaidd gan randdeiliaid.

Er ei bod yn amhosibl gwarchod pawb yn llwyr rhag effeithiau'r cynnydd mewn prisiau, rydym wedi ymdrechu i'r eithaf i gefnogi pobl drwy ymyriadau a oedd eisoes yn bodoli, ymyriadau wedi'u rhoi ar waith ar raddfa fwy, ac ymyriadau newydd. Byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i gyflawni drwy gydweithio, o fewn y llywodraeth a thu hwnt.

## Astudiaeth Achos

### Prydau Ysgol am Ddim

Ym mis Tachwedd 2021, ymrwymodd y llywodraeth i ymestyn prydau ysgol am ddim i bob dysgwr ysgol gynradd. Nod yr ymyriad trosiannol hwn yw helpu i drechu tlodi a llwgu ymhlith plant, lleihau anghydraddoldebau iechyd, atgyfnerthu ein Heconomi Sylfaenol drwy roi mwy o fwyd o Gymru ar blât yn yr ysgol, a gwneud gwahaniaeth parhaol i fywydau pobl Cymru.

Drwy fabwysiadu dull 'Cymru ar y Cyd' yn y 22 awdurdod lleol ac mewn 1,278 o ysgolion a gynhelir, rhoddwyd cynlluniau ar waith i weithio tuag at gynnig pryd ysgol maethlon am ddim i 180,000 yn rhagor o blant erbyn 2024. Drwy weithio mewn partneriaeth ym mhob rhan o'r llywodraeth ac ar y cyd â'r cyhoedd a'r sector masnachol, lluniwyd cynigion ar gyfer dechrau cyflwyno'r cynnig yn gyflym. Dechreuodd hyn gyda'n dysgwyr ieuengaf yn gyntaf, yr oedd eu teuluoedd yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi incwm cymharol wrth i gostau byw barhau i godi.

Yn ystod y ddau dymor academaidd cyntaf, cafodd dros bum miliwn o brydau ychwanegol eu gweini i fwy nag 80,000 o blant a oedd newydd ddod yn gymwys. Cynigiwyd prydau ysgol am ddim i bob dysgwr Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 erbyn mis Ebrill 2023 – lai nag wyth mis ar ôl dechrau cyflwyno'r cynnig – a chaiff y cynnig hwn ei ehangu i'r mwyafrif o ddysgwyr ym Mlynyddoedd 3 a 4 erbyn mis Medi 2023, ac yna i Flynyddoedd 5 a 6 ym mis Ebrill 2024.

Mae'r ymdrech gyfunol hon wedi dangos sut y gall gweledigaeth a rennir, gyda'r partneriaid yn unedig ar draws ffiniau sefydliadol ac yn seiliedig ar nodau cyffredin, arwain at ganlyniadau aruthrol mewn cyfnod cymharol fyr.

# Yr Agenda Ddigidol



Yn ystod 2022-23, gwnaethom barhau i wneud cynnydd o ran datblygu'r agenda ddigidol o fewn chwe maes cenhadaeth y Strategaeth Ddigidol i Gymru.

Atgyfnerthwyd yr ecosystem arweinyddiaeth ddigidol drwy benodi Prif Swyddog Digidol newydd ar gyfer Iechyd a Gofal ym mis Ionawr 2023. Mae Prif Weithredwr y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol a Phrif Swyddogion Digidol Llywodraeth Cymru, Llywodraeth Leol ac Iechyd a Gofal yn cydweithio'n agos â'i gilydd i bennu blaenoriaethau ac arwain y sector cyhoeddus o ran mabwysiadu egwyddorion digidol cydweithio, bod yn agored a dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr.

Eleni, rhoddwyd yr egwyddorion hyn ar waith wrth ymateb drwy'r sector cyhoeddus cyfan i heriau'r argyfwng yn Wcráin a'r argyfwng costau byw. Am ein bod wedi gosod y sylfeini ar gyfer dull o weithio mewn partneriaeth ym maes digidol a data yn ystod pandemig COVID-19, bu modd inni adeiladu ar hyn yn gyflym i gyflawni ymrwymiadau Llywodraeth Cymru a sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn.

Er mwyn cefnogi rhaglen Cymru: Cenedl Noddfa, gwnaethom ddatblygu gwasanaethau digidol yn gyflym er mwyn casglu cynigion o gymorth a llety ynghyd gan fusnesau a phobl Cymru ar gyfer y bobl a oedd yn ffoi rhag y rhyfel. Gwnaethom hefyd weithio mewn partneriaeth â busnesau a sefydliadau'r sector cyhoeddus ledled Cymru i ddatblygu gwasanaethau ar gyfer asiantaethau allweddol sy'n cefnogi pobl o Wcráin yng Nghymru.

Mae'r gwasanaethau hyn wedi bod yn amhrisiadwy o ran sicrhau y caiff data eu rhannu'n ddiogel ac yn foesegol rhwng Llywodraeth Cymru, Canolfannau Croeso, y Ganolfan Gyswllt, awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Yn y pen draw, sicrhaodd hyn y gallai pobl o Wcráin gael gafael ar wasanaethau cymorth cofleidiol allweddol a dod o hyd i lety diogel yma.

Hefyd, bu'r Prif Swyddogion Digidol yn gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi gwasanaethau cyhoeddus yn eu hymateb i'r argyfwng costau byw. Gwnaeth Fforwm Gwasanaethau Cyhoeddus ar Rannu Data ym mis Rhagfyr 2022 annog gwasanaethau cyhoeddus i rannu data â'i gilydd. Nod y digwyddiad oedd codi proffil rhannu data, ac roedd yn amlinellu sut y gallai hynny helpu yn ystod yr argyfwng costau byw.

Hefyd, aeth ati i chwalu rhai mythau ynglŷn â'r camsyniad na allai data gael eu rhannu. I ategu hyn, arweiniodd y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol ddull Cymru gyfan o ddatblygu cynnwys cyson a hygyrch ar gyfer gwefannau er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr, gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, a dangos gwerth cynnwys dwyieithog gwell.

Yn ehangach, gweithiodd y Ganolfan ochr yn ochr ag amrywiaeth o sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus i gefnogi dylunio sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr fel rhan o raglenni mawr sy'n gweddnewid megis system ddigidol newydd Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar gyfer gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru gyfan. Hefyd, cynhaliodd y Ganolfan ymarfer darganfod er mwyn archwilio sut y gallai systemau digidol a thechnoleg yn y sector cyhoeddus gyfrannu at gyrraedd ein targedau o ran allyriadau carbon sero net yng Nghymru.

Ym maes sgiliau, arweiniodd y Ganolfan ddarn o waith gydag amrywiaeth o wasanaethau cyhoeddus yn archwilio sut i ddenu, recriwtio a chadw pobl â sgiliau digidol yn y sector cyhoeddus yng Nghymru. Rhannwyd syniadau ac atebion ar gyfer mynd i'r afael â'r her sy'n gysylltiedig â phrinder sgiliau digidol drwy weminarau, blogiau ac adnoddau a thempledi recriwtio.

Gwnaeth rhaglen Newid, a gynhelir gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC), Cwmpas a ProMo-Cymru, ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru, gydgysylltu â gwaith y Ganolfan drwy ganfod anghenion o ran sgiliau digidol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae Newid yn gobeithio cefnogi trawsnewidiad digidol gwasanaethau cyhoeddus drwy feithrin diwylliant digidol yn y trydydd sector yng Nghymru.

Cafodd ein platfform geo-ofodol MapDataCymru ei roi ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Data a Thechnoleg y Gwasanaeth Sifil, daeth yn wasanaeth byw ac mae wedi tyfu'n organig gyda niferoedd cynyddol o setiau data'n cael eu hychwanegu i'w hailddefnyddio mewn ffordd agored a hygyrch. Er enghraifft, symudodd Cyfoeth Naturiol Cymru ei ddata i blatfform MapDataCymru eleni ac mae data ar adnoddau ecolegol, coedwigaeth a dŵr ar gael o dan Drwydded Llywodraeth Agored.

Mae gwybodaeth am weithgareddau cynhwysiant digidol ledled Cymru wedi cael ei hychwanegu at blatfform MapDataCymru fel bod modd mapio a chyfeirio at wasanaethau sy'n helpu pobl i fynd ar-lein. Mae MapDataCymru yn cael ei ddefnyddio ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus i ategu polisïau allweddol megis darparu mapiau rhyngweithiol i bob awdurdod lleol ar gyfer terfynau cyflymder diofyn o 20mya a theithio llesol.

Yn ystod y flwyddyn hon, comisiynodd Llywodraeth Cymru waith ymchwil ar yr hyn roedd ei angen ar bobl i gael eu cynnwys yn ddigidol yng Nghymru. Roedd adroddiad Safon Ofynnol ar gyfer Bywyd Digidol (MDLS), a gyhoeddwyd ar ddechrau 2023, yn nodi cyfres o fesurau y bydd angen eu rhoi ar waith er mwyn i deuluoedd gael eu cynnwys yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys y math o ddyfais, cyflymder band eang a/neu ddata symudol a'r sgiliau digidol sylfaenol y mae pobl yn ystyried eu bod yn angenrheidiol er mwyn gallu ymwneud yn hyderus â thechnoleg ddigidol.

Dechreuodd ail gam y gwaith ymchwil edrych ar effaith Safon Ofynnol bosibl ar gyfer Bywyd Digidol ar wahanol grwpiau demograffig.

Ym maes addysg, parhaodd Rhaglen Hwb i chwarae rôl hollbwysig drwy roi mynediad i ddysgwyr ac ymarferwyr at gynnwys a gwasanaethau digidol. Parhaodd ysgolion i groesawu'r Cwricwlwm i Gymru a dangosodd canlyniad ymarferion aeddfedrwydd digidol a gynhaliwyd ar y cyd ag Estyn gynnydd mesuradwy yn y sylfeini a'r galluoedd technegol o fewn ysgolion ac awdurdodau lleol.

Lansiwyd cymhwyster Safon Uwch newydd mewn Technoleg Ddigidol ym mis Medi 2022, ar ôl i gymhwyster TGAU newydd mewn Technoleg Ddigidol gael ei gyflwyno yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae'r cymwysterau newydd hyn yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u sgiliau ymarferol ym maes technolegau digidol, gan eu helpu i gamu ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth.

Mae sgiliau digidol yn dod yn rhan fwyfwy annatod o bob sector, ac mae mwy o alw ar bob math o ddiwydiant i fabwysiadu arloesedd digidol. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig hyfforddiant ar sgiliau digidol drwy raglenni cyflogadwyedd a sgiliau, gan gynnwys y Rhaglen Sgiliau Hyblyg. Gwnaethom hefyd ehangu rhaglen y Cyfrif Dysgu Personol i gynnwys cyllid sy'n targedu sgiliau yn y sector digidol sy'n cwmpasu cyllid ar gyfer amrywiaeth o gyrsiau digidol i bobl.

Mae gweithgarwch i ddatblygu ecosystem ffyniannus o arbenigedd masnachol ac academaidd ac ysgogi arloesedd digidol mewn technolegau sy'n datblygu ledled Cymru wedi parhau. Caiff yr Hyb Arloesedd Seiber, a gyhoeddwyd eleni, ei arwain gan Brifysgol Caerdydd a'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid mewn diwydiant. Bydd yn creu cyflenwad o gynhyrchion a thalent fedrus ym maes seiberddiogelwch. Gwnaethom hefyd lansio Cyd, sef ein Canolfan Ragoriaeth Caffael, sy'n helpu gweithwyr proffesiynol a busnesau ym maes caffael i gydweithio â'i gilydd yn well, gwella sgiliau a lledaenu arferion da.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod mai seilwaith cyflym a dibynadwy yw ein sylfaen ar gyfer datblygu cysylltedd digidol er mwyn cefnogi popeth a wnawn yn ddigidol. Yn 2022-23, gwnaethom barhau i gyflwyno band eang ffeibr llawn gydag Openreach. Cafodd Lot 1 y broses gyflwyno ei chwblhau ar ddiwedd mis Mawrth 2023 ac rydym yn rhag-weld y bydd tua 42,000 o gartrefi a busnesau wedi gallu cael cysylltiad band eang cyflym a dibynadwy pan fydd Lotiau 2 a 3 wedi'u cwblhau ym mis Mehefin 2023.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru hefyd sefydlu Tasglu Chwalu Rhwystrau i archwilio rhwystrau posibl rhag gosod seilwaith digidol yng Nghymru. Bu'r tasglu'n cydweithio â'r sector cyhoeddus, y diwydiant telathrebu a'r rheoleiddiwr telathrebu, gan bennu 22 o gamau gweithredu i ddatrys neu leihau rhwystrau a, thrwy hynny, wella'r ffordd y caiff seilwaith digidol ei gyflawni, gan gynnwys cysylltedd ffôn symudol a band eang sefydlog i gartrefi a busnesau, a hynny'n gyflym.

# Rheoli ein Rhaglen Ddeddfwriaethol



Mae rheoli gwaith ar weithgareddau deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn brif ffocws i'r sefydliad. Mae cryn dipyn o sylw hefyd wedi cael ei roi i ymateb i raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth Sylfaenol

Gwnaeth y Prif Weinidog Ddatganiad i'r Senedd ym mis Gorffennaf 2022[44] yn nodi blaenoriaethau deddfwriaethol y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn i ddod. Yn ystod y cyfnod y mae'r cyfrifon hyn yn ymwneud ag ef, mae dau Fil wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ac mae'r Senedd wedi cytuno ar ddau Fil:

### Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)

Cafodd Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022 ac mae'n darparu ar gyfer sefydlu Comisiwn newydd ar gyfer Addysg Drydyddol ac Ymchwil. Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil fydd y corff rheoleiddio fydd yn gyfrifol am gyllido, goruchwylio a rheoleiddio addysg drydyddol ac ymchwil yng Nghymru.

44 www.llyw.cymru/datganiad-llafar-y-rhaglen-ddeddfwriaethol-6

Mae addysg drydyddol yn cwmpasu addysg ôl-16 gan gynnwys addysg bellach ac addysg uwch, dysgu oedolion yn y gymuned ac addysg seiliedig ar waith, prentisiaethau a dosbarthiadau chweched dosbarth ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol.

## Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)

Cafodd Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) y Cydsyniad Brenhinol ar 8 Medi 2022 a bydd yn cyflwyno pŵer i'w gwneud yn bosibl i elfennau penodol o ddeddfwriaeth trethi yng Nghymru gael eu diwygio yn y dyfodol, pan fydd angen. Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru er mwyn iddynt allu addasu Deddfau Trethi Cymru (ac is-ddeddfwriaeth a wnaed o dan y deddfau hynny) o dan amgylchiadau penodol. Bydd y pŵer hwn i wneud rheoliadau yn ddarostyngedig i weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed', yn dibynnu ar faint o frys sydd i gyflwyno'r rheoliadau.

## Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru)

Cytunodd y Senedd ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) ar 14 Mawrth a daeth yn Ddeddf ar 24 Mai ar ôl cael y Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf hon yn darparu ar gyfer fframwaith i wella llesiant pobl Cymru drwy wella gwasanaethau cyhoeddus drwy weithio mewn partneriaeth gymdeithasol, gan atgyfnerthu llais gweithwyr wrth ddarparu gwasanaethau allweddol.

Y Ddeddf yw penllanw gwaith ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â phartneriaid cymdeithasol a rhanddeiliaid eraill a bydd ei rhoi ar waith yn cael effaith bellgyrhaeddol ar wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r Ddeddf yn creu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i Gymru a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weinidog ac a fydd yn cynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr a gweithwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae hefyd yn gosod dyletswyddau partneriaeth gymdeithasol newydd ar gyrff cyhoeddus gan gynnwys Gweinidogion Cymru, ac yn diwygio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i gyfeirio at waith teg. Yn ogystal, bydd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru gaffael mewn modd sy'n gyfrifol yn gymdeithasol.

## Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cydgrynhoi) (Cymru)

Cytunodd y Senedd ar Fil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) ar 28 Mawrth 2023. Hwn yw'r Bil cydgrynhoi cyntaf a gyflwynwyd fel rhan o raglen pum mlynedd gyntaf Llywodraeth Cymru i wneud cyfraith Cymru yn fwy hygyrch. Mae'r darn hanesyddol hwn o ddeddfwriaeth yn darparu cyfraith gwbl ddwyieithog, drefnus a hygyrch ar gyfer diogelu a rheoli ein hamgylchedd hanesyddol yn effeithiol fel y gall barhau i gyfrannu at lesiant Cymru a'i phobl.

Mae'r Llywodraeth hefyd wedi cyflwyno pedwar Bil arall i'r Senedd:

## Bil Amaethyddiaeth (Cymru)

Mae'r Bil Amaethyddiaeth (Cymru) yn darparu ar gyfer Rheoli Tir yn Gynaliadwy a rhoi cymorth ar gyfer amaethyddiaeth neu mewn perthynas ag amaethyddiaeth yng Nghymru. Mae'n galluogi Gweinidogion Cymru i barhau i wneud taliadau cymorth amaethyddol i ffermwyr yn ystod cyfnod pontio ac mae'n diwygio Deddf Daliadau Amaethyddol 1986 er mwyn cynnig ffordd o ddatrys anghydfod i denantiaid dan amgylchiadau penodol.

Bydd y Bil yn disodli'r pwerau am gyfnod penodol a gymerwyd ar gyfer Gweinidogion Cymru yn Neddf Amaethyddiaeth 2020 a ddaw i ben ym mis Rhagfyr 2024, a bydd yn newid Deddf Coedwigaeth 1967 i roi'r pŵer i Cyfoeth Naturiol Cymru i ychwanegu amodau ar gyfer diwygio, atal neu ddirymu trwyddedau cwympo coed er mwyn atal cwympo coed a fyddai'n groes i ddeddfwriaeth amgylcheddol arall. Mae'r Bil hefyd yn cynnwys gwaharddiad ar Faglau a Thrapiau Glud.

## Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru)

Bydd Bil Diogelu'r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd i berson gyflenwi neu gynnig cyflenwi (gan gynnwys yn rhad ac am ddim) fathau penodol o gynhyrchion plastig untro diangen sy'n aml yn cael eu taflu fel sbwriel a restrir yn yr atodlen i'r Bil, i ddefnyddiwr yng Nghymru.

## Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer cyflwyno is-ddeddfwriaeth fel bod modd cyflwyno cyfundrefn gaffael bwrpasol a fydd yn gymwys i wasanaethau iechyd GIG Cymru.

## Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

Mae'r Bil yn cynnig darparu fframwaith ar gyfer pennu targedau ansawdd aer cenedlaethol a diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol mewn perthynas â'r strategaeth ansawdd aer genedlaethol; rheoli ansawdd aer yn lleol; rheoli mwg; parthau aer glân/parthau allyriadau isel a cherbydau sy'n segura. Bydd hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i godi ymwybyddiaeth o lygredd aer a chyhoeddi strategaeth seinwedd genedlaethol.

Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Llywodraeth wedi gwneud cryn dipyn o waith ar y blaenoriaethau a nodwyd yng nghyhoeddiad y Prif Weinidog ac wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran yr ymrwymiadau eraill hynny yn y Rhaglen Lywodraethu y bydd angen cyflwyno deddfwriaeth sylfaenol er mwyn eu cyflawni yn ystod tymor y chweched Senedd. Mae hyn yn cynnwys:

## Diogelwch Tomenni Glo – Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn

Ym mis Mai 2022, cyhoeddodd y Gweinidog Newid Hinsawdd ymgynghoriad a oedd yn ceisio barn pobl ar gynigion ar gyfer cyfundrefn statudol newydd ar gyfer rheoli tomenni glo nas defnyddir. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Awst 2022.

## Gofal cymdeithasol a gofal iechyd parhaus – Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn

Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghoriad ym mis Awst 2022 a oedd yn ceisio barn pobl ar newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Tachwedd 2022.

### Gweinyddu a Diwygio Etholiadol – Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol Bapur Gwyn er mwyn ymgynghori ar gynigion manwl ar gyfer moderneiddio trefniadau gweinyddu etholiadol yng Nghymru. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2023.

### Bil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) – Ymgynghoriad ar Fil Drafft

Ym mis Hydref 2022, cyhoeddodd y Cwnsler Cyffredinol ymgynghoriad ar ddrafft o Fil Cyfraith Statud (Diddymiadau) (Cymru) a oedd yn ceisio barn pobl ar fil sydd â'r nod o wneud cyfraith Cymru'n fwy hygyrch. Daeth yr ymgynghoriad i ben ym mis Ionawr 2023.

### Bil Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Cymru) – Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn

Nododd y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd gynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer deddfwriaeth i foderneiddio'r sector tacsis a cherbydau hurio preifat a mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â chroesi ffiniau mewn Papur Gwyn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2023.

### Addysg Gymraeg – Ymgynghoriad ar Bapur Gwyn

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg ymgynghoriad ar gynigion a fydd yn sail ar gyfer Bil Addysg Gymraeg ym mis Mawrth 2023. Bydd y Bil yn cymryd camau i alluogi pob disgybl yng Nghymru i ddod yn siaradwyr Cymraeg hyderus drwy'r system addysg statudol.

## Is-ddeddfwriaeth

Mae cryn dipyn o is-ddeddfwriaeth i Gymru wedi cael ei pharatoi a'i gwneud yn ystod y cyfnod hwn. Hefyd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno rhaglenni o is-ddeddfwriaeth er mwyn cyflawni blaenoriaethau allweddol eraill, gan gynnwys gweithredu Deddfau Senedd Cymru. Mae hyn yn cynnwys is-ddeddfwriaeth i weithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys is-ddeddfwriaeth sy'n angenrheidiol er mwyn gweithredu Deddfau Llywodraeth y DU.

## Deddfwriaeth y DU

Mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i ymateb i gryn nifer o Filiau Seneddol y DU gan wneud darpariaeth mewn meysydd datganoledig. Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, gosododd Llywodraeth Cymru femoranda cydsyniad deddfwriaethol gerbron y Senedd a chyflwynodd gynigion cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â 18 o filiau.

Drwy gydol y cyfnod hwn, roedd y Biliau hynny, gyda'i gilydd, yn destun 21 o femoranda cydsyniad deddfwriaethol atodol i wahanol raddau, megis y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio) a gafodd bedwar memorandwm cydsyniad deddfwriaethol yn dilyn y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol gwreiddiol.

# Rheoli'r Trefniadau Pontio Ewropeaidd




Mae sawl maes gwaith wedi dod yn rhan o weithgareddau rheolaidd ers i'r DU ymadael â'r UE, y mae Llywodraeth Cymru bellach yn eu rheoli'n barhaol. Ymhlith y rhain mae materion megis cymryd rhan mewn Fframweithiau Cyffredin ar gyfer y DU gyfan, cyfrannu at drefniadau marchnad fewnol y DU a chyfrannu at lywodraethu'r Cytundeb Masnach a Chydweithredu rhwng y DU a'r UE.


Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o waith ar faterion sy'n codi o Gytundeb Ymadael y DU â'r UE, megis buddiannau gwladolion o'r UE/AEE/y Swistir sy'n byw yng Nghymru ac sy'n dymuno aros yma, a Phrotocol Gogledd Iwerddon. Yn ogystal, bu'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud gwaith i fynd i'r afael â goblygiadau Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) Llywodraeth y DU.

Ar y cyd â llywodraethau eraill yn y DU, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn datblygu polisi ynghylch mewnforion a rheolaethau'r ffin, a arweiniodd at greu Model Gweithredu Targed y Ffin[45], y cytunwyd arno ar y cyd ac a gyhoeddwyd gan Lywodraeth y DU ar 29 Awst 2023.

Bydd y newidiadau deddfwriaethol gofynnol yn dilyn a dylai'r rheolaethau newydd gael eu rhoi ar waith fesul cam yn ystod 2023-24 a 2024-25. I baratoi ar gyfer hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi parhau i weithio ar ddylunio Safle Rheolaethau'r Ffin yng Nghaergybi, a chydgysylltu â Llywodraeth y DU ynghylch y gofynion, ac mae ein contractwr wedi gwneud rhywfaint o waith i baratoi'r safle.

45 www.gov.uk/government/publications/the-border-target-operating-model-draft-for-feedback

# Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru



Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru yw un o'r prif ddulliau a ddefnyddir i fonitro perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Nod y Fframwaith Perfformiad yw sbarduno gwelliannau yn effeithiolrwydd sefydliadol Gwasanaeth Sifil Cymru drwy ganolbwyntio ar berfformiad gweithredol a chyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Parhaol mewn perthynas â rhedeg y sefydliad.

Cyflwynir adroddiad ar berfformiad yn erbyn y fframwaith ddwywaith y flwyddyn i Fwrdd Llywodraeth Cymru. Cwblhawyd y trydydd cylch adrodd blynyddol yn 2022-23.


## Datblygu'r Fframwaith Perfformiad

Datblygwyd y Fframwaith gan ddefnyddio'r Mynegai Effeithiolrwydd Gwasanaeth Sifil Rhyngwladol (InCiSE) ac mae ei sail wedi cael ei haddasu er mwyn cyd-fynd â strategaethau, blaenoriaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru drwy ymgynghori â'r Bwrdd, uwch-reolwyr ac ymchwilwyr.

Caiff y Fframwaith ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gyson â strategaethau Llywodraeth Cymru, a chafodd ei ddiweddaru'n ddiweddar i adlewyrchu Llywodraeth Cymru 2025, gwerthoedd Llywodraeth Cymru, a'n dull sy'n datblygu ar gyfer cyflawni prosiectau. Erbyn hyn, mae'n cynnwys 23 o themâu sydd wedi'u rhannu'n ddau grŵp – swyddogaethau ('beth rydym yn ei wneud') a phriodoleddau ('sut rydym yn ei wneud'). Mae dwy thema (Datblygu Polisïau a Chyngor a Chyflawni Prosiectau) yn dal i gael eu datblygu, ac rydym yn disgwyl bod mewn sefyllfa i adrodd ar y rhain yn ystod cylch adrodd 2023-24.

Mae'r Fframwaith Perfformiad yn adrodd ar amrywiaeth eang iawn o fesurau mewn perthynas â'r holl weithgareddau a gynhelir o fewn Llywodraeth Cymru ac sy'n adlewyrchu Llywodraeth Cymru fel sefydliad. Nid targedau yw'r dangosyddion sydd wedi'u cynnwys, ond maent yn rhoi cipolwg eang ar berfformiad ym mhob rhan o'r sefydliad ac yn galluogi'r bwrdd i drafod unrhyw dueddiadau a newidiadau mewn lefelau perfformiad. Mae'r Fframwaith wedi parhau i ddatblygu ers iddo gael ei gyflwyno ac, fel rhan o'r gwaith parhaus i'w ddatblygu, byddwn yn edrych ar y metrigau sy'n cael eu defnyddio a sut y gallwn eu defnyddio i ysgogi gwelliant mewn perfformiad yn fwy effeithiol. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y defnydd o dargedau a dadansoddi tueddiadau.

# Fframwaith Perfformiad Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru



## Defnyddio'r Fframwaith Perfformiad

Dadansoddwyr Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r Fframwaith ac yn adrodd arno, gan roi asesiad annibynnol o berfformiad.


Mae dwy lefel lywodraethiant i'r Fframwaith Perfformiad:


- Mae perchnogion busnes wedi cael eu penodi ar gyfer pob un o themâu'r Fframwaith. Mae ganddynt drosolwg strategol dros eu meysydd, lle maent yn gyfrifol am roi gwybodaeth am berfformiad ar gyfer gwaith craffu ac er mwyn ysgogi gwelliannau yn eu meysydd.
- Mae'r Bwrdd a'i Bwyllgorau Gweithredol yn cyflawni rôl allweddol drwy graffu ar yr adroddiadau perfformiad a gaiff eu paratoi ar y Fframwaith, ac yn cyflwyno meysydd ar gyfer gwella i'r perchnogion busnes perthnasol weithredu arnynt.

## Cyflwyno adroddiad ar y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau

Roedd adroddiad cyntaf cylch 2022-23 yn canolbwyntio'n benodol ar y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau ac fe'i trafodwyd gan y Pwyllgor Gweithredol ym mis Mai 2023, cyn i'r Bwrdd roi sicrwydd pellach ym mis Gorffennaf 2023.

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o'r mesurau ar gyfer y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau (y rhai sydd fwyaf cynrychioliadol) a lywiodd y drafodaeth.

| **Thema Priodoledd** | **Mesur** | **Ffynhonnell** | **Sgôr Gyfredol** | **Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Proffesiynoldeb<br> | Canran y staff sy'n cytuno eu bod yn deall Cod y Gwasanaeth Sifil a'r hyn y mae'n ei olygu o ran eu hymddygiad | Yr Arolwg Pobl | 93%<br>(Hydref 2022) | 95%<br>(Hydref 2021) | Amh. |
| Tegwch<br> | Sgôr thema Cynhwysiant a Thriniaeth Deg | Yr Arolwg Pobl | 84%<br>(Hydref 2022) | 85%<br>(Hydref 2021) | 86%<br>(Hydref 2020) |

| Thema Priodoledd | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr Gyfredol | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|
| Partneriaeth  | Canran y staff sy'n cytuno eu bod, lle y maent yn gweithio, yn ystyried cydweithio â rhanddeiliaid allanol yn rheolaidd | Arolwg pwls Llywodraeth Cymru | 77% (Medi 2021) | 75% (Mawrth 2020) | Amh. |
| Creadigrwydd[i]  | Canran y staff sy'n cytuno bod eu tîm yn cael ei annog i gynnig ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau | Yr Arolwg Pobl | 79% (Hydref 2022) | 81% (Hydref 2021) | 81% (Hydref 2020) |
| Ffyrdd Cynaliadwy o Weithio   | Sgôr mynegai'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy[ii] | Arolwg pwls Llywodraeth Cymru | 77%[iii] (Medi 2021) | 72% (Mawrth 2020) | Amh. |
| Bod yn agored  | Canran y ceisiadau am wybodaeth a gwblhawyd yn unol â'r terfyn amser statudol | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 83% (Blwyddyn galendr 2021) | 80% (Blwyddyn galendr 2020) | 89% (Blwyddyn galendr 2019) |
| Galluoedd  | Canran y staff sy'n cytuno bod gweithgareddau dysgu a datblygu a gwblhawyd ganddynt yn ystod y 12 mis diwethaf wedi helpu i wella eu perfformiad | Yr Arolwg Pobl | 47% (Hydref 2022) | 47% (Hydref 2021) | 46% (Hydref 2020) |

| Thema Priodoledd | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr Gyfredol | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cydraddoldeb a Chynhwysiant  | Canran y staff sy'n uniaethu â bod yn rhan o grŵp cydraddoldeb | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 3.0%<br>Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br><br>6.2%<br>Anabl<br><br>4.0%<br>Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br><br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | 2.8%<br>Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br><br>5.9%<br>Anabl<br><br>3.6%<br>Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br><br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | 2.6%<br>Pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol<br><br>5.8%<br>Anabl<br><br>3.3%<br>Cyfeiriadedd rhywiol lleiafrifol<br><br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |
| Ymgysylltu â'r Staff  | Sgôr Mynegai Ymgysylltu â Chyflogeion | Yr Arolwg Pobl | 65%<br>(Hydref 2022) | 68%<br>(Hydref 2021) | 69%<br>(Hydref 2020) |
| Y Gymraeg   | Nifer y cwynion sy'n ymwneud â Safonau Darparu Gwasanaeth Cymraeg | Adroddiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg | 32 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22 | 26 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) | 24 o gwynion<br>(Blwyddyn ariannol 2019-20) |

i. 'Arloesedd' oedd enw'r thema hon o'r blaen, ac mae wedi cael ei hailenwi er mwyn cyfateb i werthoedd Llywodraeth Cymru.

ii. Y sgôr mynegai yw cyfartaledd yr ymatebion cadarnhaol (cytuno neu gytuno'n gryf) ar draws pum cwestiwn sy'n casglu barn staff Llywodraeth Cymru am ba mor rheolaidd y maent yn credu y gallant roi Egwyddor Datblygu Cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (pum ffordd o weithio) ar waith.

iii. Credir mai'r rheswm dros y cynnydd yn y sgôr mynegai dros amser yw'r ffaith bod y pum ffordd o weithio wedi cael eu gwreiddio yn arferion gweithio Llywodraeth Cymru.

Mae'r mwyafrif o'r dangosyddion o fewn y themâu sy'n ymwneud â phriodoleddau yn seiliedig ar agweddau staff a gasglwyd drwy arolygon megis Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil ac Arolygon Pwls Llywodraeth Cymru. Dros y ddwy flynedd diwethaf, bu gostyngiad mewn llawer o sgoriau Arolwg Pobl Llywodraeth Cymru. Gwnaeth hyn wrth-droi'r cynnydd mawr a welwyd yn y sgoriau hyn ym mis Hydref 2020, tua'r un adeg â'r ymateb i'r pandemig – sef tuedd a welwyd yng Ngwasanaeth Sifil ehangach y DU hefyd. I Lywodraeth Cymru a'r Gwasanaeth Sifil yn fwy cyffredinol, mae'r sgoriau bellach yn fwy cyson â'r lefelau cyn y pandemig.

Mewn cyferbyniad â hynny, cafodd ymateb y sefydliad i'r pandemig effaith negyddol ar rai metrigau, er enghraifft mewn perthynas â phrydlondeb ymatebion i geisiadau am wybodaeth. Dengys data mwy diweddar fod perfformiad wedi gwella tuag at y lefelau a welwyd cyn y pandemig.

Trafododd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd y mesurau trosolwg uchod yn ogystal â'r Fframwaith ehangach, a thynnwyd sylw at y meysydd canlynol fel rhai pwysig y dylid canolbwyntio arnynt:

- Dysgu a datblygu, a oedd yn parhau i gael sgôr isel o gymharu â meincnod y Gwasanaeth Sifil ac a oedd eisoes wedi cael ei nodi fel maes gweithredu allweddol o'r Arolwg Pobl. Yma, mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu ein dull gweithredu mewn perthynas â dysgu a datblygu ymhellach, gan ddefnyddio technegau arloesol a gwella galluogrwydd arwain.
- Cynrychiolaeth annigonol o grwpiau cydraddoldeb yn y gweithlu. Yma, gwnaethant nodi'r cynnydd a oedd wedi cael ei wneud hyd yma a'r ffaith bod cynllun cyflawni Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant 2023 yn cynnwys amrywiaeth o gamau gweithredu sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth, chwalu rhwystrau a helpu staff o bob cefndir i gyrraedd eu potensial.
- Ymatebion prydlon i geisiadau am wybodaeth a'r angen i barhau i wneud cynnydd yn y maes hwn. Gwnaethant dynnu sylw at y newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i'r ffordd y caiff ceisiadau am wybodaeth eu rheoli ym mhob rhan o'r sefydliad, a bod cynnydd yn cael ei fonitro ar lefel gorfforaethol.
- Uchelgais i adeiladau ar ein perfformiad da presennol mewn perthynas â chreadigrwydd.
- Pwysleisiwyd pwysigrwydd monitro'n effeithiol y ffordd y caiff gwerthoedd newydd Llywodraeth Cymru eu gwreiddio a'n strategaeth Llywodraeth Cymru 2025 hefyd.

## Cyflwyno Adroddiad ar themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau

Cafodd y Pwyllgor Gweithredol yr ail adroddiad ar themâu sy'n ymwneud â swyddogaethau ym mis Mehefin 2023, a chraffodd y Bwrdd arno ymhellach ym mis Gorffennaf 2023.

Mae'r tabl yn dangos y mesurau trosolwg a drafodwyd.

| Thema swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rheolaeth Gyllidol ac Ariannol | Adnoddau Cyllidol a Chyfalaf Cyffredinol – amrywiant canrannol rhwng y gyllideb a'r alldro | Adroddiad ar Alldro Llywodraeth Cymru | Caiff y ffigurau hyn eu cyhoeddi yn Adroddiad ar Alldro 2022-23 Llywodraeth Cymru – gweler tudalen 189 am ragor o fanylion | Adnoddau Cyllidol – tanwariant o 1.14%<br>Cyfalaf Cyffredinol – gorwariant o 0.17%<br>(Ebrill 2021-Mawrth 2022) | Adnoddau Cyllidol – tanwariant o 1.07%<br>Cyfalaf Cyffredinol – gorwariant o 5.27%<br>(Ebrill 2020-Mawrth 2021) |
| Cydnerthedd, Cynllunio Wrth Gefn ac Ymateb | Cyfanswm y diwrnodau roedd Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau Cymru ac Ymateb Cyntaf yn gweithredu | Data gweinyddol<br>Llywodraeth Cymru | Canolfan Cydgysylltu Argyfyngau (Cymru) – 0 diwrnod<br>Ymateb Cyntaf – 231 diwrnod<br>(Ebrill 2022-Mawrth 2023) | Amh. | Amh. |
| Deddfwriaeth | Biliau a gyhoeddwyd ac a gyflwynwyd yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol | Data gweinyddol Deddfwriaeth | Cyhoeddwyd pum Bil a chyflwynwyd pedwar Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol.<br>(Gorffennaf 2022-Gorffennaf 2023) | Cyhoeddwyd pum Bil a chyflwynwyd pedwar Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol.<br>(Gorffennaf 2021-Gorffennaf 2022) | Cyhoeddwyd saith Bil a chyflwynwyd pum Bil yn ystod y flwyddyn ddeddfwriaethol.<br>(Gorffennaf 2019-Gorffennaf 2020) |
| Caffael | Canran y gwariant dylanwadwy a enillwyd yn uniongyrchol gan fusnesau yng Nghymru, gan gynnwys BBaChau | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 51%<br>(Blwyddyn ariannol 2022-23) | 51%<br>(Blwyddyn ariannol 2021-22) | 44%<br>(Blwyddyn ariannol 2020-21) |

| Thema swyddogaeth | Mesur | Ffynhonnell | Sgôr | Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol | |
|---|---|---|---|---|---|
| Grantiau | Nifer yr ymholiadau yr ymdriniodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau â nhw | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 2300 o ymholiadau (Blwyddyn ariannol 2022-23) | 2267 o ymholiadau (Blwyddyn ariannol 2021-22) | 2650 o ymholiadau (Blwyddyn ariannol 2020-21) |
| Digidol, Data a Thechnoleg i Swyddogion | Canran y staff sy'n cytuno bod y dechnoleg a ddarperir gan y sefydliad yn eu galluogi i gysylltu a chydweithio â chydweithwyr yn hawdd | Yr Arolwg Pobl | 91% (Hydref 2022) | 94% (Hydref 2021) | 94% (Hydref 2020) |
| Gweithlu | Canfyddiadau'r staff bod y sgyrsiau un i un a gânt â'u rheolwyr yn eu helpu i gyflawni eu potensial llawn | Yr Arolwg Pobl | 68% (Hydref 2022) | 68% (Hydref 2021) | 65% (Mawrth 2021) |
| Cyllid Mewnol | Canran y taliadau a wnaed o fewn 10 diwrnod i dderbyn anfoneb | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 93% (Blwyddyn ariannol 2022-23) | 95% (Blwyddyn ariannol 2021-22) | 96% (Blwyddyn ariannol 2020-21) |
| Rheoli'r Gweithle a Chyfleusterau | Cyfanswm allyriadau carbon ystad weinyddol Llywodraeth Cymru | Adroddiad ar Gyflwr yr Ystad | 3000 o dunelli (Blwyddyn ariannol 2021-22) | 3713 o dunelli (Blwyddyn ariannol 2021-22) | 4236 o dunelli (Blwyddyn ariannol 2021-22) |

| **Thema swyddogaeth** | **Mesur** | **Ffynhonnell** | **Sgôr** | **Sgoriau ar gyfer Cyfnodau Blaenorol** | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Digidol i Ddinasyddion  | Nifer y gwasanaethau digidol rhyngweithiol sydd ar gael i'r dinesydd | Data gweinyddol Llywodraeth Cymru | 56 o wasanaethau (Mai 2023) | 49 o wasanaethau (Mawrth 2022) | 41 o wasanaethau (Mawrth 2021) |

* Cyflwynwyd model ymateb newydd sy'n cynnwys Ymateb Cyntaf ar ddechrau 2022

Mae'r perfformiad ar gyfer y mwyafrif o'r dangosyddion wedi bod yn gyson o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Bu gwelliant dros amser ar gyfer rhai dangosyddion, yn enwedig lleihad parhaus mewn allyriadau carbon a thwf yn nifer y gwasanaethau digidol sydd ar gael i ddinasyddion. Mewn cyferbyniad â hynny, bu dirywiad mewn rhai dangosyddion, er enghraifft canfyddiadau'r staff bod y dechnoleg a ddarperir gan y sefydliad yn eu galluogi i gysylltu a chydweithio â chydweithwyr yn hawdd, er bod boddhad cyffredinol yn uchel iawn o hyd.

Trafododd y Pwyllgor Gweithredol a'r Bwrdd y mesurau trosolwg uchod yn ogystal â'r Fframwaith ehangach, a thynnwyd sylw at y meysydd canlynol y dylid canolbwyntio arnynt:

- Pwysigrwydd mesurau perfformiad o safon uchel mewn perthynas â digidol a data, o ystyried pa mor ganolog yw hynny i raglen newid Llywodraeth Cymru 2025.
- Cyfleoedd i wella dealltwriaeth o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno deddfwriaeth o ansawdd, er mwyn helpu i wireddu ein huchelgeisiau deddfwriaethol.
- Y potensial i ddefnyddio ffynonellau data ehangach i ategu'r wybodaeth am berfformiad sydd ar gael ar hyn o bryd.

# Llywodraeth Cymru 2025



Llywodraeth Cymru 2025, a lansiwyd ym mis Ionawr 2023, yw ein rhaglen ar gyfer newid a gwella'r sefydliad dros y tair blynedd nesaf er mwyn inni allu cefnogi Gweinidogion yn fwy effeithiol a chyflawni ar gyfer pobl a chymunedau yng Nghymru mewn cyd-destun ariannol a byd-eang cynyddol heriol.

Mae Llywodraeth Cymru 2025 yn cynnwys ffocws diwyro ar gydweithio, ym mhob rhan o'r Llywodraeth a'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru, bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, nawr ac yn y tymor hwy, ac adeiladu ar y cynnydd a wnaed a'r gwersi a ddysgwyd mewn cyfnodau diweddar.

## Ein gweledigaeth ar gyfer Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru yn 2025

Gyda'n gilydd, byddwn yn helpu Gweinidogion i greu Cymru well, yn seiliedig ar bedwar gwerth craidd y sefydliad, sef **creadigrwydd, tegwch, partneriaeth a phroffesiynoldeb**.

Erbyn mis Rhagfyr 2025, rydym am wneud y canlynol:

1. Bod â'r diwylliant, y sgiliau, y galluogrwydd a'r ffyrdd o weithio i gyflawni ar gyfer Cymru mewn cyd-destun economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol cynyddol heriol.
2. Gwreiddio dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru fel y gallwn ddarparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy o safon uchel i ddinasyddion Cymru.


3. Gwella'n barhaus a chyflawni'n effeithlon, gan arddangos pum ffordd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
4. Trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio drwy dechnoleg ddigidol.
5. Defnyddio ein hystad i gefnogi gwasanaeth cyhoeddus Cymru mewn ffordd ddiogel, gynaliadwy ac effeithlon.

Llywodraeth Cymru 2025 fydd y catalydd ar gyfer ysgogi'r newidiadau a'r gwelliannau y bydd eu hangen arnom er mwyn cyflawni ein nodau.

## Strwythur rhaglen Llywodraeth Cymru 2025

Mae rhaglen Llywodraeth Cymru 2025 yn cynnwys pum ffrwd waith, ac mae i bob un nod clir. Gyda'i gilydd, maent yn cwmpasu'r ffordd rydym yn gweithredu fel Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, o'r dechnoleg y byddwn yn ei defnyddio a'r swyddfeydd y byddwn yn gweithio ynddynt, i'r ffordd y byddwn yn datblygu ein gyrfaoedd ac yn cyflawni ein blaenoriaethau. Mae'r camau gweithredu y mae pob ffrwd waith yn ymgymryd â nhw wedi cael eu llunio drwy ymgysylltu helaeth â'n staff, a hefyd mewn ymateb i'n blaenoriaethau a'n huchelgeisiau sefydliadol, ac maent wedi'u nodi yng **Nghynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru 2025**, sydd wedi cael ei gyhoeddi'n fewnol i'r holl staff ei ddarllen.

## Ffrydiau gwaith Llywodraeth Cymru 2025




Ni ddaw'r gwaith i ben ym mis Rhagfyr 2025. Rydym am fod yn sefydliad sydd bob amser yn dysgu ac yn gwella. Ond, mae cael pwynt terfyn clir ar gyfer y camau gweithredu rydym yn eu cymryd yn creu momentwm ac yn golygu y gallwn fesur ein cynnydd.

Ymhlith uchafbwyntiau'r cynnydd cynnar a wnaed erbyn mis Ebrill 2023 mae trefniadau dyrchafu mewnol newydd, ailddylunio ein swyddfeydd i gefnogi trefniadau gweithio hybrid, camau olaf y broses o brofi ein systemau Adnoddau Dynol newydd, cynlluniau peilot i archwilio cydweithio digidol allanol, gwaith i sefydlu fframwaith dirprwyaethau'r gweithlu, a chyhoeddi Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau newydd Llywodraeth Cymru.

## Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau Llywodraeth Cymru

Un o gamau gweithredu cyntaf rhaglen Llywodraeth Cymru 2025 a gwblhawyd oedd datblygu fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau. Mae'r fframwaith yn nodi'r hyn rydym ni, fel Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, yn ei werthfawrogi ymhlith ein gilydd a'n ffyrdd o weithio, a'r ffordd y mae'r gwerthoedd hynny'n trosi'n ymddygiadau.

Pedwar gwerth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd drwy gydgynhyrchu â'n staff a'n hundebau llafur, yw:

- Creadigrwydd
- Tegwch
- Partneriaeth
- Proffesiynoldeb

Caiff pob gwerth ei ategu gan gyfres o ymddygiadau sy'n esbonio'r hyn y mae'r gwerthoedd hynny'n ei olygu i ni a'r ffordd rydym yn gweithio. Nid yw fframwaith Llywodraeth Cymru yn disodli Cod y Gwasanaeth Sifil nac Egwyddorion Nolan. Mae'r naill a'r llall yn hanfodol er mwyn gosod y safonau y mae disgwyl i bob un ohonom fel gweision sifil a swyddogion cyhoeddus eu cyrraedd. Nid yw chwaith yn disodli'r ffyrdd o weithio a ragnodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; mewn gwirionedd, mae ein fframwaith yn ategu ac yn cefnogi'r nodau llesiant.

Yn rhinwedd ein rôl fel llywodraeth ddatganoledig Cymru, rydym yn unigryw mewn sawl ffordd. Diben y fframwaith hwn yw hyrwyddo'r hyn a wnawn yn dda, adeiladu ar ein cryfderau cyfunol, ac ystyried pa fath o sefydliad yr hoffem fod yn y dyfodol.

## Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru

Mae'r cysyniad o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru ers dros ddegawd. Mae wedi symud yn ei flaen gryn dipyn yn ystod y cyfnod hwnnw, yn y fath fodd fel bod ymdeimlad cryf o weithio mewn partneriaeth a dulliau cyfunol nad ydynt i'w gweld mewn rhannau eraill o'r DU i'r un graddau. Mae'r cynnydd rydym wedi'i wneud yn adlewyrchu ethos o gydweithio a rennir yng Nghymru.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi nodau llesiant cyffredin. Er mai dim ond i sefydliadau penodol a enwir yn y sector cyhoeddus y mae rhwymedigaethau cyfreithiol yn gymwys, mae'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn corffori'r cysyniad o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn fwy cyffredinol. Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) yn gwreiddio modelau ar gyfer gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth ymhellach drwy bartneriaeth gymdeithasol a dulliau cyfunol ategol mewn gwahanol wasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â gwaith teg a chaffael.

Gall newidiadau ddigwydd pan fydd rheidrwydd ac eglurder ynghylch diben cyffredin yn gallu goresgyn y fiwrocratiaeth gynhenid a geir pan fydd llawer o sefydliadau'n ceisio cydweithio. Bydd hyn yn arbennig o amlwg yn ystod argyfyngau, er enghraifft pandemig COVID-19 ac argyfwng dyngarol Wcráin.

Mae'r ymateb cyflym a chyfunol i'r pandemig yn arbennig yn dangos sut y gwnaeth partneriaid rannu arbenigedd ac adnoddau er mwyn dylunio a chyflwyno atebion cymhleth mewn meysydd megis olrhain cysylltiadau a helpu pobl i hunanynysu, y gwaith i gyflwyno a rhoi brechlynnau, a mynd i'r afael â digartrefedd.

Mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn un o ffrydiau gwaith penodol ein rhaglen newid mewnol – Llywodraeth Cymru 2025. Er bod Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, drwy ddiffiniad, yn golygu llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus ac nid dim ond Llywodraeth Cymru, mae hyn yn rhoi fframwaith ac ysgogiad inni ar gyfer symud yr agenda yn ei blaen. Mae hefyd yn ein galluogi i gysylltu â ffrydiau gwaith eraill gan gymryd camau gweithredu sy'n berthnasol yn uniongyrchol i wireddu Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru – gan wneud secondiadau a benthyciadau'n haws, sicrhau cydweithio digidol agosach rhwng sefydliadau, a gwneud y defnydd gorau o ystad y sector cyhoeddus.

Rydym wedi sefydlu grŵp allanol o swyddogion ar lefel prif weithredwr o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi cam nesaf Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru. Mae'r ymgysylltu â'r grŵp wedi bod yn gadarnhaol, ac mae parodrwydd cyfunol i symud Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn ei flaen.

Drwy weithio gyda phartneriaid, cytunwyd ar y diffiniad canlynol o Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru:

> **'Mae Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn adlewyrchu ein dull a rennir o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus sy'n arwain at y canlyniadau gorau posibl ar gyfer pobl Cymru. Dinasyddion sydd wrth wraidd ein hymdrechion cyfunol, ac nid buddiannau ein sefydliadau unigol. Byddwn yn cydweithio'n ddiffuant er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl.'**

I ategu'r egwyddor hon, cytunwyd ar yr egwyddorion cyffredin canlynol hefyd, ynghylch sut y byddwn yn gweithio gyda'n gilydd.

Wrth gynnal gweithgareddau yn unol â dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru, byddwn yn gwneud y canlynol:

- **Cydnabod ein rhwymedigaethau cyfunol i lynu wrth y pum ffordd o weithio sydd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** – mae egwyddorion Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru yn rhan ganolog o'r Ddeddf ac yn cynrychioli'r fframwaith ar gyfer gweithgarwch.
- **Blaenoriaethu'r pethau sy'n bwysig i ddinasyddion, a'u cynnwys lle y bo'n briodol gwneud hynny** – mae canolbwyntio ar weithgareddau sy'n bwysig i bobl yn allweddol, ac mae hynny hefyd yn wir am gynnwys pobl wrth ddylunio gwasanaethau sydd wedi'u bwriadu i fod o fudd iddynt.
- **Canolbwyntio ar feysydd lle mae gennym werthoedd a diben cyffredin i wella gwasanaethau cyhoeddus** – dim ond mewn meysydd lle y ceir tir cyffredin a buddiannau a rennir a phan fydd y sefydliadau dan sylw yn gallu dylanwadu ar ganlyniadau y gall cydweithio ystyrlon ddigwydd.
- **Mabwysiadu dull gweithredu drwy systemau cyfan** – dim ond drwy feithrin dealltwriaeth o fater, cyd-destun a systemau o'r dechrau i'r diwedd, gan gynnwys pob partner a defnyddiwr terfynol perthnasol, y gellir gwella gwasanaethau.

- **Deall y canlyniadau a ddymunir, a mesur llwyddiant** – mae'n hanfodol, mewn materion a nodir ar gyfer gweithredu ar y cyd, ein bod yn glir ynghylch yr amcan, ac y caiff cynnydd ei fesur.
- **Croesawu arweinyddiaeth a rennir, gan gydnabod sgiliau/arbenigedd ar bob lefel** – cydnabod nad oes gan uwch-arweinwyr yr wybodaeth fanwl am yr hyn sy'n gwneud y ffyrdd mwyaf effeithiol o ddarparu gwasanaethau cydgysylltiedig, gan adael lle ar gyfer perchnogaeth leol. Mae rôl ein priod weithluoedd a gwirfoddolwyr yn allweddol, ac mae eu mewnbwn yn hanfodol.

Gan adeiladu ar brofiad y pandemig pan oedd sefydliadau'n rhannu diben cyffredin clir, ein bwriad yw nodi meysydd penodol lle y gellir mabwysiadu a phrofi dull Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru mewn ffordd bendant er mwyn helpu i wella canlyniadau.

## Astudiaeth Achos

### MapDataCymru

Ffynhonnell ddata ar y sector cyhoeddus yng Nghymru yw MapDataCymru, ac mae'n cynnig platfform data a rennir i aelodau o'r cyhoedd ac awdurdodau cyhoeddus. Mae mwy na 500 o setiau data agored ar gael i'w defnyddio gan unrhyw rai yn y sectorau cyhoeddus neu breifat, neu ddinasyddion, gan gynnwys data ar feddygfeydd, adeiladau rhestredig, llifogydd a theithio llesol.

Yn y gorffennol, rydym wedi symud o blatfform profi/beta i blatfform byw, gan gynyddu nifer y setiau data agored o 350 i dros 500. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol wedi cyhoeddi eu Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol, sydd wedi'u creu a'u rhannu ar borth MapDataCymru Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o lwybrau teithio llesol cwbl hygyrch sydd wedi'u cymeradwyo'n llawn, y gellir cael mynediad rhyngweithiol atynt ar-lein. Daw'r mapiau â'r llwybrau sydd eisoes yn bodoli ynghyd â chynlluniau i gyflwyno llwybrau newydd a gwell yn y tymor byr a'r tymor hir, gyda chyllid o Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru.

Mae nodweddion gwell a setiau data ychwanegol ar gyfer rhaglen JIGSO MapDataCymru wedi cael eu cyflwyno. Fe'i defnyddiwyd ar gyfer y Gymuned Gydnerthedd a'r Gwasanaethau Brys ledled Cymru (Cyd-grŵp Gwasanaethau Brys), gan sicrhau mynediad amser real at bobl ac eiddo agored i niwed.

Mae'r rhaglen wedi cael ei chymeradwyo fel yr adnodd diofyn ar gyfer rheoli argyfyngau yng Nghymru. Mae wedi galluogi ymatebwyr i gael gafael ar ddata allweddol ar ble y dylent ei flaenoriaethu wrth ymateb, gan leihau amseroedd rhannu data o oriau i funudau. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ychwanegu setiau data o bob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru a pharhau i wella nodweddion y platfform.

# Newid Hinsawdd – rhagolwg ar gyfer y sefydliad ac adrodd ar gynaliadwyedd



Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Gynllun Strategol Sero Net[46].

Mae'r Cynllun yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn chwarae ei rhan wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd a bod yn gyson ag uchelgais Gweinidogion Cymru i'r sector cyhoeddus gyrraedd sero net ar y cyd erbyn 2030. Hefyd, mae'n dangos i ba raddau y mae gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n ein cyfarwyddo i ystyried problemau parhaus hirdymor megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd, a newid hinsawdd, yn cael eu cyflawni.

Mae'r cynllun yn nodi 54 o fentrau a gaiff eu hasesu a'u hadolygu yn 2025 a 2030. Mae'r mentrau a'r targedau uchelgeisiol hyn yn dibynnu ar gynyddu arbedion effeithlonrwydd, cadw deunyddiau mewn defnydd ac osgoi gwastraff, buddsoddi mewn datgarboneiddio adeiladau a cherbydau, a newid ymddygiadau fel mai carbon isel fydd y dewis diofyn yn y camau gweithredu a gymerwn.

46 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2022-12/cynllun-strategol-sero-net-llywodraeth-cymru.pdf

Hefyd, mae'n dibynnu ar newid ein ffordd o weithio gyda chyflenwyr a phartneriaid. Gall ein penderfyniadau ddylanwadu arnynt fel y byddant yn ymuno â ni ar ein taith at sero net. Rhaid i leihau allyriadau carbon ddod yn rhan annatod o'n prosesau gwneud penderfyniadau a llunio polisïau.

Mae'r 54 o fentrau wedi'u trefnu ar sail y saith maes canlynol:

1. Ein hadeiladau a'n seilwaith (gan gynnwys ein hystad weinyddol, Cadw, eiddo datblygu economaidd, adeiladau newydd a gwaith adnewyddu mawr, a'n seilwaith trafnidiaeth)
2. Ein fflyd gorfforaethol
3. Teithiau busnes
4. Gweithio'n Glyfar
5. Ein cadwyn gyflenwi
6. Defnydd tir
7. Allyriadau gweddilliol a gwrthbwyso

Mae'r cynllun yn nodi sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu arwain y ffordd a bod yn sefydliad enghreifftiol yn ei hymgyrch i gyflawni sero net, gan adeiladu ar y gwaith da dros y blynyddoedd diwethaf sydd wedi arwain at leihad o 77% mewn allyriadau carbon o'r ystad ers 2010-11. Y cam nesaf yw datblygu cynlluniau cyflawni manylach ac asesu'r camau gweithredu y bydd angen eu cymryd i wireddu'r uchelgais pwysig hwn, gan ddarganfod cyfleoedd i gydweithio ag eraill.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwneud cynnydd pellach drwy fentrau fel gosod rhagor o oleuadau LED, ehangu ein cyfleusterau gwefru cerbydau trydan a gosod rhagor o baneli solar ffotofoltäig. Yn ogystal â hynny, mae gwelliannau i drefniadau rheoli adeiladau drwy gydol y gaeaf wedi lleihau'r defnydd o ynni 5%.

# Ystad Weinyddol Llywodraeth Cymru: Yr Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynaliadwyedd

| **Nwyon Tŷ Gwydr** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros (tunelli o $CO_2$e) | 4.2 | 3.7 | 3.5 | 3.0 | 2.8 |
| Cyfanswm yr Allyriadau Gros Cwmpas 1 Nwy (tunelli o $CO_2$e) | 1.0 | 1.0 | 1.6 | 1.4 | 1.3 |
| Cyfanswm Allyriadau Gros Cwmpas 2 Trydan (tunelli o $CO_2$e) | 3.2 | 2.6 | 1.8 | 1.5 | 1.5 |
| Trydan oriau gigawat | 10.5 | 10.3 | 8.1 | 7.3 | 7.9 |
| Nwy oriau gigawat | 5.7 | 5.8 | 8.8 | 7.9 | 7.3 |
| Gwariant ar Ynni (£M) | 2.1 | 2.1 | 2.5 | 2.1 | 1.9 |
| Lwfansau'r Ymrwymiad Lleihau Carbon | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |

| **GWASTRAFF (tunelli)** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y gwastraff | 372 | 284 | 50 | 72 | 74 |
| Tirlenwi | 3 | 3.8 | 1.1 | 1.4 | 0.5 |
| Troi Gwastraff yn Ynni | 41 | 47 | 15 | 10 | 13 |
| Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 245 | 150 | 24 | 47 | 43 |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 83 | 83 | 10 | 13 | 17 |

| **GWASTRAFF %** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| Tirlenwi | 0.8% | 1% | 2% | 2% | 0.5% |
| Troi Gwastraff yn Ynni | 12% | 17% | 29% | 14% | 18% |
| Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 66% | 53% | 49% | 66% | 58% |
| Treulio Anaerobig Bwyd | 22% | 29% | 20% | 18% | 23% |

| **DŴR** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** |
|---|---|---|---|---|---|
| ($m^3$ y person y flwyddyn) | 6.2 | 5.6 | 2.1 | 2.5 | 3.6 |

* Data dros dro ar gyfer 2022-23

## Astudiaeth Achos

### Economi Gylchol: Cadw Deunyddiau mewn Defnydd ac Osgoi Gwastraff

Yn dilyn penderfyniad i gael gwared ar ein swyddfa yng Nghanolfan QED yn Nhrefforest yn ystod haf 2022, bûm yn gweithio gyda'n contractwr dodrefn, sef BOF, a lwyddodd i gasglu 421 o eitemau o hen ddodrefn gweithle i'w hadnewyddu, eu hailddefnyddio neu eu rhoi i elusennau, gan ddefnyddio ei gynllun dodrefn cynaliadwy Closing the Loop, a rhoi egwyddorion Hierarchiaeth Gwastraff ar waith. Nod y cynllun hwn yw lleihau ôl troed amgylcheddol a gwella effaith gymdeithasol newid o'r fath.

Yn dilyn ymgynghoriad manwl ar y safle, dechreuodd y broses ailddefnyddio. Aeth y tîm ati i drefnu a chlirio'r dodrefn o'r llawr gwaelod a'r llawr cyntaf yn effeithlon. Er mwyn categoreiddio'r dodrefn yn gywir a lleihau'r effaith amgylcheddol a'r defnydd o gerbydau gymaint â phosibl, cafodd y cynhyrchion eu datgymalu ar y safle, gan eu pecynnu'n fflat lle roedd modd. Drwy gydol y broses, cafodd y dodrefn eu trefnu ym mhob llwyth cerbyd a chawell gludo, gan grwpio'r cydrannau a'r dodrefn llai cyn eu llwytho'n ddiogel. Cafodd y gwaith trwm hwn ei gwblhau mewn tridiau yn unig, gan ddefnyddio cerbydau 26 tunnell er mwyn lleihau effeithiau'r cludo ar yr amgylchedd.

O ganlyniad i'r cynllun hwn, casglwyd cyfanswm o 11 o dunelli o eitemau o Ganolfan QED gan gynnwys desgiau, cadeiriau, cyfleusterau storio a sgriniau ac, o'r rhain:

- cafodd 296 o eitemau eu rhoi i elusennau a chyrff sector cyhoeddus.
- cafodd 125 o eitemau eu hadnewyddu a'u rhestru ar borth ailddefnyddio BOF er mwyn i elusennau edrych arnynt a'u casglu.

Gwnaeth y prosiect hwn arbed 2.7 tunnell o $CO_2$e rhag mynd i safleoedd tirlenwi.

Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein cynlluniau Car Gwyrdd a Beicio i'r Gwaith ac wedi lansio ein Rhwydwaith Cynaliadwyedd a arweinir gan staff, sy'n rhoi cyngor ar sut y gall pob un ohonom fyw'n fwy cynaliadwy. Gwnaethom hefyd lansio ein cynllun peilot Gweithio'n Glyfar er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar drefniadau gweithio o bell, gweithio yn y swyddfa a gweithio hybrid.

Cam nesaf ein Cynllun Strategol Sero Net fydd datblygu cynlluniau cyflawni manwl yn erbyn y 54 o fentrau a nodi ble y bydd angen cymryd camau pellach er mwyn cyflawni uchelgais 2030.

# Gweithio'n Ddwyieithog




Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth ar gyfer y defnydd mewnol o'r Gymraeg – "Cymraeg. Mae'n perthyn i ni i gyd"[47] – yn 2020. Yn y strategaeth, rydym wedi pennu nod hirdymor ar gyfer defnyddio'r iaith. Ein nod yw y bydd Llywodraeth Cymru yn sefydliad gwirioneddol ddwyieithog erbyn 2050, sy'n golygu y byddai'n dod yn weithle lle mae'n arferol i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu defnyddio mewn modd naturiol a chyfnewidiol.

Rydym hefyd wedi pennu nod mwy byrdymor o ddod yn sefydliad enghreifftiol o ran ein defnydd o'r iaith o gymharu â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus erbyn 2025. Mae strategaeth fwy pellgyrhaeddol Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith – "Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr"[48] – hefyd yn ein hymrwymo i arwain drwy esiampl wrth hyrwyddo'r iaith i weithlu Llywodraeth Cymru.

Mae gan Lywodraeth Cymru ran bwysig i'w chwarae, nid yn unig o ran datblygu polisïau sy'n prif ffrydio hyrwyddo'r Gymraeg, ond hefyd o ran cynnig cyfleoedd i'n gweision sifil ddefnyddio'r iaith wrth eu gwaith.

Mae i'r strategaeth bedair thema sy'n sail i'w gweledigaeth: dysgu, arweinyddiaeth, recriwtio a thechnoleg. Yn ystod y tair blynedd cyntaf o roi'r strategaeth ar waith, rydym wedi cael cyfle i ganolbwyntio ar symud y themâu hyn yn eu blaenau. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu ein rhaglen dysgu Cymraeg i staff, gan sicrhau ein bod yn cynnig arlwy sydd mor amrywiol, hyblyg ac effeithiol â phosibl i'n staff.

47 www.llyw.cymru/cymraeg-maen-perthyn-i-ni-i-gyd-html
48 Cymraeg 2050: strategaeth y Gymraeg | LLYW.CYM

Ymddengys y bu hyn yn llwyddiannus, gan fod niferoedd y staff sy’n manteisio ar gyfleoedd hyfforddi ffurfiol o fewn y sefydliad yn uwch nag erioed, ac mae nifer y rhai a gofrestrodd ar gyfer rhaglen hyfforddi rhwng mis Mai 2020 a mis Mawrth 2023 wedi cynyddu 700%. Rydym hefyd wedi cyflwyno rhaglenni dysgu peilot er mwyn cynnig cyfleoedd newydd i ddysgu ar bob lefel. Un enghraifft o hyn yw gwella hyder staff i weithio’n ddwyieithog drwy gyflwyno rhaglen beilot Tystysgrif Sgiliau Iaith.

Rydym yn pwysleisio yn ein llenyddiaeth recriwtio fod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn gaffaeliad o fewn y sefydliad, ni waeth beth fo’r rôl, ac rydym wedi lansio rhaglenni peilot er mwyn cyflwyno’r iaith i garfannau newydd o brentisiaid sy’n ymuno â’n cynllun prentisiaeth eleni. Mae ein ffocws ar uwch-arweinwyr hefyd yn parhau, gyda dosbarth meistr ar gyfer arweinwyr gyda Phrif Gwnstabl Heddlu De Cymru, Jeremy Vaughan, i drafod arweinyddiaeth bersonol wrth hyrwyddo’r defnydd o’r Gymraeg.

Cafodd y nodwedd ddwyieithog newydd o fewn Microsoft Teams ei lansio eleni er mwyn cynnig cyfleuster cyfieithu ar y pryd, yn dilyn cryn dipyn o gydweithio rhwng Microsoft a Llywodraeth Cymru. Yn unol â’n dyletswyddau statudol, rydym yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau’r Gymraeg; mae adroddiad 2022-23[49] ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

49 www.llyw.cymru/adroddiad-blynyddol-safonaur-gymraeg-2022-i-2023

# Ein Hymrwymiad i Gydraddoldeb, Urddas a Pharch



Rydym wedi ymrwymo i alluogi pawb sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru i gyflawni eu potensial llawn mewn amgylchedd cadarnhaol a chefnogol, yn seiliedig ar egwyddorion cydraddoldeb, tegwch a chynhwysiant.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru i roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rhai nad ydynt yn ei rhannu. Fodd bynnag, yn ogystal ag ymrwymo i gyflawni ein gofynion cyfreithiol, rydym hefyd wedi ymrwymo i sicrhau bod cydraddoldeb a thegwch wrth wraidd ein ffordd o weithio, gyda gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r bobl a'r cymunedau a wasanaethir gennym.

Ym mis Ebrill 2020, gwnaethom gyhoeddi ein **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024**[50], a oedd yn nodi ein huchelgais i wneud ein gweithlu'n fwy amrywiol drwy fynd i'r afael â thangynrychiolaeth hanesyddol pobl anabl a phobl o gymunedau ethnig lleiafrifol a thangynrychiolaeth menywod mewn rolau uwch.

50 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-04/cynllun-cydraddoldeb-strategol-nodau-amcanion-a-chamau-gweithredu-ym-maes-cydraddoldeb-20202024.pdf

Mae ein **Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu 2021-2026**[51] yn adeiladu ar yr ymrwymiad hwn drwy ganolbwyntio ar dair prif thema: cynyddu amrywiaeth, chwalu rhwystrau a helpu staff o bob cefndir i gyrraedd eu potensial.

Er mwyn ein helpu i wneud iawn am yr anghydbwysedd o ran amrywiaeth ym mhob rhan o'n gweithlu, rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol o ran recriwtio a dyrchafu staff anabl a staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil.

**Targedau recriwtio allanol:**

- Erbyn 2026: bydd 20% o'r bobl a benodir gennym yn anabl a bydd 20% o gefndiroedd ethnig lleiafrifol.
- Erbyn 2030: bydd canran y bobl anabl a benodir gennym yn cynyddu i 30%, er mwyn gwneud mwy i fynd i'r afael â'r ffaith bod pobl anabl wedi'u tangynrychioli i raddau helaeth iawn yn ein sefydliad. Caiff hyn ei adolygu yn sgil y gwersi a ddysgir wrth weithio i gyrraedd targed 2026, ond mae ein huchelgais yn glir.
- Bydd mwy na 50% o'r bobl a benodir i'r Uwch Wasanaeth Sifil rhwng nawr a 2026 yn fenywod.

**Targedau recriwtio mewnol:**

- Dyrchafu staff anabl ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod pobl anabl wedi'u tangynrychioli ar bob lefel o'r sefydliad ar hyn o bryd.
- Dyrchafu staff ethnig leiafrifol ar lefel sy'n uwch na'u cyfran o boblogaeth gweithlu Llywodraeth Cymru, er mwyn mynd i'r afael â'r ffaith bod pobl ethnig leiafrifol wedi'u tangynrychioli ar bob lefel o'r sefydliad ar hyn o bryd.
- Bydd mwy na 50% o'r bobl a gaiff eu dyrchafu i'r Uwch Wasanaeth Sifil yn fenywod.

## Cynnydd yn erbyn targedau

Er bod y camau rydym yn eu cymryd yn cael effaith gadarnhaol mewn rhai meysydd, nid ydym ar y trywydd cywir i gyrraedd ein targedau i recriwtio staff anabl ac ethnig leiafrifol:

- Recriwtio pobl anabl – heb gyrraedd y targed.
- Recriwtio pobl ethnig leiafrifol – heb gyrraedd y targed.
- Recriwtio menywod i'r Uwch Wasanaeth Sifil – wedi cyrraedd y targed.
- Dyrchafu staff anabl – wedi rhagori ar y targed.
- Dyrchafu staff ethnig leiafrifol – wedi rhagori ar y targed.
- Dyrchafu menywod i'r Uwch Wasanaeth Sifil – wedi cyrraedd y targed.

Er bod hyn yn siomedig, gwyddom fod ein targedau'n uchelgeisiol ac yn heriol ac na fydd hi'n hawdd eu cyrraedd.

---

51 Strategaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant y gweithlu: 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU

# Gwrth-hiliaeth

Yr hyn sy'n hanfodol i'n dull o ymdrin â chydraddoldeb yw ein hymrwymiad i ddod yn sefydliad cwbl wrth-hiliol, o ran ethos ac arferion o ddydd i ddydd. Adlewyrchir hyn yn Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu a Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol[52]. Mae Adran 2 o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn canolbwyntio ar arweinyddiaeth o fewn Llywodraeth Cymru ac ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cynnwys 19 o gamau gweithredu i Lywodraeth Cymru fel cyflogwr. Mae'r cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

- Cyflwyno amcanion amrywiaeth sy'n wrth-hiliol yn benodol ac sy'n cyd-fynd â'r model cymdeithasol o anabledd ar gyfer pob Uwch Was Sifil (o 2023-2024 ymlaen).
- Cyflwyno rhaglen o ddigwyddiadau sydd â'r nod o wella gwybodaeth am wrth-hiliaeth i Uwch Weision Sifil.
- Datblygu hyb gwrth-hiliaeth ar ein mewnrwyd, gan gynnwys canllaw iaith A-Y a dolenni at adnoddau defnyddiol eraill.
- Gwaith paratoi er mwyn datblygu'r fanyleb ar gyfer cymorth ymgynghorol arbenigol i adolygu polisïau, gweithdrefnau ac arferion adnoddau dynol Llywodraeth Cymru (o ymuno nes ymadael) er mwyn sicrhau eu bod yn wrth-hiliol yn benodol.
- Cyfres o raglenni dysgu a datblygu ar wrth-wahaniaethu (gan gynnwys gwrth-hiliaeth) sydd ar gael i bob aelod o staff. Ymhlith y rhain mae 'Sgyrsiau am wrth-hiliaeth', 'Sgyrsiau mewn mannau diogel', 'Adnabod a deall microymosodiadau' ac 'Adnabod a herio ymddygiad gwahaniaethol'.
- 'Anelwn' – rhaglen ddatblygu ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol.

52 Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU

## Astudiaeth Achos

### Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Yn 2022, lansiodd Llywodraeth Cymru Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan ymrwymo i sicrhau y byddwn yn genedl wrth-hiliol erbyn 2030. Rydym yn gweithio i newid polisïau ac arferion a mynd i'r afael â hiliaeth ac anghydraddoldebau systemig, sefydliadol a strwythurol.

Yn 2022-2023, gwnaethom fuddsoddi £1,120,000 yn y Rhaglen Cydlyniant Cymunedol. Mae'r rhaglen hon yn cyllido timau ledled Cymru sy'n rhoi cymorth rheng flaen i gymunedau er mwyn helpu i fonitro a lliniaru tensiynau cymunedol. Yn ddiweddar, gwnaethom benodi contractwr newydd i gyflawni cam nesaf ein hymgyrch gyfathrebu wrth-droseddau casineb, sef Mae Casineb yn Brifo Cymru, a fydd ar waith tan o leiaf fis Mawrth 2024.

Dyfarnwyd £230,000 i Rwydwaith Cydraddoldeb Rhanbarthol Gogledd Cymru (NWREN) ar gyfer prosiect a gaiff ei gynnal o fis Tachwedd 2022 tan fis Mawrth 2024. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu deunyddiau a fydd yn adrodd straeon pobl ethnig leiafrifol yn ein horielau a'n hamgueddfeydd, gan gynnwys drwy arddangosfeydd parhaol. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio gyda chymunedau i nodi a chwalu rhwystrau sy'n atal pobl rhag mynd i safleoedd treftadaeth a chasgliadau diwylliannol.

O dan gwricwlwm newydd Cymru, a gafodd ei gyflwyno mewn ysgolion cynradd yn 2022 ac mewn ysgolion uwchradd yn 2023, caiff pob plentyn ei addysgu am hiliaeth a chymunedau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol. Am y tro cyntaf, mae cymhellion ariannol ychwanegol wedi cael eu cyflwyno er mwyn denu mwy o ddarpar athrawon ethnig leiafrifol.

Cafodd Cynllun Gweithredu Gwrth-hiliol Cyfiawnder Troseddol i Gymru ei gyhoeddi ar 8 Medi 2022, ac mae'n nodi'r camau y bydd ein partneriaid yn bwrw ymlaen â nhw er mwyn creu system cyfiawnder troseddol wrth-hiliol. Mae'r cynllun yn amlinellu saith ymrwymiad allweddol, sy'n ymdrin â meysydd megis hybu gweithlu ethnig amrywiol, tryloywder ac atebolrwydd, atal ac ymyrryd yn gynnar.

## Y Model Cymdeithasol o Anabledd

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ymgorffori'r model cymdeithasol o anabledd yn ein dull o lunio polisïau ac yn ein gweithredoedd fel cyflogwr. Mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng 'amhariad' ac 'anabledd'. Mae'n cydnabod bod pobl ag amhariadau yn cael eu hanablu gan rwystrau sy'n gyffredin mewn cymdeithas. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys agweddau negyddol, a rhwystrau ffisegol a sefydliadol, a all atal pobl anabl rhag cymryd rhan a chael eu cynnwys ym mhob rhan o fywyd. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom y canlynol:

- Parhau i wreiddio'r model cymdeithasol yn ein polisïau a'n prosesau adnoddau dynol.
- Parhau i wneud addasiadau yn y gweithle ar gyfer cydweithwyr.
- Adolygu a diweddaru ein Pasbort a Chanllawiau ar Addasiadau yn y Gweithle.
- Cydymffurfio â'r Cynllun Gwarantu Cyfweliad.
- Datblygu ein cynllun addasiadau recriwtio mewn perthynas â recriwtio mewnol ac allanol, gyda chymorth 12 o fentoriaid sy'n helpu ymgeiswyr i wneud ceisiadau am addasiadau recriwtio.
- Rhoi addasiadau recriwtio ar waith ar gyfer tua 150 o ymgeiswyr, gan sicrhau proses recriwtio deg. Enillodd ein gwaith yn y maes hwn Wobr y Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu i'r Fenter Amrywiaeth a Chynhwysiant Orau yn 2023.
- Mae hyfforddiant ar y model cymdeithasol ar gael i bob aelod o staff ac mae rhagor o adnoddau ar gael ar ein mewnrwyd.

## Y Bwrdd Cysgodol

Sefydlwyd y Bwrdd Cysgodol ym mis Rhagfyr 2021 fel rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth ein fforymau gwneud penderfyniadau. Grŵp amrywiol o staff o bob rhan o'r sefydliad sy'n cynnwys gwahanol raddau, patrymau gweithio a nodweddion gwarchodedig yw'r bwrdd hwn, a'i rôl yw rhoi adborth ar eitemau agenda Bwrdd Llywodraeth Cymru ar sail safbwyntiau a phrofiadau bywyd unigryw ei aelodau.

Yn ogystal â sicrhau y caiff ffordd Bwrdd Llywodraeth Cymru o feddwl ei herio gan grŵp o bobl sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein sefydliad, mae'r Bwrdd Cysgodol yn cynnig cyfleoedd dysgu, datblygu a rhwydweithio ardderchog i bawb sy'n cymryd rhan.

## Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff

Mae pum rhwydwaith amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru. Mae'r rhwydweithiau yn rhoi llais i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, yn galluogi cydweithwyr i rannu profiadau a chefnogi ei gilydd. Maent hefyd yn ein helpu i ddatblygu polisïau mewnol a chynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb.

Mae Cyd-gadeiryddion y pum rhwydwaith hyn yn aelodau o'n Grŵp Llywio Amrywiaeth a Chynhwysiant:

- Ymwybyddiaeth a Chymorth Anabledd – rhwydwaith cymorth i staff anabl sydd hefyd yn rhoi cyngor ar effaith polisïau cyflogaeth, arferion ac amgylcheddau ar staff anabl yn unol â'r Model Cymdeithasol o Anabledd.
- Materion y Meddwl – y rhwydwaith staff ar gyfer cydweithwyr sydd â diddordeb mewn iechyd meddwl a llesiant, gan gynnwys staff sydd â phroblemau iechyd meddwl, staff sy'n rheoli problemau iechyd meddwl neu staff sy'n gofalu am rywun y mae problemau iechyd meddwl yn effeithio arno.
- Rhwydwaith Staff Ethnig Leiafrifol – y rhwydwaith ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol sy'n rhoi sicrwydd o ran cydraddoldeb mewn perthynas â pholisïau ac sy'n helpu aelodau i wneud eu profiad o weithio i Lywodraeth Cymru yn un sy'n fuddiol i'n cymunedau ac sy'n datblygu unigolion. Mae'r Rhwydwaith Staff Ethnig Leiafrifol yn gweithio'n agos gyda ni er mwyn sicrhau ein bod yn sefydliad gwrth-hiliol.
- PRISM – y rhwydwaith staff ar gyfer cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd sy'n cefnogi staff sy'n nodi eu bod yn lesbiaidd, yn hoyw, yn ddeurywiol, yn draws neu'n rhywedd-amrywiadol (LHDT+).
- Menywod Ynghyd – rhwydwaith ar gyfer menywod, menywod traws a phobl anneuaidd fel aelodau a dynion fel cynghreiriaid. Mae Menywod Ynghyd yn annog twf personol a menywod yn helpu ei gilydd i gyrraedd eu potensial llawn.

## Adrodd ar gyflog cyfartal a'r bwlch cyflog cydraddoldeb

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal archwiliadau cyflog cyfartal rheolaidd sydd â'r nod o dynnu sylw at feysydd lle y ceir risg sy'n gysylltiedig â chyflog cyfartal yn y system gyflogau a llywio'r camau a gymerwn. Caiff ein bwlch cyflog cydraddoldeb ei gyhoeddi yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol. Yn 2022, gwnaethom gyhoeddi bylchau cyflog anabledd ac ethnigrwydd am y tro cyntaf.

Bwlch cyflog cymedrig rhwng y rhywiau Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023 yw 5.77%. Mae hyn yn golygu bod dynion sy'n gweithio yn y sefydliad yn ennill 5.77% yn fwy na menywod ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2023, bwlch cyflog canolrifol Llywodraeth Cymru yw 0%, sy'n golygu bod cyflog canolrifol dynion a menywod sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru yr un peth. Mae bwlch cyflog rhwng y rhywiau Llywodraeth Cymru wedi lleihau o 6.40% ym mis Mawrth 2022 i 5.77% ym mis Mawrth 2023. Ar y cyfan, mae'r bwlch wedi bod yn lleihau dros amser, ac eithrio ym mis Mawrth 2021 pan fu cynnydd.

Bwlch cyflog anabledd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023 yw 5.83%. Mae hyn yn golygu bod pobl nad ydynt yn anabl yn ennill 5.83% yn fwy na phobl sy'n anabl, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2023, bwlch cyflog canolrifol Llywodraeth Cymru yw 0%, sy'n golygu bod y cyflog canolrifol yr un peth ar gyfer cydweithwyr sy'n anabl a chydweithwyr nad ydynt yn anabl. Nid yw bwlch cyflog anabledd Llywodraeth Cymru wedi newid fawr ddim rhwng mis Mawrth 2022 a mis Mawrth 2023, gan leihau fymryn o 5.85% i 5.83%. Ar y cyfan, mae'r bwlch wedi bod yn lleihau dros amser, ac eithrio cynnydd bach ym mis Mawrth 2021.

Bwlch cyflog ethnigrwydd cymedrig Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2023 yw 4.13%. Mae hyn yn golygu bod pobl sydd o gefndir Gwyn yn ennill 5.13% yn fwy na phobl sydd o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol, ar gyfartaledd. Ar 31 Mawrth 2022, bwlch cyflog ethnigrwydd canolrifol Llywodraeth Cymru oedd 0%, sy'n golygu bod y cyflog canolrifol yr un peth ar gyfer cydweithwyr o gefndir Gwyn a chydweithwyr o gefndir Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol. Mae bwlch cyflog ethnigrwydd Llywodraeth Cymru wedi lleihau o 5.38% ym mis Mawrth 2022 i 4.13% ym mis Mawrth 2023. Cynyddodd y bwlch cyflog ethnigrwydd rhwng mis Mawrth 2019 a mis Mawrth 2021, ac mae wedi lleihau ers hynny.

## Recriwtio

Mae Llywodraeth Cymru yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, sy'n gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl os ydynt yn bodloni'r meini prawf sylfaenol ar gyfer y swydd. Mae'n ofynnol i unigolion sydd am gael eu hystyried o dan y Cynllun Gwarantu Cyfweliad roi gwybod inni fel rhan o'r broses gwneud cais am swydd.

Rydym yn cynnal cynllun addasiadau recriwtio ar gyfer ymgeiswyr anabl (ar gyfer recriwtio mewnol ac allanol). Mae'r cynllun yn cynnig mentor hyfforddedig i roi cymorth i ymgeiswyr sy'n ansicr pa addasiadau rhesymol y gallant wneud cais amdanynt er mwyn eu galluogi i berfformio ar eu gorau. Gellir cofnodi addasiadau y cytunir arnynt ar basbort ar gyfer unrhyw recriwtio yn y dyfodol fel na fydd angen gwneud cais amdanynt eto.

## Allgymorth

Fel rhan o'n hymrwymiad i wella amrywiaeth, rydym yn cynnal gweithgarwch allgymorth wedi'i dargedu sy'n canolbwyntio ar ddenu pobl anabl a phobl o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, yn unol â'n targedau recriwtio. Rydym hefyd yn datblygu pecyn adnoddau allgymorth a chynllun lleoliadau a llwybrau, gan gynnwys cynlluniau wedi'u targedu er mwyn galluogi grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i ymgymryd â lleoliadau gwaith a'n helpu i ddatblygu cyflenwad o ymgeiswyr y dyfodol.

Rydym wedi llofnodi'r Compact Swyddi Cymunedol, sef menter sy'n ceisio dod â phobl leol a chyflogwyr ynghyd i fynd i'r afael â thlodi, diweithdra a thangynrychiolaeth yn y gweithlu. Mae gan y fenter ffocws arbennig ar bobl ethnig leiafrifol yn ardal y De.

Mae ein rhaglen brentisiaethau yn dyst i effaith gadarnhaol ein gwaith allgymorth. Drwy weithio gyda phartneriaid i atgyfnerthu ein dull o roi allgymorth, gwnaethom sicrhau gwell canlyniadau o ran amrywiaeth o gymharu â gweithgarwch recriwtio mwy cyffredinol. Yn dilyn y gwaith hwn, rydym yn ystyried opsiynau mwy soffistigedig ar gyfer allgymorth, ymgysylltu a marchnata, gyda dyhead mwy hirdymor i'r rhain ddod yn agweddau safonol ar ein holl brosesau recriwtio.

## Rhagor o wybodaeth

Ceir rhagor o wybodaeth am weithgarwch cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant Llywodraeth Cymru fel cyflogwr a rhagor o fanylion am yr ystadegau cysylltiedig yn ein Hadroddiad Cydraddoldeb Cyflogwr Blynyddol[53]. Cyhoeddir y rhain ar wefan Llywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn. Fe'u cyhoeddir flwyddyn ar ei hôl hi ac, felly, ar gyfer 2021-22 y mae'r adroddiad diweddaraf.

## Cefnogi iechyd, diogelwch a llesiant

Un elfen allweddol o Strategaeth y Gweithlu o dan raglen Llywodraeth Cymru 2050 yw ein Strategaeth Iechyd, Diogelwch a Llesiant newydd. Mae'r strategaeth yn cael ei datblygu ar hyn o bryd gyda mewnbwn gan staff ac amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys undebau llafur a'n rhwydweithiau staff. Mae'n adeiladu ar ein strategaeth flaenorol, yn adlewyrchu'r ffaith bod y sefydliad wedi newid i drefniadau gweithio hybrid, ac yn cyd-fynd â strategaethau allweddol eraill megis Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu.

Ein hegwyddorion arweiniol ar gyfer y strategaeth yw:

- Cyflawni ffordd gyfannol o weithredu sy'n trin iechyd a llesiant meddwl ac iechyd a llesiant corfforol yn gyfartal.
- Rhoi'r hyn sydd ei angen ar reolwyr i allu cefnogi eu staff yn hyderus ac yn effeithiol pan fyddant yn wynebu problemau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant.
- Ymdrin ag iechyd a llesiant mewn ffordd ragweithiol, strategol a chyson sy'n cyd-fynd â nodau strategol allweddol eraill megis y rhai a welir yn y Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; a'r Model Cymdeithasol o Anabledd.
- Cyfleu negeseuon yn effeithiol i bawb yn ein sefydliad ynglŷn â'r cymorth, y cyfleoedd dysgu a'r adnoddau sydd ar gael, a sut i gael gafael arnynt.
- Parhau i adeiladu ar gynnydd ac addasu cymorth wrth i'r amgylchedd newid.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi parhau i ddatblygu ein gwasanaethau llesiant craidd er mwyn iddynt fod yn addas i anghenion ein gweithlu wrth iddynt ddatblygu. Mae ein gwasanaethau wedi'u halinio er mwyn i staff allu cael cymorth mewn ffyrdd sy'n diwallu eu hanghenion – drwy ddarparwyr allanol, systemau cymorth mewnol ac adnoddau ar-lein. Mae gwasanaethau craidd yn cynnwys:

- Iechyd Galwedigaethol – mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cyngor meddygol diduedd ac annibynnol i staff a rheolwyr pan fydd angen iechyd yn effeithio ar waith, neu os bydd gwaith yn cael effaith negyddol ar iechyd. Eleni, mae mwy o ymgyngoriadau ac adolygiadau wedi cael eu cynnal.
- Rhaglen Cymorth i Weithwyr – o dan y Rhaglen rhoddir cymorth emosiynol ac ymarferol i staff ar gyfer unrhyw broblemau yn y gwaith neu gartref. Mae'r gwasanaeth ar gael 24 awr y dydd, 365 diwrnod y flwyddyn.

53 www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2023-03/adroddiad-cydraddoldeb-cyflogwr-2021-2022-llywodraeth-cymru.pdf

- Cwnsela drwy'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr a darparwr Gwasanaethau Cwnsela Arbenigol. O dan y Rhaglen Cymorth i Weithwyr, mae cymorth dros y ffôn a chymorth ar-lein hunanroddedig ar gael. Mae darparwr gwasanaethau cwnsela arbenigol Llywodraeth Cymru yn darparu gwasanaethau Therapi Gwybyddol Ymddygiadol ac EMDR.
- Adnoddau ar-lein er mwyn galluogi staff a rheolwyr llinell i gael gwybodaeth ac arweiniad ar gyfer eu diogelwch a'u llesiant eu hunain a'u cydweithwyr.
- Darparu amrywiaeth o addasiadau yn y gweithle er mwyn cefnogi staff drwy ddileu unrhyw rwystrau sy'n eu hwynebu yn y gwaith. Mae'r gwasanaeth Addasiadau yn y Gweithle a gynigir gennym yn cynnwys:
  - Darparu adnodd asesu Cyfarpar Sgrin Arddangos (DSE) ar-lein ar gyfer pob aelod o staff.
  - Gwasanaeth Asesu DSE Arbenigol.
  - Darparu addasiadau ffisegol yn y gweithle megis cadeiriau, bysellfyrddau a llygod arbenigol; neu feddalwedd gynorthwyol.
  - Addasiadau nad ydynt yn rhai ffisegol megis newidiadau i ddyletswyddau neu batrymau gweithio unigolyn neu gymorth dehonglydd.
  - Asesiadau o anghenion arbenigol yn y gweithle.
  - Darparu cynllun profion llygaid am ddim.
- Darparu'r awr llesiant i'w defnyddio gan staff ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau llesiant bob wythnos.

Eleni, rydym wedi cynnal llawer mwy o asesiadau arbenigol o amgylcheddau gweithio gartref cyflogeion o ganlyniad i'r newid i weithio hybrid. Mae canlyniadau ein harolwg pobl diweddaraf yn adlewyrchu'r ymdrechion hyn, gyda gostyngiad yn lefelau'r anhwylderau cyhyrsgerbydol sy'n effeithio ar staff dros y flwyddyn.

Mae cryn dipyn o ymdrech wedi cael ei wneud i roi cymorth parhaus ar gyfer iechyd meddwl a llesiant. Rydym wedi parhau i hyrwyddo rhaglen cymorth iechyd meddwl Able Futures ac mae'r llwybrau mynediad wedi cynyddu, er enghraifft drwy gymorthfeydd un i un ac atgyfeiriadau ar-lein. Mae'r gwasanaeth yn rhoi hyd at naw mis o gymorth un i un drwy becyn pwrpasol sydd wedi'i deilwra yn unol â gofynion unigolion. Mae ein rhwydwaith o Gynghreiriaid Iechyd Meddwl yn parhau i roi cymorth emosiynol yn y fan a'r lle.

Iechyd a diogelwch yw un o egwyddorion sylfaenol y ffordd rydym yn gweithio. Ein nod yw sicrhau bod gennym system iechyd a diogelwch gadarn drwy atgyfnerthu gwelededd, arweinyddiaeth a pherchnogaeth uwch aelodau o staff.

Ymhlith y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar hyn o bryd mae:

- Sefydlu Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Llesiant ffurfiol gyda chydgysylltwyr iechyd a diogelwch y grwpiau a chynrychiolwyr undebau llafur, a gaiff ei gadeirio gan ein Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol neu'r Prif Swyddog Gweithredu.
- Rhoi hyfforddiant arweinyddiaeth i Uwch Weision Sifil ar eu cyfrifoldebau o ran iechyd a diogelwch.
- Cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r is-adran Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ar iechyd a diogelwch.
- Cyflwyno adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Gweithredol ar berfformiad o ran iechyd a diogelwch.

## Astudiaeth Achos

### Addewid Menopos

Ym mis Gorffennaf 2021, sefydlodd Rhwydwaith Menywod Ynghyd Weithgor Cymorth Menopos – rhwydwaith o gydweithwyr sy'n awyddus i ysgogi newid sefydliadol. Dros ddwy flynedd, cynhaliodd y grŵp amrywiaeth o weithgareddau ac ymyriadau gyda'r nod o godi ymwybyddiaeth a chynyddu'r cymorth sydd ar gael i bobl y mae'r menopos yn effeithio arnynt.

Gyda ffocws craidd ar ymgysylltu ystyrlon ar bob lefel, cynhaliodd y grŵp:

- Sesiynau gwybodaeth ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil cyfan.
- Digwyddiad ar draws y gwasanaeth sifil ym mis Ionawr 2022 lle roedd 700 o bobl yn bresennol.
- Digwyddiad i staff Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2022 lle roedd 1,500 o staff yn bresennol.
- Clybiau Coffi Menopos rhithwir bob mis sydd ar agor i bawb.

Hefyd, gwnaeth y grŵp benodi Hyrwyddwr Menopos ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil, datblygu cyfres o ddeunyddiau cyfathrebu gan gynnwys fideo i godi ymwybyddiaeth o'r menopos, adolygu polisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau eu bod yn ystyried ac yn adlewyrchu goblygiadau'r menopos a gweithio gydag adrannau eraill yn y Gwasanaeth Sifil drwy fforwm a arweiniwyd gan Swyddfa'r Cabinet er mwyn gallu cynnwys cwestiynau am y menopos yn arolwg staff y Gwasanaeth Sifil.

O ganlyniad i waith y grŵp, llofnododd yr Ysgrifennydd Parhaol Addewid Menopos y Gweithle ynghyd â mwy nag 11,000 o gyflogwyr eraill yn y DU, gan ymrwymo Llywodraeth Cymru i wneud y canlynol:

- Cydnabod y gall y menopos fod yn broblem yn y gweithle a bod angen cymorth ar fenywod.
- Siarad yn agored, yn gadarnhaol ac yn llawn parch am y menopos.
- Mynd ati i gefnogi a hysbysu cyflogeion y mae'r menopos yn effeithio arnynt.

Cafodd gwaith y grŵp ei gydnabod yn ffurfiol yng Ngwobrau Llywodraeth Cymru 2022, gan iddo ennill yn y categori Cefnogi Pobl a chael ei roi ar y rhestr fer yn y categori Amrywiaeth a Chynhwysiant.

## Arolwg Staff


Mae ein harolygon o foddhad staff yn parhau i roi ciplun cadarnhaol o brofiad ein gweithlu.
Mae canlyniadau Arolwg Pobl 2022 yn dangos ein bod wedi parhau i gynnal llawer o sgoriau uchel sy'n cymharu'n ffafriol â Gwasanaeth Sifil y DU yn ei gyfanrwydd, gan fod tua dwy ran o dair o'n cwestiynau arolwg cymaradwy wedi perfformio'n uwch na'r meincnod.

Ein Sgôr Mynegai ar gyfer Ymgysylltu â Chyflogeion yn 2022 oedd 65%, sy'n gyson â'r sgôr ar gyfer Gwasanaeth Sifil y DU.

## Cryfderau'r Arolwg

Yn ystod blwyddyn ein cynllun peilot gweithio hybrid, roedd y cwestiynau a gafodd y sgoriau uchaf yn yr arolwg yn parhau i fod ar gyfer y maes hwn, er enghraifft:

- roedd 95% o'r staff yn cytuno eu bod yn gallu dewis ble i wneud eu gwaith (16 o bwyntiau canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil).
- roedd 97% o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr yn ymddiried ynddynt i wneud eu gwaith yn effeithiol, hyd yn oed wrth weithio o leoliad gwahanol (2 bwynt canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil).
- roedd 92% o'r staff yn cytuno bod eu rheolwr yn ystyriol o'u bywyd y tu allan i'r gwaith (3 phwynt canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil).
- roedd 91% o'r staff yn cytuno bod y dechnoleg a ddarperir gan y sefydliad yn eu galluogi i gysylltu a chydweithio â chydweithwyr yn hawdd (11 o bwyntiau canran yn uwch na meincnod y Gwasanaeth Sifil).



# Gohebiaeth a Chwynion



Mae gan Lywodraeth Cymru bolisi cwyno clir a thryloyw sy’n esbonio’r ffordd rydym yn ymdrin â chwynion gan aelodau o’r cyhoedd neu sefydliadau eraill.

Rydym wedi mabwysiadu arferion gorau ym maes ymdrin â chwynion yn unol â pholisi cwyno a chanllawiau enghreifftiol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Yn y flwyddyn 2022-23, ymdriniwyd â 59 o gwynion.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu Dangosydd Perfformiad Allweddol o 85% o ran ymateb i gwynion. Dylai cwynion Cam 1 (anffurfiol) gael eu hystyried a’u datrys o fewn 10 diwrnod gwaith. Dylai cwynion Cam 2 (ffurfiol) gael eu hystyried a’u datrys o fewn 20 diwrnod gwaith.

Mae'r tabl isod yn dangos amseroedd ymateb ar gyfer y tair blynedd diwethaf:

| | Cyfanswm nifer y cwynion a ddaeth i law | Yr ymatebion a roddwyd | Y nifer a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno | % a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno * |
|---|---|---|---|---|
| Ebrill 2020 – Mawrth 2021 | 64 | 74 | 52 | 70% |
| Ebrill 2021 – Mawrth 2022 | 90 | 88 | 66 | 75% |
| Ebrill 2022 – Mawrth 2023 | 54 | 66 | 39 | 59% |

* Mae'r ffigurau ar gyfer blynyddoedd blaenorol wedi cael eu hailddatgan gan fod ymatebion i gwynion a oedd yn dal i fynd rhagddynt wedi cael eu rhoi ers i'r wybodaeth gael ei chyhoeddi yn wreiddiol.

Caiff terfynau amser ymateb i gwynion eu monitro bob mis a'u rhannu ag arweinwyr cwynion ym mhob Grŵp. Mae hyn yn rhoi cyfle iddynt dynnu sylw at ymatebion hwyr a chymryd camau i atal hyn rhag digwydd yn rheolaidd.

Er ein bod yn siomedig o weld y lleihad yn nifer y cwynion a gafodd ymateb o fewn y terfyn amser y cytunwyd arno, ceir amrywiaeth o resymau pam na fyddem yn ymateb i gŵyn o fewn y terfyn amser penodedig. Ymhlith y rhain y mae pa mor gymhleth yw'r gŵyn, neu pa mor fanwl y mae angen ymchwilio iddi. Gwnaethom ymateb i 41 o gwynion Cam 1 a 18 o gwynion Cam 2. Pan gaiff terfyn amser cwyn ei estyn, rhoddir gwybod i'r achwynydd bob amser a rhoddir yr wybodaeth ddiweddaraf iddo drwy gydol y broses, yn unol â model Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

Rydym yn parhau i gael cwynion cymhleth y mae angen ymchwilio'n fanwl iddynt, a hynny'n aml y tu hwnt i ddyddiad y terfyn amser. Rydym yn delio â nifer cynyddol o gwynion lle mae angen cynnal deialog barhaus â'r achwynydd oherwydd natur gymhleth ac eang y gŵyn ei hun. Gall hyn arwain at estyn y terfyn amser o bryd i'w gilydd.

Gall hyn olygu bod angen llawer o adnoddau a all, yn ei dro, effeithio ar yr amser y bydd yn ei gymryd i ymateb i gwynion eraill. Mae'r Tîm Cyngor ar Gwynion yn cynghori swyddogion ar drin cwynion, ond y meysydd busnes sy'n gyfrifol am sicrhau yr ymatebir i gwynion ar amser ac y caiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei rhannu â'r achwynwyr drwy gydol y broses. Rydym yn parhau i atgoffa swyddogion am bwysigrwydd ymateb i gŵyn o fewn y terfyn amser.

Nid yw Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2022-23 wedi cael ei gyhoeddi eto, ond mae'n hysbys bod 24 o gwynion wedi cael eu hatgyfeirio at yr Ombwdsmon (pump yn fwy na'r flwyddyn flaenorol). O'r rhain, roedd pump yn gwynion cynamserol nad oeddent wedi bod drwy broses gwyno Llywodraeth Cymru ac nid ymchwiliodd yr Ombwdsmon i 19 ohonynt.


Mae'r tabl isod yn dangos cyfanswm yr achosion a gaewyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru dros y pedair blynedd diwethaf.

| | Cyfanswm yr achosion a gaewyd dros y pedair blynedd diwethaf |
|---|---|
| 2019-20 | 7 |
| 2020-21 | 5 |
| 2021-22 | 1 |
| 2022-23 | 2 |

# Llifau Cyllido Llywodraeth Cymru

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn awdurdodi'r symiau a'r dibenion y darperir cyllid i Weinidogion Cymru ar eu cyfer er mwyn ymgymryd â gweithgarwch Llywodraeth Cymru. Mae'r ffeithlun canlynol yn defnyddio ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 ac yn amcanestyn trethi eraill a gwariant o ystadegau Cyllid Sector Cyhoeddus Gwledydd a Rhanbarthau 2021-22 y Swyddfa Ystadegau Gwladol gan ddefnyddio Rhagolwg Economaidd a Chyllidol Mawrth 2022 y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol.

Y Dreth Trafodiadau Tir, y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a Chyfraddau Treth Incwm Cymru yw'r trethi datganoledig. Y Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig yw'r trethi lleol.



# Polisi Trethi Llywodraeth Cymru a Rhagolygon Cyllidol

Mae Cyllideb Llywodraeth Cymru yn rhoi manylion am gyllid y llywodraeth, trethiant a dyraniadau ar lefel y Prif Grwpiau Gwariant (MEG), ac yn amlinellu cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf y llywodraeth, gan gynnwys cynlluniau gwariant manwl ar gyfer y portffolios. Mae manylion am gyllidebau Llywodraeth Cymru ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru[54].

Caiff y Gyllideb ei hategu gan:

- Adroddiad y Prif Economegydd[55]
- Yr Adroddiad ar Bolisi Trethi Cymru[56]
- Y Rhagolwg Trethi Cymreig[57]

Caiff y Rhagolwg Trethi Cymreig ei baratoi gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ac mae'n rhoi'r asesiad o'r fframwaith cyllidol ehangach y pennir y Gyllideb oddi mewn iddo.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Cyllidol a Threthi Datganoledig ar wefan Llywodraeth Cymru[58].

54 www.llyw.cymru/cyllidebau-llywodraeth-cymru
55 www.llyw.cymru/cyllideb-cymru-2022-adroddiad-y-prif-economegydd
56 www.llyw.cymru/adroddiad-ar-bolisi-trethi-rhagfyr-2022
57 obr.uk/wto/rhagolwg-trethi-cymreig-rhagfyr-2022/
58 www.llyw.cymru/trethi-cymru#TrethIncwm

# Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

Mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon o dan adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Yr Ysgrifennydd Parhaol fel y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros Weinidogion Cymru sy'n gyfrifol am baratoi a llofnodi'r cyfrifon. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r rhwymedigaethau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfunol Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu yn debyg i'r cysyniad o grŵp ar gyfer cyfrifyddu corfforaethol ond mae'n seiliedig ar feini prawf rheoli ar gyfer y sector cyhoeddus. Mae rhagor o wybodaeth am y ffin gyfrifyddu ar gael yn y Datganiadau Ariannol ac yn Nodyn 1.2 i'r cyfrifon.

Mae'r sefydliadau cyfunol yn paratoi ac yn cyhoeddi eu hadroddiadau blynyddol  a'u cyfrifon eu hunain.

Mae'r cyfrifon hyn yn cynnwys Craidd Llywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru ei hun) ac endidau Grŵp Llywodraeth Cymru, sef:

## Grŵp Llywodraeth Cymru

- Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau Iechyd GIG Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Career Choices Dewis Gyrfa Cyf
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP
- WGC Holdco Limited

## Cyrff Llywodraeth Ganolog newydd yn ystod y flwyddyn

Sefydlwyd Adnodd Cyfyngedig ar 12 Gorffennaf 2022 fel is-gwmni cyfyngedig trwy warant sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru yn gyfan gwbl. Bydd Adnodd yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu adnoddau addysgol i gefnogi gweithgareddau addysgu a dysgu o dan y Cwricwlwm i Gymru. Roedd y cwmni'n segur drwy gydol blwyddyn ariannol 2022-23 a bydd yn weithredol o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae Adnodd Cyfyngedig wedi cael ei ddosbarthu'n gorff Llywodraeth Ganolog a'i ddynodi yng nghyfrifon a ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru fel y nodir isod.

Sefydlwyd Corff Llais y Dinesydd ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Llais) ar 1 Ebrill 2022 a bu'n gweithredu am ran o flwyddyn ariannol 2022-23 ar ffurf gysgodol, yn paratoi i ddechrau gweithredu o 1 Ebrill 2023 ymlaen. Mae Llais wedi ymgymryd â swyddogaeth y Cynghorau Iechyd Cymunedol presennol i gynrychioli llais a barn pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'n annibynnol ar y llywodraeth, y GIG ac awdurdodau lleol ond mae'n gweithio gyda nhw, ac eraill, er mwyn helpu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar unigolion i wella'n barhaus. Mae Llais wedi cael ei ddosbarthu'n gorff Llywodraeth Ganolog ond nid yw wedi cael ei ddynodi yng nghyfrifon a ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru eto.

Roedd trafodiadau Llais ar gyfer 2022-23 islaw lefel perthnasedd Llywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y cyrff Llywodraeth Ganolog Cymreig canlynol eu dynodi[59]:

- Adnodd Cyfyngedig
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn)
- Cymwysterau Cymru

Nid oedd yr un o'r cyrff hyn yn berthnasol i'w cynnwys yn y cyfrifon cyfunol ar gyfer 2022-23.

Mae'r broses sy'n dal i fynd rhagddi i roi'r prosiect cysoni ar waith ers 2017-18 a datblygiadau polisi megis yr angen i'r 'gweithredwr pan fetha popeth arall' gamu i mewn i weithredu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau yn golygu bod cwmpas cyfrif Llywodraeth Cymru wedi tyfu a'i fod wedi mynd yn fwy cymhleth dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r prosiect cysoni'n parhau i weithio er mwyn sicrhau y bydd cyrff newydd a gaiff eu creu yn cael eu dosbarthu a'u dynodi'n gywir, yn ogystal â chysoni endidau sydd eisoes yn bodoli. Ers 2017-18, mae cyfrifon Llywodraeth Cymru wedi ehangu i gynnwys:


- Tair o ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru
- Dau awdurdod iechyd arbennig
- Creu Trafnidiaeth Cymru a'i ddau is-endid newydd, sef TFW Innovation Services Limited a Transport for Wales Rail Limited, sy'n gweithredu masnachfraint rheilffyrdd Cymru a'r Gororau
- Gweithgareddau llawn Grŵp Banc Datblygu Cymru o fewn y gyllideb, a gwmpesir gan y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar sail gweithgareddau, nid ar sail arian parod a roddir iddo gan Lywodraeth Cymru

Mae holl gyrff y GIG yng Nghymru, Grŵp Banc Datblygu Cymru, Grŵp Trafnidiaeth Cymru a 21 o gyrff Llywodraeth Ganolog bellach wedi'u cynnwys yn yr alldro cyllideb a gwmpesir gan y Crynodeb o Alldro Adnoddau ar sail gweithgareddau, nid ar sail arian parod a roddir iddynt gan Lywodraeth Cymru.

Er bod Llywodraeth Cymru yn ariannu Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y cyfrifon hyn gan nad ydynt yn dod o fewn y ffin ar gyfer cyfrifyddu cyfunol. Mae'r ffeithlun isod yn dangos y berthynas rhwng y mathau o gyrff dosbarthedig a dynodedig a Chyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

59 Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023 (legislation.gov.uk)

## Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru



## Endidau Ffin Gyfrifyddu Llywodraeth Cymru

### Cyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru

- Byrddau Iechyd Lleol
- Ymddiriedolaethau'r GIG
- Iechyd a Gofal Digidol Cymru
- Addysg a Gwella Iechyd Cymru
- Careers Choices Dewis Gyrfa Ltd
- Grŵp Banc Datblygu Cymru
- Grŵp Trafnidiaeth Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- WGC Holdco Ltd
- Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio

### Cyrff dynodedig amherthnasol – heb eu cyfuno

- Adnodd Cyfyngedig
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino
- Comisiwn Dylunio Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- GCRE Ltd
- Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
- Hybu Cig Cymru
- Canolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Busnes Rhyngwladol Cymru
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
- Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Cymwysterau Cymru
- Partneriaeth Datblygu Sectorau Cymru
- Awdurdod Cyllid Cymru

### Cyrff Llywodraeth Ganol – heb eu dynodi na'u cyfuno eto

- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Llais – Corff Llais y Dinesydd
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Elusennau GIG Cymru
- Welsh Development Management Limited

I gynorthwyo â'r diagramau uchod, mae'r canlynol yn esbonio prosesau dosbarthu a dynodi Llywodraeth Ganol:

## Dosbarthu

Dosberthir endidau at ddibenion Cyfrifon Cenedlaethol, sef fframwaith ystadegol a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddisgrifio beth sy'n digwydd mewn economïau cenedlaethol. Caiff pob uned sefydliadol sy'n gweithredu mewn economi eu dosbarthu i sector sefydliadol (er enghraifft, fel corfforaethau anariannol, unedau llywodraeth cyffredinol neu aelwydydd).

Yn fras, caiff endidau eu dosbarthu'n llywodraeth ganolog os ydynt yn cael eu perchenogi neu eu rheoli (h.y. y gallu i bennu eu polisi neu eu rhaglen gyffredinol) gan endidau llywodraeth ganolog eraill ac nad ydynt yn Gorfforaeth Gyhoeddus (sy'n ddosbarthiad ar wahân). Mae Trysorlys EF yn defnyddio'r dosbarthiad hwn i nodi'r driniaeth gyllidebol sy'n briodol i'r endidau hyn, er mwyn sicrhau bod prosesau adrodd cyllidebol yn gyson ym mhob rhan o'r sector cyhoeddus. Ar gyfer endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganolog yng Nghymru, mae hyn yn golygu eu hincwm a'u gwariant yn ôl sgôr seiliedig ar groniadau yn rheolaethau cyllidebol Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF. Mae'r un egwyddorion yn gymwys i unrhyw is-gwmnïau neu gyd-fentrau.

## Dynodi


Dim ond endidau sydd wedi'u dosbarthu'n llywodraeth ganolog a gaiff eu dynodi. Dynodi o dan Orchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig)[60] yw'r broses gyfreithiol sy'n rhoi'r awdurdod cyfreithiol i Lywodraeth Cymru wario. Mae'r broses ddynodi yn dod ag incwm a gwariant ar sail croniadau endidau llywodraeth ganolog Llywodraeth Cymru o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol h.y. o fewn Cyllideb Llywodraeth Cymru y pleidleisiwyd arni gan y Senedd a'r ffin cyfuno Cyfrifon, am fod Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth yn pennu ffiniau cyfunol yn seiliedig ar gyrff dynodedig.

Cyn iddynt gael eu dynodi, dim ond yr arian parod a dalwyd i'r endidau gan Lywodraeth Cymru a gaiff ei gynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol, ac mae'r endidau y tu allan i Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Nid yw p'un a yw endid wedi cael ei dynodi ai peidio yn effeithio ar y driniaeth gyllidebol gyffredinol, dim ond pa elfennau sydd wedi'u cynnwys o fewn Cwmpas y Cynnig Cyllidebol a pha rai sydd y tu allan iddo.

60 www.legislation.gov.uk/cy/primary+secondary?title=the%20government%20of%20wales%20act%202006%20%28budget%20motions%20and%20designated%20bodies%29%20order

# Y Berthynas rhwng Cyfrifon, a Benthyca

Disgrifir gweithgarwch cyllidol Cymru mewn cyfres o wybodaeth am y cyfrifon statudol:



## Cyfrif Cronfa Gyfunol Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn cael derbyniadau a gymeradwywyd drwy bleidlais gan Senedd y DU, derbyniadau Yswiriant Gwladol, trawsdaliad Cyfraddau Treth Incwm Cymru a derbyniadau Trethi Datganoledig. Telir benthyciadau gan Weinidogion Cymru i mewn i'r cyfrif hwn hefyd. Gwneir taliadau o Gronfa Gyfunol Cymru i gyrff a gwmpesir gan Gynnig yng Nghyllideb Cymru neu fel Taliadau Uniongyrchol.

## Datganiad Treth Awdurdod Cyllid Cymru

Mae'r cyfrif hwn yn rhoi adroddiad ar dderbyniadau Trethi Datganoledig ar gyfer y Dreth Trafodiadau Tir a'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r Adroddiad Blynyddol ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.[61]

## Cyfrifon y cyrff a ariennir yn uniongyrchol o Gyllideb Cymru

- Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru[62]
- Comisiwn y Senedd[63]
- Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru
- Swyddfa Archwilio Cymru[64]

## Benthyca

O dan adran 121 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2014 a Deddf Cymru 2017) rhoddwyd pwerau benthyca ychwanegol i Weinidogion Cymru yn weithredol o fis Ebrill 2018. Caiff unrhyw symiau sy'n cael eu benthyca a'u had-dalu o dan y darpariaethau hyn eu gwneud drwy Gronfa Gyfunol Cymru ac felly cânt eu hadlewyrchu yn y cyfrifon hynny.

Cafodd y pwerau benthyca eu harfer am y tro cyntaf yn 2018-19, pan dalwyd £65m i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru o'r Gronfa Fenthyciadau Genedlaethol. Yn 2022-23, talwyd benthyciad pellach o £150m i mewn i Gronfa Gyfunol Cymru. Ar 31 Mawrth 2023, y balans cyfredol yw £297m.

---


61 www.gov.wales/welsh-revenue-authority-annual-reports-and-accounts
62 www.ombudsman.wales/annual-report-accounts/
63 www.senedd.wales/commission/senedd-commission-publications/annual-reports-and-accounts/
64 Annual Report and Accounts 2022-23 (audit.wales)
www.audit.wales/sites/default/files/publications/Annual_Report_and_Accounts_2022_2023_English_0.pdf

# Prif Feysydd Gwariant Llywodraeth Cymru

Mae'r ffeithluniau canlynol yn dangos 10 prif faes gwariant Llywodraeth Cymru yn 2022-2023. Mae'r dadansoddiad wedi'i wneud yn ôl Llinell Wariant yn y Gyllideb, fel y'i defnyddir yn y tablau Prif Grwpiau Gwariant sy'n cyd-fynd â Chynnig y Gyllideb.

Mae 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:


## 10 prif faes gwariant cyllideb refeniw Llywodraeth Cymru




Alldro Refeniw LlC: £18,249m Cyfanswm y 10 prif faes: £15,066m
83% o'r gyllideb refeniw

## 10 prif faes gwariant cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru


# 10 prif faes gwariant cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru




**Alldro Cyfalaf LlC: £2,792m Cyfanswm y 10 prif faes: £2,177m**
**78% o'r gyllideb gyfalaf**

## Er mwyn cymharu – y 10 prif faes gwariant yn 2021-22 oedd:


### Er mwyn cymharu, 10 prif faes gwariant y gyllideb refeniw y llynedd (2021-22) oedd:




**Alldro Refeniw LIC: £18,867m Cyfanswm y 10 prif faes: £15,021m**
**80% o'r gyllideb refeniw**

## 10 prif faes gwariant cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru:

# Er mwyn cymharu, 10 prif faes gwariant y gyllideb gyfalaf y llynedd (2021-22) oedd:




**Alldro Cyfalaf LlC: £2,938m Cyfanswm y 10 uchaf: £2,138m**
**73% o'r gyllideb gyfalaf**

## Mae'r rhain yn eitemau newydd eleni yn y 10 prif faes gwariant refeniw:

### Costau Staff nad ydynt yn Staff Rhaglenni £243m

Mae hyn yn cynrychioli costau rhedeg uniongyrchol ar gyfer staff Llywodraeth Cymru, heb gynnwys staff a gaiff eu cyllido drwy gyllidebau rhaglenni. Mae'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb wedi cynyddu £10m o flwyddyn i flwyddyn, o £233m, gan adlewyrchu'n bennaf ddyfarniad cyflog o 4% i staff. Mae'r Llinell Wariant hon yn y Gyllideb wedi codi i'r 10 uchaf i raddau helaeth am fod llinellau gwariant eraill yn y gyllideb, a oedd yn cynnwys cyllid ar gyfer effeithiau pandemig COVID-19, wedi lleihau ar ôl y pandemig ac wedi disgyn allan o'r 10 uchaf, megis Cymorth Ariannol Brys a Rhyddhad Ardrethi Annomestig.

### Taliadau Uniongyrchol PAC £237m

Roedd Taliadau Uniongyrchol PAC yn y 10 uchaf yn 2020-21, ar £243m, ond, fel y nodir uchod, mae cyllid ar gyfer pandemig COVID-19 ac effeithiau ar ôl y pandemig wedi effeithio ar y ffordd y mae rhai llinellau gwariant yn y gyllideb yn symud i mewn ac allan o'r 10 uchaf o flwyddyn i flwyddyn. Cymorthdaliadau amaethyddol yw Taliadau Uniongyrchol PAC. Caiff cynllun cymorthdaliadau newydd i gymryd lle taliadau o'r UE ar gyfer amaethyddiaeth ei gyflwyno yng Nghymru o 2025 ymlaen.

## Mae'r rhain yn eitemau newydd eleni yn y 10 prif faes gwariant cyfalaf:

### Bargeinion Dinesig a Thwf £65m

Y gwariant hwn yw'r trefniadau cyllido ar gyfer Bargeinion Dinesig a Thwf yng Nghymru, sef cytundebau rhwng Llywodraeth y DU, Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol perthnasol i gydgysylltu buddsoddiadau ac ymyriadau polisi newydd er mwyn ysgogi twf mewn ardaloedd allweddol. Mae'r cyllid yr un faint ag yn 2021-22, sef £65m, ond, fel y nodir uchod, mae rhai newidiadau i'r llinellau gwariant yn y gyllideb sydd yn y 10 uchaf yn adlewyrchu meysydd a gafodd gryn dipyn o gyllid a oedd yn gysylltiedig â COVID-19, a bod y cyllid hwnnw wedi lleihau yn y cyfnod ar ôl y pandemig, gan olygu eu bod wedi symud allan o'r 10 uchaf.

### Diogelwch Adeiladau £62m

Sefydlwyd y Rhaglen Diogelwch Adeiladau er mwyn mynd i'r afael â phroblemau diogelwch tân mewn adeiladau preswyl ledled Cymru. I ddechrau, roedd y Rhaglen yn canolbwyntio ar dai cymdeithasol yn bennaf, ac mae wedi ehangu i gynnwys cymorth i lesddeiliaid a chynlluniau diogelwch tân a arweinir gan ddatblygwyr, ac mae'r gwariant wedi cynyddu £35m ers 2021-22.

## Datgarboneiddio Preswyl ac Ansawdd £55m

Roedd gwariant ar Ddatgarboneiddio Preswyl £11m yn uwch na'r flwyddyn flaenorol yn dilyn cynnydd yn y dyraniad i'r gyllideb ar gyfer mynd i'r afael â datgarboneiddio stoc dai Cymru.

## Gwariant a Reolir yn Flynyddol

Mae Trysorlys EF yn cydnabod pa mor ansefydlog yw rhai rhaglenni a'u bod yn seiliedig ar alw, a pha mor anodd yw amcangyfrif costau dros gyfnod o amser oherwydd hynny. O ganlyniad, rheolir cyllidebau'r rhaglenni hyn yn flynyddol, a'r Trysorlys sy'n darparu'r cyllid hwn fel arfer. Gelwir y cyllidebau hyn yn Wariant a Reolir yn Flynyddol (AME). O'r cyllidebau hyn o fewn y Datganiad o Alldro Adnoddau cafodd £391m neu 80% (2021-22: £775m, 71%) yn ymwneud â Benthyciadau Myfyrwyr ei roi, gan gynnwys llog a disgowntio, heb ad-daliadau yn ystod y flwyddyn.

# Gweinyddu Cyllid Grant

Mae'r cyllid grant a ddarperir gan Lywodraeth Cymru yn cefnogi amrywiaeth eang o sefydliadau, busnesau a phrosiectau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys y sector cyhoeddus, y trydydd sector a'r sector preifat. Diffiniad Llywodraeth Cymru o grant yw "pob taliad nad yw'n mynd drwy broses gaffael a roddir i sefydliadau neu unigolion allanol am weithgareddau sy'n gysylltiedig â chyflawni amcanion polisi neu rwymedigaethau statudol Llywodraeth Cymru".

Mae'n bwysig ein bod yn gwahaniaethu rhwng grantiau a chaffael am fod TAW yn gymwys ar brosesau caffael ac yn gorfod cael ei dalu i CThEF. Mae gan Lywodraeth Cymru tua 390 o gynlluniau grant sydd ar waith ar hyn o bryd ar PayGrants (sef y brif system gorfforaethol) ac mae'n cyhoeddi tua 10,000 o lythyrau dyfarnu bob blwyddyn (heb gynnwys grantiau ar gyfer COVID-19).

Rhennir y grantiau yn ddau gategori penodol:

1. Mae grantiau heb eu neilltuo yn cynnwys y taliadau hynny a roddir i gyrff iechyd a llywodraeth leol ac maent yn cyfrif am £15.3bn o'r cyfanswm o £20.4bn a dalwyd mewn grantiau ar gyfer 2022-23.
2. Mae grantiau wedi'u neilltuo yn daliadau lle mae pethau clir i'w cyflawni a meini prawf o ran diben y grantiau ac maent yn cyfrif am y £5.1bn sy'n weddill o'r cyllid.

## Cefndir y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gefnogi staff ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru drwy gydol 2022-23 o ran datblygu a dosbarthu cyllid grant. Mae'r tîm yn ymgymryd â dwy swyddogaeth allweddol:

- Rhoi cyngor, arweiniad, cymorth a hyfforddiant ar bolisïau a phrosesau rheoli grantiau.
- Sefydlu, adolygu, diweddaru a chyhoeddi polisïau ynglŷn â grantiau.

Pan fo ymholiadau yn fwy cymhleth eu natur, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio gyda thimau o bob rhan o Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cydweithwyr ym maes cymorthdaliadau, gwasanaethau cyfreithiol ac archwilio mewnol. Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio'n arbennig o agos gyda'r gwasanaethau cyfreithiol er mwyn diweddaru telerau ac amodau ar gyfer templed y llythyr dyfarnu grant safonol (a gorfodol) er mwyn sicrhau bod y cymalau'n dal yn gyfredol ac yn addas at y diben. Mae sicrhau bod y telerau ac amodau yn cael eu diweddaru'n rheolaidd a'u bod yn gadarn yn galluogi Llywodraeth Cymru i atal cyllid dros dro, ei dynnu'n ôl neu ei adhawlio os bydd angen.

Mae'r newidiadau diweddaraf i dempled y llythyr dyfarnu grant yn adlewyrchu'r ddeddfwriaeth newydd, sef Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022. Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith newydd ar gyfer rhoi cymorthdaliadau sy'n gwbl wahanol i gyfundrefn cymorth gwladwriaethol yr UE ac yn wahanol iawn i'r gyfundrefn rheoli cymorthdaliadau interim o dan Gytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU â'r UE a oedd ar waith ers i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2020.

Bu'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn gweithio'n agos gyda'r tîm Rheoli Cymorthdaliadau a'r Gwasanaethau Cyfreithiol i sicrhau bod templed y llythyr dyfarnu grant yn addas at y diben a bod cyngor a chanllawiau ar waith i gefnogi rheolwyr grantiau.

Mae'r tîm yn parhau i ateb y cannoedd o ymholiadau a gaiff yn ystod y flwyddyn, yn ogystal â rhoi cymorth a chyngor wyneb yn wyneb a rhithwir i reolwyr grantiau ar gyfer ymholiadau penodol ynglŷn â'r broses grantiau gyfan o'r dechrau i'r diwedd. Mae'r tîm hefyd wedi sicrhau bod rheolwyr grantiau yn cael cyngor ar arferion gorau a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch newidiadau drwy gylchlythyrau a nodiadau i reolwyr grantiau.

Ymhlith y pynciau y rhoddwyd sylw iddynt y mae newidiadau i'r llythyr dyfarnu, newidiadau i drefniadau rheoli cymorthdaliadau a chanllawiau a gwybodaeth newydd ynghylch y polisi newydd ar ddyfarnu cyllid dros gyfnod hwy.

Yn ystod hydref 2021, gofynnwyd i'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau edrych ar y ffordd y caiff cynlluniau grant eu hailhysbysebu ar ddiwedd proses gystadleuol, a ellid cyflwyno proses feincnodi er mwyn helpu i nodi pa sefydliadau a fyddai'n parhau i gael cyllid ac, o dan rai amgylchiadau, a ellid ymestyn hyd cynlluniau grant i gyfnod cychwynnol o dair blynedd gyda'r opsiwn i'w hymestyn ymhellach am gyfnod o dair blynedd.

Prif nod datblygu'r polisi newydd oedd rhoi terfyn ar y cylch o ailgystadlu am grantiau bob blwyddyn, sy'n gosod baich gweinyddol ar reolwyr grantiau a derbynwyr fel ei gilydd a, lle y bo'n ymarferol, symud i ffwrdd o ddyfarnu grantiau yn flynyddol. Hefyd, mae'r polisi newydd yn ceisio rhoi mwy o ffocws ar gyflawni canlyniadau yn ogystal ag allbynnau a helpu i fynd i'r afael â rhai o'r problemau sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff a wynebir gan dderbynwyr yn y trydydd sector pan ddyfernir cyllid yn flynyddol.

Yn dilyn ymgysylltu helaeth â chydweithwyr ac Is-bwyllgor Cyngor Partneriaeth y Trydydd Sector (sy'n cynnwys cynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector), lansiwyd y polisi newydd ym mis Ebrill 2022. Mae gwaith wedi parhau er mwyn ymgysylltu â rheolwyr grantiau, gan eu helpu i roi'r polisi newydd ar waith, lle y bo'n briodol, a bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i ddatblygu canllawiau a chymorth pellach wrth i'r polisi newydd barhau i gael ei ymgorffori ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Yn fwy cyffredinol, bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i weithio'n agos gyda chydweithwyr yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol, y Tîm Atal Twyll a'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol er mwyn nodi gwersi a ddysgwyd i gefnogi datblygiadau a gwelliannau pellach i brosesau rheoli grantiau, y gellir eu rhannu wedyn fel arferion gorau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

## Y Panel Sicrwydd Grantiau

Cyflwynwyd y Panel Sicrwydd Grantiau ym mis Medi 2018 ac mae'n rhoi cyngor ymarferol a her i reolwyr grantiau yn gynnar yn natblygiad cynllun grant. Nod y panel yw ychwanegu gwerth drwy helpu rheolwyr grantiau i liniaru risgiau posibl a sicrhau bod cynlluniau grant yn gyson â pholisïau Llywodraeth Cymru.

Daw aelodau'r panel o feysydd allweddol y busnes er mwyn cynnig her adeiladol, craffu a sicrwydd ar gyfer cynlluniau grant wedi'u neilltuo newydd/arfaethedig. Mae'r aelodau yn cynnwys swyddogion o'r Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraethiant, Swyddfa'r Cabinet, Archwilio Mewnol, Atal Twyll, a Chaffael.

Mae'r panel yn cyfarfod bob mis neu'n amlach yn ôl yr angen. Mae staff y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn cael eu cynrychioli ar y panel yn ogystal â darparu cymorth ysgrifenyddiaeth. Maent hefyd ar gael i gefnogi rheolwyr grantiau unigol cyn ac ar ôl y cyfarfodydd a chysylltu â'r rheolwr grantiau wedyn er mwyn cadarnhau a yw'r argymhellion wedi'u gweithredu ac, os felly, pryd y cawsant eu gweithredu.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau wedi parhau i gynnal yr adolygiad blynyddol o'r panel. Mae'r adborth cyffredinol wedi parhau i fod yn gadarnhaol, a hynny gan reolwyr grantiau ac aelodau o'r panel. Mae unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwelliannau wedi cael eu hystyried a'u rhoi ar waith lle bo hynny'n briodol. Bydd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau yn parhau i hyrwyddo'r panel a chodi ymwybyddiaeth ohono yn ogystal â rhannu themâu sy'n dod i'r amlwg ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

## Y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog

Cyflwynwyd y Tîm Diwydrwydd Dyladwy Canolog ym mis Ebrill 2019 ac mae'n atebol i Bennaeth y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau. Mae'r tîm wedi datblygu systemau a phrosesau i'w alluogi i wneud gwiriadau diwydrwydd dyladwy a llywodraethiant corfforaethol, ar ran rheolwyr grantiau, ynglŷn â sefydliadau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hariannu neu'n ystyried eu hariannu.

Y nod yw gwella cysondeb, lleihau dyblygu a rhoi mwy o gymorth i reolwyr grantiau yng ngham arfarnu'r broses grantiau. Cyfrifoldeb y rheolwyr grantiau a'r timau polisi o hyd yw diwydrwydd dyladwy ar brosiectau, canlyniadau, gallu sefydliadol i gyflawni'r prosiect a gwerth am arian.

Mae'r tîm yn paratoi "Prawf Iechyd Ariannol Corfforaethol" ar gyfer pob sefydliad sy'n cynnwys dadansoddiad o gyfrifon archwiliedig, cadarnhau gwybodaeth a ddelir gan Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau, defnyddio adnoddau atal twyll a gwybodaeth gan y Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy. Fel arfer, mae'r mathau o faterion a nodir yn cynnwys sefydliadau sydd mewn anawsterau ariannol neu sy'n ansolfent, Dyfarniadau'r Llys Sirol, pryderon ynglŷn â llywodraethiant neu wybodaeth anffafriol am y sefydliad neu ei egwyddorion.

Pan gaiff risgiau eu nodi, mae'r tîm yn rhoi argymhellion i'r rheolwr grantiau ynglŷn â chamau lliniaru. Er enghraifft, argymell gwarantau trawsgwmni, taliadau ôl-weithredol, trefniadau monitro tynnach neu gael rhagor o wybodaeth, rhagolygon neu eglurder ynglŷn â meysydd sy'n achos pryder.

Yn ystod 2022-2023, mae'r tîm wedi cynnal 500 o asesiadau a gaiff eu lanlwytho i'r Ganolfan Diwydrwydd Dyladwy sy'n golygu bod asesiadau nid yn unig ar gael i'r rheolwr grantiau ond hefyd i dimau ac adrannau ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru. Yn ogystal â darparu'r asesiadau corfforaethol, mae'r tîm hefyd wedi rhoi cyngor ac arweiniad pwrpasol i reolwyr grantiau ar ddyfarniadau a chynlluniau unigol, wedi mynd i gyfarfodydd tîm gan roi cyngor penodol ar ddiwydrwydd dyladwy, ac wedi cyfrannu at yr adolygiad o delerau ac amodau grantiau o safbwynt diwydrwydd dyladwy.

Mae'r tîm hefyd wedi bod yn adolygu ei brosesau ac wedi cysylltu â phawb sydd wedi defnyddio'r gwasanaeth yn ystod y 12 mis diwethaf er mwyn gofyn am adborth ar ei waith mewn perthynas â'r asesiadau, y cyngor a'r camau lliniaru a ddarparwyd ac a oes angen i'r asesiadau gynnwys unrhyw wybodaeth ychwanegol. Mae'r adborth gan reolwyr grantiau wedi bod yn gadarnhaol iawn ac, yn benodol, maent yn croesawu'r sicrwydd a roddir, sy'n eu helpu i ddeall proffiliau ariannol sefydliadau, gan ddarparu prosesau lliniaru ychwanegol iddynt pan fo angen yn ogystal ag arbed amser ac adnoddau iddynt.

Mae'r tîm hefyd yn rhoi cymorth mewn perthynas â diwydrwydd dyladwy yng nghyfarfod y Panel Sicrwydd Grantiau a'r Panel Sicrwydd Allanol (mae rhagor o fanylion am y Panel Sicrwydd Allanol i'w gweld yn Rhan 2). Mae'n gweithio'n agos gyda chydweithwyr ym meysydd Archwilio Mewnol, Atal Twyll a'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol er mwyn sicrhau y gellir ymgorffori unrhyw wersi a ddysgir yn ei brosesau.

## Ymgysylltu ehangach

Yn ystod 2022-23, mae'r tîm wedi ymgysylltu â chyrff eraill sy'n rhoi grantiau er mwyn rhannu arferion gorau a deall prosesau sefydliadau eraill wrth ymgymryd â diwydrwydd dyladwy. Cafodd cyfarfodydd anffurfiol eu cynnal gyda Llywodraeth yr Alban, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Sefydliad Banc Lloyds, Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cynrychiolwyr rhai awdurdodau lleol yng Nghymru a'r Gwasanaeth Ansolfedd.

Tynnodd yr ymarfer rhannu gwybodaeth anffurfiol sylw at nifer o bethau sy'n debyg, gan roi sicrwydd a gwybodaeth werthfawr i'r tîm ynglŷn â ffyrdd o ymdrin â risg, lefel y gwiriadau a gynhelir, ffynonellau gwybodaeth, swyddogaethau timau a systemau TG.

## Cyllid Grant gan Lywodraeth Cymru

Mae'r data ar gyfer 2022-23 yn seiliedig ar y system o "allweddau diwydiant" er mwyn rhoi darlun o gyllid yn ôl sector.

**Tabl 1: Cyfanswm Cyllid Grant Llywodraeth Cymru yn ôl Blwyddyn Ariannol**

| | 2020-21 £bn | 2021-22 £bn | 2022-23 £bn |
|---|---|---|---|
| Grant a roddwyd | 21.2 | 20.8 | 20.4 |

Tabl 2: Mae'n dangos lefelau o gyllid wedi'i neilltuo a roddwyd i bob un o'r sectorau mawr ar gyfer y tair blwyddyn ariannol ddiwethaf.

| Cyllid Grant Wedi'i Neilltuo | 2020-21 £m | 2021-22 £m | 2022-23 £m |
|---|---|---|---|
| Awdurdodau Lleol | 2,625 | 2,727 | 2,448 |
| Y GIG | 86 | 79 | 84 |
| Llywodraeth Ganolog a Chorfforaethau Cyhoeddus | 1,073* | 1,164 | 618 |
| Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru | 141 | 210 | 113 |
| Cyllid i Addysg | 600 | 686 | 695 |
| Y Sector Preifat | 2,827 | 1,547 | 532 |
| Y Trydydd Sector | 431* | 516 | 578 |
| **Cyfanswm** | **7,783** | **6,929** | **5,068** |

* Ailddatganwyd i adlewyrchu cywiriadau i ddosbarthiadau

# Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru

Rhaglen Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) yng Nghymru ar gyfer cylch cyllido 2014-2020.

Daeth Deddf y Cytundeb Ymadael i rym ym mis Ionawr 2020 ac ymadawodd y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar 31 Ionawr 2020. Mae hyn yn golygu y bydd y rhaglenni presennol o dan ESF ac ERDF yn cael eu cwblhau fel pe bai'r DU yn dal i fod yn un o Aelod-wladwriaethau'r UE. Bydd gwariant prosiect hyd at 31 Rhagfyr 2023 yn gymwys i gael cymorth yr UE, a bydd y gwariant prosiect terfynol yn cael ei ad-dalu yn ystod blwyddyn ariannol 2024-2025.

Mae WEFO wedi neilltuo 100% o'r dyraniad o Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer 2014-2020, gan fuddsoddi dros £2.1bn a sbarduno buddsoddiad gwerth dros £4bn i gyd (ar 31 Mawrth 2023) sydd hefyd yn cynnwys ailbwrpasu cronfeydd strwythurol yr UE i gefnogi'r ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

Hyd yma, mae prosiectau'r UE a gefnogwyd gan raglenni 2014-2020 wedi creu ychydig dros 33,900 o swyddi a bron i 6,700 o fusnesau newydd. Hefyd, mae dros 23,100 o fusnesau wedi cael cymorth, mae 40,700 o bobl wedi cael eu helpu i gael gwaith, ac mae bron i 152,000 o gymwysterau wedi cael eu hennill.

**Mae Tablau 1-4 yn dangos:**

- Cynnydd WEFO o ran neilltuo'r grant sydd ar gael o dan y Cronfeydd Strwythurol y mae'n ei ddosbarthu yng Nghymru, hyd at 31 Mawrth 2023 – Tabl 1;
- Amlinellir dadansoddiad o'r prosiectau yn ôl sector yn y tabl isod – Tabl 2 (cymeradwywyd) a Thabl 3 (hawliadau);
- Taliadau grant blynyddol a wnaed rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 – Tabl 4.

**Tabl 1: Prosiectau a Gymeradwywyd fesul Rhaglen, ar 31 Mawrth 2023**

| Cyllid Wedi'i Neilltuo (£m) | ERDF Gorllewin Cymru £m | ERDF Dwyrain Cymru £m | ESF Gorllewin Cymru £m | ESF Dwyrain Cymru £m | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyraniad | 1,045 | 176 | 703 | 177 | 2,101 |
| Gwerth y Grant | 1,097 | 182 | 738 | 181 | 2,198 |
| Nifer y Gweithrediadau | 106 | 40 | 76 | 45 | 267 |
| % a Gymeradwywyd | 105% | 103% | 105% | 102% | 105% |

| Iwerddon/Cymru | €m |
|---|---|
| Dyraniad | 79 |
| Gwerth y Grant | 83 |
| Nifer y Gweithrediadau | 24 |
| % a Gymeradwywyd | 105% |

**Tabl 2: Cyfanswm y Prosiectau a Ariennir gan yr UE a gymeradwywyd, ar 31 Mawrth 2023**


| | Nifer y prosiectau a gymeradwywyd | Cyfanswm y Buddsoddiad | | Grant yr UE | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Swm £m | Cyfran | Swm £m | Cyfran |
| Llywodraeth Cymru | 76* | 2,297 | 56% | 1,109 | 50% |
| Y Trydydd Sector | 32 | 195 | 5% | 150 | 7% |
| AU/AB | 79 | 633 | 15% | 391 | 18% |
| Y Sector Preifat | 19 | 599 | 15% | 317 | 15% |
| Llywodraeth Leol | 61 | 366 | 9% | 230 | 10% |
| **Cyfanswm** | **267** | **4,090** | **100%** | **2,197** | **100%** |

* Mae'r ffigur yn cynnwys 15 o brosiectau sy'n ymwneud â Chyrff a Noddir gan y Llywodraeth, Asiantaethau'r Llywodraeth a Chyrff Cyhoeddus Eraill.

**Tabl 3: Dadansoddiad o gyfanswm yr hawliadau fesul sector, ar 31 Mawrth 2023**

| | Gwariant Cronnus y Proffil Cyflawni £m | Gwariant Cymwys a Broseswyd £m | Amrywiant mewn Gwariant £m | Grant Proffil Cyflawni £m | Grant a Dalwyd Hyd yn Hyn £m | Amrywiant yn y Grant £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | 1,717 | 1,614 | 103 | 827 | 714 | 113 |
| Y Trydydd Sector | 158 | 145 | 13 | 123 | 123 | 0 |
| AU/AB | 522 | 480 | 42 | 327 | 300 | 27 |
| Y Sector Preifat | 507 | 486 | 21 | 270 | 256 | 14 |
| Llywodraeth Leol | 304 | 273 | 31 | 197 | 174 | 23 |
| **Cyfanswm** | **3,208** | **2,998** | **210** | **1,744** | **1,567** | **177** |

Tabl 4: Taliadau Grant



# Prosiectau Llywodraeth Cymru

Cyflawnir prosiectau a arweinir gan Lywodraeth Cymru drwy amrywiaeth o bartneriaid cyflawni. Mae arweiniad Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn bosibl i amrywiaeth o bartneriaid cyflawni fod yn rhan o'r rhaglenni na fyddent fel arall yn meddu ar y profiad, y cyfalaf gweithio na'r gallu i gymryd risgiau er mwyn cymryd rhan effeithiol yn y rhaglenni.

Mae prosiectau Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfanswm o £1.8bn o dan y rhaglenni presennol, sydd wedi cael £0.82bn o Gronfeydd Strwythurol yr UE.

| | Cyfanswm y gost £m | Cyfraniad yr UE £m |
|---|---|---|
| Yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol | 1,556 | 677 |
| Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus | 235 | 118 |
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 37 | 26 |
| **Cyfanswm**[1] | **1,828** | **821** |

[1] Mae'r wybodaeth hon wedi'i chynnwys yn y tablau ar y tudalennau blaenorol

Daw prosiectau Llywodraeth Cymru i ben ar adegau gwahanol rhwng nawr a diwedd 2023. Mae WEFO yn parhau i weithio gyda'r holl fuddiolwyr i gynnal eu proffiliau cyflawni arfaethedig, cyflwyno hawliadau'n brydlon a datgan eu holl wariant.

# Datganiad Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol

Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o Ddatganiad Cyfunol Llywodraeth Cymru o'r Sefyllfa Ariannol.

| **Asedau Cyfunol Llywodraeth Cymru** | **2022-23 £bn** | **2021-22 £bn** |
|---|---|---|
| **Asedau Ffisegol** | | |
| Y rhwydwaith ffyrdd (Cefnffyrdd gan gynnwys traffyrdd) | 21.5 | 19.1 |
| Y rhwydwaith rheilffyrdd (Llinellau Craidd y Cymoedd) | 2.1 | 2.0 |
| Tir ac adeiladau (gan gynnwys Ystad y GIG) | 3.7 | 3.5 |
| Asedau sy'n cael eu hadeiladu (Ffyrdd a Rheilffyrdd yn bennaf) | 2.3 | 1.5 |
| **Asedau Ariannol** | | |
| Portffolio benthyciadau i fyfyrwyr | 7.1 | 5.5 |
| Portffolio Cymorth i Brynu – Cymru | 0.3 | 0.4 |
| Benthyciadau Banc Datblygu Cymru | 0.3 | 0.2 |
| Benthyciadau a buddsoddiadau eraill | 0.8 | 0.9 |
| Arian parod | 1.4 | 1.5 |
| **Asedau eraill** | 2.3 | 1.7 |
| **Cyfanswm yr Asedau** | **41.8** | **36.3** |

| **Rhwymedigaethau Cyfunol Llywodraeth Cymru** | **2022-23 £bn** | **2021-22 £bn** |
|---|---:|---:|
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 2.3 | 2.2 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 0.7 | 1.2 |
| Darpariaeth Cronfa Risg Cymru ar gyfer hawliadau ynghylch esgeulustod clinigol | 1.5 | 1.4 |
| Darpariaethau eraill | 0.2 | 0.3 |
| Rhwymedigaethau eraill | 0.9 | 0.7 |
| **Cyfanswm y Rhwymedigaethau** | **5.7** | **5.8** |
| **Asedau Net** | **36.1** | **30.5** |

Roedd y prif gynnydd yng ngwerth asedau yn ymwneud â'r Rhwydwaith Ffyrdd a'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr. Yn y ddau achos, y rheswm dros y prif gynnydd yw effaith ymarferion prisio a wnaed yn ystod y flwyddyn a newidiadau i fynegeion (megis mynegai prisiau manwerthu) a/neu gyfraddau disgownt. Mae'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr hefyd wedi cael ychwanegiadau gwerth £0.9bn yn ystod y flwyddyn.

Y prif reswm dros y cynnydd o £0.8bn yn yr Asedau sy'n cael eu Hadeiladu yw datblygiadau ffyrdd, rheilffyrdd a seilwaith y GIG, gan gynnwys cynllun Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465 a Metro De Cymru.

Mae Asedau Eraill hefyd wedi cynyddu £0.6bn yn sgil newidiadau i stocrestr y Grŵp, symiau derbyniadwy, asedau offer a chyfarpar a chynnwys asedau Hawl Defnyddio IFRS16 yn dilyn mabwysiadu'r safon ar gyfer y sector cyhoeddus o 1 Ebrill 2022 ymlaen. Gwerth asedau Hawl Defnyddio'r Grŵp ar 31 Mawrth 2023 oedd £0.4bn.

Y prif newid yn rhwymedigaethau'r Grŵp yw gostyngiad gwerth £0.5bn mewn croniadau ac incwm gohiriedig, yn bennaf yn sgil y setliad yn 2022-23 o groniadau a wnaed ar ddiwedd 2021-22. Ar ddiwedd 2022-23, cynyddodd croniadau'r Grŵp ar gyfer cynlluniau tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol honno a weithredwyd i roi cymorth mewn ymateb i'r argyfwng Costau Byw a oedd yn dod i'r amlwg ac i gefnogi cyllid ychwanegol i Awdurdodau Lleol gan gynnwys drwy'r Grant Setliad Refeniw. Mae cymorth ar gyfer Costau Byw wedi parhau drwy gydol 2022-23 ac nid yw wedi arwain at yr un lefel o groniadau ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol hon.

# Adroddiad Atebolrwydd 2022-23

## Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan Adran 131 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru baratoi cyfrifon adnoddau cyfunol blynyddol yn unol â'r cyfarwyddydau a roddwyd gan Drysorlys Ei Fawrhydi, yn nodi'r adnoddau sydd wedi'u caffael, eu dal neu eu gwaredu a'r defnydd o adnoddau yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a ddynodwyd yng Ngrŵp Llywodraeth Cymru ac a restrir yn y nodiadau i'r cyfrifon hyn. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o faterion Llywodraeth Cymru a'r grŵp, ac o incwm a gwariant, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol a llifoedd arian parod y grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Y Prif Swyddog Cyfrifyddu ar ran Gweinidogion Cymru biau'r cyfrifoldeb dros drefniadaeth gyffredinol, rheolaeth a staffio Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb dros systemau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyllid a materion eraill, a thros reoli gofyniad net Llywodraeth Cymru am arian parod. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol hefyd am baratoi a llofnodi cyfrif adnoddau cyfunol Llywodraeth Cymru.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) y Llywodraeth ac, yn arbennig:

- parchu'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddir gan y Trysorlys, gan gynnwys gofynion perthnasol o ran cyfrifyddu a datgelu a chymhwyso polisïau cyfrifyddu addas yn gyson;
- sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru systemau a gweithdrefnau priodol a dibynadwy i gyflawni'r broses gydgrynhoi;
- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol, gan gynnwys y dyfarniadau sydd ynghlwm wrth gydgrynhoi'r wybodaeth gyfrifyddu a ddarperir gan gyrff cyhoeddus eraill yn y grŵp;
- datgan a oes safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodir yn FReM wedi'u dilyn a datgelu ac esbonio unrhyw wyriadau perthnasol yn y cyfrifon;
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol;
- cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn eu crynswth yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a chymryd cyfrifoldeb personol dros yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon a'r farn sy'n ofynnol ar gyfer penderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

O dan Adran 133(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn gallu dynodi aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu hefyd yn dynodi Prif Weithredwr y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yn Swyddog Cyfrifyddu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru. Mae gwaith y Byrddau Iechyd Lleol, Byrddau Iechyd Arbennig ac Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru'n cael ei lywodraethu gan awdurdod ar wahân ac mae Prif Weithredwyr pob un o'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael eu penodi'n Swyddogion Atebol gan Brif Weithredwr y GIG yng Nghymru. Nid yw'r penodiadau hyn yn tynnu oddi ar gyfrifoldeb cyffredinol y Prif Swyddog Cyfrifyddu dros gyfrifon Llywodraeth Cymru.

Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu (neu Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol, ar ei ran) wedi penodi Prif Weithredwyr (neu swyddogion cyfatebol) Cyrff Cyhoeddus Cymru fel Swyddogion Cyfrifyddu'r cyrff hynny. Mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu'n gyfrifol am sicrhau bod systemau a rheolaethau yn eu lle i sicrhau yr ymgeisir am unrhyw grantiau y mae Llywodraeth Cymru'n eu rhoi i Gyrff Cyhoeddus Cymru at y dibenion a fwriedir. Mae'n gyfrifol hefyd am sicrhau bod modd cyfrif yn briodol am y gwariant hwnnw ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny o fewn y cyfrifon adnoddau. O dan y telerau penodi, mae Swyddogion Cyfrifyddu Cyrff Cyhoeddus Cymru'n atebol am ddefnyddio, gan gynnwys rheoleidd-dra a phriodoldeb, y grantiau a dderbynnir ac incwm a gwariant arall y cyrff hynny.

Nodir cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifyddu, gan gynnwys y cyfrifoldeb dros briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifyddu'n atebol amdano, dros gadw cofnodion priodol, a diogelu asedau Llywodraeth Cymru neu'r corff Cyhoeddus Cymreig y mae'r swyddog cyfrifyddu'n atebol iddo, yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.

## Datgelu Gwybodaeth i Archwilwyr

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sicrhau bod Archwilydd Cyffredinol Cymru'n gwybod am yr wybodaeth honno. Hyd eithaf fy ngwybodaeth, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r Archwilydd Cyffredinol yn ymwybodol ohoni.

# Datganiad Llywodraethiant

## Cyflwyniad

Rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod safonau uchel o uniondeb yn y ffordd y rheolir arian cyhoeddus. Wrth gyflawni'r ddyletswydd hon, rwyf yn gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n ategu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion Gweinidogion Cymru, ac sy'n hwyluso arfer swyddogaethau Gweinidogion Cymru yn effeithiol, gan gynnwys trefniadau effeithiol ar gyfer rheoli risg.

Mae 2022-23 wedi bod yn flwyddyn lle y mae busnes yn parhau i ddychwelyd i'r arfer yn dilyn pandemig COVID-19 ac wrth ymateb i COVID-19 rydym yn canolbwyntio yn awr ar ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i'r Ymchwiliad i Covid sy'n cael ei arwain gan y DU. Mae tîm canolog COVID-19 Llywodraeth Cymru yn arwain ac yn cydgysylltu'r ymatebion i geisiadau Ymchwiliad COVID-19 ac yn gweithio gydag arweinwyr yr ymchwiliad COVID-19 ym mhob grŵp, unigolion allweddol, a'u swyddogion/is-adran bolisi wrth ddrafftio ymatebion.

Mae'r flwyddyn hefyd wedi cyflwyno heriau newydd ar ffurf yr argyfwng costau byw ac ymateb Llywodraeth Cymru i'r sefyllfa ddyngarol yn Wcráin. Ar dudalen 132 rwyf yn amlinellu'n fanylach y strwythurau yr ydym wedi'u rhoi ar waith i gefnogi'r ddau fater pwysig hyn ond yn ehangach rydym wedi sicrhau bod ein strwythurau llywodraethiant a'n rheolaethau mewnol wedi ein galluogi i helpu a chefnogi pobl sy'n ffoi o'r gwrthdaro yn Wcráin a chefnogi'r rhai sydd eisoes yng Nghymru.

Mae'r prif ffynonellau gwybodaeth yr wyf yn eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethiant hwn wedi'u nodi yn Ffigur 1 isod.

## Ffigur 1: Ffynonellau Gwybodaeth sy’n Cyfrannu at y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol




Defnyddir Ffynonellau Gwybodaeth Allanol hefyd i lywio'r Datganiad Llywodraethiant.

Mae’r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu, i adroddiadau oddi wrth y canlynol:

- Archwilio Cymru
- Rheoleiddwyr
- Y Comisiwn Ewropeaidd
- Aseswyr Allanol.

## Y Fframwaith Llywodraethiant

Mae'r Fframwaith Llywodraethiant yn cynnwys y systemau, y prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd a ddefnyddir i gyfeirio a rheoli Llywodraeth Cymru a'r gweithgareddau y mae'n atebol trwyddynt i Senedd Cymru ac yn ymgysylltu â rhanddeiliaid trwyddynt. Mae'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r modd y mae ei bolisïau, ei nodau a'i amcanion yn cael eu cyflawni ac i weld a lwyddwyd i sicrhau gwerth am arian. Mae'r Fframwaith yn cynnwys y cyrff hynny y cyflawnir blaenoriaethau ac ymrwymiadau'r llywodraeth trwyddynt a hefyd y trefniadau mewnol ar gyfer gwneud penderfyniadau yn Llywodraeth Cymru. Ceir manylion pellach am y Fframwaith Llywodraethiant o fewn Datganiad System y Swyddog Cyfrifyddu.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rwyf wedi ymrwymo i gefnogi Gweinidogion Cymru wrth iddynt gyflawni eu dyletswydd i hyrwyddo datblygu cynaliadwy (Deddf Llywodraeth Cymru 2006) a llesiant (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015). Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau mai datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol y llywodraeth a chyrff cyhoeddus, ac felly dylai trefniadau gweithredu, llywodraethiant a mecanweithiau'r Llywodraeth, a'r cyngor a'r cymorth a roddir gan y gwasanaeth sifil yng Nghymru, wella'n gyson er mwyn ymateb i'r gofynion hyn. Trwy LlC2025, ein rhaglen dair blynedd ar gyfer datblygu sefydliadol, rydym yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol wrth wraidd y ffordd rydym yn ymddwyn a phopeth rydym yn ei wneud.

Ym mis Chwefror 2023, cyhoeddwyd Cynllun Dysgu a Gwella Parhaus Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2023-25 Llywodraeth Cymru sy'n dwyn ynghyd dros 50 o gamau gweithredu sydd wedi'u cynllunio i ddyfnhau dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Llywodraeth Cymru a sut y mae'n cael ei chymhwyso. Rydym wedi ymrwymo i gyhoeddi diweddariad blynyddol ar ein cynnydd. Mae'r Cynllun hefyd yn nodi camau allweddol a gaiff eu hymgorffori yn LlC2025 a chamau gweithredu newydd a fydd yn cryfhau'r wybodaeth a'r ddirnadaeth y mae eu hangen arnaf i roi sicrwydd bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn cael ei hyrwyddo a'i chymhwyso ar draws adrannau. Dull gweithredu arloesol ac esblygol yw hwn sy'n cydnabod y rôl sydd gan yr Ysgrifennydd Parhaol yn agenda datblygu cynaliadwy a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio, datblygu ac ymwreiddio perfformiad wrth gymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy o fewn Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cynllun wedi cael ei rannu â'n sefydliadau partner a'i ddefnyddio fel llwyfan ar gyfer trafodaethau ar sut y gallwn fynd ati gyda'n gilydd i hwyluso sefydliadau mwy cynaliadwy, a hynny o ran yr hyn y maent yn ei wneud, a sut y maent yn gweithio. Yn ystod 2022-23, roedd y Pwyllgor Gweithredol a Bwrdd Llywodraeth Cymru yn ymwneud â datblygu'r cynllun a'r trefniadau ar gyfer ei roi ar waith. Credwn y bydd ein ffordd o weithredu'n anfon neges bwysig i gyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, sef bod angen i agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol fod yn destun gwella a myfyrio parhaus.

Mae'r Cynllun hefyd yn gweithredu fel ymateb sylweddol Llywodraeth Cymru i adroddiad adolygu adran 20 Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru. Edrychodd yr adolygiad ar sut y mae peirianwaith Llywodraeth Cymru'n rhoi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Mae'r adroddiad wedi darparu cyfle amserol a gwerthfawr inni gymryd eiliad i feddwl, i ystyried yr hyn yr ydym wedi ei gyflawni hyd yn hyn, ac i'n helpu i achub ar gyfleoedd newydd i wella dealltwriaeth o'r egwyddor datblygu cynaliadwy sydd wrth wraidd y ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio, ac i'w rhoi ar waith yn well. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y cynnydd sylweddol yr ydym wedi'i wneud o ran ymgorffori Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ein ffordd o weithio ac mae'n cydnabod natur flaengar y ddeddfwriaeth hon a'n haeddfedrwydd fel sefydliad sy'n arwain y newid, gan nodi meysydd hefyd lle y gallwn wella.

## Cyrff Cyhoeddus Cymru

Mae Llywodraeth Cymru'n cyflawni rhai o'i nodau a'i hamcanion drwy nifer o Gyrff Cyhoeddus, gan gynnwys Cyrff Hyd Braich Llywodraeth Cymru, is-gwmnïau a chyrff eraill a noddir gan y Llywodraeth.

O fewn Llywodraeth Cymru, sefydlwyd yr Uned Cyrff Cyhoeddus i oruchwylio materion llywodraethiant a fframwaith o fewn cyrff cyhoeddus yng Nghymru megis:

- fframwaith, cyngor a chymorth ar lywodraethiant ac atebolrwydd ar gyfer pob Corff Hyd Braich gan gynnwys cwmnïau sydd ym mherchnogaeth Llywodraeth Cymru a deiliaid swyddi statudol annibynnol, ac ar gyfer unrhyw gyrff newydd arfaethedig;
- rhaglen o adolygiadau teilwredig o Gyrff Hyd Braich;
- cyfrifoldeb dros wneud penodiadau cyhoeddus wedi'u rheoleiddio i ryw 50 o sefydliadau, gan gynnwys cyrff y GIG; goruchwylio penodi Comisiynwyr; a phenodiadau i Fyrddau Cwmnïau a Chyrff Hyd Braich, gan weithio gyda Thimau Partneriaeth (noddwyr) i ddarparu'r penodiadau hynny;
- cyflawni Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a gymeradwywyd gan y Gweinidog;
- rheoli a goruchwylio'r system Anrhydeddau yn Llywodraeth Cymru, gan adrodd i'r Ysgrifennydd Parhaol;
- goruchwylio materion cyflog a phensiynau Cyrff Hyd Braich, er mwyn ceisio sicrhau mwy o gysondeb a thryloywder.

Penodir Swyddogion Cyfrifyddu ar gyfer pob corff sydd â swyddogaethau gweithredol, ac maent yn gyfrifol am y ffordd y mae sefydliad yn rheoli cyllid cyhoeddus ac yn cyflawni ei amcanion. Mae'n ofynnol i Swyddogion Cyfrifyddu lofnodi datganiad llywodraethiant a gyhoeddir yng nghyfrifon blynyddol eu corff. Diffinnir y berthynas â Llywodraeth Cymru mewn dogfennaeth ysgrifenedig ar gyfer pob corff. Cafodd llawer o'r ddogfennaeth ysgrifenedig hon ei hadolygu a'i diwygio yn ôl yr angen ym mis Mawrth 2023 i adlewyrchu'n fwy effeithiol newidiadau i amgylchedd gweithredu cyrff cyhoeddus yng Nghymru a symudiad tuag at gylchoedd gwaith 'tymor llywodraeth' yn lle llythyrau blynyddol.

Mae'r Uned Cyrff Cyhoeddus yn parhau i ddatblygu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus drwy gyfarfodydd â Phrif Weithredwyr. Mae'r cyfarfodydd yn rhai anffurfiol a gynhelir yn rhithiol, gan ganiatáu llif rhydd o wybodaeth a diddordebau, yn aml yn egluro ac yn cysylltu ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu. Er bod swyddog yn rheoli'r cyfarfodydd, mae presenoldeb gan y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a'r Prif Swyddog Gweithredu wedi bod o gymorth wrth hwyluso cyfnewid profiad ar bynciau fel arferion gweithio o bell, cydraddoldeb cyflog a chysylltiadau diwydiannol.

Mae'r Uned wedi parhau â'i rhaglen o Adolygiadau Teilwredig gydag adolygiad o Amgueddfa Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad o'r adolygiad ym mis Gorffennaf 2023. Datblygodd yr Uned fodel asesu risg i gefnogi'r rhaglen o Adolygiadau Teilwredig yn y dyfodol ond mae wrthi'n symud at y Model Hunanasesu (SAM) a ddatblygwyd gan Lywodraeth y DU a gaiff ei addasu ar gyfer cyd-destun Cymru.

Mae'r Uned yn parhau i arwain y gwaith o wneud dros 100 o benodiadau cyhoeddus bob blwyddyn. Mae tîm bach o fewn yr Uned yn gyfrifol am sicrhau bod yr holl benodiadau byhoeddus a reoleiddir yn cael eu gwneud yn unol â'r Cod Llywodraethiant Penodiadau Cyhoeddus ac ar weithredu Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant Llywodraeth Cymru ar gyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Uned hefyd yn bwrw ymlaen â materion cydraddoldeb cyflog yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, ar ôl dod i gytundeb â Chyrff Hyd Braich bod eu staff yn cael eu talu o leiaf yr un peth ag isafswm y raddfa gyflog ar gyfer gradd gyfatebol Llywodraeth Cymru.

Mae'r Uned bellach yn rhan o bortffolio Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru, sydd wedi sefydlu Grŵp Cyfeirio Cyrff Cyhoeddus o uwch-swyddogion sy'n gyfrifol am gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Sefydlwyd y Grŵp i adolygu a datblygu gwaith Llywodraeth Cymru gyda thimau partneriaeth mewn perthynas â phenodiadau, Adolygiadau Teilwredig ac agweddau eraill ar nawdd a llywodraethiant.

## Trefniadau Mewnol Llywodraeth Cymru

Mae'r system rheolaeth fewnol yn rhan bwysig o'r Fframwaith Llywodraethiant a bwriedir iddi liniaru risg annerbyniol. Mae Cynllun Dirprwyaethau Llywodraeth Cymru yn nodi'r dirprwyaethau safonol sy'n gweithredu ar draws pob rhan o Lywodraeth Cymru.


Cyhoeddwyd Cynllun Dirprwyaethau wedi'i ddiweddaru ym mis Hydref 2020 i adlewyrchu'r polisïau diweddaraf yn Llywodraeth Cymru. Ers y dyddiad hwn, mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol wedi diweddaru'r Atodlen ar sawl achlysur i adlewyrchu lle y mae mân newidiadau wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn, megis unigolion yn newid rolau a newidiadau i strwythur y tîm. Mae unrhyw newidiadau'n cael eu cyfleu drwy Benaethiaid Cyllid a Chymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol ledled Llywodraeth Cymru.

Y Gymuned Ymarfer Llywodraethiant Corfforaethol a gwybodaeth a gyhoeddir ar y fewnrwyd, megis bwletinau a chanllawiau, yw'r dulliau allweddol a ddefnyddir i ledaenu arferion llywodraethiant da ar draws holl Grwpiau Llywodraeth Cymru.

Cefnogir y Fframwaith Llywodraethiant a'r system rheolaeth fewnol hefyd gan broses barhaus o reoli risg, sydd wedi'i chynllunio i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion Llywodraeth Cymru, i werthuso pa mor debygol ydyw y caiff y risgiau hynny eu gwireddu, ac wedyn i'w rheoli yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Datblygwyd y fframwaith llywodraethiant i gydymffurfio â gofynion llywodraethiant da ac fe'i hategir gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru sy'n nodi'r egwyddorion ar gyfer delio ag adnoddau yn sefydliadau'r sector cyhoeddus yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan Ragoriaeth Llywodraethiant Corfforaethol yn parhau i adolygu ac adnewyddu canllawiau corfforaethol gan gynnwys ystyried yr opsiynau ar y ffordd fwyaf effeithiol o ddiweddaru Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru.

## Y Strwythur Llywodraethiant Corfforaethol[65]




65 I'w nodi : Unodd yr Is-bwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Pobl a Gwasanaethau Corfforaethol i ffufio'r Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae Fframwaith Perfformiad Llywodraeth Cymru ar dudalen 56 yn offeryn cyfannol sy'n rhoi darlun o berfformiad yn erbyn y meysydd yr wyf yn gyfrifol amdanynt, fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Fframwaith wedi cael ei ddefnyddio i olrhain perfformiad dros amser, i gydnabod lle y gellir gwneud gwelliannau ac i gynnig cyfle ar gyfer newid gwirioneddol. Mae wedi'i addasu hefyd i adlewyrchu fy Strategaeth LlC2025 a gwerthoedd ac ymddygiadau newydd Llywodraeth Cymru, felly mae'r meysydd pwysig hyn bellach wedi'u hymgorffori ynddo.

## Y Cod Llywodraethiant Corfforaethol

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ddilyn yr egwyddorion a amlinellir yn y Cod Llywodraethiant Corfforaethol ar gyfer Adrannau Canolog cyn belled ag y bo'n ymarferol, hyd nes y bydd asesiad o God Llywodraethiant Corfforaethol Cymru yn cael ei gynnal. Mae rhai meysydd lle mae arfer Llywodraeth Cymru yn wahanol i'r hyn sydd yn y Cod (gan fod y Cod wedi'i gynllunio ar gyfer Adrannau yn hytrach na Gweinyddiaethau Datganoledig). Mae'r rhain yn cynnwys:

- nid yw Prif Weinidog Cymru yn mynychu nac yn cadeirio cyfarfodydd Bwrdd Llywodraeth Cymru;
- mae nifer yr aelodau gweithredol yn uwch na nifer y cyfarwyddwyr anweithredol.

## Y Bwrdd

Fel Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu, fe'm cefnogir gan Fwrdd Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys 16 Aelod, yn Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chyfarwyddwyr Gweithredol. Mae Cyd-gadeirydd Arweiniol y Bwrdd Cysgodol yn mynychu fel sylwedydd sy'n cyfranogi. Mae'r Bwrdd yn fy nghynghori wrth wneud penderfyniadau strategol allweddol ynghylch sut y mae Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru'n cael ei ddatblygu i gefnogi'r Prif Weinidog a'r Gweinidogion i gyflawni ei Rhaglen Lywodraethu a blaenoriaethau'r Gweinidogion. Rwyf yn cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd ac ar ôl pob Bwrdd rwyf yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r Cyfarwyddwyr Anweithredol yn parhau i roi sylw arbennig i feysydd portffolio penodol yn unol â chais y Prif Weinidog yn haf 2021. Mae cyfarfod rhwng y Prif Weinidog a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf 2023.

Yn ystod y flwyddyn ystyriodd y Bwrdd y materion canlynol fel rhan o'i agenda:

- Y Rhaglen Lywodraethu
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- LlC2025
- Diwygio'r Diwrnod Ysgol a'r Flwyddyn Ysgol
- Y GIG a Gofal Cymdeithasol

- Canlyniadau'r Arolwg Staff
- Yr Adolygiad o'r Bwrdd
- Cynllun Pontio COVID-19
- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol
- Dangosyddion Perfformiad Allweddol
- Diwygio'r Senedd
- Diwygio'r Dreth Gyngor
- Fframwaith Gwerthoedd ac Ymddygiadau
- Y Gofrestr Risgiau Corfforaethol
- Diweddariadau Ariannol

## Aelodaeth a Phresenoldeb y Bwrdd

Cafwyd newidiadau i aelodaeth y bwrdd dros y flwyddyn. Ymunodd Aled Edwards fel Cyfarwyddwr Anweithredol newydd ym mis Awst 2022. Ymunodd Tim Moss â Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd ym mis Medi 2022 fel y Prif Swyddog Gweithredu newydd. Gadawodd Ellen Donovan ei rôl fel Cyfarwyddwr Anweithredol ym mis Mawrth 2023, ac ymunodd Carys Williams ym mis Mawrth 2023. Rhoes Andrew Jeffreys y gorau i fod yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd ym mis Rhagfyr 2022; Ymgymerodd Amelia John â'r rôl ym mis Ionawr 2023 yn dilyn galwad am ddatganiadau o ddiddordeb ymhlith uwch-weision sifil Llywodraeth Cymru.

| Yr Aelodau Presennol | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol | 8/8 |
| Ellen Donovan, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Gareth Lynn, Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Meena Upadhyaya Cyfarwyddwr Anweithredol | 8/8 |
| Aled Edwards, Cyfarwyddwr Anweithredol | 4/5 |
| Carys Williams, Cyfarwyddwr Anweithredol | 1/1 |
| Andrew Slade, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad | 6/8 |
| Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig | 7/8 |
| Judith Paget, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/ Prif Weithredwr GIG Cymru | 8/8 |
| Tim Moss, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu | 4/4 |

| Yr Aelodau Presennol | Presenoldeb mewn cyfarfodydd |
|---|---|
| Reg Kilpatrick, Cyfarwyddwr Cyffredinol, Ymateb i Covid a Llywodraeth Leol | 6/8 |
| Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cyffredinol, y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg | 4/7 |
| Des Clifford[66], Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog | 7/8 |
| David Richards, Cyfarwyddwr, Priodoldeb a Moeseg | 6/8 |
| Peter Kennedy, Cyfarwyddwr, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol | 8/8 |
| Gawain Evans, Cyfarwyddwr Cyllid | 8/8 |
| Helen Lentle, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cyfreithiol | 8/8 |
| Andrew Jeffreys, Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 6/6 |
| Amelia John, Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 2/2 |

## Hunanasesiad y Bwrdd o Berfformiad

Dosbarthwyd arolwg Adolygiad Blynyddol o'r Bwrdd i aelodau'r Bwrdd ar 6 Medi 2022. Dadansoddwyd y canlyniadau gan y Tîm Ymchwil Gorfforaethol a chyflwynwyd adroddiad canfyddiadau i'r Bwrdd ym mis Mawrth 2023. Nododd yr adolygiad fod aelodau'r Bwrdd yn teimlo bod cynnydd wedi'i wneud ar nifer o faterion yn ystod y flwyddyn a bod cyfarfodydd y Bwrdd yn cynnig amgylchedd agored a chynhwysol lle mae gan bob aelod lais cyfartal a lle maent yn cael eu hannog i herio yn adeiladol.

Nodwyd cyfraniad y Cyfarwyddwyr Anweithredol a'r Bwrdd Cysgodol fel cryfder arbennig gyda'r aelodau'n nodi bod y Bwrdd Cysgodol wedi helpu i wella amrywiaeth a chyfoethogi'r sgwrs, gan ganiatáu ar gyfer persbectif amgen angenrheidiol. Ar y cyfan, adroddodd aelodau'r Bwrdd eu bod yn trafod ystod eang o faterion sy'n peri pryder o fewn Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd Cysgodol yn cyfarfod yn ffurfiol bob 6 wythnos cyn cyfarfodydd y Bwrdd.

Rôl y Bwrdd Cysgodol yw darparu:

- Amrywiaeth o wahanol safbwyntiau o brofiad bywyd yr aelodau a'r adborth a roddwyd iddynt gan eraill sy'n rhannu eu nodweddion gwarchodedig a'u profiad.
- Amrywiaeth o safbwyntiau gwahanol gan bobl iau a phobl na fyddai eu gradd fel arfer yn eu galluogi i fod yn rhan o drafodaethau strategol.

66 Yn dilyn yr ailstrwythuro ym mis Mai 2022, daeth swydd Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro Des Clifford i ben a daeth yn Gyfarwyddwr

- Fy nghefnogi fel Ysgrifennydd Parhaol, yn fy rôl fel Prif Swyddog Cyfrifyddu i sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu i'r safonau uchaf o ran llywodraethiant, rheolaeth ariannol, rheoli risgiau a phrosesu'r cyfrifon blynyddol.
- Cyngor strategol ar gyflawni blaenoriaethau'r Llywodraeth (yn Rhaglen Lywodraethu 2021-26) yn unol ag amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Her i'r Bwrdd pan fydd yn ystyried strategaeth sefydliadol a chynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn addas i'r diben a bod ganddo adnoddau digonol.
- Her i'r Bwrdd i sicrhau ei fod yn hybu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws y sefydliad.

Awgrymwyd bod trefniadau llywodraethiant ac agenda'r Bwrdd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac yn adlewyrchu anghenion y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn parhau i gyfarfod o bell ac mae'n parhau i gynnal trafodaethau cytbwys a thrylwyr am y materion sy'n wynebu Llywodraeth Cymru.

## Is-bwyllgorau'r Bwrdd

Roeddwn hefyd yn cael fy nghynghori gan ddau Is-bwyllgor y Bwrdd a arweinir gan Aelodau Anweithredol (y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg a'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol).

### Is-bwyllgor y Bwrdd: Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Mae ARAC Llywodraeth Cymru'n fy nghefnogi ar faterion ariannol. Roedd y Pwyllgor hwn yn cael ei gadeirio gan un o Gyfarwyddwr Anweithredol y Bwrdd. Roedd ARACs hefyd yn gweithredu ar lefel Grwpiau yn ystod 2022-23, a'u pedwar Cadeirydd oedd gweddill aelodau ARAC Llywodraeth Cymru. Sefydlwyd ARAC ychwanegol yn ystod y flwyddyn i ymgymryd â rôl craffu, herio a goruchwylio ar gyfer y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg a'r Grŵp Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol a oedd wedi'u ffurfio o'r newydd. Deilliodd hyn o ailstrwythuro grwpiau yn Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn.

Yr ARACs ar lefel Grwpiau yw:

- Yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad.
- Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg/Ymateb i Covid a Llywodraeth Leol.
- Newid Hinsawdd a Materion Gwledig.
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd ARAC yn fy nghynghori, drwy gydol y flwyddyn, yn rhinwedd fy swydd fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, ar weithrediad rheoli risg a gallu'r sefydliad i reoli risg. Parhaodd ymateb Llywodraeth Cymru i COVID-19 i fod yn rhan o gyfarfodydd ARAC. Fel mewn blynyddoedd eraill, cyfarfu'r Pwyllgor chwe gwaith yn ystod y flwyddyn. Roedd pedwar o'r cyfarfodydd yn ymdrin â materion arferol ac adweithiol, ac fe'u cynhaliwyd drwy gydol y flwyddyn. Yn ogystal, cynhaliwyd dau gyfarfod ar 27 Mehefin a 31 Awst i ymdrin ag eitemau

i gefnogi'r Datganiad Llywodraethiant a Rhannau 1 a 2 o Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru. Mynychais holl ARACs Llywodraeth Cymru. Roedd ARACs pob Grŵp yn cyfarfod drwy'r flwyddyn yn unol â'u hamserlen o gyfarfodydd chwarterol.

Yn ystod y cyfnod hwn cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd ychwanegol:

- Sesiynau briffio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ARAC ar gynnydd adolygiad Archwilio Cymru o'r cyfrifon cyfunol ar gyfer 2020-2021.
- Cynhaliwyd digwyddiad codi ymwybyddiaeth ar draws ARACs yn canolbwyntio ar bolisi economaidd ac ymateb iddo ym mis Ionawr 2023, gan gydnabod bod hwn yn faes sy'n cyffwrdd â phob agwedd ar weithgarwch Llywodraeth Cymru. Roedd yn darparu dealltwriaeth gyffredin o'r economi a datblygu economaidd ac fe roes fanylion yr adnoddau a'r ysgogiadau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru i helpu i reoli'r economi ar adegau o her ariannol o'r fath.
- Cynhaliwyd diwrnod datblygu ARAC ym mis Mawrth 2023 a roes yr wybodaeth ddiweddaraf am faterion yn ymwneud â rôl ARACs ym maes llywodraethiant, goruchwylio a chraffu.
- Cynhaliwyd diwrnod datblygu ym mis Mawrth 2023 ar gyfer aelodau o ARAC Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg, ac Adfer ar ôl Covid a Llywodraeth Leol, a oedd newydd gael ei ffurfio.

## Is-bwyllgor y Bwrdd: Cydnabyddiaeth ariannol

Ail is-bwyllgor y Bwrdd yw Is-bwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Uwch Wasanaeth Sifil sy'n gyfrifol am dâl ac amodau'r Uwch Wasanaeth Sifil (SCS), goruchwylio cynllunio ar gyfer olyniaeth a recriwtio a holl achosion personél SCS. Rhaid i gyflog yr Ysgrifennydd Parhaol gael ei gymeradwyo gan Swyddfa'r Cabinet adeg ei benodiad gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae holl benodiadau a chydnabyddiaeth ariannol Ysgrifenyddion Parhaol yn cael eu rheoli'n ganolog gan Swyddfa Cabinet y DU. Maent hefyd o fewn cwmpas reolaeth uwch-gyflogau'r Trysorlys.

O dan lefel Ysgrifennydd Parhaol, nid yw rheolaeth uwch-gyflogau'r Trysorlys yn gymwys i benodiadau sydd wedi'u gwneud neu eu cymeradwyo gan Weinidogion mewn Gweinyddiaethau Datganoledig. Yn gyffredinol, mae Swyddfa Cabinet y DU yn disgwyl i gyflogau holl benodiadau Cyfarwyddwyr Cyffredinol (CC) gael eu cytuno gan yr Ysgrifennydd Parhaol (y Swyddog Cyfrifyddu). Ar gyfer penodiadau mewnol, mae unrhyw achosion lle mae cyflog CC adeg ei benodi yn fwy na naill ai isafswm y band cyflog neu godiad cyflog 10% adeg dyrchafiad, mae angen cymeradwyaeth gan y Pennaeth Proffesiwn perthnasol a'r Swyddog Cyfrifyddu yn ogystal â chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol. Nid yw cyflogau'r CC sydd o fewn y trothwy talu 10% adeg dyrchafiad yn gofyn am y gymeradwyaeth hon oni bai eu bod yn fwy na £140,000, ac os felly mae angen cymeradwyaeth yr Ysgrifennydd Parhaol (Swyddog Cyfrifyddu).

Mae Cyfarwyddwr Anweithredol yn cadeirio'r Pwyllgor. Cyfarfu'r Pwyllgor saith gwaith yn ystod y flwyddyn a mynychais yr holl gyfarfodydd.

## Y Pwyllgor Gweithredol (ExCo)

ExCo yw'r fforwm gwneud penderfyniadau strategol sy'n fy nghefnogi fel Prif Gynghorydd Polisi'r Prif Weinidog, Prif Swyddog Cyfrifyddu a Phennaeth Gwasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru. Mae cyfarfodydd ExCo yn ystyried ystod o faterion gweithredol a strategol ac yn cyfarfod yn wythnosol. Mynychais 38 o 46 o gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn.

Drwy gydol 2022-23, roeddwn yn cael fy nghefnogi gan dîm arwain o Gyfarwyddwyr Cyffredinol, pob un yn arwain Grŵp yn Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r Cyfarwyddwyr sy'n ymdrin â swyddogaethau corfforaethol allweddol sef Llywodraethiant a Moeseg, Cyllid, Trysorlys Cymru, Adnoddau Dynol/Gwasanaethau Corfforaethol, Data, Digidol a Thechnoleg a Gwasanaethau Cyfreithiol.

Mae Cyfarwyddwyr Cyffredinol y Pwyllgor Gweithredol yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol (AAOs) mewn perthynas â'r cyllidebau sydd wedi'u dirprwyo iddynt er mwyn rhoi cyfrifoldeb ac atebolrwydd personol iddynt dros ddefnyddio arian cyhoeddus yn briodol a sicrhau gwerth am arian ar fy rhan innau. Mae rhai Cyfarwyddwyr penodol hefyd yn cael eu dynodi'n Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol i egluro ymhellach drefniadau llywodraethiant corfforaethol ac atebolrwydd, a hynny ar gyfer defnyddio cronfeydd cyhoeddus ac wrth ateb i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus. Mae'r dynodiadau hyn yn achos Cyfarwyddwyr yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol.

## Bwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Daeth y Bwrdd Sicrwydd ar ôl Ymadael â'r UE i ben ar ddechrau 2022. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp yr Economi, y Trysorlys a'r Cyfansoddiad yn cadeirio Bwrdd Gweithredu sy'n cyfarfod bob mis ac sy'n goruchwylio gwaith sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE.

## Is-bwyllgor ExCo: Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Mae'r Is-Bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn Is-Bwyllgor Parhaol sy'n cefnogi ExCo gyda rhediad mewnol y sefydliad. Ei brif rôl yw cynghori ExCo ar reolaeth ariannol, masnachol a llywodraethiant y sefydliad a sbarduno gwelliannau parhaus o ran sgiliau a galluoedd o fewn y meysydd hyn.
Mae'r Is-bwyllgor hefyd yn cynghori ExCo ar reoli a datblygu gweithlu'r sefydliad ac yn sbarduno gwelliant parhaus yn rheolaeth, sgiliau a galluoedd y swyddogaethau a'r gwasanaethau canlynol:

- Adnoddau Dynol
- Eiddo a Gwasanaethau Proffesiynol
- TGCh
- Dysgu a Datblygu
- Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu
- Parodrwydd am Barhad Busnes Corfforaethol
- Rheoli Data
- Rheoli a Sicrwydd Rhaglenni a Phrosiectau.

Mae'r Is-bwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn cael ei gadeirio gan y Prif Swyddog Gweithredu ac mae'r aelodaeth yn cynnwys un o'r Cyfarwyddwyr Anweithredol ar Fwrdd Llywodraeth Cymru.
Mae cyfrifoldebau'r Is-Bwyllgor yn cael eu rhannu'n ddwy elfen ar wahân: Cyllid ac Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Corfforaethol ac mae'r Is-Bwyllgor yn cyfarfod unwaith bob 4 wythnos.

### Is-bwyllgor ExCo: Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol

Mae Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol yn cydgysylltu ac yn goruchwylio'r gwaith o ddarparu rhaglen ddeddfwriaeth y Llywodraeth ar lefel swyddogion. Yn ystod y Chweched Senedd mae wedi cefnogi Is-bwyllgor Cabinet, sef y Pwyllgor Sefydlog dros y Cabinet ar y Rhaglen Ddeddfwriaethol. Yr Ysgrifennydd Parhaol sy'n cadeirio Bwrdd y Rhaglen Ddeddfwriaethol ac fel arfer mae'n cyfarfod bob yn ail fis.

## Llywodraeth Cymru 2025

Llywodraeth Cymru 2025 (LlC2025) yw ein cynllun gweithredu ar gyfer newid a gwella'r sefydliad dros y tair blynedd nesaf fel y gallwn gefnogi'r Gweinidogion yn effeithiol a chyflawni dros Gymru mewn cyd-destun ariannol a byd-eang sy'n fwyfwy heriol. Ceir rhagor o fanylion yn rhan un ar dudalen 66.

## Llywodraethu Rhaglen LlC2025 ac adrodd arni

Uwch-berchennog cyfrifol (SRO) Rhaglen Llywodraeth Cymru 2025 yw Prif Swyddog Gweithredu Llywodraeth Cymru. Mae'r Prif Swyddog Gweithredu yn cadeirio Bwrdd Gweithredu LlC2025, sy'n cyfarfod yn fisol i roi sicrwydd, craffu a her i'r Prif Berchennog Cyfrifol ac arweinwyr y ffrwd waith. Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys arweinwyr ffrwd waith, cydweithwyr yn yr undebau llafur, aelodau'r Bwrdd Cysgodol a chynrychiolwyr Grŵp.

Mae'r Bwrdd yn adrodd i ExCo ar gyfer gwneud penderfyniadau a chyfarwyddyd yn ôl yr angen, yn ogystal â darparu diweddariadau rheolaidd i'w trafod yn y Fforwm Partneriaeth, y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol a Bwrdd Llywodraeth Cymru.

Mae Cynllun Gweithredu LlC2025 yn nodi cynllun cyflawni ar gyfer pob ffrwd waith, gyda chamau gweithredu, effeithiau, allbynnau ac amseriadau sydd wedi'u nodi yn glir. Mae'r cynllun wedi'i gyhoeddi'n fewnol ac mae diweddariadau chwarterol yn cael eu cyfleu i staff i amlinellu'r cynnydd sy'n cael ei wneud.

## Strwythurau Llywodraethiant a roddwyd ar waith i gefnogi'r argyfwng costau byw a'r gefnogaeth i Wcráin

### Yr Argyfwng Costau Byw

Ar ddechrau'r argyfwng costau byw cydnabu'r Gweinidogion a swyddogion bwysigrwydd datblygu dull cydgysylltiedig a oedd yn edrych ar yr effaith ar y cyd yr oedd ymyriadau yn ei chael, yn ogystal â'r rôl hanfodol y dylai adborth gan randdeiliaid ei chwarae.

Sefydlodd y Prif Weinidog Is-bwyllgor Cabinet, a fynychwyd gan holl aelodau'r Cabinet, o gofio natur eang a thrawsbynciol yr argyfwng. Yn ogystal â'r Gweinidogion, mae pob cyfarfod arall yn cael ei fynychu gan

bartneriaid o lywodraeth leol, y trydydd sector, TUC Cymru, grwpiau ffydd a Siambrau Cymru. Mae hyn wedi rhoi cyfle i'r Gweinidogion glywed am effaith yr argyfwng ar lawr gwlad a deall yr effaith y mae'r ymyriadau wedi'i chael. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi clywed gan ystod o arbenigwyr ynghylch profiad pobl o'r argyfwng, yn ogystal â chan blant a phobl ifanc yr effeithir arnynt yn bersonol.

Er mwyn cefnogi'r gwaith hwn ymhellach, sefydlodd y Prif Weinidog Grŵp Arbenigol annibynnol ar Gostau Byw, gan ddwyn ynghyd ystod o arbenigwyr gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Cymru, y Sefydliad Astudiaethau Cyllid, Sefydliad Joseph Rowntree, Sefydliad Bevan, National Energy Action, Shelter Cymru a mwy. O dan gadeiryddiaeth yr Athro Rachel Ashworth, Deon a Phennaeth Ysgol Fusnes Caerdydd, bydd y grŵp yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru ar y camau gweithredu y dylem eu hystyried wrth i'r argyfwng hwn ddatblygu.

Mae swyddogion wedi sefydlu Grŵp Swyddogion Costau Byw, gyda chynrychiolaeth ar draws Llywodraeth Cymru, i gefnogi gwaith y Pwyllgor a'r Grŵp Arbenigol, yn ogystal â sicrhau bod gweithgarwch yn parhau i fod yn gydgysylltiedig, a bod synergeddau i'w cael y tu mewn i Lywodraeth Cymru.

## Yr Ymateb Dyngarol i'r Argyfwng yn Wcráin

Ar ddechrau'r ymateb i'r argyfwng cafodd strwythurau llywodraethiant eu sefydlu yn unol â'r strwythurau Efydd, Arian ac Aur ar gyfer Argyfyngau Sifil ehangach. Roedd hyn yn cynnwys aelodaeth o Grŵp Trawslywodraethol Risg a Pharodrwydd Llywodraeth Cymru; sefydlu Bwrdd Gweinidogol 'Platinwm' wythnosol ar yr ymateb i Wcráin; ôl-drafodaethau wythnosol â'r awdurdodau lleol sy'n cynnal Canolfannau Cyrraedd a llety cychwynnol; cyfarfodydd wythnosol â Phwyntiau Cyswllt Unigol ac arweinwyr adsefydlu'r awdurdodau lleol a gynhelir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; sesiynau briffio a rhannu gwybodaeth (a elwir yn fyrddau adar) deirgwaith yr wythnos i nodi materion sy'n dod i'r amlwg ac alinio ein hymateb; adroddiadau sefyllfa wythnosol gan gynnwys adroddiad sefyllfa ar gyfer rhanddeiliaid allanol; cyfarfodydd SMT dyddiol am 8.30am ar draws Llywodraeth Cymru a phartneriaid cyflawni strategol allweddol.

Wrth i'r rhaglen symud allan o ymateb brys i gyflwr mwy sefydlog yn gymharol, rhoddwyd trefniadau llywodraethiant llawn ar waith, gyda chymorth a chyngor cydweithwyr yn nhîm Archwilio a Sicrwydd Llywodraeth Cymru.

Ar lefel weithredol, mae'r trefniadau hyn yn cynnwys rheoli rhaglenni sbrintiau ddwywaith yr wythnos a chyfarfodydd strategaeth misol ar gau llety cychwynnol a symud ymlaen, gan adolygu'r effaith a'r ddarpariaeth yn gyson.

Ar lefel fwy strategol, mae Bwrdd Rhaglen misol ar draws Llywodraeth Cymru sy'n dwyn aelodau i gyfrif am gynllunio a chyflawni eu hagweddau ar y rhaglen yn ogystal ag am eu risgiau. Mae'r Bwrdd Rhaglen yn hysbysu'r Bwrdd Gweinidogol misol ar Wcráin, y mae aelodau ohono'n cael adroddiad y Bwrdd Rhaglen ar y prif bwyntiau. Mae'r Bwrdd Gweinidogol yn cynnwys y Prif Weinidog, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, y Gweinidog Newid Hinsawdd a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol – gyda'r olaf yn ysgwyddo rôl y Cadeirydd tua diwedd y cyfnod o dan sylw.

Mae ymgysylltiad allanol rheolaidd hefyd â'r awdurdodau lleol a'r trydydd sector drwy grwpiau rhanddeiliaid penodol.

# COVID-19

O ganlyniad i'r pandemig byd-eang ym mis Mawrth 2020, cyflwynodd Llywodraeth Cymru fesurau ychwanegol i ddarparu llywodraethiant tryloyw a phenodol, rheoli risg (goddef risg) a rheolaeth i gefnogi Llywodraeth Cymru yn ei hymateb i COVID-19. Mae'r mesurau hyn wedi'u hamlinellu'n llawn mewn Datganiadau Llywodraethiant Blynyddol blaenorol ac mae llawer o'r mesurau ychwanegol hynny nawr wedi dod i ben. Rydym bellach yn canolbwyntio ar ddysgu gwersi o'r pandemig i ddarparu'r capasiti a'r gallu i ymateb yn gyflym i heriau yn y dyfodol ac yn bwysig iawn, i ddarparu swyddogaeth dystiolaeth newydd i gydweithwyr polisi ar gyfer meysydd iechyd a gofal cymdeithasol pwysig. Cynhaliwyd adolygiad annibynnol o'r system diogelu iechyd yng Nghymru yn ystod hydref 2022. Canmolodd yr adolygiad yr arloesedd a ddangoswyd wrth ymateb i'r pandemig yng Nghymru a gwnaeth argymhellion i gryfhau'r system ymhellach ar gyfer y dyfodol. Cyhoeddwyd cynllun gweithredu cychwynnol ochr yn ochr â'r adroddiad ym mis Chwefror 2023.

Mae'r Gell Cyngor Technegol (TAC) a arweiniwyd gan y Prif Gynghorydd Gwyddonol dros Iechyd drwy gydol y pandemig wedi adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd a bellach wedi dod yn is-adran newydd, yr Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth, sy'n darparu dull hyblyg o ddatblygu tystiolaeth a all fynd ati'n gyflym i ymateb i newidiadau mewn blaenoriaethau Gweinidogol ac i fygythiadau iechyd wrth iddynt ddod i'r amlwg. Mae'r Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth yn rhan o'r gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd newydd sy'n gweithio ar barodrwydd ar gyfer pandemig, ac yn ymateb i achosion o glefydau trosglwyddadwy a bygythiadau iechyd yn y dyfodol. Mae'r Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth wedi gwneud llawer o waith yn ystod y misoedd diwethaf i ddarparu effaith weladwy drwy gyngor gwyddonol rhagweithiol a arweinir gan y galw, ac i sicrhau bod mecanweithiau cyngor gwyddonol yn effeithlon, yn effeithiol ac wedi'u gwreiddio ar draws timau'r Grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r Grŵp Cynghori Technegol (TAG), a gafodd ei gynnull yn wreiddiol hefyd i gefnogi'r ymateb i'r pandemig, bellach wedi'i addasu i fynd i'r afael â materion iechyd ehangach. Mae'r Grŵp yn darparu swyddogaeth adolygu gan gymheiriaid ar gyfer llawer o allbynnau'r Is-adran Cyngor ar Wyddoniaeth a Thystiolaeth.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd hefyd wedi canolbwyntio ar gryfhau perthnasoedd gwaith a ddatblygwyd yn ystod COVID-19, ac adeiladu arnynt, ar lefel pedair gwlad. Mae Bwrdd Llywodraethau Datganoledig/UKHSA pedair gwlad wedi'i sefydlu i ystyried materion strategol sy'n ymwneud â diogelu iechyd, gan ganolbwyntio ar hyn o bryd ar barodrwydd ar gyfer pandemig. Y cynrychiolwyr o Gymru ar y Bwrdd hwnnw yw'r Cyfarwyddwr Diogelu Iechyd a'r Cyfarwyddwr Cenedlaethol Diogelu Iechyd a Gwasanaethau Sgrinio yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Ar hyn o bryd, Cymru hefyd sy'n cadeirio Pwyllgor Diogelu Iechyd y DU, a sefydlwyd o dan y Fframwaith Cyffredin, ac mae ganddi gynrychiolaeth ym mhob un o ffrydiau gwaith y Pwyllgor.

Sefydlwyd y Grŵp Cynllunio ac Ymateb i COVID-19 ym mis Chwefror 2020. Mae wedi darparu swyddogaeth gydlynu genedlaethol ar draws Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, cyrff GIG Cymru a gofal cymdeithasol. Ehangwyd cwmpas a chylch gwaith y Grŵp hwn ym mis Tachwedd 2022 i ganolbwyntio'n ehangach ar wytnwch y system a lliniaru risgiau cydamserol.

Sefydlwyd Bwrdd Pontio a oedd yn cynnwys uwch-swyddogion o Lywodraeth Cymru, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyffredinol Cydgysylltu Argyfwng Covid, ym mis Rhagfyr 2021 i oruchwylio'r symud o'r ymateb brys i Covid i fonitro ac ymateb i'r heriau parhaus yn sgil Covid fel rhan o fusnes fel arfer.

Trwy'r Bwrdd Pontio, datblygwyd strategaeth gyhoeddus (*Gyda'n Gilydd tuag at Ddyfodol Mwy Diogel*[67]) i egluro i'r cyhoedd beth yw'r newidiadau sy'n cael eu cynllunio a sut y byddent yn cael eu cyflwyno fesul cam. Cyhoeddwyd y strategaeth ym mis Mawrth 2022, ac mae'r Bwrdd Pontio wedi goruchwylio'r broses o'i rhoi ar waith. Cynhaliwyd cyfarfod terfynol y Bwrdd Pontio ym mis Mehefin 2022.

Mae'r Gyfarwyddiaeth Ailgychwyn ac Adfer wedi Covid wedi dirwyn i ben a'i swyddogaethau wedi'u trosglwyddo i adrannau eraill, yn bennaf y Gyfarwyddiaeth Diogelu Iechyd yn yr Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fel rhan o'r gwaith trosglwyddo, paratowyd llawlyfr sy'n cynnwys y gyfres o ymyriadau gwahanol a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig, o wahanol ddulliau o arwain a chyfathrebu i reoliadau helaeth ar gyfer cyfyngiadau. Bydd hwn yn ffynhonnell o gyfarwyddiadau desg ac adnoddau, gan gynnwys templedi ar gyfer canllawiau craidd a phrif ddeddfwriaeth, yn ogystal â chyfres o asesiadau effaith cryno, i'w defnyddio pe bai angen ymateb brys gyda phobl wahanol yn gwneud y gwaith.

## Y Gwersi a Ddysgwyd

Cynhaliwyd dau ymarfer gwersi a ddysgwyd canolog gan y Gyfarwyddiaeth Ailgychwyn ac Adfer yn ystod y pandemig, un ym mis Tachwedd 2020 ac un ar ddiwedd gwaith y Rhaglen Bontio yn 2022.

Roedd un o themâu'r gwersi a oedd yn deillio o'r ymarferion yn ymwneud â strwythurau ac eglurder rolau a chyfrifoldebau. Roedd llawer o agweddau ar hyn, gan gynnwys sicrhau trefniadau llywodraethiant clir sy'n cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau. Hefyd, sicrhau bod trefniadau ar waith sy'n galluogi adleoli pobl mewn niferoedd digonol yn gyflym ac yn gynnar pan fydd ymateb trawslywodraethol i argyfwng a sicrhau cyfathrebu mewnol clir, drwy sefydlu sianeli cyfathrebu trawslywodraethol o ddechrau'r argyfwng, gydag adroddiadau i'r rhai nad ydynt yn gallu mynychu cyfarfodydd. Nododd yr ymarferion gwersi a ddysgwyd fod ymgysylltiad cadarnhaol â rhanddeiliaid ac atgyfnerthwyd yr angen i ddefnyddio a datblygu perthnasoedd cryf ymhellach i weithio mewn partneriaeth a chyfuno ymdrechion i gyflawni nodau cyffredin.

Er mwyn ymateb i'r gwersi hyn a mynd i'r afael â'r materion a godwyd, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu strwythur gorchymyn cyffredin sydd bellach wedi'i hen sefydlu; gorchmynion strategol (Aur), tactegol (Arian) a gweithredol (Efydd), o dan benderfyniadau Gweinidogion (Platinwm). Mae egwyddorion gorchymyn a rheolaeth yn raddadwy a gellir eu cymhwyso ar draws lefelau amrywiol o genedlaethol i leol ac mewn lleoliad amlasiantaethol. Profwyd y strwythurau hyn drwy ymarferion, ond hefyd mewn ymateb i nifer o ddigwyddiadau ers iddynt gael eu rhoi ar waith ac maent wedi helpu i sicrhau symlrwydd ac eglurder defnyddiol. Mae'r Grŵp Parodrwydd a Risg wedi'i sefydlu ers dros flwyddyn, ac mae'n cynnwys uwch-swyddogion ar draws meysydd polisi yn Llywodraeth Cymru i gefnogi parodrwydd trawslywodraethol ar gyfer risgiau acíwt. Mae'r grŵp hwn yn dod yn drefn reoli 'arian' yn ystod yr ymateb i ddigwyddiad.

---

67 www.llyw.cymru/covid-19-cynllun-pontio-hirdymor-cymru-o-bandemig-i-endemig

## Ymchwiliad COVID-19

Sefydlwyd yr ymchwiliad COVID-19 yn ffurfiol ym mis Mehefin 2022 ac ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi parhau â'i hymrwymiad i gefnogi gwaith yr ymchwiliad a chymryd rhan lawn ynddo. O fewn Llywodraeth Cymru symudodd y ffocws o baratoi i ymateb, ac adolygwyd y strwythur llywodraethiant, gan arwain at sefydlu bwrdd prosiect a threfn adrodd ffurfiol drwy strwythur y Grŵp. Fel rhan o'r oruchwyliaeth strategol, ers hydref 2023, rhoddwyd diweddariadau wythnosol i'r Pwyllgor Gweithredol a chytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol i ariannu swydd Cyfarwyddwr llawn amser i arwain gwaith yr ymchwiliad. Dyma'r tro cyntaf i Lywodraeth Cymru fod yn rhan o ymchwiliad o'r raddfa hon. Mae adolygiadau gwersi a ddysgwyd rheolaidd wedi'u cynnal i sicrhau y gellid addasu prosesau a gweithdrefnau wrth i ragor o wybodaeth ddod i law am ddull yr ymchwiliad.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer sylweddol o geisiadau gan yr ymchwiliad am ddatganiadau a thystiolaeth, sy'n golygu ymwneud gan lawer o staff ym mhob rhan o'r sefydliad. Rydym yn parhau i gynnig cymorth gweinyddol, cyfreithiol a llesiant ac wedi cynyddu ein cymorth llesiant i'r staff hynny y mae'n ofynnol iddynt ddarparu tystiolaeth yn ysgrifenedig neu ar lafar. Bydd yr ymchwiliad yn dechrau gwrando ar dystiolaeth lafar yn 2023-2024 ac mae paratoadau wedi cychwyn i gefnogi'r tystion hynny.

## COVID-19 – Cymorth i fusnesau

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi parhau i fonitro ac adolygu'r arian a ddefnyddiwyd i ddarparu cymorth i fusnesau yn ystod y pandemig. Cafodd taliadau olaf y Gronfa Cadernid Economaidd (ERF) eu gwneud ym mis Mai 2022.

## ERF: Monitro ar ôl Cwblhau

Ym mis Ebrill 2023 y sefyllfa o ran monitro ar ôl cwblhau oedd:

| Cam ERF | Nifer yr arolygon a gyflwynwyd | Arolygon a ddychwelwyd |
|---|---:|---:|
| Camau 1-8 Monitro ar sail arolwg | | |
| Camau 1 a 2 MICRO | 9,094 | 3,029 |
| Camau 1 a 2 BBaCh (o dan £30,000) | 1,257 | 421 |
| Cam 3 Micro | 1,205 | 690 |
| Camau 4-7 | 3,866 | 1,248 |
| Cam 8 | 2,484 | 0 |
| **Cyfanswm** | **17,906** | **5,388** |

| Cam ERF | Nifer yr arolygon a gyflwynwyd | Arolygon a ddychwelwyd |
|---|---:|---:|
| Camau 1-8 Monitro ar ôl cwblhau | | |
| Camau 1 a 2 BBaCh (dros £30,000) | 1,270 | 585 |
| Camau 1 a 2 Busnesau nad ydynt yn BBaCh | 52 | 51 |
| Cam 3 BBaCh/Nid BBaCh | 804 | 189 |
| Camau 4 i 7 BBaCh/Nid BBaCh | 425 | 76 |
| Camau 8 BBaCh/Nid BBaCh | 40 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2,371** | **901** |

| Adennill – Cwblhau | Nifer yr Achosion | Gwerth y Swm a Adenillwyd |
|---|---:|---:|
| Camau 1-8 Adennill | | |
| Cam 1 a 2 | 26 | £1,641,384 |
| Cam 3 | 15 | £119,332 |
| Camau 4 i 7 | 13 | £216,743 |
| Cam 8 | 0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **54** | **£1,977,459** |

Mae'r data hyn yn ymwneud ag arian a ad-dalwyd gan y busnes oherwydd diffyg cydymffurfio â'r meini prawf cymhwysedd neu fethiant i gyflawni'r allbynnau a ragwelwyd yn wreiddiol.

Ym mis Ebrill 2023, nid oes unrhyw achosion nac adenillion a nodwyd o ganlyniad i dwyll.

| Wedi'u dileu | Nifer yr Achosion | Gwerth y swm a ddilewyd |
|---|---:|---:|
| Camau 1-8 Wedi'u dileu | | |
| Cam 1 a 2 | 4 | £102,500 |
| Cam 3 | 1 | £15,310 |
| Camau 4 i 7 | 0 | £0 |
| Cam 8 | 0 | £0 |
| **Cyfanswm** | **5** | **£117,810** |

Mae'r data hyn yn ymwneud â swm y cyllid sydd wedi'i ddileu oherwydd methiant y busnes i ad-dalu arian a nodwyd fel dyled, a bydd hyn hefyd yn cynnwys ansolfedd y busnes. Ym mis Ebrill 2023, nid oes unrhyw dwyll wedi'i nodi ac felly nid oes unrhyw arian wedi'i ddileu o ganlyniad i dwyll.

## Grantiau Awdurdodau Lleol

Gofynnwyd am arolygon Twyll a Gwallau ar gyllid ardrethi annomestig a chyllid dewisol Awdurdodau Lleol yn 2020-21 a 2021-22, a daeth yr arolygon hynny i law. Yn gryno, nodwyd 211 achos o wallau/twyll ar ôl i daliadau gael eu gwneud o gyfanswm o 154,130 o daliadau, gan roi cyfradd gwallau/twyll gyffredinol o 0.137%. O gymhwyso'r gyfradd twyll/gwallau hon i gyfanswm gwerth grantiau busnes COVID-19 a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol, mae'n rhoi gwerth o £1,928,229. Mae'r digwyddiadau o wallau/twyll a'r gyfradd gwallau/twyll ychydig yn wahanol i'r rhai yr adroddwyd arnynt yn flaenorol yn y cyfrifon, ac mae hynny'n adlewyrchu'r sefyllfa gronnol a'r monitro parhaus.

Er na ddarparwyd cyllid pellach i Awdurdodau Lleol yn ystod 2022-23, gofynnwyd i bob un roi gwybod inni am unrhyw wallau/twyll ychwanegol yr adroddwyd amdanynt. Hyd yn hyn, dim ond 13 o ymatebion sydd wedi dod i law a dim ond un Awdurdod Lleol sydd wedi nodi 2 achos o wallau/twyll sy'n gwneud cyfanswm o £10k.

Rydym wrthi'n ysgrifennu at holl Swyddogion adran 151 yr Awdurdodau Lleol i ofyn am y data terfynol sy'n ymwneud â chyfanswm y gwallau/twyll a nodwyd mewn perthynas â'r cymorth Covid a ddarparodd yr Awdurdod Lleol i fusnesau.

## Trefn Rheoli Cymorthdaliadau Newydd y DU

Daeth trefn rheoli cymorthdaliadau newydd i rym yn y DU ar 4 Ionawr 2023. Mae Deddf Rheoli Cymorthdaliadau 2022 yn rhoi fframwaith newydd ar gyfer darparu cymorthdaliadau sy'n gwbl wahanol i gyfundrefn cymorth gwladwriaethol blaenorol yr UE.

Mae'r drefn newydd hon yn 'seiliedig ar egwyddorion' yn hytrach nag ar ddeddfwriaeth, ac mae wedi'i chynllunio i fod yn fwy caniataol na'i rhagflaenydd yn yr UE, a'r sefyllfa ddiofyn yw y caniateir cymorthdaliadau os gellir cyflwyno achos rhesymol drostynt, yn hytrach na'u bod yn anghyfreithlon yn ddiofyn.

Yn wahanol i drefn yr UE, nid oes awdurdod llywodraethu canolog wedi'i rymuso i weithredu fel rheoleiddiwr. Mae'r drefn yn ei hanfod yn 'hunan-blismona', gyda gofyniad i sicrhau 'tryloywder' ar gyfer pob dyfarniad unigol ('annibynnol'), ac mae'n ofynnol i bob cynllun cymhorthdal a phob dyfarniad cynllun gwerth £100,000 neu fwy gael eu cyhoeddi ar gronfa ddata gyhoeddus o fewn tri mis. Mae hyn yn rhoi cyfle i graffu ar gystadleuwyr er mwyn galluogi cyflwyno heriau cyfreithiol i'r Tribiwnlys Apeliadau Cystadleuaeth (CAT) o fewn mis i'w uwchlwytho.

Er mwyn sicrhau bod y drefn newydd yn cael ei gweithredu mor effeithlon ac effeithiol â phosibl, mae Uned Rheoli Cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cynllun gweithredu sy'n cynnwys:

- Hyfforddiant – yn y cyfnod cyn dechrau, ac yn dilyn hynny, mae'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau wedi cynnal cymysgedd o gyflwyniadau wyneb yn wyneb ar gyfer cynulleidfaoedd mawr, fel sesiynau hyfforddi i sawl Awdurdodau Lleol a chyfarfodydd timau Llywodraeth Cymru, a chyfarfodydd rhithwir ar gyfer timau Llywodraeth Cymru, sesiynau llai i Awdurdodau Lleol a chysylltiadau mewn mannau eraill yng Nghymru.
- Codi Ymwybyddiaeth – mae'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau wedi cyhoeddi erthyglau newyddion rheolaidd ar y fewnrwyd sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y newidiadau, yn ogystal â bwletinau newyddion hirach i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau a chanllawiau newydd ac i roi'r rhain yn eu cyd-destun. Mae'r bwletinau hyn yn cael eu rhannu'n fewnol ac yn allanol.
- Ar-lein – ailwampiwyd safle rheoli cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru ar y we a rhoddwyd diwyg newydd iddo, i greu lleoliad canolog ar gyfer presenoldeb rheoli cymorthdaliadau ar-lein Llywodraeth Cymru. Ar y safle ceir cyflwyniad i'r rheolau newydd, ac mae hefyd yn safle cofrestru ar gyfer cynlluniau cymorthdaliadau Llywodraeth Cymru ac yn borth ar gyfer adrodd ar dryloywder yng Nghymru.
- Canllawiau – Mae Llywodraeth y DU wedi datblygu canllaw statudol awdurdodol i Gyfundrefn Gymorthdaliadau'r DU, a chyfres o ddogfennau atodol; mae'r Uned Rheoli Cymorthdaliadau wedi cynhyrchu cyfres ategol o siartiau llif, rhestrau gwirio ac aide memoire.
- Yn ogystal, mae'r Uned Rheoli Cymorthdaliadaul wedi gweithio gyda thimau eraill i ddiweddaru dogfennaeth fewnol i adlewyrchu'r drefn newydd, gan gynnwys y templed Cyngor Gweinidogol a thempledi llythyrau'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau.

## Trefniadau Sicrwydd

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant gan gynnwys y system rheolaeth fewnol, yr wyf yn cymryd sicrwydd gan amrywiaeth eang o weithgareddau ar ei gyfer. Yn hyn o beth, fe'm hysbysir gan waith Archwilio Mewnol a'r swyddogion hynny yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol. Rwyf yn cymryd sicrwydd o gytuno ar gynlluniau gweithredu a'u cyflawni gan reolwyr mewn ymateb i faterion a nodir gan yr Archwilydd Allanol (Archwilydd Cyffredinol Cymru) yn ei adroddiadau ac mewn adroddiadau a gyhoeddir gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Phwyllgorau Craffu eraill y Senedd sy'n cynnal eu hymchwiliadau eu hunain. Mae ARACs Grŵp ac ARACs Llywodraeth Cymru'n monitro cynnydd o ran gweithredu unrhyw argymhellion sy'n deillio o'r adroddiadau hyn.

Rwyf wedi cael fy nghynghori hefyd ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru'n cwmpasu meysydd allweddol ar fywyd cyhoeddus, a hynny o dan arweiniad y Prif Weinidog a'r Cabinet, a'r Gweinidogion eraill sydd wedi'u penodi ganddo. Mae ystod eang o reolaethau mewnol yn bodoli i ddarparu ar gyfer stiwardiaeth gadarn ar adnoddau.

## Archwilio Mewnol

Cynhyrchodd y rhaglen o waith archwilio a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn, sy'n gyrru'r farn sicrwydd gyffredinol a roddir, y safbwyntiau canlynol ar gyfer yr adroddiadau archwilio a roddwyd:

| Barn Sicrwydd | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Sicrwydd Sylweddol | 10 | 14 | 12 | 19 | 35 |
| Sicrwydd Rhesymol | 18 | 25 | 22 | 15 | 30 |
| Sicrwydd Cyfyngedig | 7 | 3 | 3 | 5 | 9 |
| Dim Sicrwydd | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Amherthnasol – Adroddiadau Cryno | 6 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **42** | **44** | **37** | **40** | **74** |

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi rhoi sicrwydd "rhesymol" bod trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu, wedi'u cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol un adroddiad â barn 'dim sicrwydd' yn ymwneud â chydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â fframweithiau strategol arferion gorau ar gyfer cyflawni prosiectau, lle na chafwyd sicrwydd digonol. Bydd amlygiad risg gweddilliol uchel yn parhau yn y maes hwn hyd nes y bydd y materion a nodwyd yn cael eu datrys. Serch hynny, nid yw'r farn hon yn adlewyrchiad o'r modd y cyflawnir prosiectau a rhaglenni unigol yn ehangach, a oedd y tu allan i gwmpas yr archwiliad a wnaed. Cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol saith adroddiad sicrwydd cyfyngedig hefyd.

Lle nodwyd gwendidau sylfaenol a sylweddol, hyd yn oed pan gawsant eu cyfuno, nid oeddent yn berthnasol i'r farn gyffredinol. Ar ben hynny, ni chafodd unrhyw bryderon na gwendidau systemig eu nodi o'r corff o waith archwilio a gwblhawyd. Fodd bynnag, mae canfyddiadau sy'n ymwneud â'r Fframwaith trosfwaol ar gyfer Cyflawni Prosiectau yn berthnasol ar draws y sefydliad.

Ymhlith y math o wendidau a arweiniodd at farn 'dim sicrwydd' a 'sicrwydd cyfyngedig' roedd:

- Diffyg llwybr tystiolaeth clir a diamwys yn manylu ar sut y gwnaed y penderfyniadau.
- Cyfarwyddyd annigonol neu weithdrefnau sydd wedi dyddio i hysbysu staff o'u rhwymedigaethau.
- Diffyg ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' ffurfiol i nodi'r hyn a achosodd y problemau a'u hatal rhag digwydd eto.
- Diffyg gwelededd/gwybodaeth reoli wael.
- Diffyg cynnal gwiriadau sicrwydd ansawdd ar brosiectau.
- Diffyg dogfennaeth gyfreithiol i gychwyn perthynas fasnachol â chyflenwyr.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn fodlon â'r ymateb cadarnhaol gan y rheolwyr i'r arsylwadau a godwyd mewn archwiliadau a adroddwyd yn ystod y flwyddyn. Lle y nodwyd gwendidau, cytunwyd ar gynlluniau gweithredu gan reolwyr i wella'r fframwaith rheolaeth ac i fynd i'r afael â'r mater(ion) a nodwyd.

## COVID-19 – Gwersi a Ddysgwyd

Ym mis Mawrth 2023, ailedrychodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ar ei Adolygiad o Sicrwydd COVID-19 a chafodd ei ddiweddaru a'i ailgyhoeddi: Gwersi a ddysgwyd a myfyrdodau. Roedd yr astudiaeth yn adeiladu ar ymarfer tebyg ar gyfer 2021-22 a adolygodd ymyriadau COVID-19 Llywodraeth Cymru ac a nododd nifer o bwyntiau arfer da i gynorthwyo â gweithgareddau yn y dyfodol drwy:

- cefnogi diwylliant dysgu;
- nodi'r rhwystrau a'r problemau cyffredin y mae eraill wedi'u profi;
- tynnu sylw at atebion posibl;
- darparu syniadau ar sut y gellid gwella dulliau gweithredu;
- dangos arferion da fel y gellir ailadrodd hyn;
- osgoi 'ailddyfeisio'r olwyn'.

Cafodd yr adroddiad gwersi a ddysgwyd, fel o'r blaen, ei rannu'n eang â'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth, pob aelod o'r Uwch Wasanaeth Sifil, Tîm Ymchwilio COVID-19, ARACs ac Archwilio Cymru.

## Trefniadau Llywodraethiant COVID-19

Ym mis Rhagfyr 2022, cyhoeddodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol adroddiad diweddaru ar ei Fap Sicrwydd COVID-19, a oedd yn adeiladu ar y Mapiau blaenorol a ddefnyddiwyd yn eang ar draws Llywodraeth Cymru. Gweithiodd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol gydag unigolion cyswllt allweddol ym maes ymyrraeth Covid i gasglu gwybodaeth fwy cyfredol a pherthnasol a gafodd ei chynnwys yn y Map Sicrwydd diweddaraf. Mae hwn bellach yn dangos rheolaethau cyfredol, trefniadau llywodraethiant, rheolaeth ariannol a gwariant gwirioneddol yn ôl ymyrraeth ac yn rhoi darlun wedi'i ddiweddaru o sicrwydd.

## Sicrwydd y Tîm Archwilio Cronfeydd Ewropeaidd (EFAT)

Mae'r corff o archwiliadau o brosiectau ac archwiliadau sydd wedi'u hariannu gan y Comisiwn Ewropeaidd ac archwiliadau o systemau rheoli allweddol a weithredir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) a'i ddau Gorff Cyfryngol yn rhoi sicrwydd ar gydymffurfiaeth Cronfeydd Strwythurol a rhaglenni eraill a ariennir gan raglenni'r Comisiwn â Rheoliadau'r Comisiwn ar gydnabod a hawlio costau gan y Comisiwn.

## Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 (ESF ac ERDF)

Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Blynyddol ar gyfer 2021-22 i'r Comisiwn Ewropeaidd ar 14 Chwefror 2023. Rhoes farn ddiamod gyffredinol a chyfradd gyfeiliorni o 0.05%, sy'n is na'r trothwy perthnasedd o 2%. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi adolygu'r Adroddiad ac fe'i derbyniwyd ar 29 Mawrth 2023 heb unrhyw angen i gymryd camau dilynol.

### Rhaglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon – Cymru 2014-2020

Cyflwynwyd yr Adroddiad Rheoli Blynyddol ar gyfer y rhaglen hon ar gyfer 2021-22 ar 13 Chwefror 2023. Darparwyd barn ddiamod a cyfradd gyfeiliorni o 0.70%. Derbyniwyd yr Adroddiad gan y Comisiwn Ewropeaidd ar 23 Mawrth 2023 ac nid oes angen camau dilynol pellach.

### Rhaglen Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014-2020

Mae EFAT yn ymgymryd â gwaith archwilio ar arian a ddaw i law yng Nghymru ar gais Awdurdod Archwilio'r DU. Ar gyfer 2021-22, cyflwynwyd Adroddiad Rheoli Blynyddol y DU yn 2023 gyda barn ddiamod a chyfradd gyfeiliorni derfynol o dan y trothwy perthnasedd o 2% mewn perthynas â'r rhaglen EMFF.

### Y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)

Mae EFAT yn cyflawni'r strategaeth archwilio fewnol pum mlynedd ar gyfer y rhaglen PAC. Cwblhawyd tri archwiliad yn ystod y flwyddyn archwilio, pob un â barn "Categori 1 (Gweithio'n dda; dim angen gwelliannau neu angen mân welliannau yn unig)".

### Cymorth Technegol

Ar gyfer yr Adolygiad o'r Broses Cymorth Technegol Mewnol, rhoddwyd barn "Categori 3 (Gweithio'n rhannol. Mae angen gwelliannau sylweddol)" oherwydd nad oedd argymhellion arwyddocaol blaenorol yn cael eu gweithredu'n foddhaol. Er hynny, mae'r rhain bellach wedi cael eu datrys.

### Archwiliadau Systemau EFAT

Cynhaliodd EFAT bedwar archwiliad dilynol ar effeithiolrwydd y systemau a weithredir gan WEFO a'i gyrff cyfryngol a chanfuwyd bod yr holl argymhellion a godwyd yn flaenorol wedi'u rhoi ar waith.

### Archwiliad Llys Archwilwyr Ewrop (ECA) o Raglen 2014-2020 – ESF/ERDF

Ym mis Medi 2019, roedd EFAT yn destun archwiliad ECA i gadarnhau a yw'r sicrwydd y mae EFAT yn ei roi i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ddigonol. Fel yr adroddwyd yn flaenorol, caeodd yr ECA yr archwiliad hwn ond gydag un canfyddiad a oedd yn destun dadl ynghylch cymorth gwladwriaethol ar gyfer un prosiect. Mae deialog wedi parhau rhwng y Comisiwn Ewropeaidd a Swyddogion, gyda'r mater yn cael ei ddatrys drwy dynnu'r cronfeydd yr effeithiwyd arnynt yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Ni ragwelir y bydd unrhyw golled ariannol i gronfeydd yr UE yng Nghymru gan y gellir ailddefnyddio'r gwariant mewn rhannau eraill o'r Rhaglen ESF/ERDF.

## Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC)

Ar sail ei waith drwy gydol 2022-23, roedd y Pwyllgor yn gallu rhoi sicrwydd rhesymol cyffredinol ar ddigonolrwydd y trefniadau archwilio ar gyfer Llywodraeth Cymru a hefyd ar y trefniadau ar gyfer llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol sydd wedi'u sefydlu, yn seiliedig ar y sicrwydd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor a'r wybodaeth a roddwyd iddo gan swyddogion.

## Holiaduron Rheolaeth Fewnol a Datganiadau Sicrwydd Blynyddol

Un o'm prif ffynonellau sicrwydd yw'r broses Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ). Mae'r broses wedi aeddfedu dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n darparu lefel gadarn o graffu o ran amgylchedd rheoli Llywodraeth Cymru.

Fe'i gwneuthum yn ofynnol i'r holl Gyfarwyddwyr gwblhau Holiadur Rheolaeth Fewnol (ICQ) ac, ar sail yr wybodaeth hon, i Gyfarwyddwyr Cyffredinol baratoi eu Datganiad Sicrwydd personol er mwyn rhoi i mi eu hasesiad o effeithiolrwydd fframweithiau rheolaeth fewnol eu Grŵp.

Trwy'r Holiadur, mae'r Cyfarwyddwyr wedi rhoi imi eu hunanasesiadau o reolaeth fewnol, llywodraethiant a rheoli risg a'u hystyriaethau ynghylch pa mor effeithiol y mae rheolaethau wedi gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr Cyffredinol wedi rhoi trosolwg o lywodraethiant, rheolaeth a rheoli risg o fewn eu priod Grwpiau.

Ar ôl i'r ffurflenni ICQ gael eu cyflwyno, cynhyrchir "map gwres" a'i ystyried yn yr Archwiliad Sicrwydd blynyddol. Diben Archwiliad Sicrwydd ICQ yw ystyried y darlun cyffredinol o'r sicrwydd a gafwyd mewn ICQs. Mae'r sesiwn yn darparu sesiwn her i'r Ysgrifennydd Parhaol, Cyfarwyddwyr Cyffredinol ac arweinwyr swyddogaethol, megis y Pennaeth Caffael a'r Pennaeth Diogelwch TG, ystyried y sgoriau a roddwyd a sicrhau bod sgorio wedi digwydd yn gyson.

Er bod y mwyafrif o sgoriau yn gyson â'r llynedd, roedd clwstwr o amrywiannau yn sgoriau lefelau hyder cyffredinol y Cyfarwyddwyr Cyffredinol eleni o'i gymharu â'r llynedd fel a ganlyn:

| Maes ICQ | Newid yn lefel yr hyder |
|---|---|
| Cyflawni'r Prosiect | Gostyngiad o 29% |
| Rheoleiddio a Phriodoldeb | Cynnydd o 41% |
| Cwynion | Cynnydd o 20% |

Mae IAS hefyd wedi cynnal adolygiad o asesiad Cyfarwyddwyr o is-gwestiynau Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn yr ICQ. Eu casgliad cyffredinol oedd bod meysydd lle'r oedd gwybodaeth naratif yn anghyson â'r sgoriau asesu ond yn gyffredinol, nid oedd unrhyw effaith ar y sgôr sicrwydd rheoli. O'r herwydd mae IAS wedi gwneud argymhellion y gellid cryfhau'r maes hwn fel rhan o'r broses ICQ 2023-24.

## Chwythu'r Chwiban

Cyfarfu Panel Chwythu'r Chwiban chwe gwaith drwy gydol y flwyddyn i ystyried achosion chwythu'r chwiban, i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd yn brydlon wedyn ond gan gadw cyfrinachedd lle bynnag y bo modd. Mae'r polisi'r Cod Chwythu'r Chwiban a'r Gwasanaeth Sifil yn esbonio beth ddylai staff ei wneud os ydynt yn amau camwedd o fewn y sefydliad a sut y bydd yn cael ei drin. Cyhoeddir gwybodaeth ar y Fewnrwyd hefyd.

Mae trefniadau chwythu'r chwiban yn Llywodraeth Cymru yn dryloyw ac yn cyd-fynd ag arferion da. Yn ystod y flwyddyn ariannol, darparodd adolygiad Archwilio Mewnol o Ymddygiadau Moesegol, a oedd yn cynnwys ein trefniadau Chwythu'r Chwiban, sgôr sicrwydd rhesymol a gwnaeth rai awgrymiadau ar gyfer gwella'r trefniadau hynny ymhellach ac mae gwaith ar y gweill i fynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n deillio o'r adolygiad.

Cafodd pedwar achos eu hadrodd i'r Panel yn y flwyddyn; roedd hyn yn cynnwys dau achos a gariwyd ymlaen o'r flwyddyn flaenorol a dau achos newydd a adroddwyd yn ystod y flwyddyn. Yr achosion oedd:

| Achosion o Chwythu'r Chwiban | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Heb eu cadarnhau | 2 | 4 | 3 | 3 | 4 |
| Wedi'u datrys yn fewnol (materion yn ymwneud â staff) | - | 1 | 1 | 6 | - |
| Ddim yn fater i Lywodraeth Cymru | - | 1 | - | - | - |
| Cyngor wedi'i roi i'r chwythwr chwiban | - | - | 1 | 2 | - |
| Yn destun ymchwiliad o hyd | 2 | 2 | 5 | - | 3 |
| Wedi'u cadarnhau a chamau wedi'u cymryd | - | 2 | 1 | - | - |
| Dim digon o dystiolaeth i fynd ar eu trywydd | - | 1 | | - | - |
| **Cyfanswm** | **4** | **11** | **11** | **11** | **7** |

## Panel Sicrwydd Allanol a Gwrth-dwyll

Yn ogystal â'r Panel Chwythu'r Chwiban sy'n delio ag achosion mewnol, mae'r Panel Sicrwydd Allanol, a gyfarfu wyth gwaith yn ystod y flwyddyn, yn darparu cyngor i Swyddogion Cyfrifyddu Ychwanegol a swyddogion polisi ar ymateb i bryderon a godir mewn perthynas â chronfeydd Llywodraeth Cymru a ddyfernir i gyrff allanol. Mae llawer, ond ddim pob un, o'r achosion hyn yn honiadau o dwyll, ac nid oes angen dod â'r holl achosion y mae'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy i'r Panel (felly mae gwahaniaeth yn nifer yr achosion y mae'r Panel a'r Tîm Gwrth-dwyll yn delio â hwy). Mae'r Panel yn darparu cyngor proffesiynol, yn ceisio sicrhau triniaeth gyson ar draws Llywodraeth Cymru, ac yn gallu nodi gwersi a ddysgwyd ac arferion gorau y gellir eu lledaenu i swyddogion polisi.

Cafodd pum achos newydd yn y flwyddyn eu hadrodd i'r Panel. Gwnaeth y Panel ddatrys deg o achosion yn y flwyddyn, yr oedd wyth ohonynt wedi'u cario ymlaen o'r flwyddyn flaenorol. Cafodd tri achos eu cario ymlaen i 2023-24, ac mae un o'r rhein y wedi'i atgyfeirio at yr Heddlu ar hyn o bryd. Nodir yr wybodaeth hon y tabl isod.

## Gwrth-dwyll

Mae atgyfeiriadau newydd at y Tîm Gwrth-dwyll wedi gostwng ers y pandemig. Cafodd deg achos newydd eu hatgyfeirio at y Tîm Gwrth-dwyll yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, gyda phedwar yn cael eu cario drosodd o'r flwyddyn flaenorol, sef cyfanswm o bedwar ar ddeg.

Mae'r un achos a nodir isod 'yn destun ymchwiliad gan yr heddlu' wedi cael ei ddatblygu gan Dîm Gwrth-dwyll Llywodraeth Cymru ac Archwilio Cymru; ac mae cryn dipyn o ddata wedi'u trosglwyddo i'r heddlu i'w harchwilio. Mae'r achos hwnnw'n parhau.

Ymchwiliwyd i un achos arall, na chyrhaeddodd y safon droseddol o ran tystiolaeth ond a nododd gamwedd ac wedi hynny mae wedi cael adferiad cyfradd ymyrraeth o 20%.

Trafodwyd y ddau achos yng nghyfarfodydd y Panel Sicrwydd Allanol (EAP). Mae EAP yn cyfarfod bob rhyw wyth wythnos, ac ymchwilir i rai achosion ac ymdrinnir â hwy rhwng cyfarfodydd. Nid yw pob achos EAP yn cynnwys twyll posibl, felly bydd ffigurau EAP a'r Tîm Gwrth-dwyll yn wahanol.

| Gwrth-dwyll | 2022-23 | Achosion y Panel Sicrwydd Allanol | 2022-23 |
|---|---|---|---|
| Cariwyd ymlaen o 2021-22 | 4 | Cariwyd ymlaen o 2021-22 | 8 |
| Achosion newydd yn codi | 10 | Achosion newydd yn codi | 5 |
| Achosion a gafodd eu datrys | 11 | Achosion a gafodd eu datrys | 10 |
| Achosion sy'n weddill (mae'r isod wedi'u cynnwys mewn 3 ohonynt). | 3 | Achosion sy'n weddill (mae'r isod wedi'u cynnwys mewn 3 ohonynt). | 3 |
| - Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 | - Achos Llys yn mynd rhagddo | 0 |
| - Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 1 | - Yn destun ymchwiliad gan yr Heddlu | 1 |
| - O dan waith monitro ad-dalu | 0 | - O dan waith monitro ad-dalu | 0 |
| - Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 0 | - Yn destun adolygiad gan asiantaeth twyll annibynnol | 0 |
| - Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 2 | - Ymchwiliad yn mynd rhagddo | 2 |
| **Cyfanswm yr achosion heb eu datrys** | **3** | **Cyfanswm yr achosion heb eu datrys** | **3** |

Mae'r ffigurau'n ymwneud â blynyddoedd ariannol. Mae'r tabl canlynol yn nodi sut y daeth yr 11 o achosion y deliwyd â hwy i ben.

| **Mae'r 11 o achosion a gafodd eu datrys yn 2022-23 wedi'u nodi yn y categorïau isod** | |
|---|---|
| Twyll wedi'i brofi | 4 |
| Yr heddlu heb fynd ar ei drywydd yn droseddol neu adferiad ariannol oedd yr opsiwn a ffafriwyd | 4 |
| Ni chanfuwyd unrhyw dwyll | 3 |

Mae pob achos yn cael ei adolygu er mwyn dysgu gwersi a chaiff y rhain eu lledaenu i'r timau priodol a'u trafod gyda'r Ganolfan Ragoriaeth Grantiau a'r Panel Sicrwydd Allanol.

Mae Asesiadau Risg Twyll a Llygredd yn cael eu paratoi gan y cyfarwyddiaethau o fewn pob maes polisi, eu monitro a'u hadolygu yn ystod y flwyddyn a'u cyflwyno i Bennaeth y Tîm Gwrth-dwyll bob chwe mis.

## Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)

Ym mis Hydref 2022, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddangos ei hymrwymiad i nodi twyll a chamgymeriadau yn y sector cyhoeddus drwy gymryd rhan unwaith eto yn y Fenter Twyll Genedlaethol a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Daeth canlyniadau'r ymarfer paru data cenedlaethol hwn ym mis Chwefror 2023 ac mae'r gwasanaeth archwilio mewnol wrthi'n eu hadolygu gyda'r bwriad o gwblhau eu hymchwiliadau a pharatoi adroddiad cryno yn yr hydref 2023.

## Gwrthdaro Buddiannau

Mae sicrhau bod unrhyw wrthdaro buddiannau yn cael ei reoli'n effeithiol yn agwedd allweddol ar unrhyw fframwaith llywodraethiant effeithiol a system rheolaeth fewnol. O fewn Llywodraeth Cymru mae'r rheolaethau sydd ar waith i ddelio â hyn yn cynnwys polisïau a gweithdrefnau corfforaethol sy'n cwmpasu cofrestrau gwrthdaro buddiannau a ffurflen flynyddol gan yr holl staff perthnasol a gyhoeddir ar wefan Llywodraeth Cymru (gan ddatgelu'r holl aelodau bwrdd ac aelodau tebyg o sefydliadau trydydd parti a ddelir gan swyddogion Llywodraeth Cymru).

Mae gan y Bwrdd a phob Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) Gofrestrau Gwrthdaro Buddiannau hefyd. Gofynnir hefyd am wrthdrawiadau buddiannau sy'n gysylltiedig ag eitemau penodol ar yr agenda ym mhob cyfarfod ac fe'i cofnodir yn ffurfiol. Mae'r gofynion a osodir ar aelodau ARAC hefyd wedi'u nodi mewn llythyrau penodi a'r Cylch Gorchwyl.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad helaeth o bolisi a gweithdrefnau Gwrthdaro Buddiannau, yn dilyn Adolygiad Archwilio Mewnol ac mewn ymateb i bryderon Gwasanaeth Sifil y DU ynghylch uwch-weision sifil yn dal penodiadau nad ydynt yn gydnaws â Chod y Gwasanaeth Sifil. Cyflwynwyd

ffurflen datgan buddiant ar gyfer yr holl recriwtiaid parhaol a thros dro i Lywodraeth Cymru yn 2022 ac ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â'r undebau llafur, rhwydweithiau staff a rhanddeiliaid perthnasol, rydym bellach yn ystyried canllawiau pellach a gyhoeddwyd gan Swyddfa Cabinet y DU yng Ngwanwyn 2023 ar gyfer cyhoeddi cofrestrau o fuddiant staff. Rwyf yn dal yn ffyddiog bod ein polisïau a'n gweithdrefnau presennol yn effeithiol, ond byddaf yn disgwyl gweld polisi cryfach, cliriach a mwy cadarn i'r holl staff a gweithgarwch cryfach i godi ymwybyddiaeth ymhellach o'r safonau a ddisgwylir gan weision sifil o ran buddiannau allanol, ynghyd â mecanwaith adrodd cryfach a hynny am fod cynnydd da yn cael ei wneud ar ddatrysiad electronig ar gyfer cofnodi ac adrodd ar fuddiannau.

## Modelau Dadansoddi Allweddol o ran Busnes

Mae ymarfer sicrwydd blynyddol wedi'i wneud gan Benaethiaid y Proffesiwn dadansoddi yn Llywodraeth Cymru i asesu'r modelau dadansoddi allweddol o ran busnes sy'n cael eu defnyddio gennym ac mae'n rhoi sicrwydd imi am y modelau hynny. Eleni yw'r chweched flwyddyn i'r ymarfer corff gael ei gynnal.

Mae cysylltiad Llywodraeth Cymru â risg modelu dadansoddol wedi parhau i gynyddu eleni oherwydd defnydd ehangach o fodelu. Cafodd 26 o fodelau hanfodol o ran busnes eu hadolygu eleni, gyda dau fodel newydd wedi'u nodi sy'n ymdrin â meysydd polisi blaenoriaeth. Roedd model llety cychwynnol uwch-noddwyr ar gyfer Wcráin yn newydd eleni, ac roedd model trafnidiaeth y De-ddwyrain yn fodel sy'n bodoli eisoes sydd wedi dod yn hanfodol i fusnes eleni oherwydd defnyddiau newydd.

Mae ffactorau economaidd ehangach a siociau posibl (gan gynnwys ansefydlogrwydd gwleidyddol, megis yr ymosodiad ar Wcráin) yn dal i effeithio ar lawer o fodelau. Lle bo'n berthnasol, roedd yr effeithiau hyn, gan gynnwys y rhai a sbardunwyd gan y pandemig wedi cael eu hystyried yn glir gan lawer o dimau.

Fel y llynedd, mae rhai risgiau'n parhau ar gyfer llawer o fodelau sy'n dibynnu ar ddata'r Cyfrifiad ac amcanestyniadau o'r boblogaeth neu ffynonellau data hŷn. Mae data Cyfrifiad 2021 bellach wedi'u rhyddhau ac mae perchnogion modelau sy'n defnyddio'r data hyn bellach yn symud at ddata mwy diweddar. Ystyriwyd bod effaith a risg y model ar hynt siaradwyr Cymraeg wedi cynyddu eleni o ganlyniad i'w broffil uwch a'i ansicrwydd ychwanegol yn dilyn rhyddhau data Cyfrifiad 2021.

Mae gallu dadansoddol yn dal yn fod yn her barhaus o ran sicrhau bod adnoddau digonol wedi'u neilltuo i fodelau hanfodol o ran busnes. Mae llawer o dimau yn dibynnu ar nifer bach o ddadansoddwyr sydd â sgiliau arbenigol, gan eu gwneud yn agored i golli gallu a gwybodaeth. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi dangos lefelau rhesymol o gynlluniau wrth gefn, gyda dadansoddwyr o bob rhan o'r gymuned fodelu, o fewn a'r tu allan i Lywodraeth Cymru, yn cefnogi ei gilydd i fynd i'r afael â bylchau allweddol yn ôl yr angen.

Mae arbenigedd allanol yn cael ei ddefnyddio ar gyfer modelau arbenigol. Er gwaethaf gwelliannau, efallai y bydd risgiau o hyd ynghylch diffyg swyddogaeth 'cleient deallus' addas yn fewnol i gynnig her a sicrwydd mewn rhai meysydd, ond ddim pob un.

Mae'r ddibyniaeth sefydliadol ar fodelu dadansoddol yn debygol o barhau i gynyddu yn y blynyddoedd i ddod, gan ein bod yn gweld meysydd polisi uchel eu proffil yn gwneud mwy o ddefnydd o fodelu, er enghraifft, ar newid hinsawdd, lle mae modelu cymhleth ar waith i olrhain cynnydd tuag at dargedau cyllidebau carbon. Mae tystiolaeth o ymarfer sicrwydd modelu eleni yn awgrymu bod ansicrwydd a chyfyngiadau modelu yn cael eu cyfleu i'r rhai sy'n defnyddio'r data, er ei bod yn debygol y bydd lle i wella.

## Materion Rheolaeth Fewnol

Mae'r sicrwydd cadarnhaol yr wyf wedi'i gael yn rhoi hyder imi fod gan Lywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fframweithiau cadarn a threfnus o lywodraethiant a rheolaeth fewnol. Er hynny, datgelwyd rhai materion nodedig yn ystod y flwyddyn ac mae camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r rhain ac i wneud gwelliannau, fel y nodir isod.

## Colledion, Dileadau a Thaliadau Arbennig

### Gordaliad Grant Prydau Ysgol am Ddim yn ystod y Gwyliau

Yn ystod y flwyddyn roedd colled o £1.885m ar draws pob awdurdod lleol yn dilyn camgymeriad wrth weinyddu grant a oedd yn anelu at gefnogi teuluoedd ar ôl y pandemig ac yn wyneb codiadau yng nghostau byw. Yn unol â gofynion datgelu, yr unig awdurdod yr oedd ei golled yn fwy na £300k oedd Cyngor Caerdydd, a gofnododd gyfanswm colled o £312,335. Bwriad y grant oedd rhoi darpariaeth yn lle prydau ysgol am ddim i ddisgyblion cymwys yn ystod gwyliau ysgol. Cafodd taliadau i'r awdurdodau lleol ar gyfer gweinyddu'r cynllun eu talu'n anghywir ar gyfradd uwch nag a fwriadwyd am gyfnod.

Nid oedd unrhyw awgrym bod yr awdurdodau lleol wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw amodau sy'n gysylltiedig â'r grant wrth gael mynediad at y cyllid. Ymhellach, er gwaethaf cael eu gordalu, ni farnwyd bod lefel y ffi weinyddol a ddarparwyd yn afresymol am ddarparu cynllun o'r fath ar ran Llywodraeth Cymru a barnwyd ei fod yn daliad cymesur. O'r herwydd, barnwyd na fyddai ceisio adennill yr arian a gafwyd mewn camgymeriad yn briodol yn yr achos hwn ac y gallai achosi niwed ariannol. Ers hynny, mae'r canllawiau a'r prosesau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r grant wedi'u cryfhau ac mae lefel y ffi weinyddol wedi'i hailbennu yn gywir ar y lefel briodol.

### Trydedd Bont y Fenai yr A55, Gwella Coridor Sir y Fflint a'r A483

Yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r Adolygiad Ffyrdd ym mis Chwefror 2023, a gadarnhaodd na fyddai Trydedd Bont y Fenai yr A55, Gwelliant Coridor Sir y Fflint a Gwelliannau Cyffyrdd 3-6 yr A483 yn cael eu datblygu ar eu ffurf bresennol ac yn unol â safonau cyfrifyddu, cafwyd asesiad o werth y gwaith cyfalaf a gwblhawyd a phenderfyniad ynghylch a ddylid gostwng gwerth y gwariant i adlewyrchu'r golled mewn gwerth. Mae swm o £5,665,069 wedi'i ddileu yn 2022-23. Caiff y costau sy'n weddill eu hadolygu o bryd i'w gilydd, fel sy'n ofynnol gan Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru, i sicrhau eu bod yn dal i gynnig gwerth yn y dyfodol.

## GRH Food Company

Yn Haf 2019 aeth GRH i ddwylo'r gweinyddwyr, gan arwain at beidio â chwblhau eu prosiect mesur 4.1 o dan y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020. Cyflwynwyd hawliad i'r gweinyddwyr am werth y grant a dalwyd o dan y prosiect. Mae'r gweinyddwyr bellach wedi cyrraedd setliad a chyfanswm y cyllid sydd i'w ddychwelyd yn erbyn prosiect y Cynllun Datblygu Gwledig yw £3,809 yn unig, gan adael dyled balans cyfalaf o £1,554,865. O dan reolau'r Cynllun Datblygu Gwledig gan nad yw'r gweithgarwch wedi'i gwblhau caiff balans y grant cyfalaf sydd heb ei dalu ei ad-dalu i'r UE gan Llywodraeth Cymru.

## Iawndal

Rydym wedi cytuno ar daliad iawndal, gan gynnwys costau, o £1,289,813 mewn perthynas â hawliad trydydd parti oherwydd damwain ffordd. Ni wneir datgeliad pellach ar sail braint gyfreithiol.

## Dileadau stociau ffliw pandemig, meddyginiaeth Covid a phrofion llif unffordd

Cafodd stociau ffliw pandemig, meddyginiaeth Covid a phrofion llif unffordd eu dileu yn y flwyddyn. Mae'r tabl isod yn dangos gwerthoedd 2022-23 o'u cymharu â'r ddwy flynedd flaenorol.

| | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| Stociau ffliw pandemig | 319,465 | 449,000 | 5,300,000 |
| Meddyginiaeth Covid | 931,384 | 453,000 | Amh. |
| **Cyfanswm** | **1,508,373** | **902,000** | **5,300,000** |

Mae stociau o gyffuriau gwrthfeirol, gwrthfiotigau a defnyddiau traul yn cael eu dal gan Lywodraeth Cymru yn unol â chynllunio ledled y DU ym maes iechyd y cyhoedd. Mae lefelau stoc y mae ei hangen, y mathau o gyffuriau ac ailbrosesu cyffuriau yn cael eu rheoli ar lefel y DU a gallant fod yn wamal o'r herwydd. Mae dileadau'n digwydd o ganlyniad i addasu cyflenwadau gwladol i fodloni angen cynlluniedig. Mae'r dileadau a hysbyswyd yn ymwneud â chyffuriau sydd wedi darfod nad ydynt yn addas i'w defnyddio mewn gwasanaethau GIG craidd neu i drin COVID-19. Mae'n risg gydnabyddedig wrth wneud paratoadau priodol ar gyfer achosion o ffliw pandemig fod rhai stociau'n debygol o gael eu dileu.

### Dyfeisiau Pwysedd Positif Parhaus yn y Llwybr Anadlu (CPAP)

Gwaredu cydrannau a brynwyd yn ymwneud â dyfeisiau Pwysedd Positif Parhaus yn y Llwybr Anadlu (CPAP). Cafodd £0.565 miliwn ei ddileu fel colled ddeongliadol. Hwn oedd y dull gorau posibl o waredu cydrannau electronig a brynwyd i gefnogi'r ymateb Economaidd i Gyflenwadau Critigol y GIG - COVID-19. Gwnaeth y Tîm Peirianneg Gofynion Offer Critigol benderfyniad yn seiliedig ar risg i gynllunio i brynu cydrannau allweddol ar gyfer hyd at 10,000 o ddyfeisiau CPAP. Roedd y rhagolwg hwn yn seiliedig ar drafodaeth a modelu helaeth rhwng CERET, Swyddfa'r Cabinet Llywodraeth Ei Fawrhydi, Innovate UK ac arweinwyr meddygol perthnasol. Yn anffodus, nid oedd angen y cydrannau yn y pen draw gan na chafodd y CPAP ei weithgynhyrchu yn y niferoedd disgwyliedig. Mae ymdrechion i werthu'r eitemau hyd yn hyn wedi bod yn aflwyddiannus ac erbyn hyn bach iawn o werth yn unig sydd gan y cydrannau.

## Materion eraill yn ystod y flwyddyn

### Baglan

Cytunodd Gweinidogion Cymru, fel rhan o'r camau cyfreithiol a gymerwyd yn erbyn y Derbynnydd Swyddogol, i indemnio'r holl gostau rhesymol i'r Derbynnydd Swyddogol, am barhau i weithredu Gorsaf Ynni Bae Baglan, nes y bydd y broses ymgyfreitha wedi ei chwblhau. Ar ôl i'r achos cyfreithiol ddod i ben, mae diddymiad yr orsaf ynni wedi'i gwblhau ac mae'r safle yn cael ei ymwrthod gan y Derbynnydd Swyddogol.

Ysgwyddodd y Derbynnydd Swyddogol, yn rhinwedd cyfreithiol ei swydd fel datodwr ar gyfer Grŵp Calon o gwmnïau sy'n gweithredu Gorsaf Ynni Bae Baglan, gan gynnwys Baglan Operations Ltd, wariant y mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu costau amdano o dan yr indemniad y cytunwyd arno gan Weinidogion Cymru. Yn ystod 2022-23 cyfanswm y swm a dalwyd i'r derbynnydd swyddogol oedd £931,288.

Rhoddodd yr achosion cyfreithiol a'r broses indemnio amser i Lywodraeth Cymru, (mewn partneriaeth â Chyngor Castell-nedd Port Talbot, Dŵr Cymru Welsh Water a Western Power Distribution Ltd (National Grid bellach), i ddylunio ac adeiladu rhwydwaith dosbarthu trydanol newydd ar gyfer cwsmeriaid Parc Ynni Baglan. Gwnaeth hyn ddiogelu swyddi a busnesau lleol ar Barc Ynni Baglan a sicrhau bod y risg i iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd lleol yn cael ei liniaru.

# Cyfraniadau

## Y Pwyllgor Argyfyngau Brys

Rhoddodd Llywodraeth Cymru rodd o £300,000 i'r Pwyllgor Argyfyngau Brys (DEC) er mwyn cyfrannu at yr Apêl ar gyfer y Ddaeargryn. Helpodd y cronfeydd a godwyd ar gyfer yr apêl hon DEC i gydgysylltu ymateb dyngarol effeithiol yn ystod yr argyfwng yn Türkiye a Syria, gan sicrhau bod cymorth yn cyrraedd y bobl yr oedd arnynt ei angen yn gyflym. Roedd yr ymateb i'r argyfwng yn cynnwys dŵr a glanweithdra, lloches a chymorth bwyd, yn ogystal ag adsefydlu tymor hwy.

Rhoddwyd rhodd arall o £100,000 i DEC at ddiben cyfrannu at Apêl Llifogydd Pacistan. Defnyddiwyd yr arian a ddarparwyd i ddarparu lloches dros dro i'r rhai a gollodd eu cartrefi, dŵr glân a glanweithdra i atal clefydau a gludir gan ddŵr, bwyd, a chymorth meddygol i'r rhai a oedd wedi'u hanafu neu a oedd yn sâl.

## Cymunedau Ynghyd – Y Gronfa Costau Byw

Ym mis Mawrth 2023 rhoddodd Lywodraeth Cymru £1m i Apêl Costau Byw Cymunedau Ynghyd y Sefydliad Cymunedol yng Nghymru. Bydd yr apêl yn rhoi cymorth i sefydliadau'r sector gwirfoddol ar lawr gwlad i'w helpu i reoli pwysau chwyddiant a pharhau i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethu grwpiau sy'n cefnogi pobl â nodweddion gwarchodedig. Canolbwyntio ar sefydliadau gwirfoddol sy'n darparu cyngor ar fudd-daliadau neu ddyledion, bwyd a hanfodion eraill, gofal plant cofleidiol, mannau cynnes etc.

# Trefniadau TAW/Cynllunio a Rheoli Trethi

Fel rhan o raglen dreigl o adolygiadau cydymffurfio, mae gan Gyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF) y tri adolygiad cydymffurfio parhaus canlynol:

- Adolygiad IR35;
- Adolygiad o Gydymffurfiaeth Cyflogwyr;
- Archwiliad TAW.

Oherwydd materion adnoddau CThEF, dim ond yr Archwiliad Treth ar Werth sydd wedi symud ymlaen yn ystod y cyfnod hwn. Bu rhaid gwneud ad-daliad o £21,390 i CThEF oherwydd adferiad TAW anghywir ar ffioedd tanysgrifo a nwyddau.

# Llywodraethiant Gwybodaeth

Fel Prif Swyddog Cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau priodol yn bodoli i gydymffurfio â'r set graidd o fesurau gofynnol gorfodol i amddiffyn gwybodaeth yn Adrannau'r Llywodraeth. Mae'n ofynnol imi asesu'r risg a sicrhau bod strategaethau lliniaru priodol yn bodoli.

Lle bo trydydd partïon yn ymdrin â gwybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n gyfrifol amdani yn gyfreithiol, mae'n bwysig bod cyngor a chyfarwyddyd yn cael eu rhoi iddynt am sut y mae rhaid ymdrin â'r wybodaeth honno. Mae sicrwydd cyflenwyr mewn perthynas â diogelwch TG yn cael ei asesu cyn dyfarnu contract, lle mae gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu gan drydydd partïon, ac mae cymalau sicrhau gwybodaeth yn cael eu cynnwys yn safonol fel rhan o gymalau contract. Rydym hefyd yn cadarnhau bod y rhai sy'n prosesu ein gwybodaeth sensitif yn destun Gwiriad Iechyd TG annibynnol ac yn bodloni'r safon orau o ran arferion gorau ee Cyber Essentials/ISO27001.

Mae gan Lywodraeth Cymru bolisïau a gweithdrefnau ar waith i reoli risg seiberddiogelwch yn rhagweithiol, gan weithio gyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol i ddiogelu ein hasedau digidol a'n seilwaith TGCh. Mae risgiau diogelwch (gan gynnwys seiber) yn cael eu trafod yn y Bwrdd Diogelwch gan yr Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (enwebai diogelwch ar lefel Bwrdd) a'r Prif Swyddog Diogelwch. Mae ExCo a minnau'n cael sesiynau briffio diogelwch drwy gydol y flwyddyn.

| Digwyddiadau sy'n dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) (Adroddwyd): | | |
|---|---|---|
| **Blwyddyn** | **Digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO** | **Camau a gymerwyd gan yr ICO** |
| 2022-23 | 2 | 0 |
| 2021-22 | 2 | 0 |

| Crynodeb o ddigwyddiadau eraill yn gysylltiedig â data personol a ddiogelir | | | |
|---|---|---|---|
| Mae digwyddiadau y mae'r Rheolwr Data o'r farn nad ydynt yn dod o fewn y meini prawf ar gyfer adrodd i'r ICO ond a gofnodir yn ganolog wedi'u nodi yn y tabl isod | | | |
| **Math** | **Natur y digwyddiad** | **2022-23** | **2021-22** |
| I | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o safleoedd diogel y Llywodraeth | 1 | 1 |
| II | Colli offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur, sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol, o'r tu allan i safleoedd diogel y Llywodraeth | 0 | 2 |
| III | Gwaredu mewn modd anniogel offer electronig, dyfeisiau neu ddogfennau papur sydd heb gael eu diogelu'n ddigonol | 0 | 0 |
| IV | Datgeliad heb ei awdurdodi | 81 | 93 |
| V | Arall | 1 | 3 |
| | **Cyfanswm** | **83** | **99** |

Mae pob datgeliad data heb ei awdurdodi yn cael ei gofnodi ac ymchwilir iddynt. Yn eu gyd-destun, er hynny, mae nifer y colledion yn isel o'i gymharu â nifer yr e-byst sy'n cael eu hanfon bob mis (ar gyfartaledd, 1.23 miliwn). Roedd y mwyafrif o'r digwyddiadau a oedd heb eu hadrodd i'r ICO yn deillio o ddatgeliadau heb eu hawdurdodi. Roedd y rhain yn deillio, yn bennaf, o anfon neu e-bostio dogfennau penodol sy'n cynnwys data personol at y person anghywir.

Mae Llywodraeth Cymru'n cynnal proses gadarn ar gyfer adrodd sy'n cynnwys pob math o ddigwyddiad. Ar ôl i bob achos o dorri data gael ei adrodd, cytunir ar gamau unioni â'r rheolwyr ac mae camau gweithredu'n cael eu holrhain i sicrhau bod y camau hynny'n cael eu cwblhau. Adroddir ar bob achos o dorri data i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol perthnasol. Lle bo angen, mae gwersi i'w dysgu ar draws y sefydliad yn rhan o'r Bwletin Diogelwch rheolaidd i'r holl staff.

## Adroddiad y Swyddog Diogelu Data

Rwyf yn parhau i barchu lefelau da o ymwybyddiaeth o egwyddorion a gofynion cyffredinol diogelu data GDPR y DU. Mae profiad ymarferol a dealltwriaeth dechnegol o ddiogelu data yn helpu swyddogion i ymdrin â data personol yn briodol ac yn ddiogel, gan gydymffurfio â'r rheolau.

Er hynny, nid oes gan Lywodraeth Cymru yr e-offer a fyddai'n creu cofnod mwy cadarn o weithgarwch prosesu data, dangos cydymffurfiaeth a chefnogi rheoli, monitro a goruchwylio prosesu data personol yn well. Mae meysydd gwan yn parhau hefyd mewn arferion diogelu data, er ei bod yn ymddangos

bod y risgiau i hawliau a rhyddid gwrthrychau data yn isel, yn seiliedig ar achosion o dorri data a chwynion. Serch hynny, mae agweddau ar ddiogelu data sy'n benodol i weithgarwch y llywodraeth nad ydynt yn cael eu deall yn dda, a hynny'n rhannol gan mai ychydig o swyddogion yn unig sy'n dod ar eu traws yn ddigon rheolaidd i ddod yn hyfedr. Mae gormod o adegau hefyd pan nad yw diogelu data yn ymddangos yn ddigon cynnar wrth gynllunio mentrau, gweithgareddau a phrosiectau newydd, sy'n golygu nad yw "preifatrwydd drwy ddyluniad" bob amser yn cael ei arfer. Y gobaith yw y caiff hyn ei liniaru, yn rhannol, drwy recriwtio Rheolwyr Gwybodaeth a Hysbysrwydd Adrannol newydd ar lefel Grŵp i gefnogi swyddogion sy'n ymdrin â data personol.

## Atebolrwydd Lleol

Mae cyfran sylweddol o wariant Llywodraeth Cymru'n cael ei ddosbarthu i awdurdodau lleol Cymru a chyrff GIG Cymru i gyflawni amcanion polisi ac ystod o wasanaethau rheng flaen, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru hefyd yn Brif Weithredwr GIG Cymru.

### Awdurdodau Lleol

Darperir cyllid grant i awdurdodau unedol, awdurdodau tân ac achub, awdurdodau parciau cenedlaethol a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Yr elfen unigol fwyaf o gyllid grant yw'r setliad heb ei neilltuo blynyddol ar gyfer Awdurdodau Unedol sy'n cynnwys Grant Cynnal Refeniw (RSG) a chyfran o incwm ardrethi annomestig. Pennir cwantwm y cyllid fel rhan o gylch cyllideb flynyddol Llywodraeth Cymru. Fe'i dosberthir gan ddefnyddio fformiwla sy'n adlewyrchu'r ffactorau sydd wrth wraidd angen yr awdurdodau i wario i ddarparu ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys addysg a gofal cymdeithasol. Mae'r fformiwla'n cael ei chynnal, ei diweddaru a'i gwella drwy raglen waith barhaus gyda llywodraeth leol.

Rhoddir cyllid hefyd i awdurdodau drwy grantiau na ellir eu defnyddio ond at y dibenion penodol y maent yn cael eu darparu ar eu cyfer. Yn ogystal, mae'r Awdurdodau Unedol yn cael rhai grantiau penodol oddi wrth Adrannau Llywodraeth y DU ar gyfer swyddogaethau sydd heb eu datganoli, o'r dreth gyngor a bennir yn lleol, ac o ffioedd, taliadau a ffynonellau incwm eraill. Mae'r Awdurdodau Unedol hefyd yn cael grantiau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwario cyfalaf a chymorth ar gyfer benthyca. Cydategir hyn gan allu'r awdurdodau eu hunain i fenthyca, grantiau gan gyrff eraill a derbyniadau cyfalaf.

Mae trefniadau tebyg yn gymwys i'r ddarpariaeth refeniw ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, a ariennir drwy gyfuniad o'r Grant Cynnal Refeniw ac incwm ardrethi domestig gan Lywodraeth Cymru, Grant yr Heddlu oddi wrth y Swyddfa Gartref, grantiau penodol ac o'r dreth gyngor. Mae awdurdodau eraill yn cael eu hariannu drwy drefniadau megis grantiau penodol, ardollau a phraeseptau.

Mae pob awdurdod yn atebol am sut y mae'n defnyddio'r cyllid sydd ar gael wrth gyflawni'r swyddogaethau y mae'n gyfrifol amdanynt. Rhaid i'r Awdurdodau Unedol, cyrff yr heddlu ac Awdurdodau Tân ac Achub gael swyddog penodedig o dan Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 sydd â dyletswyddau statudol i sicrhau bod materion ariannol yn cael eu gweinyddu'n briodol. Mae awdurdodau yn cael eu dwyn i gyfrif

drwy eu swyddogaethau craffu a thrwy atebolrwydd uniongyrchol i'w hetholwyr lleol. Mae eu materion ariannol yn cael eu llywodraethu drwy fframwaith cyfrifyddu ac archwilio statudol ac mae eu cyfrifon yn destun archwiliadau allanol blynyddol llawn. Maent wedi bod yn destun archwiliadau gwella blynyddol a gynhaliwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru gan gwmpasu gwerth am arian yn ogystal â materion llywodraethiant a chapasiti. Ond ers 1 Ebrill 2021 maent yn destun trefn perfformiad a llywodraethiant newydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt adolygu eu perfformiad a chynnal asesiadau rheolaidd gan gymheiriaid.

O ran cyllid a ddarperir at ddibenion penodol, yr adrannau polisi perthnasol sy'n gyfrifol am delerau ac amodau grantiau unigol. Mae'n ofynnol i'r telerau ac amodau hyn roi sylw dyladwy i Safonau Gofynnol y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ar gyfer Cyllid Grant. Drwy gadw at y safonau hyn dylid sicrhau cydymffurfiaeth â threfniadau llywodraethiant ac ariannol, cyfreithiau perthnasol, polisïau ac arferion da Llywodraeth Cymru. Mae nifer y grantiau refeniw a swm y cyllid drwy grantiau penodol oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ei gyfanrwydd yn sylweddol. Dechreuodd gwaith yn 2022-2023 i adolygu'r beichiau gweinyddol ar yr Awdurdodau Lleol o dan Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru. Nododd hyn grantiau penodol fel elfen sylweddol o bryder. Caiff gwaith ar draws Llywodraeth Cymru ei wneud yn 2023-2024 i leihau baich gweinyddol y grantiau hyn tra'n sicrhau sicrwydd cymesur. O ran y cyllid a ddarperir gan Lywodraeth y DU mewn perthynas â swyddogaethau nas datganolwyd, bydd yr awdurdodau lleol a'r adrannau perthnasol o Lywodraeth y DU yn cytuno ar y trefniadau ar gyfer atebolrwydd.

## Iechyd

Mae Byrddau Iechyd Lleol (BILl) yn cael eu hariannu i gomisiynu a darparu Gwasanaethau Ysbytai ac Iechyd Cymunedol ac i dalu cost cyffuriau a ragnodir gan Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer eu poblogaethau preswyl. Darperir cyllid hefyd i roi taliadau i gontractwyr annibynnol gan gynnwys Ymarferwyr Cyffredinol, Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol a Fferyllwyr. Mae cyllid ychwanegol wedi'i dargedu yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion Llywodraeth Cymru. Darperir cyllid cyfalaf i gefnogi Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan ac mae cyllid cyfalaf disgresiynol hefyd yn cael ei ddarparu i gefnogi blaenoriaethau a nodir yn lleol.

## Trefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrryd

Ar 31 Mawrth 2023 roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn Mesurau Arbennig ar ôl cael ei roi'n ôl ar y statws hwn gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 27 Chwefror 2023. Cafodd y penderfyniad i uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd ei wneud oherwydd pryderon difrifol ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd gwasanaethau ac ad-drefnu gwasanaethau, llywodraethiant, diogelwch cleifion, cyflawni gweithredol, arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol.

O ran gweddill y Byrddau Iechyd ar 31 Mawrth 2023:

- Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ei isgyfeirio o fesurau arbennig i ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer gwasanaethau mamolaeth a newyddanedig. Arhosodd ansawdd a llywodraethiant mewn ymyrraeth wedi'i thargedu, cafodd perfformiad ei uwchgyfeirio i ymyrraeth wedi'i thargedu, a chafodd cynllunio a chyllid eu huwchgyfeirio i fonitro uwch.

- Arhosodd Hywel Dda o dan fesurau ymyrraeth wedi'i thargedu ar gyfer cyllid a chynllunio a monitro uwch ar gyfer materion ansawdd yn ymwneud â pherfformiad gwael.
- Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ar statws monitro uwch ar gyfer materion ansawdd yn ymwneud â pherfformiad gwael.
- Roedd Caerdydd a'r Fro wedi'i uwchgyfeirio i statws monitro uwch ar gyfer cynllunio a chyllid.
- Roedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Powys ar statws monitro arferol.
- Roedd y tair Ymddiriedolaeth GIG a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig hefyd ar statws monitro arferol.

Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Ddatganiad Ysgrifenedig yn nodi lefelau uwchgyfeirio newydd y Byrddau Iechyd:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i'w uwchgyfeirio i statws monitro uwch ar gyfer cynllunio a chyllid.
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i'w uwchgyfeirio i statws monitro uwch ar gyfer cynllunio a chyllid.
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i'w uwchgyfeirio i statws monitro uwch ar gyfer cynllunio a chyllid ac i aros ar fonitro uwch ar gyfer ansawdd a pherfformiad.

Roedd pob un o'r Byrddau Iechyd, Ymddiriedolaethau GIG ac Awdurdodau Iechyd Arbennig eraill yn parhau i fod o dan yr un trefniadau uwchgyfeirio ar 31 Mawrth 2023.

## Barn Archwilio Archwilydd Cenedlaethol Cymru ar ddatganiadau ariannol a rheoleidd-dra

Rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn amodol ar reoleidd-dra ar gyfer pob un o'r saith Bwrdd Iechyd Lleol yn 2022-23. Rhoddwyd y farn amodol (ac eithrio ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) ar y sail nad oedd y byrddau iechyd wedi cyflawni eu dyletswydd ariannol statudol a nodir yn adran 175 (1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 "i sicrhau nad yw gwariant y bwrdd yn fwy na swm cyfanredol y cyllid a neilltuwyd iddo dros gyfnod o 3 blwyddyn ariannol".

Cafodd barn reoleidd-dra Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ei hamodi oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi gwneud gwariant afreolaidd drwy dorri paragraff 14.1.4 o'i gyfarwyddiadau ariannol sefydlog wrth wneud taliadau i aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd heb y gymeradwyaeth ofynnol gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr hefyd farn archwilio 'gwir a theg' amodol ar ddatganiadau ariannol 2021-22 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, oherwydd diffyg tystiolaeth archwilio briodol fod croniadau a gwariant cysylltiedig wedi'u cyfrif yn y cyfnod cyfrifyddu cywir. Ar y pryd argymhellodd yr Archwilydd i'r Bwrdd Iechyd y dylai:

- gynnal ymarferiad cynhwysfawr i nodi ac i gywiro'r gwallau yn ei gofnodion cyfrifyddu;
- nodi'r cywiriadau yr oedd angen iddo eu gwneud i sicrhau bod ei gyfrifon ar gyfer 2022-23 yn rhoi barn 'gwir a theg';
- cynnal adolygiad i ddeall pam y digwyddodd y materion hyn ac i gryfhau ei reolaethau yn unol â hynny.

Yn 2022-23, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru unwaith eto wedi amodi ei farn ar y datganiadau ariannol gan nad oedd y Bwrdd Iechyd wedi cynnal yr adolygiad a argymhellwyd. O'r herwydd, nid yw'r Archwilydd wedi gallu asesu maint llawn y gwallau a'r ansicrwydd yn y balansau hyn ac nid yw wedi gallu barnu a oes angen unrhyw addasiadau. Felly, mae wedi amodi ei farn archwilio oherwydd y methiant i ddarparu tystiolaeth ddigonol.

Fe wnaeth adroddiad gan Ernst and Young a gomisiynwyd gan Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd nodi materion arwyddocaol a gofyniad i'r Bwrdd Iechyd gynnal adolygiad rhag blaen o'r trefniadau sicrwydd ar gyfer cydymffurfiaeth, diogelwch, perfformiad a rheoli risg drwy roi model sicrwydd integredig ar waith. Ers hynny, mae'r sylwadau sy'n deillio o'r adolygiad wedi'u hadlewyrchu mewn Cynllun Gweithredu diwygiedig ac mae'r cynnydd yn unol â'r cynllun yn cael ei adrodd i Bwyllgor Archwilio'r Bwrdd Iechyd. Mae cyllid a llywodraethiant yn elfen allweddol o Fframwaith Mesurau Arbennig Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bwrdd Iechyd ac mae'r cynnydd o ran cyflawni yn unol â chynllunau gweithredu y cytunwyd arnynt yn cael ei fonitro drwy'r broses mesurau arbennig.

Cafodd Cyfrifon Cryno GIG Cymru eu hamodi o ran y farn 'gwir a theg' a'r farn reoleidd-dra ar gyfer 2022-23. Nid yw'r amodi'n adlewyrchu'r broses o baratoi a chrynhoi'r Cyfrifon Cryno; maent yn codi ar y farn reoleidd-dra o ganlyniad i'r ffaith fod chwe Bwrdd Iechyd wedi cynhyrchu diffygion ariannol dros gyfnod asesu'r ddyletswydd statudol o 2020-21 i 2022-23. Y diffygion cyffredinol hynny yw gwariant afreolaidd, a'r farn amodol ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a nodir uchod mewn perthynas â thaliadau i aelod gweithredol dros dro o'r Bwrdd. Mae'r amod ar y farn 'gwir a theg' yn deillio o'r amod ar Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a nodir uchod, oherwydd diffyg tystiolaeth archwilio briodol fod croniadau a gwariant cysylltiedig wedi'u cyfrif yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

Cyflawnodd pob un o'r tair Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru eu dyletswydd ariannol i sicrhau nad yw eu refeniw yn llai na digonol, gan gymryd un flwyddyn ariannol gyda'r llall, a fesurir dros gyfnod treigl o dair blynedd.

Cyflawnodd y ddau Awdurdod Iechyd Arbennig eu dyletswydd flynyddol ac nid aethant y tu hwnt i'r terfynau adnoddau refeniw a ddyrannwyd iddynt.

## Fframwaith Cynllunio GIG Cymru 2022 i 2025

Ym mis Tachwedd 2021, ailsefydlodd Llywodraeth Cymru Fframwaith Cynllunio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig GIG Cymru ar gyfer 2022-2025. Mae'r Fframwaith yn rhoi'r eglurder sydd ei angen i osod y sylfeini ar gyfer manteisio ar yr arloesi a'r hyn a ddysgwyd yn ystod y pandemig, ac i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cytunodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar Gynlluniau'r chwe chorff canlynol a oedd wedyn yn cyflawni eu hail ddyletswydd ariannol:

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

- Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG Felindre
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Er nad yw'n ofyniad statudol, cyflwynodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru Gynlluniau Tymor Canolig Integredig boddhaol.

Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol HSSG a Phrif Weithredwr GIG Cymru yn parhau i fonitro cynnydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn unol â'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd i fynd i'r afael ag argymhellion Archwilio Cymru ac Ernst and Young a'r dull o ymdrin â chyllid a llywodraethiant a amlinellir yn y Fframwaith Mesurau Arbennig. Mae'n disgwyl i'r Bwrdd newydd wella'r ddarpariaeth gwasanaethau a sicrhau trefniadau llywodraethiant effeithiol, ac yn ei annog i wneud hynny.

## Amgueddfa Cymru

Ar 28 Medi 2023, amododd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei farn reoleidd-dra ar Adroddiad Ariannol Amgueddfa Cymru ar gyfer 2021-22 gan nad oedd yn gallu ei fodloni ei hun fod y broses o wneud penderfyniadau a arweiniodd at daliadau i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol o dan delerau cytundeb setlo, dyddiedig Rhagfyr 2022, yn cydymffurfio â chyfraith elusennau ac yn cydymffurfio â'r fframwaith awdurdodaethau sy'n eu llywodraethu. Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad budd y cyhoedd i'r mater hwn ar 9 Tachwedd 2023. Mae'r adroddiad yn cynnwys argymhelliad i Lywodraeth Cymru ynghylch y gweithdrefnau sydd i'w dilyn mewn amgylchiadau o'r fath mewn cyrff hyd braich.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystyried casgliadau ac argymhellion yr adroddiad yn ofalus a byddant yn ymateb i Archwilydd Cyffredinol Cymru. Nid yw Amgueddfa Cymru wedi'i dynodi ac felly nid yw'n cael ei chyfuno â'r Cyfrif Cyfunol hwn gan Lywodraeth Cymru.

## Proffil Risg

Mae proffil risg Llywodraeth Cymru yn eang ac yn amrywiol, fel y byddid yn disgwyl o gofio'r ystod eang o weithgareddau gwahanol y mae'n ymwneud â hwy. Mae risgiau gweithredol yn codi wrth gyflawni amcanion polisi allweddol ac yn cael eu rheoli a'u lliniaru o ddydd i ddydd ar draws y sefydliad. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru hefyd yn wynebu nifer o risgiau posibl (mawr eu heffaith ond yn annhebygol o ddigwydd) sy'n deillio o'i chyfrifoldebau rheoleiddio. Enghreifftiau o'r rhain yw ei chyfrifoldebau os bydd brigiadau o glefydau ymhlith pobl neu anifeiliaid yng Nghymru a'i rhwymedigaethau o dan y gwarantau y mae'n ymrwymo iddynt o bryd i'w gilydd i gefnogi busnesau yng Nghymru.

Mae'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn nodi'r risgiau "ar draws y sefydliad" a allai fygwth busnes craidd Llywodraeth Cymru a'r ffordd y mae'n gweithredu. Dogfen fewnol yw hon. Ceir trosolwg isod o'r newidiadau i'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ystod y flwyddyn.

| Risg gorfforaethol | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2022 | Newid yn y flwyddyn | Sgôr risg weddilliol Ebrill 2022 |
|---|---|---|---|
| Pontio Ewropeaidd | 16 | ↔ | 16 |
| Dim digon o gyllid i gyflawni'r cynlluniau presennol | 15 | ↔ | 15 |
| Cyflenwi a chynllunio busnes | 12 | ↔ | 12 |
| Capasiti'r gweithlu | 20 | ↔ | 20 |
| Galluedd a hyblygrwydd y gweithlu | 16 | ↔ | 16 |
| Llesiant staff | 15 | ↑ | 20 |
| Cadernid systemau TGCh | 15 | ↔ | 15 |
| Y Rhaglen Ddeddfwriaethol | 20 | ↔ | 20 |
| Strategaethau trawsbynciol | 15 | Tynnwyd | |
| Prosiectau a rhaglenni mawr | 15 | ↑ | 20 |
| Risg ddigidol | 16 | ↔ | 16 |
| System adnoddau dynol | 20 | ↓ | 15 |
| Seiberddiogelwch | 20 | ↔ | 20 |
| Tarfu/Digwyddiad parhad busnes | 15 | ↔ | 15 |
| GDPR y DU | 8 | Tynnwyd | |
| Ymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU | 20 | ↔ | 20 |
| Cyflwr y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol | 20 | ↔ | 20 |
| Fforddiadwyedd ymrwymiad cyllid Wcráin | 20 | ↓ | 15 |
| Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant | | Newydd | 20 |
| Y Gymraeg | | Newydd | 15 |
| Diwedd y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol | | Newydd | 16 |
| CVL | | Newydd/Tynnwyd | 9 |

Mae Llywodraeth Cymru yn sgorio risgiau gan ddefnyddio matrics “5x5” lle mae effaith risg a thebygolrwydd risg yn cael eu sgorio o 1 (isel) i 5 (uchel) gyda’r sgôr risg gyffredinol yn cael ei chyfrifo drwy luosi’r ddwy sgôr hyn, gan gyrraedd sgôr gyffredinol yn yr ystod rhwng 1 a 25.

Mae’r lefel risg gyffredinol yn cael ei phennu gan y sgôr gyffredinol fel a ganlyn:

| Sgôr | Lefel | Natur y Risg |
|---|---|---|
| 20-25 | Uchel Iawn | Risgiau allweddol |
| 13-19 | Uchel | Risgiau perthnasol |
| 5-12 | Canolig | Risgiau y gellir eu rheoli |
| 1-4 | Isel | Risgiau dibwys |

Mae’r holl risgiau corfforaethol ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol, ExCo, y Bwrdd ac ARAC fel rhan o’n rheolaeth barhaus o risg gorfforaethol. Amlinellir isod fanylion pellach ar risg newydd, risg sydd wedi’i dileu yn ystod y flwyddyn a diweddariad ar y risgiau hynny yr wyf wedi tynnu sylw atynt yn flaenorol.

Yn fy nau Ddatganiad Llywodraethiant blaenorol, rwyf wedi tynnu sylw at y gofynion sydd wedi’u gosod ar Lywodraeth Cymru wrth ymateb i bandemig COVID-19. Er bod y pwysau presennol sy’n ymwneud â’r pandemig yn ymwneud yn bennaf â chefnogi Ymchwiliad Covid y DU, mae’r heriau sy’n ymwneud â’r argyfwng yn Wcráin a chodiadau mewn costau byw wedi cynyddu’n sylweddol mewn blwyddyn.

Mae’r heriau hyn yn parhau i effeithio ar risgiau i’r gweithlu gan gynnwys materion yn ymwneud â chapasiti a llesiant staff. Mae mecanweithiau effeithiol wedi gweithredu i fonitro a darparu cymorth i staff, yn ôl yr angen, ond mae ein risg ynghylch llesiant staff, ac adnoddau wedi parhau i fod yn rhan o’r gofrestr risgiau corfforaethol. Mae mesurau lliniaru yn y maes wedi cael eu monitro a’u diweddaru i adlewyrchu newidiadau megis rhoi’r fframwaith atebolrwydd adnoddau newydd ar waith.

Yn ystod y flwyddyn ychwanegwyd pedair risg newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol:

- Y Gymraeg – Ychwanegwyd y risg hon at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ar ddechrau 2022 i adlewyrchu’r heriau wrth gyrraedd targedau Llywodraeth Cymru a gynhwysir yn Cymraeg 2050. Yn ystod y flwyddyn mae’r risg hon wedi cael ei monitro’n ofalus gan y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol ac mae’r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith gan swyddogion yn golygu bod y risg weddilliol wedi lleihau dros y cyfnod.
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth – Mae’r risg hon yn cydnabod pwysigrwydd cynyddu amrywiaeth yn Llywodraeth Cymru, dileu rhwystrau yn achos grwpiau difreintiedig a hyrwyddo a chynnal amgylchedd gwaith cynhwysol, er mwyn cynrychioli’r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu. Yn ei dro, bydd hyn yn ein galluogi i gael effaith gadarnhaol ar y canlyniadau yr ydym yn ceisio eu cyflawni ar gyfer pobl Cymru. Mae mesurau lliniaru wedi’u hadolygu’n barhaus yn ystod y flwyddyn sydd wedi arwain at leihau’r risg hon. Mae’r Bwrdd Cysgodol hefyd wedi canolbwyntio ar hyn fel mater allweddol.

- Ym mis Medi 2022 ychwanegwyd risg yn ymwneud â chyllido Llinellau Craidd y Cymoedd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Oherwydd arwyddocâd y risg, cafodd ei huwchgyfeirio o lefel Grŵp at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Rheolwyd y risg hon yn ystod y flwyddyn ac mae bellach wedi'i thynnu oddi ar y gofrestr.
- Nodwyd risg mewn perthynas â Diwedd y Rhaglen Cronfeydd Strwythurol yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn ymwneud â'r risg y gall Llywodraeth Cymru fod yn destun ymholiadau ac archwiliadau heb eu datrys gan y Comisiwn Ewropeaidd neu'r ECA ar ôl iddynt gau (ac mor hwyr â 2029) a allai arwain at ganlyniadau ariannol sylweddol os na ellir mynd i'r afael â'r ymholiadau hyn am fod staff yn symud swyddi, cof corfforaethol a/neu gofnodion yn cael eu colli neu systemau perthnasol heb gael eu cynnal neu'n dal yn hygyrch. Gallai fod canlyniadau ariannol sylweddol hefyd os na fydd tystiolaeth, gwybodaeth ac esboniadau ar gael i archwilwyr y Comisiwn Ewropeaidd a Llys Archwilwyr Ewrop ar gais.

Ar hyn o bryd mae cyfres o fesurau lliniaru ar waith i reoli'r risg hon:

- Mae'r holl systemau a chofnodion yn dal i gael eu cynnal, felly byddant ar gael ar unwaith ar ôl iddynt gau.
- Mae swyddogaethau a gweithgareddau yn dal i fynd rhagddynt y bydd eu hangen ar ôl cau, yn benodol, mae gallu a chapasiti EFAT yn cael eu cynnal (bydd eu hangen hyd at fis Chwefror 2025 fan gynharaf).
- Ar hyn o bryd, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn fodlon â systemau a rheolaethau WEFO. Mae cyfraddau cyfeiliornad mewn gweithrediadau yn isel. Dim ond un achos [cymorth gwladwriaethol] sy'n parhau o wahanol archwiliadau'r GE/ECA a wnaed ar ôl Brexit.

Mae rhagor o reolaethau'n cael eu cynllunio wrth i agosrwydd y risg gynyddu.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodais fod risg newydd wedi'i hychwanegu at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ymwneud â statws Cymru fel Cenedl Noddfa a'r risgiau sy'n gysylltiedig â fforddiadwyedd yr ymrwymiad i gyllido Wcráin yn y dyfodol. Fel yr amlinellwyd ar dudalen 132 rydym wedi rhoi trefniadau llywodraethiant cadarn ar waith i reoli'r mater hwn ac mae'r risg hon wedi cael ei monitro'n agos a'i diweddaru drwy gydol y flwyddyn. Gwnaed newidiadau i'r risg yn ystod y flwyddyn i adlewyrchu fforddiadwyedd yr ymrwymiad cyllido. Effeithiodd yr argyfwng yn Wcráin hefyd ar risgiau eraill o ran staffio a hefyd ein risg seiberddiogelwch a gynyddodd am gyfnod oherwydd y bygythiad diogelwch uwch yn Wcráin.

Yn yr un modd, mae ein risg gorfforaethol yn ymwneud â'n hymateb i Ymchwiliad Cyhoeddus COVID-19 y DU wedi cael ei monitro'n ofalus yn ystod y flwyddyn. Amlygwyd heriau ynghylch capasiti o ran adnoddau, ac mae'r effaith ar ansawdd y dystiolaeth a ddarparwyd a mesurau lliniaru mewn perthynas â'r risg hon yn cael eu monitro'n agos.

Fel y nodwyd ar dudalen 140 cyhoeddodd y Pennaeth Archwilio Mewnol un adroddiad gyda barn 'dim sicrwydd' yn ymwneud â chydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â fframweithiau strategol arferion gorau ar gyfer cyflawni prosiectau, lle na chafwyd sicrwydd digonol. Mae gallu Llywodraeth Cymru i gyflawni ar gyfer Prosiectau a Rhaglenni Mawr yn dal ar y gofrestr risgiau corfforaethol ac yn ystod y flwyddyn diweddarwyd mesurau lliniaru i adlewyrchu dull gwahanol o reoli prosiectau Llywodraeth Cymru, a fydd yn seiliedig ar fodel y DU. Mae'n ddyddiau cynnar ar waith Swyddfa Cyflawni Prosiectau Llywodraeth Cymru o ran datblygu dull strategol i Lywodraeth Cymru reoli'r maes hwn yn effeithiol ar sail addasu dull y DU.

Diweddarwyd y risg o ran Trefniadau Pontio Ewropeaidd yn ystod y flwyddyn i gynnwys y pecyn o ddiwygiadau sy'n deillio o'r adolygiad o gysylltiadau rhynglywodraethol, sydd â'r potensial i wella gwaith rhynglywodraethol. Ar ddiwedd y flwyddyn roedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddileu'r risg hon o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Roedd llawer o agweddau gwreiddiol y risg hon bellach yn cael eu rheoli ar lefel Grŵp e.e. Pyrth Rheoli'r Bwrdd.

Yn flaenorol, roedd risg ar y gofrestr risgiau corfforaethol yn ymwneud â Strategaethau Trawsbynciol. Risg etifeddiaeth oedd hon i raddau helaeth, yn ymwneud â thymor blaenorol y Senedd. Cytunwyd nad oedd y risg hon bellach yn berthnasol ac fe'i dilewyd ym mis Ebrill 2022.

Mae risg sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth Llywodraeth Cymru â gofynion statudol GDPR wedi'i chynnwys ar y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ers i reoliadau'r DU gael eu rhoi ar waith yn 2018. Cafodd y risg weddilliol ei lleihau ym mis Ionawr 2023 i adlewyrchu polisi newydd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o beidio â dirwyo cyrff cyhoeddus (er mwyn osgoi niwed cyhoeddus), ond yn hytrach eu ceryddu (ac eithrio mewn achosion eithriadol, lle mae'r opsiwn i ddirwyo wedi'i gadw). Ym mis Ebrill 2023 cytunwyd y gellid dileu'r risg hon o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol gan ei bod wedi'i chynnwys ar gofrestr risgiau newydd y Bwrdd Diogelwch ac roedd modd ei rheoli'n effeithiol o fewn y fforwm hwnnw.

### Archwilio Mewnol

Yn dilyn gweithredu'r strwythur sefydliadol newydd ym mis Mai 2022, gofynnodd y Pwyllgor Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol am adolygiad o reoli risg. Diben hyn oedd sicrhau bod prosesau a gweithdrefnau cyson ar gyfer rheoli risg yn y strwythur newydd. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn ym mis Medi 2022. Mae cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r sylw a wnaed wedi'i roi ar waith ac mae'n cael ei roi ar waith ar hyn o bryd.


## Y Gallu i Ymdrin â Risg

Mae Llywodraeth Cymru'n cadw at y "Prif Egwyddorion" ar gyfer rheoli risg yn y llywodraeth a amlinellir yn nogfen Trysorlys Ei Fawrhydi *The Orange Book; Management of Risk – Principles and Concepts (2019, updated 2020).*

Prif amcan polisi rheoli risg Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod proses gyson yn bodoli ar gyfer mesur, rheoli, monitro ac adrodd ar risg ar draws y sefydliad. Ni ddylai rheoli risg yn effeithiol beri bod Llywodraeth Cymru'n ymdrechu'n ormodol i osgoi risg ac wrth fynd ar drywydd ei hamcanion, mae'n barod i gymryd risgiau sydd wedi'u hasesu, eu gwerthuso a'u rheoli'n briodol er mwyn gallu manteisio'n fwy effeithiol ar gyfleoedd wrth iddynt godi, gan dderbyn yr un pryd y gallai methiant ddigwydd.

Yn gorfforaethol, mae'r Bwrdd yn gyfrifol am oruchwylio gweithredu polisi a phroses ar gyfer rheoli risg ac am oruchwylio a chraffu ar liniaru'r risgiau allweddol sy'n wynebu Llywodraeth Cymru a allai fel arall atal neu lesteirio'r sefydliad rhag cyflawni ei hamcanion strategol. Yn bennaf, y rhain yw'r risgiau sydd mor allweddol fel na ellir eu rheoli ar lefel Grŵp, ynghyd â rhai o natur gorfforaethol y teimlid eu heffaith ar draws y sefydliad cyfan. Mae risgiau corfforaethol wedi cael eu hadolygu gan y Bwrdd ddwywaith yn y flwyddyn a chan Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Llywodraeth Cymru bob chwarter.

Cyfrifoldeb rheoli yw rheoli a lliniaru risg o ddydd i ddydd ac mae pob Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi bod yn gyfrifol am reoli risg a chyfle mewn perthynas ag amcanion allweddol eu Grŵp. Roedd risgiau grŵp yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan uwch-dimau rheoli a chan Bwyllgorau Archwilio a Sicrwydd Risg y Grŵp ac fe gawsant eu llywio gan gofrestri risg a gynhelir gan brosiectau a rhaglenni, ac asesiadau risg a chofrestri risg ar lefel Adrannol. Mae'r diagram isod yn dangos y map llwybr ar gyfer uwchgyfeirio risg.



## Casgliad

Bu'r system rheolaeth fewnol ar waith yn sefydliad am y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2023 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon Cyfunol. Mae'n cyd-fynd â chanllawiau Trysorlys Ei Fawrhydi. Rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a roddwyd imi drwy fy adolygiad o effeithiolrwydd y fframwaith llywodraethiant a gallaf gymryd sicrwydd rhesymol bod y trefniadau i sicrhau llywodraethiant, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny sy'n cael eu hadolygu wedi cael eu cynllunio a'u cymhwyso'n effeithiol. Mae ar rai materion angen sylw rheoli o ran rheoli, cynllunio neu gydymffurfio, ac maent yn agored i risg cymedrol nes cael eu datrys.

Bydd fy nghynllun tair blynedd, Llywodraeth Cymru 2025, yn parhau i adeiladu ar ein prosesau a'n gweithdrefnau cadarn presennol, gan gryfhau a gwella ein trefniadau llywodraethiant a sicrwydd i'n helpu i ddod yn sefydliad gwasanaethau cyhoeddus rhagorol.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
29 Tachwedd 2023

# Datguddiadau Atebolrwydd

Mae'r canlynol yn ddatganiad o golledion a thaliadau arbennig fel sy'n ofynnol o dan Lawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, gyda datgeliadau unigol lle mae'r cyfansymiau a dynnir yn uwch na'r terfynau a bennir yn Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru o £300,000.

## Colledion

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Cyfanswm y colledion | 131 | 150 |
| Cyfanswm gwerth y colledion (£000) | 13,184 | 12,269 |

| Manylion y colledion dros £300,000: | | |
|---|---|---|
| Gordalu | Gordalu ar Brydau Ysgol am Ddim | £1,885,417 |
| Colledion storiau | Stociau cyffuriau sydd wedi dod i ben (heb fod yn COVID-19) | £1,508,373 |
| Colledion storiau | Meddyginiaethau COVID-19 a phrofion llif unffordd sydd wedi dod i ben[1] | £1,250,849 |
| Colledion deongliadol | Dileu Prosiectau Ffyrdd[2] | £5,665,069 |
| Colledion deongliadol | Dileu stoc CPAP | £565,198 |
| Hawliad sydd wedi'i hepgor a'i adael | GRH Food Company | £1,554,865 |

[1] Dileu meddyginiaethau COVID-19 sydd bellach wedi dod i ben ac nad ydynt bellach yn ddilys i'w defnyddio. Cafodd y meddyginiaethau hyn eu gwaredu.

[2] Mae yn ymwneud â Thrydedd Bont y Fenai yr A55, Gwella Coridor Sir y Fflint a'r A483.

Wedi'u cynnwys yn y colledion a nodwyd uchod mae 2 (2021-22: 4) golled mewn perthynas â phandemig COVID-19 sy'n dod i gyfanswm o £0.052m (2021-22: £0.044m). Ymhlith colledion COVID-19 mae digwyddiadau a gafodd eu canslo o ganlyniad i'r pandemig, a cholledion yn ymwneud â methiannau cwmnïau.

## Taliadau Arbennig

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y taliadau arbennig | 21 | 21 |
| Cyfanswm gwerth y taliadau arbennig (£000) | 2,285 | 1,352 |

| **Manylion taliadau arbennig dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Iawndal | Iawndal, gan gynnwys costau mewn perthynas â hawliad trydydd parti oherwydd damwain ffordd | £1,289,813 |
| Taliad ex gratia | Yn ymwneud â gweithrediad parhaus Gorsaf Ynni Bae Baglan | £931,288 |

Ceir rhagor o fanylion am y colledion unigol a'r taliadau arbennig a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalennau 148-150.

## Rhoddion a wnaed

| | 2022-23 | 2021-22 |
|---|---|---|
| Cyfanswm nifer y rhoddion a wnaed | 3 | 3 |
| Cyfanswm gwerth y rhoddion (£000) | 1,400 | 5,100 |

| **Manylion y rhoddion dros £300,000:** | | |
|---|---|---|
| Rhodd | Apêl Costau Byw'r Sefydliad Cymunedol yng Nghymru | £1,000,000 |
| Rhodd | Apêl Daeargryn DEC – Twrci a Syria | £300,000 |

Ceir rhagor o fanylion am y rhoddion unigol a ddatgelwyd yn y Datganiad Llywodraethiant Blynyddol ar dudalen 151.

# Adroddiad Staff a Chydnabyddiaeth Ariannol 2022-23

## Polisi Taliadau Cydnabyddiaeth

Mae cydnabyddiaeth ariannol uwch-weision sifil[68] (SCS) yn cael ei phennu ar lefel Llywodraeth y DU yn dilyn cyngor oddi wrth y Corff Adolygu Cyflogau Uwch-swyddogion[69]. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb dirprwyedig dros dâl cydnabyddiaeth staff nad ydynt yn rhan o'r Uwch Wasanaeth Sifil. Pan fydd secondai yn ymgymryd â swydd yn yr Uwch Wasanaeth Sifil, bydd eu tâl cydnabyddiaeth yn adlewyrchu telerau ac amodau eu cyflogwr parhaol.

Mae tâl a phensiynau'r Gweinidogion yn cael eu pennu gan Benderfyniad Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd ar Dâl a Lwfansau'r Aelodau[70].

## Contractau Gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau gael eu gwneud ar sail teilyngdod a chystadleuaeth deg ac agored. Mae'r Egwyddorion Recriwtio a gyhoeddwyd gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi o dan ba amgylchiadau y gellid gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir hynny isod, mae'r swyddogion sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad hwn yn dal swyddi sy'n benagored. Byddai penderfyniad i derfynu swydd, am resymau ac eithrio camymddygiad, yn golygu bod yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir gwybodaeth bellach am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk

## Datganiad Blynyddol Llywodraeth Cymru ar ei Pholisi Tâl

Yn unol ag egwyddorion 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru'[71] a gyhoeddwyd ar 7 Rhagfyr 2015, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad ar ei pholisi tâl ar ei gwefan[72].

Mae'r Datganiad Polisi Tâl yn ymdrin â diffiniad Llywodraeth Cymru o "swyddi uwch" a "gweithwyr sy'n derbyn y tâl isaf" a'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol swyddi uwch a chydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr sy'n cael y tâl isaf.

Mae hefyd yn cynnwys:

a) tystiolaeth amlwg o fforddiadwyedd a gwerth am arian,

b) nifer y swyddi uwch yn y corff gyda phecyn cydnabyddiaeth o fwy na £100,000 mewn bandiau o £5,000,

c) y ffordd o reoli talent fewnol,

d) y ffordd o ymdrin â thâl ar sail perfformiad,

---

68 Senior Civil Service Pay Award 2022-23 – practitioner guidance – GOV.UK (www.gov.uk)
69 Senior Salaries Review Body Report: 2022 – GOV.UK (www.gov.uk)
70 Penderfyniad (Bwrdd Taliadau Cymru)
71 Tryloywder cydnabyddiaeth ariannol uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru [HTML] | LLYW. CYMRU
72 Datganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru | LLYW. CYMRU

e) y ffordd o roi cymorth i staff sydd ar gyflog llai,

f) y pwyntiau tâl uchaf ac isaf; a

g) y polisïau ar daliadau diswyddo sy'n weithredol a sut ac o dan ba amgylchiadau y gellir eu hamrywio.

## Taliadau cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliau pensiwn

Mae'r adran hon yn destun archwiliad ac yn cael ei chynnwys ym marn archwilio'r Archwilydd Cyffredinol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion Cydnabyddiaeth ariannol a buddion pensiwn y Gweinidogion a'r uwch-reolwyr. Mae uwch-swyddogion at ddibenion yr Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol i gyd yn aelodau parhaol o Fwrdd a Phwyllgor Gweithredol Llywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol.

## Cydnabyddiaeth ariannol

Nodir taliadau cydnabyddiaeth y Prif Weinidog a'i dîm yn y Cabinet a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn, isod. Adlewyrchir y costau hyn yng nghyfrifon Comisiwn y Senedd ac nid Llywodraeth Cymru.

Mae cyflogau'r Gweinidogion yn cynnwys eu cyflogau fel Aelodau'r Senedd o £67,920 (2021-22: £67,649). Y cyflog sy'n daladwy i'r Gweinidogion yw'r cyflog sy'n daladwy o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 fel y'i pennir gan Fwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd[73].

Ni chynhwysir buddion mewn nwyddau mewn perthynas â chyfrifoldebau Aelodau'r Senedd yn y tabl dros y dudalen.

### Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth – y Gweinidogion

| Gweinidogion | Cyflog 2022-23 £ | Cyflog 2021-22 £ | Buddion mewn nwyddau 2022-23 £ | Buddion mewn nwyddau 2021-22 £ | Buddion pensiwn 2022-23 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Buddion pensiwn 2021-22 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2022-23 (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm 2021-22 (i'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford** Y Prif Weinidog | 148,575 | 147,983 | - | - | 8,000 | 33,000 | 156,000 | 181,000 |
| **Rebecca Evans** Un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 105,701 | - | - | 17,000 | 27,000 | 123,000 | 133,000 |
| **Vaughan Gething** Un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 105,701 | - | - | 2,000 | 22,000 | 108,000 | 128,000 |
| **Lesley Griffiths** Un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 105,701 | - | - | (20,000) | 15,000 | 87,000 | 121,000 |

73 Penderfyniad (bwrddtaliadau.cymru)

| Gweinidogion | Cyflog 2022-23 £ | Cyflog 2021-22 £ | Buddion mewn nwyddau 2022-23 £ | Buddion mewn nwyddau 2021-22 £ | Buddion pensiwn 2022-23 (i'r £1000 agosaf)[1] £ | Buddion pensiwn 2021-22 (i'r £1000 agosaf) £ | Cyfanswm 2022-23 (i'r £1000 agosaf) | Cyfanswm 2021-22 (i'r £1000 agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Jane Hutt**[2]<br>Un o Weinidogion Cymru a'r Prif Chwip | 106,124 | 103,868 | - | - | 13,000 | 6,000 | 119,000 | 110,000 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 105,701 | - | - | 36,000 | 33,000 | 142,000 | 139,000 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 105,701 | - | - | 18,000 | 27,000 | 124,000 | 133,000 |
| **Jeremy Miles**<br>Un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 105,701 | - | - | 36,000 | 32,000 | 142,000 | 138,000 |
| **Mick Antoniw**<br>Y Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru | 106,124 | 93,483 | - | - | (23,000) | 12,000 | 83,000 | 105,000 |
| **Hannah Blythyn**<br>Dirprwy Weinidog | 90,206 | 89,846 | - | - | 30,000 | 28,000 | 120,000 | 118,000 |
| **Julie Morgan**[3]<br>Dirprwy Weinidog | 90,206 | 89,846 | - | - | - | - | 90,000 | 90,000 |
| **Lee Waters**<br>Dirprwy Weinidog | 90,206 | 89,846 | - | - | 30,000 | 28,000 | 120,000 | 118,000 |
| **Dawn Bowden**<br>Dirprwy Weinidog | 90,206 | 79,641 | - | - | 30,000 | 25,000 | 120,000 | 104,000 |
| **Lynne Neagle**<br>Dirprwy Weinidog | 90,206 | 79,641 | - | - | (22,000) | 10,000 | 69,000 | 89,000 |

1 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai (y cyfraniadau a wnaed gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant neu unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn.

2 Mae ffigur buddion pensiwn yr aelod hwn wedi'i ddiwygio gan fod y cyfrifiad pensiwn sylfaenol ar gyfer 2022 wedi'i ddiwygio.

3 Nid yw'r aelod hwn bellach yn cyfrannu at y Cynllun Pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

## Manylion pensiynau'r Gweinidogion

| Gweinidogion | Pensiwn cronedig ar 31/03/2023 | Pensiwn cronedig ar 31/03/2022 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn yn 65 oed ar 31/03/2023 | CETV ar 31/03/2023 | CETV ar 31/03/2022 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV ar 31/03/2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mark Drakeford**<br>Y Prif Weinidog | 35-40 | 30-35 | 0-2.5 | 650 | 591 | 3 |
| **Rebecca Evans**<br>Un o Weinidogion Cymru | 25-30 | 20-25 | 0-2.5 | 332 | 281 | 4 |
| **Vaughan Gething**<br>Un o Weinidogion Cymru | 35-40 | 30-35 | 0-2.5 | 486 | 426 | (5) |
| **Lesley Griffiths**<br>Un o Weinidogion Cymru | 45-50 | 40-45 | (2.5)-0 | 878 | 789 | (22) |
| **Jane Hutt**[1], y Prif Chwip ac un o Weinidogion Cymru | 80-85 | 70-75 | 0-2.5 | 1,217 | 1138 | 8 |
| **Eluned Morgan**<br>Un o Weinidogion Cymru | 15-20 | 10-15 | 0-2.5 | 220 | 165 | 23 |
| **Julie James**<br>Un o Weinidogion Cymru | 25-30 | 20-25 | 0-2.5 | 516 | 439 | 16 |
| **Jeremy Miles**<br>Un o Weinidogion Cymru | 15-20 | 10-15 | 0-2.5 | 202 | 152 | 19 |
| **Mick Antoniw**<br>Y Cwnsler Cyffredinol ac un o Weinidogion Cymru | 35-40 | 35-40 | (2.5)-0 | 699 | 666 | (24) |
| **Hannah Blythyn**<br>Dirprwy Weinidog | 10-15 | 10-15 | 0-2.5 | 141 | 107 | 11 |
| **Julie Morgan**[2]<br>Dirprwy Weinidog | 10-15 | 10-15 | N/A | 179 | 188 | 0 |
| **Lee Waters**<br>Dirprwy Weinidog | 10-15 | 5-10 | 0-2.5 | 155 | 116 | 14 |
| **Dawn Bowden**<br>Dirprwy Weinidog | 10-15 | 5-10 | 0-2.5 | 217 | 160 | 26 |
| **Lynne Neagle**<br>Dirprwy Weinidog | 40-45 | 35-40 | (2.5)-0 | 665 | 606 | (27) |

Mae'n bosibl y bydd ffioedd treth Lwfans Blynyddol yn berthnasol i rai aelodau o ganlyniad i groniad pensiwn yn ystod y cyfnod cyfrifyddu.

[1] Mae CETV yr aelod hwn ar y dyddiad cychwyn wedi'i ddiwygio gan fod y cyfrifiad pensiwn sylfaenol ar gyfer 2022 wedi'i ddiwygio.

[2] Nid yw'r aelod hwn bellach yn cyfrannu at y Cynllun Pensiwn ac felly ni wnaeth gronni unrhyw bensiwn ychwanegol eleni.

## Manylion pensiynau'r Gweinidogion (parhad)

Mae'r Senedd yn darparu cynllun â buddion diffiniedig, a lywodraethir gan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998. Mae adran 20 (4) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac Atodlen 11 iddi, yn sicrhau dilyniant yn y Cynllun. Nid yw Deddf Llywodraeth Cymru 2006 wedi effeithio ar statws cyfreithiol y Cynllun.

Mae'r Cynllun yn darparu buddion i Aelodau'r Senedd a Deiliaid Swyddi. Mae pob Aelod o'r Senedd yn aelod o'r Cynllun o'r dyddiad y mae'n dechrau yn y Senedd oni bai ei fod yn dewis yn benodol peidio â bod yn rhan ohono. Nid yw'r Gweinidogion yn derbyn cyfandaliad awtomatig. Mae ganddynt yr opsiwn i drosi rhan o'u pensiwn yn gyfandaliad yn gyfnewid am lai o bensiwn.

Cyflwynwyd Cynllun Pensiwn Enillion Cyfartalog Gyrfa ym mis Mai 2016. Roedd aelodau a oedd yn 55 oed neu'n hŷn ar 1 Ebrill 2012 yn destun 'Gwarchodaeth Drosiannol' ac mae eu buddion yn parhau i gael eu cyfrifo ar sail eu cyflog terfynol am bum mlynedd yn ychwanegol, hyd at 5 Mai 2021.

Ym mis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl fod y 'warchodaeth drosiannol' a gynigir i rai aelodau o gynlluniau'r barnwyr a diffoddwyr tân, wedi arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Ar 15 Gorffennaf 2019, gwnaeth Prif Ysgrifennydd y Trysorlys ddatganiad gweinidogol ysgrifenedig yn cadarnhau, gan fod 'gwarchodaeth drosiannol' yn cael ei gynnig i aelodau o holl brif gynlluniau pensiwn y gwasanaethau cyhoeddus, fod angen dileu'r gwahaniaeth mewn triniaeth o'r holl gynlluniau ar gyfer aelodau â gwasanaeth perthnasol.

Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd sy'n gyfrifol am reolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau. Ar ôl ystyried barn y Bwrdd Pensiynau, cytunodd y Bwrdd y dylid mabwysiadu rhwymedi i ddileu'r gwahaniaethu yn rheolau Cynllun Pensiwn yr Aelodau o ganlyniad i'r darpariaethau gwarchodaeth drosiannol y maent yn eu cynnwys ar hyn o bryd. Ymgynghorodd y Bwrdd â'r Aelodau yr effeithir arnynt a Chomisiwn y Senedd ar rwymedi arfaethedig. Caiff Aelodau yr effeithir arnynt gynnig dewis ar unwaith i aros yn y Cynllun CARE neu i ddychwelyd i'r adran Cyflog Terfynol ar gyfer cyfnod y Rhwymedi sef 6 Mai 2016 – 6 Mai 2021.
O ddechrau'r Chweched Senedd mae pob aelod yn y Cynllun Enillion Cyfartalog Gyrfa. Ar hyn o bryd, mae'r Senedd yn cyfrannu 19.9% o gyflogau cyfanredol yr Aelodau. Mae'r aelodau yn talu cyfraniadau ar gyfradd o 10.5%.

Mae'r Oedran Ymddeol Arferol yn gysylltiedig ag Oedran Pensiwn y Wladwriaeth (neu 65, p'un bynnag sydd uchaf). Bydd unrhyw bensiwn Cyflog Terfynol a gronnir cyn 6 Mai 2021 yn parhau i fod yn daladwy ar yr Oedran Ymddeol Arferol o 65.

# Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Gweinidogion Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar ryngrwyd Llywodraeth Cymru. Rhestr o fuddiannau preifat perthnasol y gweinidogion llyw.cymru

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gweinidogion. llyw.cymru/cod-gweinidogion

# Cyfanswm taliadau cydnabyddiaeth

Mae'r Llawlyfr Adroddiadau Ariannol (FReM) yn ei gwneud yn ofynnol i bob un o Adrannau'r Llywodraeth Ganolog gynnwys Cyfanswm Taliadau Cydnabyddiaeth ynghyd â ffigur cymharol ar gyfer blynyddoedd blaenorol o fewn yr adroddiad ar daliadau cydnabyddiaeth. Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog gan gynnwys lwfansau sy'n destun trethiant y DU, taliadau bonws a buddion mewn nwyddau yn ogystal â ffigur buddion pensiwn. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronedig a wnaed gan Lywodraeth Cymru ac mae wedi'i gofnodi felly yn y cyfrifon hyn. Mae'r buddion pensiwn wedi eu cyfrifo gan ddefnyddio'r fethodoleg a ddefnyddir i gyfrifo gwerthoedd pensiwn at ddibenion treth. O ganlyniad, gall ffactorau eraill ddylanwadu ar y ffigurau megis unigolyn sy'n penderfynu gwneud cyfraniadau ychwanegol neu ffactorau prisio sy'n effeithio ar y cynllun pensiwn yn ei gyfanrwydd. Nid yw'r symiau a ddatgelir felly yng nghyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn adlewyrchu cyfraniadau pensiwn a wneir ar gyfer unigolyn neu bensiynau a delir i unigolyn mewn unrhyw un flwyddyn. Mae'r fethodoleg hon yn gymwys i bob un o adrannau'r llywodraeth gan gynnwys cyrff y GIG.

| Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-swyddogion*** | **Cyflog[2] 2022-23** | **Cyflog 2021-22 £000** | **Buddion pensiwn[1] 2022-23 £000** | **Buddion pensiwn 2021-22 £000** | **Cyfanswm 2022-23 £000** | **Cyfanswm 2021-22 £000** |
| **Andrew Goodall**[3] Ysgrifennydd Parhaol | 215-220 | 215-220 | - | - | 215-220 | 215-220 |
| **Judith Paget**[4] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 215-220 | 85-90 | (10)-(15) | 35-40 | 205-210 | 125-130 |
| **Tracey Burke** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 125-130 | 45-50 | 45-50 | 175-180 | 170-175 |
| **Reg Kilpatrick**[18] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 120-125 | (15)-(20) | 100-105 | 105-110 | 220-225 |
| **Andrew Slade** Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | 125-130 | (10)-(15) | 20-25 | 110-115 | 150-155 |
| **Jo-Anne Daniels**[5] Cyfarwyddwr Cyffredinol | 125-130 | - | 85-90 | - | 210-215 | - |
| **Tim Moss**[6] Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu | 70-75 | - | 45-50 | - | 120-125 | - |
| **Des Clifford**[7] Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog | 110-115 | 125-130 | (45)-(50) | 5-10 | 65-70 | 130-135 |
| **David Richards**[8] Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 55-60 | 75-80 | (105)-(110) | (20)-(25) | (50)-(55) | 50-55 |
| **Helen Lentle**[9] Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 105-110 | 100-105 | (0)-(5) | 40-45 | 105-110 | 145-150 |

**Cyfanswm ffigur taliadau cydnabyddiaeth uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion* | Cyflog[2] 2022-23 | Cyflog 2021-22 £000 | Buddion pensiwn[1] 2022-23 £000 | Buddion pensiwn 2021-22 £000 | Cyfanswm 2022-23 £000 | Cyfanswm 2021-22 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Natalie Pearson**[10] Pennaeth Datblygu Sefydliadol ac Ymgysylltu | 75-80 | 85-90 | (35)-(40) | 70-75 | 35-40 | 160-165 |
| **Amelia John**[11] Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 20-25 | - | 0-5 | - | 20-25 | - |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 100-105 | 100-105 | (15)-(20) | 15-20 | 85-90 | 115-120 |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 105-110 | 105-110 | (25)-(30) | 10-15 | 75-80 | 120-125 |
| **Andrew Jeffreys**[12] Cyfarwyddwr y Trysorlys | 100-105 | 100-105 | 0-5 | 25-30 | 105-110 | 125-130 |
| **Glyn Jones** Prif Swyddog Digidol | 100-105 | 95-100 | 20-25 | 40-45 | 120-125 | 135-140 |
| **Ellen Donovan**[13] Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Gareth Lynn** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Meena Upadhyaya** Cyfarwyddwr Anweithredol | 10-15 | 10-15 | - | - | 10-15 | 10-15 |
| **Aled Edwards**[14] Cyfarwyddwr Anweithredol | 5-10 | - | - | - | 5-10 | - |
| **Carys Williams**[15] Cyfarwyddwr Anweithredol | 0-5 | - | - | - | 0-5 | - |
| **Jeff Farrar**[16] Cyfarwyddwr Anweithredol | - | 5-10 | - | - | - | 5-10 |
| **Shan Morgan**[17] Ysgrifennydd Parhaol | | 160-165 | | | | 160-165 |

1 Cyfrifir gwerth y buddion pensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel (y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20) llai'r (cyfraniadau a wneir gan yr unigolyn). Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd oherwydd chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad oherwydd trosglwyddo hawliau pensiwn. Y rheswm nodweddiadol dros werthoedd negatif yw pan fo'r unigolyn yn aelod o'r cynllun cyflog terfynol (classic/classic plus/premium) sydd wedi trosglwyddo i alpha. Cyfrifir pensiwn cyflog terfynol person sydd mewn cyflogaeth drwy gyfeirio at ei gyflog a hyd ei wasanaeth. Bydd y pensiwn yn cynyddu o un flwyddyn i'r llall yn rhinwedd unrhyw godiad cyflog yn ystod y flwyddyn. Lle bo codiad cyflog bach neu ddim codiad o gwbl, efallai na fydd y cynnydd mewn pensiwn oherwydd gwasanaeth ychwanegol yn ddigonol i wrthbwyso'r cynnydd chwyddiant – hynny yw, mewn termau real, gall y gwerth y pensiwn leihau, a dyna'r rheswm dros y gwerthoedd negatif.

2 Cafodd yr holl Uwch-swyddogion sydd ar delerau ac amodau Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 2% ar gyfer 2022-23, yn yr un modd â gweddill Uwch Wasanaeth Sifil Llywodraeth Cymru.

[3] Mae Andrew Goodall ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn gyson â thelerau'r trefniant secondiad hwnnw mae wedi aros ar delerau ac amodau'r Bwrdd Iechyd. Dechreuodd ei secondiad i Lywodraeth Cymru yn ei swydd flaenorol fel Cyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithaso a Phrif Weithredwr GIG Cymru ar 8 Mehefin 2014. Ar ôl cael ei benodi'n Ysgrifennydd Parhaol, yn gyson â chyngor gan Swyddfa'r Cabinet sy'n arwain holl ymarferion recriwtio Ysgrifennydd Parhaol, rhoddwyd cytundeb secondiad newydd ar waith gyda'r Bwrdd Iechyd a ddaw i ben ar 31 Hydref 2026. Mae wedi dewis peidio â bod yn rhan o drefniadau Pensiwn y GIG. Yn dilyn cylchlythyrau Cyflog Iechyd Cymru 01/2022 a 02/2022 ar gyfer Gweithredwyr y GIG, cafodd Andrew Goodall £1,400 a dyfarniad cyflog pellach o 1.5% ar gyfer 2022-23.

[4] Penodwyd Judith Paget yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn Brif Weithredwr GIG Cymru o 1 Tachwedd 2021. Mae Judith Paget ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac yn gyson â thelerau'r trefniant secondiad hwnnw mae wedi aros ar delerau ac amodau'r Bwrdd Iechyd ac mae'n aelod o gynllun pensiwn y GIG. Dechreuodd y trefniant secondiad ar 1 Tachwedd 2021 ac roedd i fod i ddod i ben ar 31 Mai 2023. Oherwydd amseriad y broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Cyffredinol parhaol i'r Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, estynnwyd y secondiad tan 30 Tachwedd 2023. Ar 1 Mehefin 2023 cyhoeddwyd ei bod wedi cael ei phenodi'n barhaol yn Gyfarwyddwr Cyffredinol y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar ôl proses benodi gystadleuol allanol. Yn dilyn cylchlythyrau Cyflog Iechyd Cymru 01/2022 a 02/2022 i Weithredwyr y GIG, cafodd Judith Paget £1,400 a dyfarniad cyflog pellach o 1.5% ar gyfer 2022-23.

[5] Penodwyd Jo-Anne Daniels yn Gyfarwyddwr Cyffredinol dros dro, y Grŵp Addysg, Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gymraeg ar ôl ymarfer recriwtio mewnol ar gyfer dyrchafiad dros dro ar 1 Ebrill 2022.

[6] Penodwyd Tim Moss yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Prif Swyddog Gweithredu ar ôl proses benodi gystadleuol allanol ar 1 Medi 2022. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £125,000-£130,000 y flwyddyn.

[7] O 1 Mai 2022 peidiodd Des Clifford â bod yn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Grŵp Swyddfa'r Prif Weinidog, gan symud i ymgymryd â rôl Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog yn dilyn ailstrwythuro'r Grŵp ar 1 Ebrill 2022.

[8] Gwnaeth David Richards gais am ymddeoliad rhannol o 1 Medi 2021 af fe gymeradwywyd ei gais. O'r dyddiad hwnnw mae ei gyflog a'i oriau gwaith wedi eu gostwng. Ei gyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £110,000 i £115,000 y flwyddyn.

[9] Mae cyfanswm band cyflog Helen Lentle ar gyfer 2021-22 wedi'i ailddatgan o £145,000 – £150,000 oherwydd cyfrifiadau buddion pensiwn diwygiedig a ddarparwyd gan Bensiynau'r Gwasanaeth Sifil ar gyfer 2021-22.

[10] Gwnaeth Natalie Pearson gais am ymddeoliad rhannol o 4 Hydref 2022 af fe gymeradwywyd ei chais. O'r dyddiad hwnnw mae ei chyflog a'i oriau gwaith wedi eu gostwng. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £90,000-£95,000 y flwyddyn.

[11] Penodwyd Amelia John yn Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd ar 1 Ionawr 2023. Ei chyflog cyfwerth ag amser llawn cymaradwy yw £85,000 – £90,000 y flwyddyn.

[12] Daeth cyfnod Andrew Jeffreys fel Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd i ben ar 31 Rhagfyr 2022 ac mae'n dal yn aelod parhaol o'r Bwrdd a'r Pwyllgor Gweithredol fel Cyfarwyddwr Trysorlys Cymru.

[13] Daeth penodiad cyfnod penodedig Ellen Donovan fel Cyfarwyddwr Anweithredol i ben ar 6 Mawrth 2023.

[14] Penodwyd Aled Edwards yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 1 Awst 2022.

[15] Penodwyd Carys Williams yn Gyfarwyddwr Anweithredol i Fwrdd Llywodraeth Cymru ar 3 Mawrth 2023.

[16] Ymddiswyddodd Jeff Farrar fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar 15 Awst 2021.

[17] Ymddiswyddodd Shan Morgan fel Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru ar 31 Hydref 2021. Dewisodd Shan Morgan ddod â'i chyfraniadau pensiwn i ben ac i elwa ar ei phensiwn ar 31 Mawrth 2018.

[18] Penodwyd Reg Kilpatrick yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Cydgysylltu Covid, rhwng 28 Medi 2020 a 31 Rhagfyr 2023.

## Cofrestr Buddiannau

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru sy'n datgelu buddiannau perthnasol Uwch-swyddogion ar Ryngrwyd Llywodraeth Cymru.

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru, telerau contractiol penodiadau Cyfarwyddwyr Anweithredol a Chylch Gorchwyl y Bwrdd[74]. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 146.

**Manylion pensiynau uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru**

| Uwch-swyddogion | Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/23 a chyfandaliad cysylltiedig £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000 | CETV ar 31/3/23 £000 | CETV ar 31/3/22 £000 | Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Judith Paget**[1]<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 115-120<br>Ynghyd â chyfandaliad o 335-340 | 0-2.5<br>Ynghyd â chyfandaliad o (10)-(7.5) | 0 | 0 | |
| **Tracey Burke**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 45-50 | 2.5-5 | 694 | 617 | 34 |
| **Reg Kilpatrick**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 55-60<br>Ynghyd â chyfandaliad o 150-155 | 0-2.5<br>Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,319 | 1,223 | (34) |
| **Andrew Slade**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 55-60<br>Ynghyd â chyfandaliad o 100-105 | 0-2.5<br>Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 989 | 909 | (28) |
| **Jo-Anne Daniels**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol | 30-35 | 2.5-5 | 443 | 350 | 55 |
| **Tim Moss**<br>Cyfarwyddwr Cyffredinol a Phrif Swyddog Gweithredu | 35-40<br>Ynghyd â chyfandaliad o 55-60 | 2.5-5<br>Ynghyd â chyfandaliad o 2.5-5 | 681 | 599 | 37 |
| **Des Clifford**<br>Cyfarwyddwr Swyddfa'r Prif Weinidog | 40-45<br>Ynghyd â chyfandaliad o 115-120 | 0<br>Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 991 | 950 | (64) |
| **David Richards**<br>Cyfarwyddwr Priodoldeb a Moeseg | 60-65<br>Ynghyd â chyfandaliad o 175-180 | 0<br>Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,169 | 1,194 | (112) |
| **Helen Lentle**[2]<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol | 50-55<br>Ynghyd â chyfandaliad o 100-105 | 0-2.5<br>Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,010 | 918 | (17) |
| **Natalie Pearson**<br>Pennaeth Datblygu ac Ymgysylltu Sefydliadol | 35-40<br>Ynghyd â chyfandaliad o 95-100 | 0<br>Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 862 | 807 | (48) |

74 Cylch gorchwyl Bwrdd Llywodraeth Cymru [HTML] | LLYW.CYMRU

| Manylion pensiynau uwch-swyddogion Llywodraeth Cymru | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwch-swyddogion** | **Pensiwn cronedig adeg oedran pensiwn fel yr oedd ar 31/3/23 a chyfandaliad cysylltiedig £000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig adeg oedran pensiwn £000** | **CETV ar 31/3/23 £000** | **CETV ar 31/3/22 £000** | **Cynnydd gwirioneddol mewn CETV £000** |
| **Amelia John** Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Bwrdd | 25-30 Ynghyd â chyfandaliad o 65-70 | 0-2.5 Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 595 | 582 | (2) |
| **Peter Kennedy** Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol | 40-45 Ynghyd â chyfandaliad o 90-95 | 0 Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 908 | 836 | (32) |
| **Gawain Evans** Cyfarwyddwr Cyllid | 50-55 Ynghyd â chyfandaliad o 115-120 | 0 Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 1,145 | 1,059 | (45) |
| **Andrew Jeffreys** Cyfarwyddwr y Trysorlys | 35-40 Ynghyd â chyfandaliad o 55-60 | 0-2.5 Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 642 | 584 | (9) |
| **Glyn Jones**[3] Prif Swyddog Digidol | 35-40 Ynghyd â chyfandaliad o 55-60 | 0-2.5 Ynghyd â chyfandaliad o 0 | 527 | 467 | 5 |

Mae datgeliad penodol sy'n ofynnol gan Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr 679 wedi'i hepgor yn unol ag Erthygl 21 o GDPR y DU[75].

1 Nid ddarparwyd ffigur CETV ar gyfer Judith Paget ar 31 Mawrth 2023 a 2022 gan ei bod wedi pasio'r oedran ymddeol.

2 Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer Helen Lentle wedi'i ailgyfrifo oherwydd diweddariad ôl-weithredol i ddata cyflog.

3 Mae'r CETV ar 31 Mawrth 2022 ar gyfer Glyn Jones wedi'i ailgyfrifo oherwydd diweddariad ôl-weithredol i ddata cyflog.

75 Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd ar waith ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EF ganllawiau wedi'u diweddaru ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

## Cyflog

Mae 'cyflog' yn cynnwys cyflog gros; goramser; hawliau neilltuedig ar gyfer pwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain; lwfansau recriwtio a chadw; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfansau eraill i'r graddau eu bod yn destun treth y DU.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau a wneir gan Lywodraeth Cymru ac eithrio'r Gweinidogion fel y nodir uchod.

Mae gan Uwch-weision Sifil o fewn Llywodraeth Cymru hawl gontractiol i gael eu hystyried am daliad amrywiol ar sail perfformiad. Mae unrhyw daliadau a wneir yn cael eu talu ar ddiwedd mis Gorffennaf bob blwyddyn, ond ni wnaed unrhyw daliadau. Rôl Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol yr Uwch Wasanaeth Sifil yw sicrhau bod polisi tâl uwch-swyddogion y DU yn cael ei gymhwyso a chymeradwyo unrhyw ddyfarniadau, gan asesu cyfraniadau perthnasol a pherfformiad uwch-weision sifil yn ystod y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol, pum Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Cyfarwyddwyr Anweithredol.

## Buddion mewn nwyddau

Mae gwerth ariannol y buddion mewn nwyddau yn cynnwys unrhyw fuddion a ddarperir gan y cyflogwr ac y mae CThEF yn eu trin fel enillion trethadwy, ac yn cael ei nodi i'r £100 agosaf. Aseswyd nad oedd unrhyw fuddion mewn nwyddau am y flwyddyn 2022-23 (2021-22: £dim).

## Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth wedi'i gyfalafu buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol, wedi ei asesu gan actwari. Y buddion a gaiff eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol i briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn i ddiogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd eisoes yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion a gronnwyd gan yr unigolion o ganlyniad i gyfanswm eu haelodaeth o'r cynllun pensiwn, nid dim ond y gwasanaeth mewn swydd uwch sy'n destun datgelu.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'u trosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnwyd i'r aelod oherwydd iddynt brynu buddion pensiwn ychwanegol ar eu cost eu hunain. Cyfrifir y CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008, ac nid yw'n rhoi ystyriaeth i unrhyw ostyngiad gwirioneddol na phosibl mewn buddion o ganlyniad i'r Dreth Lwfans Gydol Oes a all fod yn ddyledus pan hawlir budd-daliadau pensiwn.

## Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys cynnydd yn y pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau prisio cyffredin y farchnad ar ddechrau ac ar ddiwedd y cyfnod.

## Lluosrifau tâl

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng taliadau cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf yn eu sefydliad a thaliad cydnabyddiaeth chwartel isaf, canolrifol ac uchaf gweithlu'r sefydliad.

Tâl cydnabyddiaeth wedi'i fandio'r cyfarwyddwr a oedd yn cael y tâl uchaf (yr Ysgrifennydd Parhaol) yn Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol 2022-23 oedd £215,000-220,000 (2021-22: £215,000 – £220,000). Roedd hyn 5.5 gwaith (2021-22: 5.7) tâl canolrifol y gweithlu, sef £39,690 (2021-22: £38,160).

Dangosir y berthynas rhwng cyflog y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf a'r chwarteli isaf, canolrifol ac uchaf isod:

| Blwyddyn | | 25ain Canradd | Canolrif | 75ain Canradd |
|---|---|---|---|---|
| 2022-23 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.1 | 5.5 | 4.4 |
| | Tâl cydnabyddiaeth y chwartel (£) | 30,610 | 36,690 | 49,370 |
| 2021-22 | Cymhareb Tâl (:1) | 7.4 | 5.7 | 4.6 |
| | Tâl cydnabyddiaeth y chwartel (£) | 29,430 | 38,160 | 47,470 |

Mae'r newidiadau yn y tâl chwartel rhwng 2022-23 a 2021-22 yn 4% gan adlewyrchu'r dyfarniad cyflog i staff nad ydynt yn staff yr Uwch Wasanaeth Sifil ar gyfer 2022-23. Yn 2022-22 a 2021-22 ni chafodd unrhyw gyflogeion dâl cydnabyddiaeth yn uwch na'r cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf.

Mae'n ofynnol bellach i gyrff adrodd nodi canran y newid i'r tâl cydnabyddiaeth o'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer y cyfarwyddwr sy'n cael y tâl uchaf; a'r newid canrannol cyfartalog ers y flwyddyn ariannol flaenorol mewn perthynas â chyflogeion yr endid yn ei grynswth.

| Blwyddyn | Newid canrannol tâl – y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf | Newid canrannol cyfartalog tâl – cyflogeion yn eu crynswth |
|---|---|---|
| 2022-23 | 0.0% | 5.43% |
| 2021-22 | 4.80% | 2.30% |

Mae'r cyfrifiad gofynnol ar gyfer canran y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn cymharu pwynt canol y band tâl cydnabyddiaeth 2022-23 £215,000-£220,000 (2021-22: £215,000-£220,000), yn hytrach na'r newid canrannol yn y cyflog gwirioneddol. Gall defnyddio pwynt canol y band ar gyfer cyfrifo ystumio'r cyfrifiad o'i gymharu â'r dyfarniad gwirioneddol a dderbyniwyd. Mae'r newid canrannol cyfartalog i'r tâl ar gyfer gweithwyr yn gyffredinol yn uwch na'r dyfarniad cyflog o 4% ar gyfer 2022-23 gan fod y cyfrifiad yn cynnwys staff ar secondiad a staff dros dro. Gall y cymysgedd o'r rhain o flwyddyn i flwyddyn amrywio yn ogystal â'r dyfarniadau cyflog sy'n gymwys i unigolion o'r fath. Y newid canrannol cyfartalog i weithwyr ar gyflogres Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yw 4.14%.

Mae gwybodaeth bellach am Bolisi Tâl, gwneud penderfyniadau a Thâl Uwch-swyddogion i'w gweld yn Natganiad Polisi Tâl Llywodraeth Cymru.

Mae cyfanswm y taliadau cydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, tâl ar sail perfformiad sydd heb ei gyfuno a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo gan gyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

## Niferoedd a Chostau Staff

Nifer cyfartalog y bobl gyfwerth ag amser llawn a oedd wedi'u cyflogi (gan gynnwys uwch-reolwyr a chynghorwyr arbennig) yn ystod y cyfnod oedd:

| | Staff a gyflogir yn barhaol | Staff eraill | Cynghorwyr Arbennig | Cyfanswm 2022-23 | Cyfanswm 2021-22 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | **98,145** | **7,867** | **14** | **106,026** | **101,972** |
| O hwn: | | | | | |
| Llywodraeth Cymru | 5,250 | 431 | 14 | 5,695 | 5,582 |
| BILlau a chyrff y GIG* | 88,183 | 7,436 | - | 95,619 | 92,174 |
| Is-gwmnïau | 4,712 | - | - | 4,712 | 4,216 |
| O gyfanswm Llywodraeth Cymru: | | | | | |
| Cyrff rheoleiddio a chyflawni | 734 | - | - | - | - |
| Tribiwnlysoedd | 35 | - | - | - | - |

**Dadansoddiad rhywedd staff Llywodraeth Cymru (heb ei archwilio)**

| | Gwrywaidd | Benywaidd |
|---|---|---|
| Aelodau'r Bwrdd | 62% | 38% |
| Yr Uwch Wasanaeth Sifil* | 57% | 43% |
| Yr Holl Staff | 40% | 60% |

Mae ein Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ar gyfer y Gweithlu, 2021-2026 yn pennu targedau uchelgeisiol inni ar gynyddu nifer y menywod sydd wedi'u cynrychioli yn yr Uwch Wasanaeth Sifil. Ein nod, mewn recriwtio allanol, yw y bydd mwy na 50% o benodiadau i'r SCS yn fenywod ac mewn recriwtio mewnol, y bydd mwy na 50% o ddyrchafiadau i'r SCS yn fenywod. Cynnydd sydd wedi'i wneud ar y targedau hyn:

- Yn 2022, gostyngodd cyfran y menywod a benodwyd i'r Uwch-wasanaeth Sifil drwy brosesau recriwtio allanol i 20.0%, sy'n is na'r targed o 50%;
- Yn 2022, gostyngodd cyfran y menywod a benodwyd i'r Uwch-wasanaeth Sifil drwy brosesau recriwtio allanol i 37.5%, sy'n is na'r targed o 50%.

Mae gwerthoedd ar gyfer menywod yn yr Uwch Wasanaeth Sifil yn seiliedig ar niferoedd bach iawn a dylid bod yn ofalus wrth gymharu blynyddoedd. Wrth ystyried dyrchafu a recriwtio menywod i'r SCS dros y 2 flynedd y mae'r strategaeth wedi bod ar waith (2021 a 2022), y cyfartaledd cyffredinol yw bod 51.4% wedi'u recriwtio a 59.1% wedi'u dyrchafu – sy'n uwch na'n targedau o 50%.

**Costau staff**

| Llywodraeth Cymru | Staff a gyflogir yn barhaol* £m | Staff Eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 252 | 22 | **274** | 258 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 30 | - | **30** | 28 |
| Costau Pensiwn Eraill | 74 | - | **74** | 69 |
| **Cyfanswm** | **356** | **22** | **378** | **355** |
| Adenillon o secondiadau | (2) | - | **(2)** | (2) |
| Costau net staff | **354** | **22** | **376** | **353** |

**Costau staff**

| Llywodraeth Cymru | Staff a gyflogir yn barhaol* £m | Staff Eraill £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023 Cyfanswm £m | Blwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2022 Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| Cyflogau | 4,273 | 565 | **4,838** | 4,443 |
| Costau Nawdd Cymdeithasol | 452 | 15 | **467** | 414 |
| Costau Pensiwn Eraill | 743 | 15 | **758** | 719 |
| **Cyfanswm** | **5,468** | **595** | **6,063** | **5,576** |
| Adenillion o secondiadau | (2) | - | (2) | (1) |
| Addasiad Dileu ar gyfer y GIG | 4 | - | 4 | - |
| Costau staff net | **5,470** | **595** | **6,065** | **5,575** |

* Er ei fod wedi'i nodi mewn categori gwahanol o ran niferoedd staff, mae costau cyflog, nawdd cymdeithasol a phensiwn Cynghorwyr Arbennig wedi'u cynnwys yn ffigurau costau Staff a Gyflogir yn Barhaol.

Mae cyflogau'n cynnwys cyflogau gros, y bonysau perfformio sy'n daladwy, hawliau neilltuedig i Bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw, a lwfansau'r swyddfa breifat.

Roedd costau staff cynghorwyr arbennig yn gyfanswm o £1,334,295 (2021-22: £1,018,341) ar gyfer y flwyddyn, gan gynnwys costau pensiwn a nawdd cymdeithasol, ac maent wedi'u cynnwys yn y ffigurau uchod. Roedd 19 o Gynghorwyr Arbennig yn gweithio yn ystod y cyfan neu ran o'r flwyddyn ariannol 2022-23, sy'n cyfateb i 14 cynghorydd arbennig cyfwerth ag amser llawn ar gyfartaledd, fel y nodir yn y tabl uchod.

Cyhoeddir Cofrestr Buddiannau Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynghorwyr Arbennig sy'n datgelu buddiannau perthnasol ar ryngrwyd Llywodraeth Cymru. Datganiadau o fuddiannau | LLYW. CYMRU

Mae'r datganiad o fuddiannau, nodi gwrthdaro buddiannau posibl neu wirioneddol a rheoli unrhyw wrthdaro o'r fath yn cael ei wneud yn unol â Chod y Gwasanaeth Sifil, Polisi Datganiad Buddiannau Llywodraeth Cymru a thelerau contractiol penodiadau Cynghorwyr Arbennig. Ceir rhagor o wybodaeth am reoli buddiannau yn y Datganiad Llywodraethiant ar dudalen 146.

Mae costau nawdd cymdeithasol a phensiynau ar gyfer staff dros dro a staff ar secondiad o dan y ffigurau craidd ar gyfer staff eraill wedi cael eu cynnwys yn y cyflogau gan eu bod yn cael eu hanfonebu ar sail gros. Telir cyflogau Gweinidogion Cymru gan Gomisiwn y Senedd ac fe'u hadlewyrchir yn y cyfrifon hynny. O ran nifer yr uwch-staff y mae eu cyflog yn uwch na £100k, roedd 35 o staff yr oedd eu cyflog yn uwch na £100k ar 31 Mawrth. O'r rhain, roedd 5 yn staff rhan-amser yr oedd eu henillion felly o dan y trothwy o £100k ac fe ymadawodd 2 ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn. Y gyfradd darged ar gyfer lefel Cyfarwyddwr yn Llywodraeth Cymru yw £102,840. Mae hyn yn gynnydd o 2% ers 2021-22. Roedd gan y mwyafrif o uwch-weision sifil Llywodraeth Cymru ddyfarniad cyflog o 2% yn 2022-23, gyda rhai Dirprwy Gyfarwyddwr ar gyflogau is yn cael ychydig yn fwy (2.8, 4.0 neu 5.5% yn dibynnu ar eu sefyllfa yn yr ystod gyflogau). Cafodd y rhan fwyaf o staff Llywodraeth Cymru islaw'r Uwch Wasanaeth Sifil ddyfarniad tâl o 4% yn 2022-23.

# Pensiynau

Darperir buddion Pensiwn y Gwasanaeth Sifil drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015, cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil, sef Cynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill neu **alpha**. O dan y cynllun hwnnw, darperir buddion ar sail enillion cyfartalog gyrfa, ac mae'r oedran pensiwn arferol yn cyd-fynd ag oedran o 65 neu oedran yr aelod o dan system Bensiwn y Wladwriaeth, pa un bynnag yw'r hwyraf. Mae pob gwas sifil a gafodd ei benodi ers y dyddiad hwnnw, yn ogystal â'r rhan fwyaf o weithwyr a oedd eisoes yn rhan o'r Gwasanaeth Sifil, bellach wedi ymuno â'r cynllun **alpha**. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn aelodau o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae gan y PCSPS bedair adran. Mae tair ohonynt yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol yr aelod (**classic, premium neu classic plus**), a hynny'n gysylltiedig ag oedran pensiwn arferol o 60. Mae'r adran arall yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan yr aelod **(nuvos)**, a hynny'n gysylltiedig ag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn yn cael eu hariannu, ac mae costau'r buddion yn cael eu talu o swm o arian y bydd Senedd y DU yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Bydd pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth yn ymwneud â Chynyddu Pensiynau. Mae aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi parhau i fod yn aelodau o'r PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Mae'r rhai a oedd rhwng 10 mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 wedi newid i **alpha**. Oherwydd cynlluniau'r Llywodraeth i ddileu gwahaniaethu a nodwyd gan y llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 i rai aelodau, gallai fod gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i gael buddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gall hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Mae pob aelod o'r cynllun pensiwn bellach yn rhan o'r cynllun **alpha**, o 1 Ebrill 2022. Bydd buddion PCSPS pob aelod sy'n newid i'r cynllun **alpha** yn cael eu 'bancio'. O ran y rhai a gronnodd fuddion gynt fel aelodau o un o adrannau'r PCSPS a oedd yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol, bydd y buddion hynny'n seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael y cynllun **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir ar gyfer swyddogion yn dangos y pensiwn a gronnwyd yn rhan o PCSPS neu'r cynllun **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan swyddog fuddion PCSPS a buddion alpha, y ffigur a ddangosir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall yr aelodau sy'n ymuno o 1 Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn **partnership**).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn seiliedig ar gyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% i aelodau **classic premium, classic plus, nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar y gyfradd o 1/80th o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ychwanegol, mae cyfandaliad sy'n cyfateb i bensiwn cychwynnol tair blynedd yn daladwy adeg ymddeol. Mae buddion yn **premium** yn cronni ar y gyfradd o 1/60th o enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig; hybrid yw **classic plus** i bob pwrpas gyda buddion ar gyfer gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo yn fras fel ar gyfer **classic** a buddion ar gyfer gwasanaeth o Hydref 2002

yn cael eu cyfrifo fel yn achos premium. Yn **nuvos** mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod cyfnod ei aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) mae'r cyfrif pensiwn sydd wedi'i ennill gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy ym mlwyddyn y cynllun hwnnw ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth ar y cynnydd mewn pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn cronni mewn ffordd debyg i **nuvos**, ac eithrio mai 2.32% yw'r gyfradd groniadol. Ym mhob achos gall yr aelodau ddewis ildio (cymudo) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn cyfranddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn **partnership**. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 8% ac 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod), i gynnyrch pensiwn cyfranddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o'r darparwr penodedig – Legal & General Mastertrust. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu ond, os bydd yn gwneud hynny, bydd y cyflogwr yn rhoi cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant budd risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn swydd ac ymddeoliad oherwydd salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y bydd hawl gan yr aelod i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu yn union ar ôl iddo beidio â bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu os yw'n hŷn na hynny. Yr oedran pensiwn yw 60 ar gyfer aelodau'r cynlluniau **classic, premium** a **classic plus**, a 65 yw'r oedran ar gyfer aelodau'r cynllun **nuvos**, a naill ai 65 neu eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar gyfer aelodau **alpha**, p'un bynnag sydd uchaf.

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan:
www.civilservicepensionscheme.org.uk

Mae gweithwyr Llywodraeth Cymru yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil, ac eithrio nifer bach o staff sydd wedi dewis parhau i fod yn aelodau o gynlluniau eraill y sector cyhoeddus.

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn 'Alpha' – yn gynllun buddion diffiniedig nas ariennir sy'n cynnwys nifer o gyflogwyr ac felly ni all Llywodraeth Cymru nodi ei chyfran o'r asedau a'r atebolrwyddau sylfaenol. Prisiodd Actiwari'r Cynllun y cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2016. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet.

Ar gyfer 2022-23, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £66,044,110 yn daladwy i PCSPS/Alpha (2021-22: £61,789,063) yn ôl un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6 i 30.3 y cant (2021-22: 26.6 i 30.3) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae Actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddion a gronnwyd yn ystod 2022-23 i gael eu talu pan fo'r aelod yn ymddeol ac nid y buddion a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn **partnership**, sef pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol lle mae'r cyflogwr hefyd yn cyfrannu. Cafodd cyfraniadau cyflogwr o £258,282 (2021-22: £231,337) eu talu i'r darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac

yn amrywio o 8 o 14.75 y cant o enillion pensiynadwy. Mae cyflogwyr hefyd yn rhoi cyfraniad cyfatebol i weithwyr hyd at 3 y cant o enillion. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £8,760, 0.5% (2021-22: £8,033 0.5%) o dâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu am y gost o ddarparu buddion cyfandaliadol yn y dyfodol os bydd y gweithwyr hyn yn marw yn y swydd neu'n ymddeol oherwydd salwch.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn "partnership" ar ddyddiad y fantolen (2021-22: dim). Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalu ar y dyddiad hwnnw (2021-22: £dim).

Ymddeolodd dau (2021-22: pedwar) unigolyn yn gynnar oherwydd salwch; cyfanswm yr atebolrwyddau pensiwn ychwanegol a gronnwyd yn y flwyddyn oedd £18,094 (2021-22: £23,688).

Dewisodd nifer bach o gyflogeion yr hen Awdurdod Datblygu gadw eu telerau ac amodau presennol a'u trefniadau pensiwn. Maent yn rhan o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun a ariennir gan sawl cyflogwr yn darparu pensiwn a buddion cysylltiedig, sydd bellach yn cael ei gyfrifo ar sail cyfartaledd gyrfa yn hytrach nag ar sail cyflog terfynol. Mae asedau'r cynllun yn cael eu dal ar wahân i asedau Llywodraeth Cymru a'u gweinyddu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Rhoddir buddion ymddeol ychwanegol yn unol â Rheoliadau Llywodraeth Leol (Iawndal am Ymddeol Cyn Pryd) 1982 a darperir y buddion hyn eu ar sail talu wrth fynd. Cynhwysir manylion Pensiynau Byrddau Iechyd Lleol a chyrff y GIG yn eu cyfrifon.

## Adrodd ar gynlluniau iawndal y Gwasanaeth Sifil a chynlluniau eraill – pecynnau ymadael

Nid oedd unrhyw gynlluniau hyblyg ar gyfer ymddeoliad cynnar, ymddeoliad cynnar cymeradwy nac ymadawiad cynnar yn 2022-23 na 2021-21 a dim ond ymadawiadau cynnar oedd yn bodoli. Ar gyfer pob achos ymadawiad gwirfoddol unigol, cyfrifir cyfnod ad-dalu, a bydd y Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol wedyn yn ei gymeradwyo.

Ar gyfer 2022-23 mae 7 (2021-22: 10) o staff cyflogedig wedi ymadael neu gytuno i ymadael drwy ymadawiad gwirfoddol neu am resymau eraill rhwng 31 Mawrth 2022 a 31 Mawrth 2023. Y taliadau iawndal y cytunwyd arnynt yw £144,850 (2021-22: £260,922).

Talwyd costau dileu swydd a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil, sef cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972 neu, lle bo'n gymwys, yn unol â chanllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Iawndal Effeithlonrwydd 2016. Pan fo'r adran wedi cytuno i ganiatáu ymddeoliadau cynnar, caiff y costau ychwanegol eu talu gan Lywodraeth Cymru, ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeol oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn cael eu cynnwys yn y tabl.

| Band cost y pecyn ymadael | Nifer y diswyddiadau gorfodol | Nifer yr ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost 2022-23 | Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul band cost 2021-22 |
|---|---|---|---|---|
| <£10,000 | - | 3 | 3 | 1 |
| £10,000-£25,000 | - | 1 | 1 | 3 |
| £25,000-£50,000 | - | 3 | 3 | 5 |
| £50,000-£100,000 | - | - | - | 1 |
| £100,000-£150,000 | - | - | - | - |
| £150,000-£200,000 | - | - | - | - |
| £200,000+ | - | - | - | - |
| **Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math** | - | **7** | **7** | **10** |
| **Cyfanswm cost yr adnoddau £** | - | **144,850** | **144,850** | **260,922** |

Mae'r tabl uchod yn dangos cyfanswm cost y pecynnau ymadael y cytunwyd arnynt ac y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2022-23 (rhoddir ffigurau cymharol 2021-22 hefyd). Cyfanswm y costau ymadael a dalwyd yn ystod 2022-23 oedd £202,850 (2021-22 £202,922).

Mae'r costau yn y tabl yn nodi cyfanswm y gost i'r sefydliad yn dilyn unrhyw ymadawiad. Er hynny, mewn rhai achosion gallai rhai unigolion, wrth ymadael, fod wedi defnyddio eu taliadau iawndal i ddarparu mynediad cynnar at bensiwn heb ei leihau, neu i brynu pensiwn wedi'i gynyddu.

## Absenoldeb oherwydd salwch (heb ei archwilio)

Cafodd pandemig COVID-19 effaith sylweddol ar lefelau absenoldeb oherwydd salwch yn ystod 2022-23. Y pandemig oedd y trydydd achos mwyaf o absenoldeb yn y sefydliad, ac roedd i'w gyfrif am 13% o'r holl absenoldebau. Er bod COVID-19 yn parhau, mae'r ffaith ei fod yn cael llai o sylw gan y cyhoedd ac yn y cyfryngau wedi golygu bod y boblogaeth yn gyffredinol wedi ymlacio yn eu hagwedd at y feirws, sydd wedi caniatáu iddo barhau i ledaenu, ond mewn niferoedd is ac, yn y rhan fwyaf o achosion, gydag effeithiau llai difrifol. Y tu allan i'r gweithle, ychydig iawn o'r cyfyngiadau blaenorol sydd ar ôl, sy'n golygu bod staff yn agored i ddal y feirws yn y cymunedau lle maent yn byw. O fewn safleoedd Llywodraeth Cymru, mae staff sy'n teimlo'n arbennig o agored i niwed neu'n anghyfforddus yn gweithio'n agos at eraill yn dal i allu gweithio mewn mannau lle mae pobl yn cadw pellter cymdeithasol oddi wrth eraill, os yw eu rôl yn caniatáu iddynt wneud hynny. Mae polisïau a chanllawiau yn ymwneud â COVID-19 ar gael hefyd, y gall staff droi atynt ar-lein i'w helpu i osgoi cael eu heintio ac i'w helpu i sicrhau nad ydynt yn trosglwyddo'r haint i gydweithwyr, perthnasau a ffrindiau.

Cynyddodd absenoldebau a gategorïwyd fel rhai'n ymwneud â'r 'system anadlol (gan gynnwys annwyd)' 43% yn ystod y flwyddyn. O ystyried bod symptomau achosion ysgafn o COVID-19 yn debyg yn fras i annwyd neu salwch anadlol arall, mae'n bosibl y gallai'r categori hwn fod yn cuddio achosion pellach o'r pandemig, yn enwedig gan fod y cyhoeddusrwydd ynghylch profi am COVID-19 wedi lleihau'n sylweddol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a chan nad yw pecynnau profi ar gael mor eang.

Wrth i'r byd symud tuag at ffordd 'normal newydd' o fyw, mae ein staff wedi symud tuag at ffordd hybrid newydd o weithio. Mae'r patrwm gwaith newydd hwn wedi annog staff i ddechrau dychwelyd i'w swyddfeydd am wahanol gyfnodau, rhai'n fwy rheolaidd nag eraill. Mae hyn wedi cynyddu'r cyswllt rhwng staff ac, yn anochel, bydd yn arwain at fwy o drosglwyddo heintiau, yn ogystal ag yn fwy cyffredinol yn y gymuned. Mae lefelau absenoldeb, yn gyfatebol, wedi cynyddu i'r hyn oeddent cyn y pandemig.

Rydym yn parhau i adolygu ein cyfres o bolisïau Iechyd a Llesiant a'r canllawiau a ddarparwn i staff a rheolwyr llinell ar ddelio ag absenoldebau salwch. Mae'n ofynnol i'r holl staff gael sesiynau dal i fyny rheolaidd gyda'u rheolwyr llinell, ar ben eu hymwneud rheolaidd â'i gilydd o ddydd i ddydd, ac mae'r trafodaethau hyn yn gyfle i drafod materion iechyd a llesiant ar lefel bersonol. Mae ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr yn parhau i ddarparu cefnogaeth a chyngor annibynnol 24 awr y dydd ac mae cyfres o becynnau hyfforddi ar gael i'r holl staff ar sut i ddelio â salwch, absenoldeb salwch ac arwyddion rhybudd cynnar o faterion fel straen a phryder.

Yn benodol, mae ein Polisi Rheoli Presenoldeb yn cynnwys cyngor ac arweiniad i staff a rheolwyr ar ddelio ag absenoldeb mewn ffordd deg a hyblyg i annog yr aelod staff i ddychwelyd i'r gwaith cyn hir. Mae ein Polisi Rheoli Straen a Chefnogi Llesiant Personol yn rhoi cyngor ac arweiniad i staff a rheolwyr ar adnabod straen yn gynnar a'r camau y gellir eu cymryd i'w leddfu. Mae ein Polisi a'n Canllawiau Iechyd Meddwl yn rhoi cyngor ac arweiniad ar ddelio â'r amrywiaeth eang o fathau o salwch meddwl a allai daro rhai o'n staff. Byddwn yn parhau i adolygu a diweddaru'r polisïau hyn, fel y bo'n briodol, law yn llaw â'n hamrywiaeth eang o bolisïau hyblyg sy'n hybu cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Cafodd ein Cynllun Peilot Gweithio Hybrid fel rhan o Gweithio'n Glyfar ei gyflwyno yn ystod 2022-23 ac rydym yn dal i ddysgu o'r profiad i helpu i lunio ein model gweithio hybrid ar gyfer y dyfodol. Nod y cynllun peilot yw ein helpu i ganfod cydbwysedd sy'n bodloni gofynion y busnes ond sydd hefyd yn adlewyrchu hoffterau staff ac sy'n parhau i fod yn gynhwysol. Rhan o'r ffordd newydd hon o weithio yw'r gofyniad i dimau gynnal Dyddiau Angori. Dyddiau penodol yw'r rhain pan fydd aelodau'r tîm yn dod i'r swyddfa bob wythnos, bob mis neu bob chwarter, neu hyd yn oed ychydig o weithiau'r flwyddyn. Bydd y dyddiau hyn yn rhoi budd pellach o ran iechyd a llesiant drwy roi cyfle i staff gynnal y cysylltiad wyneb yn wyneb â chydweithwyr.

| Absenoldeb oherwydd salwch yn Llywodraeth Cymru | 2022-23 | 2021-22 | 2020-21 | 2019-20 | 2018-19 |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiau a gollwyd (tymor byr) | 22,329 | 21,018 | 12,103 | 18,321 | 16,545 |
| Dyddiau a gollwyd (tymor hir) | 21,408 | 20,109 | 14,315 | 17,291 | 23,840 |
| **Cyfanswm y dyddiau a gollwyd (dros gyfnod o 12 mis)** | **43,737** | **41,127** | **26,418** | **35,612** | **40,385** |
| Cyfanswm y blynyddoedd staff | 5,435 | 5,390 | 5,235 | 5,186 | 5,098 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 6,245 | 6,160 | 5,861 | 5,920 | 5,770 |
| Cyfanswm y staff cyflogedig heb absenoldeb yn ystod y cyfnod (fesul pen) | 3,001 | 3,259 | 3,979 | 2,977 | 2,826 |
| % y staff heb absenoldeb salwch | 48% | 53% | 68% | 50% | 49% |
| Nifer cyfartalog y dyddiau a gollwyd | 8 | 7.6 | 5.1 | 6.9 | 7.9 |

## Trosiant Staff (heb ei archwilio)

Cyflwynodd y Llawlyfr Adrodd Ariannol ar gyfer 2020-21 ofyniad datgelu newydd ar gyfer datgeliadau 'Trosiant Staff'. Mae dull cyfrifo'r datgeliad yn seiliedig ar ganllawiau gan Swyddfa'r Cabinet.

Cyfrifir y ffigur trosiant fel nifer y rhai sy'n gadael o fewn y cyfnod hwnnw wedi'i rannu â nifer cyfartalog y staff mewn swydd dros y cyfnod, ac ar gyfer 2022-23 mae'n 5.10% (2021-22 5.34%) ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Mae staff yn cael eu cynnwys fel rhai sy'n gadael os ydynt yn gadael Llywodraeth Cymru heb unrhyw fwriad i ddychwelyd e.e. ymddeoliad, diswyddo cynnar. Nid yw staff ar secondiadau neu fenthyciadau y tu allan i Lywodraeth Cymru wedi'u cynnwys yn nifer cyfartalog y staff yn eu swyddi am yr amser y maent ar fenthyg neu secondiad.

# Crynodeb o'r Alldro Adnoddau

| CWMPAS | Cyllideb 2022-23 Gwariant net £m | Alldro 2022-23 Gwariant net £m | Alldro o gymharu ag Amrywiant y Gyllideb £m |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol | 10,792 | 10,585 | 207 |
| Cyllid a Llywodraeth Leol | 4,725 | 4,674 | 51 |
| Y Gymraeg ac Addysg | 2,771 | 2,403 | 368 |
| Yr Economi | 530 | 493 | 37 |
| Newid Hinsawdd | 3,016 | 2,845 | 171 |
| Materion Gwledig | 421 | 402 | 19 |
| Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | 363 | 339 | 24 |
| Cyfiawnder Cymdeithasol | 267 | 252 | 15 |
| Y Comisiwn Etholiadol | 2 | 2 | 0 |
| **Cyfanswm y gofynion Adnoddau a Chyfalaf** | **22,887** | **21,995** | **892** |
| **Incwm** | **1,375** | **1,375** | **0** |
| **Gwariant gros** | **24,262** | **23,370** | **892** |

## Cyfanswm y Gofynion Adnoddau a Chyfalaf

O'r cyfanswm tanwariant adnoddau o £892m ar gyfer 2022-23, mae 62% (£554m) yn ymwneud â thanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol a Gwariant a Reolir yn Flynyddol, a hynny'n bennaf mewn perthynas â phrisiadau asedau ac atebolrwyddau ariannol sy'n gysylltiedig â mynegeion y farchnad megis atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru a'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr. Ceir rhagor o fanylion isod yn yr 'Esboniad o Amrywiannau'.

## Incwm

Yn ystod y flwyddyn fe wnaeth Llywodraeth Cymru gynhyrchu incwm sydd o fewn sgôp y cwmpas incwm o £1.439bn. Ni chaniateir i Lywodraeth Cymru gadw incwm (adnoddau cronnus) i wrthbwyso gwariant sydd uwchlaw Atodlen 2 cynnig y gyllideb. Byddai incwm o'r fath fel arfer yn cael ei ildio i Gronfa Gyfunol Cymru fel derbyniad gormodol. Fodd bynnag, gan fod yr incwm gormodol i'w briodoli i incwm nad yw'n arian parod, nid oes unrhyw dderbyniadau arian dros ben i'w hildio. Yn unol â hynny, mae'r incwm a gedwir i wrthbwyso gwariant wedi'i gyfyngu i'r swm a gymeradwywyd yn Atodlen 2 cynnig y gyllideb.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn nodi alldro Llywodraeth Cymru yn erbyn y cyfansymiau rheoli a gymeradwywyd yng nghynnig yr Ail Gyllideb Atodol ar gyfer 2022-23 'Crynodeb o Ofynion Adnoddau a Chyfalaf'. Fel y nodwyd ar dudalen 10, darperir adroddiad blynyddol manylach ar alldro terfynol yn erbyn y rheolaethau is sy'n cael eu gweithredu a'u gorfodi gan Drysorlys EF a balans Cronfa Wrth Gefn Cymru gan gynnwys symiau a gariwyd ymlaen o alldro DEL Cymru ar ôl i'r Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd gyflwyno Cyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Senedd a'u cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru Cyllid y Llywodraeth | Is-bwnc | LLYW.CYMRU.

Cwmpas y Comisiwn Etholiadol: Mae Deddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 yn darparu i'r Comisiwn Etholiadol gael ei ariannu o Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer gweithgareddau mewn perthynas ag etholiadau datganoledig yng Nghymru. Mae adran 129 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn nodi'r gyfraith mewn perthynas â thynnu taliadau allan o Gronfa Gyfunol Cymru. Nid yw is-adran 129(4) yn cynnwys y Comisiwn Etholiadol fel corff taledig. Felly, rhaid i un o'r cyrff a restrir yn is-adran 129(4) fod yn gyfrifol yn weinyddol am dalu'r Comisiwn Etholiadol o'r cronfeydd y mae'n eu cael oddi wrth Gronfa Gyfunol Cymru. Gan i Weinidogion Cymru gytuno y byddai Llywodraeth Cymru yn gwneud hynny, mae'r gyllideb yn cael ei phleidleisio i Weinidogion Cymru ond yn cael ei chlustnodi ar gyfer y Comisiwn Etholiadol.

## Esboniad o Amrywiannau

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol – Tanwariant o £207m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant DEL Refeniw o £26m, tanwariant DEL Cyfalaf o £16m, gorwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £7m a thanwariant Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) o £172m.

Mae'r tanwariant DEL refeniw o £26m yn sefyllfa net sy'n cynnwys ystod o danwariannau ar draws sawl maes, wedi'i wrthbwyso gan ddiffygion cyllideb mewn eraill.

Roedd sefyllfa alldro y GIG ar gyfer 2022-23 yn ddiffyg cyfunol o £153m, ar draws pum Bwrdd Iechyd. Roedd y MEG HSS yn rheoli'r diffyg hwn o fewn y sefyllfa a adroddwyd, ond ar sail anghylchol. Roedd sefyllfa'r GIG yn cael ei chefnogi gan gyllid ychwanegol sylweddol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, £160m ar gyfer costau pontio Covid ychwanegol a £120m ar gyfer costau eithriadol eraill, sef ynni yn bennaf. Roedd y cymorth hwn yn deillio o gyfuniad o gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, arbedion mewnol ac ailflaenoriaethu o fewn y MEG HSS a chyllid untro yr UE, i gyd eto ar sail anghylchol. Mae'r sefyllfa o ran y diffyg ynghyd â thanwariant mewn meysydd eraill o'r GIG, gan gynnwys y ddau Awdurdod Iechyd Arbennig, yn arwain at sefyllfa danwariant cyffredinol o £21m ar gyfer Cyflenwi Craidd y GIG.

Roedd prif feysydd tanwariant DEL Refeniw ar draws cyllidebau y tu allan i Ddarpariaeth Graidd y GIG yn cynnwys tanwariant o £19m ar Gyllidebau Cefnogi Plant - yn bennaf oherwydd bod y galw am y cynnig Gofal Plant yn is na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol; tanwariant o £17m ar gyllid Iechyd Meddwl newydd a ddeilliodd yn bennaf o oedi oherwydd heriau recriwtio yn y GIG; £12m ar y Gronfa Diwygio Gofal

Cymdeithasol newydd a £10m ar draws y gyllideb Digidol a Thrawsnewid, i gyd oherwydd oedi wrth weithredu mewn meysydd rhaglenni newydd; tanwariant o £6m yn erbyn cynlluniau ar gyfer dau faes yn y cyllidebau Camddefnyddio Sylweddau. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso gan ddiffyg mewn incwm disgwyliedig o £21m, o'i gymharu â chynllun diwygiedig, o'r Cynllun Rheoleiddio Prisiau Fferyllol (PPRS).

Cododd y tanwariant DEL Cyfalaf o £16m yn bennaf yn dilyn cyflwyno IFRS16 a newidiadau yng nghynlluniau lesio'r GIG y cawsom wybod amdanynt ar ôl cyflwyno'r effeithiau gwreiddiol amcangyfrifedig i Drysorlys Ei Fawrhydi. Roedd costau lesoedd wedi'u cyfalafu yn is nag a ddisgwylid yn wreiddiol gan gyrff y GIG, naill ai oherwydd newidiadau mewn cynlluniau; amrywiadau yn amseriad lesoedd yr ymrwymwyd iddynt, neu am fod y gost cyfalaf a gyfrifwyd yn is. Mae'r gyllideb ar gyfer costau cyfalaf lesoedd wedi'i neilltuo o fewn DEL Cyfalaf ac ni ellir ei hadleoli.

Mae'r gorwariant Adnoddau Anghyllidol o £7m yn adlewyrchu'r gofyniad i ariannu gostyngiad o £12.9 miliwn yng ngwerth stocrestr yn achos cyfarpar diogelu personol (PPE) a ddelir gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP), wedi'i wrthbwyso gan lai o asedau terfynol sydd ym mherchnogaeth y GIG a gofynion cyllid lesoedd oherwydd oedi wrth fwrw ymlaen â chynlluniau / lesoedd.

Mae'r tanwariant AME o £172m yn ymwneud, yn bennaf, â thaliadau is na'r disgwyl yn ymwneud ag amhariadau ar Ystad y GIG a symudiadau ar ddarpariaethau. Roedd amhariadau'r GIG yn £70m yn is na'r hyn a gyllidebwyd oherwydd symudiadau mynegeio a ddefnyddiwyd wrth brisio'r ystad a llithriad ar brosiectau. Roedd taliadau AME yn ymwneud â darpariaethau'r GIG yn £86m yn is na'r gyllideb oherwydd cynnydd llai na'r rhagolwg yng Nghronfa Risg Cymru a newidiadau mewn cyfraddau disgownt a oedd yn effeithio ar y darpariaethau.

## Cyllid a Llywodraeth Leol – Tanwariant o £51m

Mae'r tanwariant yn danwariant mewn perthynas â DEL Refeniw o £50.6m a DEL Cyfalaf o £0.2m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn gyfuniad o £64m mewn tanwariant ar draws y MEG wedi'i wrthbwyso gan orwariant o £14m. Adroddir am brif danwariant DEL Refeniw yn erbyn BEL Rhyddhad Ardrethi Annomestig (£54m). Digwyddodd hyn oherwydd bod y nifer sy'n manteisio ar y cynllun rhyddhad yn is na'r disgwyl. Mae'r taliadau terfynol yn seiliedig ar hawliadau gwirioneddol a ddaeth i law oddi wrth yr Awdurdodau Lleol. Nid oedd cost derfynol y cynllun yn hysbys tan fis Ebrill unwaith yr oedd yr holl hawliadau wedi dod i law. Hyd at y pwynt hwn roedd y ffigurau a oedd yn cael eu darparu yn amcangyfrifon gorau yn seiliedig ar wybodaeth sylfaen dreth NDR yr awdurdodau. Digwyddodd tanwariannau llai pellach ar draws y MEG oherwydd newidiadau mewn lefelau gweithgarwch ac ailbroffilio gweithgarwch yn y blynyddoedd i ddod.

Cafodd tanwariant DEL refeniw ei wrthbwyso'n rhannol gan orwariant yn erbyn y BEL Cymorth Ariannol Brys (£14m) yn ymwneud â'n hymateb i Wcráin. Roedd y symudiad hwn i'w briodoli yn bennaf i newid yn y rhagdybiaethau ar gyfer y croniad diwedd blwyddyn sy'n ymwneud â'r tariff integreiddio ar gyfer unigolion sy'n cyrraedd trwy'r llwybr uwch-noddwr.

## Y Gymraeg ac Addysg – Tanwariant o £368m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant Refeniw DEL o £36.0m, tanwariant DEL Cyfalaf o £2.4m, Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £0.8m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £373.3m gorwariant AME o £46.5m. Mae £1.8m pellach yn ymwneud ag addasiad i Gwmpas ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC)) oherwydd bod llai o gyllid yn cael ei dynnu i lawr i gyflawni ei alldro adnoddau. Nid yw CCAUC wedi'i ddynodi (drwy Orchymyn Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) ac mae'n dal y tu allan i'r Cwmpas.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £36.0m, yn ymwneud â £12.0m ar gyfer Bwyd a Maeth mewn Ysgolion oherwydd cyflwyno prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd yn raddol (gan ailbroffilio cyllid yn 2023-24 a 2024-25) a £38.2m ar gyfer Grantiau Cymorth i Fyfyrwyr oherwydd natur y grantiau sy'n cael eu harwain gan y galw. Cafodd y rhain eu gwrthbwyso'n rhannol gan orwariant o £11.4m yn erbyn Darpariaeth Ôl-16 yn bennaf ar gyfer cyllid ychwanegol a ddarparwyd i Awdurdodau Lleol a cholegau Addysg Bellach (AB) yn 2022-23 i gefnogi dyfarniadau cyflog ac iechyd meddwl a llesiant dysgwyr a staff yn y sector AB.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o £2.4m yn ymwneud yn bennaf â rhywfaint o lithriad ar y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Mae hyn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol oherwydd costau ychwanegol o £1.2m ar gyfer y ffi weinyddol a dalwyd i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC), i'w alluogi i ddarparu cymorth statudol i fyfyrwyr yng Nghymru.

Mae'r rhan fwyaf o danwariant y DEL Adnoddau Anghyllidol o yn danwariant o £373.3m mewn perthynas â benthyciadau i fyfyrwyr, ac mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Roedd y tanwariant yn deillio o newid yng nghyfradd disgownt Trysorlys Ei Fawrhydi (o -1.1% i -1.3%), a effeithiodd ar y model Benthyciadau i Fyfyrwyr (Llwybr Enillion Scholastic - StEP) ynghyd â dau newid deddfwriaethol a gyflwynwyd, sef rhewi'r trothwy cyflog ad-dalu ac ymestyn cap y gyfradd llog hyd at fis Mawrth 2023. Cynyddodd hyn werth teg y portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr.

Mae'r gorwariant AME o £46.5m yn adlewyrchu tanwariant o £17.5m sef dychweleb derfynol SLC wth i symiau is o ffioedd dysgu a benthyciadau cynhaliaeth gael eu rhoi nag a ragwelwyd, a hynny wedi'i wrthbwyso gan y cyfyngiad ar warged incwm yn y Cwmpas Incwm fel y nodwyd yn flaenorol. Mae gwarged incwm y cwmpas yn ymwneud yn bennaf â Benthyciadau i Fyfyrwyr (gwarged o £96m). Mae ffactorau economaidd yn effeithio'n sylweddol ar brisiad y portffolio. Mae'r gorwariant yn gysylltiedig â llog ychwanegol a gafodd ei gyfalafu oherwydd cynnydd yn y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) yn ystod y flwyddyn ariannol. Roedd cyllideb a rhagolygon AME yn seiliedig ar ddata RPI hanesyddol yn hytrach na gwybodaeth wedi'i diweddaru sydd ar gael ar gyfer diwedd y flwyddyn ariannol, gyda'r cynnydd yn arwain at amrywiant rhwng rhagolygon ac alldro.

Y gyfradd llog a godir fel arfer yw'r Mynegai Prisiau Manwerthu hyd at 3%, yn dibynnu ar amgylchiadau ac incwm myfyriwr. Er hynny, yn ystod rhai cyfnodau cymhwysir cap ar log i sicrhau na chodir tâl uwch ar fyfyrwyr na'r cyfartaledd a geir yn y farchnad fasnachol.

## Yr Economi – Tanwariant o £37m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant Refeniw DEL o £10.4m, tanwariant DEL Cyfalaf o £14.7m, gorwariant Trafodion Ariannol Cyfalaf o £12.6m, gorwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £14.9m, a thanwariant AME o £39.4m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw yn ymwneud yn bennaf â £19.1m o elw dros ben a gynhyrchwyd ar ôl gwaredu nifer o Asedau Datblygu ar draws y Portffolio Eiddo. Adroddwyd am danwariant pellach ar Gyflogadwyedd gan gynnwys y Warant i Bobl Ifanc (£8m), Prentisiaethau (£5.6m) a Chymunedau am Waith (£1.4m) oherwydd natur y rhaglenni sy'n cael eu harwain gan y galw a'r nifer is na'r disgwyl a fanteisiodd arnynt drwy gydol y flwyddyn ariannol. Cafodd y tanwariant hwn ei wrthbwyso'n bennaf yn dilyn gorwariant o £27.5m ar gyfer Banc Datblygu Cymru (DBW) o ganlyniad i addasiadau alldro diwedd blwyddyn a cholli Cronfa Fuddsoddi Gwyddorau Bywyd Cymru (WLSIF).

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf yn ymwneud yn bennaf â thanwariant o £19.2m ar gyfer DBW o ganlyniad i addasiadau alldro diwedd blwyddyn. Mae'r rhain yn cael eu gwrthbwyso'n bennaf gan orwariant o £7.9m oherwydd derbyniadau Cyfalaf is na'r disgwyl yn dilyn gwarediadau o Bortffolio Eiddo.

Mae'r gorwariant FTR Cyfalaf yn ymwneud ag addasiadau alldro diwedd blwyddyn ar gyfer DBW sy'n gyfanswm o £19.9m, wedi'i wrthbwyso gan danwariant o £5.3m ar Gynlluniau Datgarboneiddio a thanwariant o £2.24m ar Ddatblygu Busnes yn bennaf oherwydd tanwariant yn y Gronfa Fusnes Busnesau Bach a Chanolig.

Mae gorwariant y DEL Adnoddau Anghyllidol hefyd yn ymwneud yn bennaf ag addasiadau diwedd blwyddyn DBW sy'n dod i gyfanswm o £12.4m a thaliadau amhariadau a dibrisiant dros ben o fewn y portffolio Eiddo sy'n dod i gyfanswm o £3m.

Mae'r gorwariant AME o £39.4m yn cynnwys credyd prisio pensiynau net o £18.8m. ar gyfer Gyrfa Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn aelod o wyth cynllun pensiwn gwahanol llywodraeth leol Cymru, sy'n dyddio o'r cyfnod pan oedd yn perthyn i'r awdurdodau lleol. O ganlyniad, gall symudiad y prisio fod yn anwadal iawn o flwyddyn i flwyddyn, ac er bod cyfnodau blaenorol wedi cofnodi taliadau sylweddol arweiniodd prisiadau actiwaraidd eleni at y credyd net mawr. Mae tanwariant pellach o £8.6m yn ymwneud â thaliadau amhariadau is na'r disgwyl o fewn y portffolio eiddo.

## Newid Hinsawdd – Tanwariant o £171m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant Refeniw DEL o £25.4m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £3.7m, tanwariant DEL Cyfalaf o £39.2m, tanwariant DEL Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o o £78.4m a thanwariant AME o £24m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £25.4m yn deillio o wariant llai mewn mentrau Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol, polisi newid hinsawdd, effeithlonrwydd ynni, Twf Gwyrdd a Diogelu'r Amgylchedd, yn ogystal â chynnydd mewn incwm yn Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd y gostyngiadau'n deillio o gymysgedd o ailbroffilio grantiau i'r awdurdodau lleol i'r blynyddoedd i ddod ac oedi wrth sefydlu cynlluniau blynyddol newydd.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf o 39.2m i'w briodoli'n bennaf i oedi mewn cynlluniau Effeithlonrwydd Adnoddau a'r Economi Gylchol a Diogelwch Tomenni Glo. Roedd y gostyngiadau i'w priodoli yn bennaf i oedi gyda phrosiectau'r Awdurdodau Lleol oherwydd oedi o ran caffael a ffactorau economaidd.

Mae'r tanwariant DEL Cyfalaf Trafodiadau Ariannol o £78.4 miliwn yn ymwneud ag ad-daliadau heb eu cyllidebu yng nghynlluniau Cymorth i Brynu Cymru a nifer is na'r disgwyl sydd wedi manteisio ar gynlluniau Datgarboneiddio Preswyl a Cherbydau Trydan.

Mae'r tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £3.7m yn deillio o'r ffaith bod y cyfrifyddu nad yw'n arian parod yn achos y rhwydwaith cefnffyrdd ac asedau rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd ar gyfer taliadau dibrisiant yn llai na'r rhai a amcangyfrifwyd gan y model a ddefnyddiwyd ar ddechrau'r flwyddyn.

Roedd y tanwariant AME o £24m yn deillio yn bennaf o brisiad portffolio Cymorth i Brynu Cymru sy'n ddarostyngedig i amrywiadau yn y farchnad.

## Materion Gwledig – Tanwariant o £19m

Mae'r tanwariant yn cynnwys tanwariant Refeniw DEL o £8.7m, tanwariant DEL Adnoddau Anghyllidol o £0.8m a thanwariant DEL Cyfalaf o £9.8m.

Mae'r tanwariant DEL Refeniw o £8.7m, a thanwariant DEL Cyfalaf o £9.8m, yn deillio yn bennaf o danwariant ar Gynlluniau Buddsoddi Gwledig lle na wnaeth cynlluniau a arweinid gan y galw gyflawni'r canlyniadau a ddisgwylid am fod llai o bobl wedi manteisio arnynt.

## Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu – Tanwariant o £24m

Mae tanwariant y MEG Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu (CSA) yn deillio yn bennaf o danwariant o £13m ar DEL Adnoddau Cyllidol, tanwariant DEL Cyfalaf o £1m, tanwariant o £2m ar DEL Adnoddau Anghyllidol a thanwariant o £7m ar Wariant a Reolir yn Flynyddol.

Prif elfen tanwariant y DEL Refeniw Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu oedd tanwariant o £12.9m ar gostau rhedeg Llywodraeth Cymru. Roedd tanwariant o £1.9m ar Gyllideb Ymchwiliad Covid Cyllideb a'r tanwariant hwn yn cael ei wrthbwyso gan orwariant o £2.7m ar gostau staff. Roedd llithriad yn amserlen Ymchwiliad COVID-19 y DU ac oedi mewn gwrandawiadau llafar tan 2023-24 ynghyd ag ansicrwydd ac oedi mewn perthynas â dull gweithredu'r Ymchwiliad o ran ceisiadau am dystiolaeth sydd wedi effeithio ar y gallu i rag-weld yn gywir a'r gwariant gwirioneddol.

Cafwyd tanwariant o £2m hefyd ar gyllidebau dibrisiant (DEL Adnoddau Anghyllidol) ar gyfer ystad Llywodraeth Cymru oherwydd gofyniad llai am gyllid dibrisiant na'r disgwyl.

Mae Gwariant a Reolir yn Flynyddol yn y MEG yn cynnwys newidiadau prisio mewn rhwymedigaethau pensiwn gan eu bod yn destun prisiad actiwaraidd cymhleth bob blwyddyn a gallant fod yn anwadal. Mae'r amrywiant o £5m yn deillio o wahaniaethau rhwng prisiadau'r cynllun pensiwn actiwaraidd a ragwelir a'r rhai manwl a ddarperir ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol i lywio'r cyfrifon statudol a'r alldro terfynol.

## Cyfiawnder Cymdeithasol – Tanwariant o £15m

Mae’r tanwariant yn danwariant mewn perthynas â DEL Refeniw o £10m a DEL Cyfalaf o £5m.

Gellir priodoli tanwariant y DEL Refeniw yn bennaf i arbediad o £9m yn erbyn y BEL Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol, nifer o swyddi gwag yr effeithiwyd arnynt ar draws nifer o weithgareddau a hefyd cafodd rhai costau staff eu hysgwyddo gan Gostau Rhedeg Adrannol yn hytrach na rhaglenni a gafodd effaith sylweddol ar alldro.

Hefyd, cafwyd tanwariant o £1m yn y Cynllun Peilot Incwm Sylfaenol oherwydd dyddiad dechrau hwyrach na’r disgwyl ar gyfer y rhaglen, a thanwariodd BEL Cyfathrebiadau’r Gwasanaethau Tân ac Achub BEL £1m hefyd oherwydd y cynnydd cyfyngedig a wnaed yn erbyn y prosiect hwn sy’n eiddo i’r Swyddfa Gartref yn ystod y flwyddyn ariannol. Darparwyd cyllid ychwanegol o £2m i’r Trydydd Sector yn ystod y flwyddyn ariannol hon a wrthbwysodd rai o’r pwysau hyn. Roedd y cyllid hwn yn cynnwys rhodd o £1m i’r Rhwydwaith Sylfaen Gymunedol i gefnogi mudiadau gwirfoddol gyda’u costau craidd.

Digwyddodd y tanwariant o £5m ar y DEL Cyfalaf gan nad oeddem yn gallu bwrw ymlaen â’r gwaith ar y Banc Cymunedol, a arweiniodd at danwariant o £1.5m yn y gyllideb hon; gwelodd BEL Sipsiwn a Theithwyr Sipsiwn hefyd danwariant o £4m, oherwydd anawsterau wrth ddatblygu a bwrw ymlaen â phrosiectau.

## Rhestr o eirfa'r gyllideb

**Terfyn Gwariant Adrannol (DEL):** Terfyn y gyllideb amlflwyddyn ar gyfer Llywodraeth Cymru a bennir gan Drysorlys EF mewn Adolygiadau o Wariant. Mae'r DEL wedi'i rannu'n ddosbarthiadau gan gynnwys y rhai isod.

**DEL Adnoddau Cyllidol (Refeniw):** Mae'r gyllideb DEL Adnoddau Cyllidol yn sgorio'r rhan fwyaf o wariant cyfredol yr adran ac mae'n cynnwys costau staff, grantiau a threuliau eraill.

**DEL Adnoddau Anghyllidol:** Mae'r Gyllideb DEL Adnoddau Anghyllidol yn sgorio gwariant cyfredol Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai amhariadau a dibrisiant. Mae'r cyllidebau hyn wedi'u clustnodi ac ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant DEL Adnoddau Cyllidol.

**DEL Cyfalaf:** Mae cyllidebau cyfalaf yn cwmpasu gwariant sydd, yn bennaf, yn arwain at ased ffisegol naill ai ar fantolen Llywodraeth Cymru neu ar fantolen trydydd parti.

**DEL Trafodiadau Ariannol Cyfalaf:** Diffinnir Trafodiadau Ariannol mewn cyfrifon cenedlaethol fel trafodiadau mewn asedau ariannol ac atebolrwyddau ariannol, megis trafodion benthyca neu ecwiti. O ganlyniad, mae trafodion ariannol gyda chyrff sydd y tu allan i ffin gyllidebu Llywodraeth Cymru yn sgorio i'r gyllideb DEL Cyfalaf i adlewyrchu'r effaith hon o ran dyled net y sector cyhoeddus. Mae ad-daliadau trafodiadau ariannol yn gyffredinol yn arwain at ad-daliad dilynol yn y dyfodol i Drysorlys EF.

**Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME):** Mae'r cyllidebau hyn yn ymdrin â gwariant na all yn rhesymol fod yn destun cyfyngiadau cadarn, amlflwyddyn yn yr un ffordd â DEL. Maent felly'n cael eu hadolygu ddwywaith y flwyddyn fel rhan o brosesau Cyllideb ac Adroddiad Rhag-gyllidebol Trysorlys Ei Fawrhydi. Mae AME fel rheol yn cynnwys rhaglenni sy'n fawr, yn wamal a/neu'n ymateb i'r galw.

## Nodiadau

| Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru | Alldro 2022-23 £m | Alldro 2021-22 £m |
|---|---:|---:|
| Awdurdodwyd i'w gyhoeddi o Gronfa Gyfunol Cymru | 22,463 | 22,807 |
| Cyllid a dynnwyd i lawr | 22,237 | (22,145) |
| **Cyllid heb ei dynnu** | **226** | **662** |

Mae'r nodyn hwn yn dangos 'yr arian a dynnwyd i lawr' sef y swm a dynnwyd mewn arian parod o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn, ac unrhyw symiau a gariwyd ymlaen a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru ac sydd heb eu defnyddio o'r flwyddyn flaenorol y 'bernir eu bod wedi'u tynnu', yn erbyn y cyfanswm rheoli y pleidleisiwyd arno yn y gyllideb ar gyfer symiau a awdurdodwyd i'w talu i Lywodraeth Cymru o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

| Cysoni'r Alldro a CSoCNE | Alldro 2022-23 £m | Alldro 2021-22 £m |
|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **21,995** | **22,573** |
| Llai: Addasiadau i gyfalaf a benthyciadau | (2,318) | (2,210) |
| Addasiad ardrethi annomestig | - | 65 |
| Addasiad incwm gormodol nad yw'n arian parod | (64) | - |
| Addasiadau eraill | 13 | 83 |
| **Gwariant fesul CSoCNE** | **19,626** | **20,510** |

Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr alldro cyllidebol yn y Crynodeb o Alldro Adnoddau a Datganiad Cyfunol o Wariant Net Cynhwysfawr (CSoCNE) y datganiadau ariannol, sy'n cysylltu'r Alldro Adnoddau â'r datganiadau ariannol.

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu – sy'n debyg, ond yn wahanol i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y'i cymhwysir gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (FReM) sy'n nodi sut mae'n rhaid paratoi'r CSoCNE.

Mae'r addasiadau cyfalaf a benthyciadau yn dileu o'r Alldro Adnoddauadnoddau cyfalaf yn ymwneud â thrafodiadau a adroddwyd yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol nad ydynt yn pasio drwy'r CSoCNE.

Mae'r addasisdau NDR yn adlewyrchu effaith net casglu a dosbarthu NDR yn SoCne Llywodraeth Cymru, sydd y tu allan i'r gyllideb a bleidleisiwyd gan Senedd Cymru ac felly'r Alldro Adnoddau.

Mae addasiadau eraill yn ymwneud yn bennaf â thrafodiadau sy'n cael eu trin yn wahanol rhwng y fframwaith cyllidebu a'r cyfrifon.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Ysgrifennydd Parhaol a Phrif Swyddog Cyfrifyddu**
29 Tachwedd 2023

| Cysoni adnoddau i ofynion arian parod | Cyllideb 2022-23 £m | Alldro 2022-23 £m | Alldro o'i gymharu â'r Gyllideb £m | Alldro 2021-22 £m |
|---|---|---|---|---|
| **Alldro Adnoddau Net** | **22,887** | **21,995** | **892** | **22,573** |
| Llai: Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Deddf Llywodraeth Cymru – Trafodiadau adnoddau yn unig | 0 | (482) | 482 | (347) |
| Llai: Trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | | | |
| Dibrisiant | (654) | (228) | (426) | (212) |
| Amhariadau ac addasiadau gwerth teg | (48) | 857 | (905) | 930 |
| Symudiadau heb fod yn arian parod mewn darpariaethau | (116) | (30) | (86) | (326) |
| Llai: Symudiadau mewn balansau gweithio | 512 | 379 | 133 | (361) |
| Llai: Addasiad incwm gormodol nad yw'n arian parod | - | (64) | 64 | - |
| Arall | (118) | (196) | 78 | (200) |
| **Gofyniad arian parod net** | **22,463** | **22,231** | **232** | **22,057** |

Mae'r Crynodeb o Alldro Adnoddau yn cael ei lunio yn erbyn y fframwaith cyllidebu ar sail gwariant adnoddau, yn hytrach nag ar sail arian parod. Mae'r cysoniad hwn yn esbonio'r gwahaniaeth rhwng yr Alldro Adnoddau i'r gofyniad arian net. Y gofyniad net am arian parod yw'r swm a dynnir fel cyllid o Gronfa Gyfunol Cymru yn y flwyddyn (a ddangosir yn y nodyn Cyllid a dynnwyd o Gronfa Gyfunol Cymru), llai unrhyw symiau a dynnwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol sydd heb eu defnyddio.

Mae'r addasiad ar gyfer Cyrff a ddynodwyd o dan a126A o Deddf Llywodraeth Cymru – trafodiadau adnoddau yn unig, yn dileu o'r Alldro Adnoddau y gwahaniaeth rhwng yr alldro adnoddau ar gyfer cyrff grŵp dynodedig Llywodraeth Cymru, a'r cyllid a ddarperir iddynt o Gronfa Gyfunol Cymru drwy Lywodraeth Cymru.

Mae'r addasiadau Trafodiadau nad ydynt yn arian parod a Symudiadau mewn balansau gweithio yn ymwneud â'r addasiadau yn natganiad llif arian Llywodraeth Cymru lle caiff trafodiadau eu codi ar adnoddau ond lle na thynnir hwy mewn arian parod.

Mae'r addasiadau eraill ar gyfer 2022-23 yn ymwneud yn bennaf â'r gwahaniaeth rhwng trafodiadau cyfalaf Llywodraeth Cymru yn y Alldro Adnoddau, a'r llif arian sy'n gysylltiedig â hwy.

# Tystysgrif ac adroddiad Archwilydd Cenedlaethol Cymru i'r Senedd

## Barn ar y datganiadau ariannol

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Llywodraeth Cymru a'r Grŵp am y flwyddyn a ddaeth i baen ar 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys:

- Datganiad o Alldro Adnoddau;
- ar gyfer pob un o Lywodraeth Cymru a'r Grŵp: Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian, Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr; a
- nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu sylweddol.

Mae'r fframwaith adrodd ariannol sydd wedi'i gymhwyso wrth baratoi yn gyfraith berthnasol ac mae'r DU wedi mabwysiadu safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF.

Yn fy marn i, ym mhob peth materol mae'r datganiadau ariannol:

- rhoi darlun cywir a theg o gyflwr Llywodraeth Cymru a materion y Grŵp ar 31 Mawrth 2023 a'u gofyniad arian net, alldro adnoddau net a chost gweithredu net, am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â safonau cyfrifeg rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglir a'u haddasu gan Lawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EF; ac
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau a wnaed gan Drysorlys EF o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

## Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae'r Datganiad o Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2023 ac yn dangos nad yw'r symiau hynny wedi cael eu rhagori; ac
- mae'r incwm a'r gwariant a gofnodir yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

## Sail ar gyfer barnau

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio adran datganiadau ariannol fy nhystysgrif.

Mae fy staff a minnau yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Grŵp yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o'r sail gyfredol o gyfrifo wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith rwyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd materol sy'n ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, yn unigol neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r corff i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r adeg y mae'r datganiadau ariannol wedi'u hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu mewn perthynas â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Mabwysiadir sail gynyddol cyfrifyddu Llywodraeth Cymru a'r Grŵp i ystyried y gofynion a nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF, sy'n ei gwneud yn ofynnol i endidau fabwysiadu sail gynyddol cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol lle rhagwelodd y bydd y gwasanaethau y maent yn eu darparu yn parhau i'r dyfodol.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ac eithrio Rhan 3 y Cyfrifon a rhannau archwiliedig yr Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff, ac adroddiad fy archwilydd ar hynny. Y Prif Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Atebolrwydd a gaiff eu harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EF a wnaed o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; ac
- mae'r wybodaeth arall a roddir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol y mae'r datganiadau ariannol yn cael eu paratoi ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion yr wyf yn adrodd amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r corff a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol mewn gwybodaeth arall a roddir yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol yr wyf yn eu hadrodd i chi os, yn fy marn i:

- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.
- nid yw cofnodion cyfrifyddu digonol wedi'u cadw neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad ymwelwyd fy nhîm â hwy;
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan a archwiliwyd o'r Adroddiad Atebolrwydd yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF ynghylch tâl a thrafodion eraill;
- nid yw rhai datgeliadau o gydnabyddiaeth ariannol a bennir gan Llawlyfr Adrodd Ariannol Llywodraeth Trysorlys EF yn cael eu gwneud neu nid yw rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff sydd i'w harchwilio yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddol; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EF.

Ar ben hynny, rwyf hefyd yn adrodd trwy eithriad nad yw dau uwch swyddog wedi rhoi caniatâd ynghylch datgelu gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EF ynghylch taliadau a thrafodion eraill. Derbyniodd Llywodraeth Cymru geisiadau yr uwch swyddogion ac o ganlyniad nid yw'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol a Staff yn cynnwys y wybodaeth hon.

## Cyfrifoldebau'r Prif Swyddog Cyfrifyddu am y datganiadau ariannol

Fel yr esboniwyd yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifeg, mae'r Prif Swyddog Cyfrifeg yn gyfrifol am:

- gadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- baratoi'r datganiadau ariannol a'r Adroddiad Blynyddol yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol cymwys ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi barn wir a theg;
- sicrhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r datganiadau ariannol yn ei gyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy;
- sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol;
- mae rheolaethau mewnol fel y mae'r Prif Swyddog Cyfrifyddu yn penderfynu arnynt yn angenrheidiol er mwyn galluogi paratoi datganiad ariannol i fod yn rhydd rhag camddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; ac
- asesu gallu'r Llywodraeth a'r Grŵp i barhau fel mater o drefn, datgelu, fel y bo'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail barhaus cyfrifyddu oni bai bod y Prif Swyddog Cyfrifo yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'r Grŵp yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol, eu hardystio ac adrodd arnynt yn unol â Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi tystysgrif sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol yr endid a archwilir, a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: adnabod refeniw, adnabod gwariant, cofnodi dyddlyfrau anarferol.
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Lywodraeth Cymr, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Llywodraeth Cymr yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Llywodraeth Cymr.
- Chael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, y Bwrdd a'r Pwyllgorau , ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymgyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu'r Bwrdd a'r Pwyllgorau; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Llywodraeth Cymru, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau archwilydd eraill

Mae'n ofynnol i mi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad o Alldro Adnoddau yn cyflwyno'r alldro yn briodol yn erbyn y symiau a awdurdodwyd gan y Senedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 ac yn dangos nad yw'r symiau hynny wedi cael eu rhagori.

Mae'n ofynnol i mi hefyd gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodiadau ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Rwy'n cyfathrebu â'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio sylweddol ymhlith materion eraill, gan gynnwys unrhyw ddiffygion sylweddol mewn rheolaeth fewnol a nodaf yn ystod fy archwiliad.

## Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi ardystio ac adrodd ar y cyfrifon hyn yn y ffurf y cawsant eu drafftio'n wreiddiol. Cyfieithiad o'r fersiwn Saesneg gwreiddiol yw'r fersiwn hwn. Llywodraeth Cymru sydd yn gyfrifol am gywirdeb y cyfieithiad, nid yr Archwilydd Cyffredinol.

Cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrifyddu yw cynnal a chyfanrwydd gwefan Llywodraeth Cymru; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyried y materion hyn ac yn unol â hynny nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers eu cyflwyno'n wreiddiol ar y wefan.

**Adrian Crompton**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
30 Tachwedd 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Rhan 3

## Datganiadau Ariannol

### Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau | 2 | (50) | (290) | (39) | (211) |
| Incwm gweithredol arall | 2 | (740) | (1,113) | (537) | (910) |
| **Cyfanswm incwm gweithredol** | | **(790)** | **(1,403)** | **(576)** | **(1,121)** |
| Costau staff | 3 | 376 | 6,065 | 353 | 5,575 |
| Gwariant | 3 | 20,286 | 14,726 | 20,604 | 15,521 |
| Cost darpariaeth | 3 | 202 | 238 | 467 | 535 |
| **Cyfanswm gwariant gweithredol** | | **20,864** | **21,029** | **21,424** | **21,631** |
| **Gwariant net am y flwyddyn** | | **20,074** | **19,626** | **20,848** | **20,510** |
| **Gwariant net cynhwysfawr arall:**<br>Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredol net: | | | | | |
| (Elw)/colled net ar ailbrisio eiddo, offer, cyfarpar a buddsoddiadau | | (2,564) | (2,917) | (1,899) | (1,432) |
| (Elw)/colled actiwaraidd ar atebolrwyddau cynlluniau pensiwn | | (5) | (56) | (25) | (56) |
| **Gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **17,505** | **16,653** | **18,924** | **19,022** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 211 i 264 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Asedau anghyfredol** | | | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 4 | 22,762 | 30,264 | 20,062 | 26,822 |
| Asedau anniriaethol | 5 | 33 | 104 | 38 | 111 |
| Asedau ariannol | 6 | 9,533 | 8,007 | 8,006 | 6,568 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 31 | 212 | 23 | 182 |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | 15 | 42 | 409 | - | - |
| **Cyfanswm asedau anghyfredol** | | **32,401** | **38,996** | **28,129** | **33,683** |
| **Asedau cyfredol:** | | | | | |
| Asedau sydd wedi'u dosbarthu fel rhai mewn llaw i'w gwerthu | | - | - | - | 1 |
| Asedau ariannol | 6 | 241 | 241 | 179 | 179 |
| Stocrestri | 7 | 230 | 358 | 204 | 358 |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach a symiau derbyniadwy eraill | 8 | 472 | 871 | 322 | 608 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | 9 | 28 | 1,354 | 161 | 1,482 |
| **Cyfanswm asedau cyfredol** | | **971** | **2,824** | **866** | **2,628** |
| **Cyfanswm asedau** | | **33,372** | **41,820** | **28,995** | **36,311** |
| **Atebolrwyddau cyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (1,697) | (3,253) | (2,207) | (3,619) |
| Darpariaethau | 11 | (398) | (463) | (362) | (412) |
| Atebolrwyddau eraill | 13 | - | - | - | (1) |
| **Cyfanswm yr atebolrwyddau cyfredol** | | **(2,095)** | **(3,716)** | **(2,569)** | **(4,032)** |
| **Cyfanswm asedau, llai atebolrwyddau cyfredol** | | **31,277** | **38,104** | **26,426** | **32,279** |
| **Atebolrwyddau anghyfredol:** | | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 10 | (373) | (729) | (142) | (377) |

## Datganiad Cyfunol o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2023 (Parhad)

| | Nodyn | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Darpariaethau | 11 | (1,240) | (1,273) | (1,270) | (1,319) |
| Atebolrwyddau eraill | 13 | (16) | (17) | (22) | (45) |
| **Cyfanswm yr atebolrwyddau anghyfredol** | | **(1,629)** | **(2,019)** | **(1,434)** | **(1,741)** |
| **Cyfanswm asedau, llai atebolrwyddau cyfredol** | | **29,648** | **36,085** | **24,992** | **30,538** |
| **Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd wrth gefn eraill** | | | | | |
| Cronfa gyffredinol | | 15,608 | 19,627 | 13,446 | 16,885 |
| Cronfa ailbrisio | | 14,040 | 16,458 | 11,546 | 13,653 |
| **Cyfanswm ecwiti** | | **29,648** | **36,085** | **24,992** | **30,538** |

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 211 i 264 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

**Dr Andrew Goodall CBE**
**Yr Ysgrifennydd Parhaol a'r Prif Swyddog Cyfrifyddu**
29 Tachwedd 2023

## Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 (Ailgyflwyno)[1] | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau gweithredol:** | | | | | |
| Gwariant gweithredol net | | (20,074) | (19,626) | (20,848) | (20,510) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | 11 | (173) | (203) | (141) | (209) |
| Addasiadau ar gyfer trafodiadau nad ydynt yn arian parod | | (424) | 92 | (232) | 216 |
| Symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod | 14 | (379) | (572) | 360 | 388 |
| Arall | | (8) | - | 1 | 41 |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau gweithredol** | | **(21,058)** | **(20,309)** | **(20,860)** | **(20,074)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau buddsoddi** | | | | | |
| Prynu eiddo, offer a chyfarpar | | (398) | (1,077) | (374) | (1,130) |
| Prynu asedau anniriaethol | | (10) | (28) | (10) | (35) |
| Enillion yn sgil gwaredu eiddo, offer a chyfarpar | | 6 | 8 | 9 | 16 |
| Enillion yn sgil gwaredu asedau datblygu | | 27 | 27 | 1 | 1 |
| Prynu asedau datblygu | | (30) | (30) | (12) | (12) |
| Rhoi benthyciadau a buddsoddiadau | | (1,042) | (1,057) | (1,260) | (1,190) |
| Ad-dalu benthyciadau | | 289 | 313 | 340 | 291 |
| **(All-lif) arian net o weithgareddau buddsoddi** | | **(1,158)** | **(1,844)** | **(1,306)** | **(2,059)** |
| **Llifoedd arian parod o weithgareddau cyllido:** | | | | | |
| O Gronfa Gyfunol Cymru – wedi'i dynnu yn y flwyddyn | | 22,237 | 22,237 | 21,734 | 21,734 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – blwyddyn flaenorol wedi'i had-dalu | | (88) | (88) | - | - |
| Ychwanegiadau Grant Gohiriedig yr UE | | - | - | - | 44 |
| Buddiant Lleiafrifol | | - | - | - | - |
| Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd a PFI ar y fantolen, a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill | | (17) | (75) | (10) | 38 |
| **Cyllido net** | | **22,132** | **22,074** | **21,724** | **21,816** |

## Datganiad Cyfunol o Lifoedd Arian Parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 (parhad)

| | Nodyn | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022 (Ailgyflwyno)[1] | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod cyn addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | | **(84)** | **(79)** | **(442)** | **(317)** |
| Incwm sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | | (49) | (49) | (37) | (37) |
| Balansau arian parod cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | | - | - | - | 8 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod ar ôl addasiadau ar gyfer derbyniadau a thaliadau i Gronfa Gyfunol Cymru** | **9** | **(133)** | **(128)** | **(479)** | **(346)** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn** | 9 | **161** | **1,482** | **640** | **1,828** |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn** | 9 | **28** | **1,354** | **161** | **1,482** |

[1] Mae ad-dalu benthyciadau a thrafodiadau gyda Chronfa Gyfunol Cymru wedi'u hailgyflwyno i roi gwell eglurder o ran trafodiadau gyda'r Gronfa.

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 211 i 264 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr

| Grŵp Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol (Ailgyflwyno)[1] £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (Ailgyflwyno)[1] £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **15,211** | **12,258** | **27,469** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | 5 | - | 5 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 21,734 | - | 21,734 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | 411 | - | 411 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (taladwy)/addasiad derbyniadwy[2] | (88) | - | (88) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (20,510) | - | (20,510) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 1,424 | 1,424 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 29 | (29) | - |
| Addasiadau eraill | 93 | - | 93 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **16,885** | **13,653** | **30,538** |
| Pontio i IFRS 16 | 3 | - | 3 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 22,237 | - | 22,237 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | - | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru (taladwy)/addasiad derbyniadwy[2] | (6) | - | (6) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (19,626) | - | (19,626) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 2,926 | 2,926 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 115 | (115) | - |
| Addasiadau eraill | 19 | (6) | 13 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **19,627** | **16,458** | **36,085** |

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol (Ailgyflwyno)[1] £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (Ailgyflwyno)[1] £m |
|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **12,274** | **9,629** | **21,903** |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 21,734 | - | 21,734 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | 411 | - | 411 |
| Cronfa Gyfunol Cymru (taladwy)/addasiad derbyniadwy[2] | (88) | - | (88) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (20,848) | - | (20,848) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 1,899 | 1,899 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | (18) | 18 | - |

## Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr (Parhad)

| Craidd Llywodraeth Cymru | Cronfa Gyffredinol (Ailgyflwyno)[1] £m | Cronfa Ailbrisio wrth Gefn £m | Cyfanswm Cronfeydd wrth Gefn (Ailgyflwyno)[1] £m |
|---|---|---|---|
| Addasiadau eraill | (19) | - | (19) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **13,446** | **11,546** | **24,992** |
| Pontio i IFRS 16 | (8) | - | (8) |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian a dynnwyd | 22,237 | - | 22,237 |
| Cronfa Gyfunol Cymru – arian y bernir ei fod wedi'i dynnu | - | - | - |
| Cronfa Gyfunol Cymru (taladwy)/addasiad derbyniadwy[3] | (6) | - | (6) |
| Gwariant net am y flwyddyn | (20,074) | - | (20,074) |
| Enillion a cholledion ailbrisio | - | 2,564 | 2,564 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | 70 | (70) | - |
| Addasiadau eraill | (57) | - | (57) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023** | **15,608** | **14,040** | **29,648** |

[1] Mae'r flwyddyn flaenorol wedi'i hailgyflwyno i roi gwell eglurder o ran trafodiadau gyda Chronfa Gyfunol Cymru.

[2] Mae addasiadau (taladwy)/derbyniadwy Cronfa Gyfunol Cymru yn cynnwys cyllid na chafodd ei wario yn 2022-23 o £6m (2021-22: £88m).

Mae'r Nodiadau ar dudalennau 211 i 264 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

# Nodiadau i'r Cyfrifon

## 1. Datganiad o Bolisïau Cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FReM). Mae'r polisïau cyfrifyddu a gynhwysir yn FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y maent wedi'u haddasu neu eu dehongli ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus. Lle mae FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, mae'r polisi cyfrifyddu y bernir ei fod fwyaf priodol i amgylchiadau penodol Llywodraeth Cymru at ddibenion rhoi golwg gywir a theg wedi'i ddewis. Disgrifir y polisïau penodol sydd wedi cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru (ar gyfer y gweithgarwch adroddadwy) yn Atodiad A neu fel troednodiadau i'r nodyn perthnasol. Maent wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau y bernir eu bod yn berthnasol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratoir o dan IFRS, mae FReM hefyd yn caniatáu i Lywodraeth Cymru baratoi prif ddatganiadau ychwanegol. Cynhwysir y Crynodeb o Alldro Adnoddau sy'n dangos alldro gwirioneddol yn erbyn y gyllideb a nodiadau ategol sy'n cysoni alldro i wariant gweithredol net, a'r gofyniad adnoddau i arian parod, yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

### 1.1 Confensiwn Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol, wedi'u haddasu i gyfrif am ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar, eiddo buddsoddi a rhai asedau ac atebolrwyddau ariannol.

### 1.2 Sail Cyfuno

Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu'r asedau a'r atebolrwyddau cyfunol a chanlyniadau endidau o fewn ffin gyfrifyddu gyfuno Llywodraeth Cymru. Mae'r ffin gyfrifyddu ar gyfer cyfuno yn cynnwys ymgymeriadau is-gorff fel sy'n ofynnol o dan FReM, lle y'u dynodir i'w cyfuno drwy offeryn statudol a lle y maent yn uwch na throthwy de minimis i fod yn berthnasol.

Bydd yr holl endidau o fewn is-grŵp yn cael eu cyfuno:

- Os yw rhiant-endid yr is-grŵp yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi sy'n gymwys ar gyfer y flwyddyn ariannol; ac
- Os yw'r is-grŵp cyfan yn uwch na'r trothwy de minimis cyfuno ar gyfer bod yn berthnasol.

Mae'r ffin gyfrifyddu gyfuno hefyd yn cynnwys ymgymeriadau is-gwmni yn uwch na throthwy de minimis a oedd wedi cael eu cyfuno ar sail Safonau Cyfrifyddu Grŵp IFRS cyn i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno yng Nghymru (yn effeithiol o 2017-18), ac nad yw'r broses ddynodi wedi dod i ben eto ar eu cyfer. Diben hyn yw cadw cysondeb yn achos cyflwyniad cyfuno'r Grŵp tra bo prosiect alinio Llywodraeth Cymru'n mynd rhagddo.

Ers i Orchmynion Dynodi gael eu cyflwyno, ychwanegir endidau at y ffin gyfrifyddu gyfuno yn unig os ydynt wedi'u dynodi ac yn berthnasol.

Caiff is-gwmnïau eu cyfuno o gyfrifon drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael. Mae trafodiadau rhwng endidau a gynhwysir yn y cyfuno'n cael eu dileu.

Darperir gwybodaeth bellach am yr endidau o fewn y ffin gyfuno yn yr Adroddiad Blynyddol sy'n cyd-fynd â'r cyfrifon hyn, gweler tudalennau 93 i 97.

## 2. Incwm Gweithredol

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Incwm o werthu nwyddau a gwasanaethau:** | | | | |
| Incwm o eiddo a buddsoddiadau | 41 | 40 | 32 | 32 |
| Arall | 9 | 250 | 7 | 179 |
| | **50** | **290** | **39** | **211** |
| **Incwm gweithredol arall nad yw'n incwm yr UE:** | | | | |
| Incwm iechyd[1] | 194 | 536 | 153 | 496 |
| Arall | 36 | 66 | 18 | 19 |
| | **230** | **602** | **171** | **515** |
| **Incwm gweithredol arall yr UE:** | | | | |
| Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd | 440 | 440 | 282 | 311 |
| Y Polisi Amaethyddol Cyffredin | 67 | 67 | 76 | 76 |
| Incwm arall yr UE | 3 | 4 | 8 | 8 |
| | **510** | **511** | **366** | **395** |
| **Cyfanswm** | **790** | **1,403** | **576** | **1,121** |

[1] Wedi'i gynnwys o fewn incwm gweithredol craidd 'incwm iechyd' y tu allan i'r UE mae £55.4m (2021-22: £99.4m) o incwm mewn perthynas â derbyn nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profi llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU i'w hystyried heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

# 3. Gwariant

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Gwariant** | | | | |
| Grantiau[1] | 20,433 | 9,534 | 20,834 | 10,613 |
| Nwyddau a gwasanaethau[2] | 450 | 5,287 | 444 | 5,191 |
| Rhenti[3] | 1 | 2 | 17 | 19 |
| Costau Staff | 376 | 6,065 | 353 | 5,575 |
| PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill[3] | 24 | 33 | 7 | 16 |
| Dileadau'r polisi benthyciadau i fyfyrwyr | 30 | 30 | 26 | 26 |
| (Enillion)/colledion gwerth teg net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE[4] | (862) | (818) | (942) | (904) |
| Dibrisiant Asedau Sefydlog | 213 | 590 | 203 | 545 |
| Amorteiddio | 15 | 36 | 9 | 29 |
| Asedau rhodd ac asesedau a roddwyd gan y llywodraeth | - | (3) | - | (7) |
| Amhariadau | 6 | 68 | 12 | 4 |
| (Elw)/Colled ar warediadau | (21) | (36) | (3) | (14) |
| Cyllid Pensiwn | (3) | 2 | (2) | 4 |
| Rhyddhau grant yr UE | (1) | (1) | (1) | (1) |
| Darpariaeth Dyledion Drwg | 1 | 2 | - | - |
| | **20,662** | **20,791** | **20,957** | **21,096** |
| **Darpariaethau** | | | | |
| Cynnydd mewn darpariaethau | 202 | 238 | 467 | 535 |
| **Cyfanswm** | **20,864** | **21,029** | **21,424** | **21,631** |

[1] Mae gwariant grantiau yn cynnwys £128m (2021-22: £764m) mewn perthynas â thrafodiadau a gyfrifir gan asiantau gydag Awdurdodau Lleol ar gyfer cynlluniau COVID-19.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru gyda'r Awdurdodau Lleol i ddarparu'r grantiau neu'r meysydd cymorth ariannol canlynol i fusnesau ac unigolion gan fod gan Awdurdodau Lleol yr wybodaeth a'r gallu lleol i roi systemau ar waith yn gyflym ac yn effeithlon i wneud taliadau.

- Rhyddhad Ardrethi Annomestig
- Grantiau Cymorth Busnes ar gyfer effeithiau'r pandemig a'r adferiad ar ei ôl
- Cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol
- Cynllun Cymorth Hunanynysu
- Cynllun Gofalwyr Di-dâl
- Cynllun Cymorth Costau Byw
- Taliad ychwanegol y Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer Gofal Cymdeithasol
- Cymorth i ffoaduriaid o Wcráin

Mae'r cynlluniau hyn wedi'u hasesu o dan adran 2.6 (Prif Drafodiadau a Thrafodiadau Asiantau) Cod Ymarfer CIPFA ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol (gweler Atodiad B) ac yn unol â dehongliad perthnasol o IFRS 15 – 'Revenue from Contracts with Customers'.

Llywodraeth Cymru yw'r prif arferydd yn y trefniadau hyn ac mae wedi cydnabod y costau llawn a ysgwyddwyd ar gyfer y cynlluniau gan Awdurdodau Lleol yn 2022-23.

[2] Wedi'i gynnwys o fewn Nwyddau a Gwasanaethau Craidd mae £55.4m (2021-22: £98.5m) o wariant mewn perthynas â defnyddio nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys brechlynnau, pecynnau profion llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU, heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o'r ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau penodol a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

[3] Ailgyflwynwyd yn 2022-23 i ddangos rhenti y tu allan i gwmpas IFRS 16 ar wahân i wariant ar gontractau gwariant PFI Bute Avenue a'r A55.

[4] Mae benthyciadau myfyrwyr ac asedau ariannol Cymorth i Brynu Cymru yn cael eu mesur fel gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r rhan fwyaf o'r enillion gwerth teg a adroddwyd ar gyfer 2022-23 yn ymwneud â benthyciadau myfyrwyr; ceir manylion pellach am hyn yn Nodyn 6.

## Costau Staff

Mae dadansoddiad llawn o gostau staff, gan gynnwys niferoedd staff a gwybodaeth gysylltiedig, wedi'i ddarparu yn Adroddiad Atebolrwydd y ddogfen hon ar dudalennau 179 i 187.

## Ffioedd Archwilio

Y swm sy'n daladwy i Archwilydd Cyffredinol Cymru am roi barn ar ddatganiadau ariannol cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23 yw £458,850 (2021-22: £435,0001). Mae hyn wedi'i gynnwys yn y Nwyddau a'r Gwasanaethau a ddatgelir uchod. Cynhwysir uchod hefyd ffioedd a godir gan Archwilydd Cyffredinol Cymru mewn perthynas â chyfrifon eraill a baratoir gan Weinidogion Cymru fel a ganlyn:

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 £ | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 (Ailddatgan) £ |
|---|---|---|
| Cyfrif Cryno'r GIG[1] | 32,500 | 30,821 |
| Cyfrif Ardrethi Annomestig Cenedlaethol[1] | 9,500 | 8,946 |
| Cyfrif y Llywodraeth Gyfan | 13,800 | 14,400 |
| Cronfa Gyfunol Cymru | 22,000 | 20,000 |

Datgelir ffioedd archwilio cyrff cyfunol o fewn eu cyfrifon unigol.

[1] Ailddatganwyd ar gyfer y flwyddyn flaenorol i adlewyrchu gwir gostau a dynnwyd yn hytrach nag amcangyfrifon ffioedd.

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Asedau Seilwaith[1] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddau £m | Offer a Chyfarpar[2] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 22,676 | 420 | 3,312 | 1,336 | 951 | 28,695 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | 1 | 139 | 95 | 235 |
| Ychwanegiadau | 160 | 5 | 58 | 178 | 740 | 1,141 |
| Gwarediadau | (139) | - | (2) | (75) | - | (216) |
| Trosglwyddiadau | - | - | 1 | 60 | (61) | - |
| Amhariadau | - | 1 | (2) | (9) | (9) | (19) |
| Ailbrisiadau | 1,690 | 7 | 63 | - | - | 1,760 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai mewn llaw i'w gwerthu | - | - | - | (4) | - | (4) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | 142 | 16 | (178) | (20) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **24,387** | **433** | **3,573** | **1,641** | **1,538** | **31,572** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2021 | 2,853 | - | 391 | 841 | - | 4,085 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | 7 | - | 7 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 232 | - | 120 | 193 | - | 545 |
| Gwarediadau | (139) | - | - | (74) | - | (213) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (6) | - | - | (6) |
| Ailbrisiadau | 340 | - | (4) | - | - | 336 |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (4) | - | (4) |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **3,286** | **-** | **501** | **963** | **-** | **4,750** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **21,101** | **433** | **3,072** | **678** | **1,538** | **26,822** |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2021 | 19,823 | 420 | 2,921 | 495 | 951 | 24,610 |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022** | | | | | | |
| Dan berchnogaeth | 20,547 | 431 | 2,957 | 597 | 1,460 | 25,992 |
| Ar les gyllid | - | - | 26 | 81 | - | 107 |
| PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill ar y fantolen | 554 | 2 | 89 | - | 78 | 723 |
| **Ar 31 Mawrth 2022** | **21,101** | **433** | **3,072** | **678** | **1,538** | **26,822** |

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (parhad)

| | Asedau Seilwaith[1] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddaus £m | Offer a Chyfarpar[2] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 24,387 | 433 | 3,573 | 1,641 | 1,538 | 31,572 |
| Ychwanegiadau | 116 | - | 32 | 91 | 1,028 | 1,267 |
| Gwarediadau | (92) | (1) | (5) | (116) | - | (214) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | 2 | (14) | (12) |
| Amhariadau | - | (18) | (92) | (14) | (19) | (143) |
| Ailbrisiadau | 3,136 | 6 | (144) | - | - | 2,998 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai mewn llaw i'w gwerthu | - | - | - | (8) | - | (8) |
| Ailddosbarthiadau | - | (4) | 162 | 53 | (216) | (5) |
| Asedau hawl-i-ddefnyddio | - | (13) | (48) | (139) | - | (200) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **27,547** | **403** | **3,478** | **1,510** | **2,317** | **35,255** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 3,286 | - | 501 | 963 | - | 4,750 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 248 | - | 118 | 155 | - | 521 |
| Gwarediadau | (92) | - | - | (107) | - | (199) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | (79) | (1) | - | (80) |
| Ailbrisiadau | 422 | - | (351) | (1) | - | 70 |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | (8) | - | (8) |
| Ailddosbarthu i asedau hawl-i-ddefnyddio | - | - | (6) | (57) | - | (63) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **3,864** | **-** | **183** | **944** | **-** | **4,991** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **23,683** | **403** | **3,295** | **566** | **2,317** | **30,264** |
| **Cyllido asedau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | | | | |
| Dan berchnogaeth | 23,047 | 400 | 3,203 | 566 | 2,050 | 29,266 |
| Atebolrwyddau PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill | 636 | 3 | 92 | - | 267 | 998 |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **23,683** | **403** | **3,295** | **566** | **2,317** | **30,264** |

# 4. Eiddo, Offer a Chyfarpar (Parhad)

| | Asedau Seilwaith[1] £m | Tir £m | Adeiladau gan gynnwys Anheddaus £m | Offer a Chyfarpar[2] £m | Taliadau ar gyfrif ac Asedau sy'n cael eu hadeiladu £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Adran graidd ar 31 Mawrth 2023** | **21,549** | **39** | **107** | **34** | **1,033** | **22,762** |
| **Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2023** | **2,134** | **364** | **3,188** | **532** | **1,284** | **7,502** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2022 | 19,067 | 58 | 135 | 37 | 765 | 20,062 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2022 | 2,035 | 375 | 2,937 | 640 | 773 | 6,760 |

[1] Mae asedau seilwaith yn cynnwys Asedau Rhwydwaith fel y nodir yn Nodyn 4.1 ar gyfer Rhwydweithiau Ffyrdd a Rheilffyrdd, ac asedau seilwaith eraill fel yr ased Fibrespeed.

[2] Mae Offer a Chyfarpar yn cynnwys Technoleg Gwybodaeth, Gosodiadau a Ffitiadau, Offer a Pheiriannau a Chyfarpar Trafnidiaeth.

### Tir ac adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae tir ac adeiladau, gan gynnwys anheddau a thir ac adeiladau rhydd-ddaliadol, yn cael eu dal adeg y prisiad gan gael eu hasesu yn ôl gwerth teg/gwerth y farchnad ar gyfer eu defnydd presennol. O fewn y categori hwnnw, mae asedau arbenigol yn cael eu prisio drwy gyfeirio at ddull cost amnewid ddibrisiedig. Gwerth y farchnad sydd i asedau a ddelir i'w gwerthu.

Cynhelir prisiadau proffesiynol allanol bob pum mlynedd ar gyfer y rhan fwyaf o ystad Llywodraeth Cymru, ac yn flynyddol ar gyfer asedau penodol (sef, fel arfer, asedau yn y portffolio safleoedd strategol). Yn y blynyddoedd ariannol rhwng y prisiadau pum mlynedd ffurfiol, mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol yn cael eu haddasu gan ddefnyddio'r mynegeion diweddaraf sydd ar gael ym mis Mawrth bob blwyddyn ariannol i ddarparu amcangyfrif rhesymol o werth. Fodd bynnag, pan fydd asedau'n cael eu caffael neu'n cael eu newid yn sylweddol, mae'n arferol bod prisiad cyfredol yn cael ei gomisiynu.

Cafodd y rhan fwyaf o dir ac adeiladau rhydd-ddaliadol Craidd Llywodraeth Cymru asesiad prisio pum mlynedd ar 31 Mawrth 2020, yn bennaf gan Syrfewyr Siartredig Avison Young. Cafodd y prisiadau a oedd yn destun adolygiad blynyddol eu paratoi'n bennaf ar 28 Chwefror 2023 gan Alder King. Caiff yr holl asedau eu prisio yn unol â safonau RICS ar gyfer adrodd ariannol fel y'u cyhoeddwyd yn eu hatodiad ar gyfer y DU o'r safonau byd-eang (y Llyfr Coch).

Mae ffigurau Grŵp Llywodraeth Cymru'n cynnwys Tir ac Adeiladau'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG a gafodd eu hailbrisio gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio gyda dyddiad dod i rym o 1 Ebrill 2022. Mae'r prisiad wedi'i baratoi yn unol â thelerau Safonau Prisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, 6ed argraffiad. Mae Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cymhwyso'r model ailbrisio a nodir yn IAS 16 fel y mae wedi'i addasu gan FReM.

Mae tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol yn cael eu dal ar werth y farchnad at eu defnydd presennol; mae adeiladau arbenigol yn cael eu dal ar gost adnewyddu wedi'i dibrisio. Defnyddir mynegeio yn y blynyddoedd rhwng prisiadau pum mlynedd.

## 4.1 Asedau Rhwydwaith – Eiddo, Offer a Chyfarpar

| | Rhwydwaith Ffyrdd £m | Asedau Rhwydwaith - Rheilffyrdd £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|
| **Cost neu brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 22,316 | 2,034 | 24,350 |
| Ychwanegiadau | 92 | 23 | 115 |
| Gwarediadau | (92) | - | (92) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 3,059 | 78 | 3,137 |
| Ailddosbarthwyd fel rhai mewn llaw i'w gwerthu | - | - | - |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **25,375** | **2,135** | **27,510** |
| **Dibrisiant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023** | | | |
| Ar 1 Ebrill 2022 | 3,266 | 1 | 3,267 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 194 | 52 | 246 |
| Gwarediadau | (92) | - | (92) |
| Trosglwyddiadau | - | - | - |
| Amhariadau | - | - | - |
| Ailbrisiadau | 473 | (52) | 421 |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **3,841** | **1** | **3,842** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **21,534** | **2,134** | **23,668** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2022** | **19,050** | **2,033** | **21,083** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2023 | 21,534 | - | 21,534 |
| Cyrff Iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2023 | - | 2,134 | 2,134 |

### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae rhwydwaith ffyrdd Llywodraeth Cymru yn cynnwys ffyrdd A mawr a elwir yn gefnffyrdd, a thraffyrdd.

Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith a chaiff ei brisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) gan ddefnyddio model y System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS). Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith yn 2019-20 ac fe'i cynhelir bob pum mlynedd. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol y rhwydwaith ffyrdd, a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol.

Mae'r mynegeion allweddol ym mhrisiad y model RAAVS yn sensitif i ansicrwydd macroeconomaidd.

Gallai amrywiadau yn y mynegeion hynny yn y dyfodol effeithio ar brisiad yr asedau hyn mewn cyfnodau adrodd dilynol. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd isod yn adlewyrchu'r effaith ar y prisiad Cost Amnewid Ddibrisiedig yn sgil newid pwynt canran yn y mynegeion allweddol.

| | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Mynegai Baxter – 1% / +1% | (203) | 203 |
| Mynegai BEAMA – 1% / +1% | (1) | 1 |

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Trafnidiaeth Cymru (TrC) sy'n rheoli'r ased rhwydwaith rheilffyrdd a elwir yn Llinellau Craidd y Cymoedd, sy'n cynnwys llinellau Aberdâr, Coryton, Merthyr Tudful, Rhymni a Threherbert. Mae'n cael ei drin fel un ased seilwaith ac yn cael ei brisio ar Gost Amnewid Ddibrisiedig gan ddefnyddio model prisio a gafodd ei greu gan TrC gyda chymorth Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarparwyd gan TrC. Cynhaliwyd y prisiad llawn diwethaf o'r rhwydwaith ar 31 Mawrth 2022 a chaiff ei gynnal bob bum mlynedd. Cymhwysir mynegeion mewnbwn i restr brisiau safonol o gydrannau'r rhwydwaith mewn cyfnodau interim.

Er mwyn cynhyrchu'r prisiad hwn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol. Ystyrir mai'r rhagdybiaethau allweddol yn y prisiad yw: bywyd asedau a gweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith, addasiad iawndal tir a ffactor risg. Ceir manylion llawn y rhagdybiaethau a'r ansicrwydd amcangyfrif yng nghyfrifon TrC.

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd canlynol yn adlewyrchu'r ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif yn y prisiad, gan ddangos effaith newidiadau mewn rhagdybiaethau ynghylch gwerth cyffredinol ased Llinellau Craidd y Cymoedd.

- Mae Senario 1 yn dangos effaith cynnydd neu leihad o 10% yng ngweddill bywydau asedau cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd cyfatebol modern.
- Mae Senario 2 yn dangos yr effaith pe bai'r addasiad iawndal tir (45% fel arfer) yn cynyddu neu'n lleihau 10%; h.y. addasiad iawndal o 35% neu 55% yn y drefn honno.
- Mae Senario 3 yn dangos effaith addasiad i'r ffactor risg a gymhwysir i'r prisiadau DRC cyffredinol, sef 37.2% ar hyn o bryd, yn ôl cynnydd neu leihad o 10%, gan ddangos ffactorau risg o 47.2% a 27.2% i bob pwrpas.

| Math | Cost Amnewid Ddibrisiedig (-) £m | Cost Amnewid Ddibrisiedig (+) £m |
|---|---|---|
| Senario 1 | (154) | 154 |
| Senario 2 | (41) | 41 |
| Senario 3 | (112) | 112 |

Ceir rhagor o wybodaeth am brisio a dibrisiant Asedau Rhwydwaith yn Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu A.1 ac A.2.

# 5. Asedau Anniriaethol

| | Technoleg Gwybodaeth | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Cost neu brisiad** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 89 | 243 | 64 | 194 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | 12 |
| Ychwanegiadau | 10 | 28 | 10 | 35 |
| Gwarediadau | - | (10) | - | (17) |
| Ailddosbarthiadau | - | 2 | 15 | 19 |
| **Ar 31 Mawrth** | **99** | **263** | **89** | **243** |
| **Amorteiddio** | | | | |
| Ar 1 Ebrill | 51 | 132 | 42 | 118 |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 15 | 36 | 9 | 29 |
| Gwarediadau | - | (9) | - | (15) |
| Ailddosbarthiadau | - | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth** | **66** | **159** | **51** | **132** |
| **Gwerth Net ar y Llyfrau ar 31 Mawrth** | **33** | **104** | **38** | **111** |
| Gwerth Net ar y Llyfrau ar 1 Ebrill | 38 | 111 | 22 | 76 |

# 6. Asedau Ariannol – Buddsoddiadau a Benthyciadau

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG £m | Asedau Ariannol Eraill £m | Cyfanswm £m |
|---|---|---|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **3,828** | **-** | **1,138** | **4,966** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 891 | - | 299 | 1,190 |
| Gwarediadau/Dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (154) | - | (137) | (291) |
| Amhariadau | - | - | 7 | 7 |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| Enillion gwerth teg/(colledion) net ar Asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant) | 928 | - | (24) | 904 |
| Dileadau polisi | (26) | - | - | (26) |
| Ailddosbarthu | - | - | - | - |
| Addasiadau | - | - | (3) | (3) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **5,467** | **-** | **1,280** | **6,747** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | - | - | - |
| Ychwanegiadau | 893 | - | 164 | 1,057 |
| Gwarediadau/Dileadau | - | - | - | - |
| Ad-daliadau benthyciadau | (183) | | (130) | (313) |
| Amhariadau | | | (18) | (18) |
| Addasiad gwerth teg | - | - | - | - |
| Enillion gwerth teg/(colledion) net ar asedau ariannol yn ôl gwerth teg drwy SOCNE (gweler nodyn 3 Gwariant)[2] | 905 | - | (87) | 818 |
| Dileadau polisi | (30) | - | | (30) |
| Ailddosbarthu | - | - | (16) | (16) |
| Addasiadau | - | - | 3 | 3 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023**[1] | **7,052** | **-** | **1,196** | **8,248** |
| **Craidd Llywodraeth Cymru yn unig** | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **7,052** | **237** | **2,485** | **9,774** |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 5,467 | 223 | 2,495 | 8,185 |

[1] Wedi'i gynnwys yn y balans a gariwyd ymlaen mae £241m (2021-22: £179m) sy'n ddyledus o fewn blwyddyn.

[2] Caiff benthyciadau i fyfyrwyr eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Gellir priodoli'r cynnydd gwerth teg o £905m ar fenthyciadau myfyrwyr yn 2022-23 (2021-22: £928m) i'r newid yng nghyfradd ddisgownt Trysorlys EF sy'n berthnasol i offerynnau ariannol, a symudodd o minws 1.1 pwynt canran i minws 1.3 pwynt canran yn ystod y flwyddyn; y cynnydd yn yr RPI, ynghyd â dau newid deddfwriaethol a gyflwynwyd i rewi'r trothwy cyflog ar gyfer ad-daliadau ac i estyn y cap ar y gyfradd llog hyd at fis Mawrth 2023. Cynyddodd hyn werth cario'r balans benthyciad myfyrwyr wrth i werth ad-daliadau benthyciadau myfyrwyr yn y dyfodol godi. Ceir manylion pellach isod am fesur gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr ac amlygiad i risgiau isod. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu: Cymru yn cael eu mesur yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae rhagor o wybodaeth am falans agor a chau ased ariannol Cymorth i Brynu: Cymru a'r lefel hierarchaeth ar gyfer mesur gwerth teg i'w gweld yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

## Gwerth Enwol

Mae'r tabl isod yn rhoi cysoniad rhwng gwerth cario a gwerth enwol benthyciadau i fyfyrwyr a roddwyd.

| | Benthyciadau i Fyfyrwyr £m |
|---|---|
| **Balans ar 31 Mawrth 2021** | **6,163** |
| Ychwanegiadau | 891 |
| Ad-daliadau | (154) |
| Llog | 178 |
| Dileadau polisi | (26) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2022** | **7,052** |
| Ychwanegiadau | 892 |
| Ad-daliadau | (183) |
| Llog | 346 |
| Dileadau polisi | (29) |
| **Balans ar 31 Mawrth 2023**[1] | **8,078** |
| | |
| **Addasiadau/amhariadau cau ar gyfer gwerth teg:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **(1,026)** |
| Ar 31 Mawrth 2022 | (1,585) |
| | |
| **Gwerth cario:** | |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **7,052** |
| Ar 31 Mawrth 2022 | 5,467 |

Trafodir amlygiad y grŵp i risgiau amrywiol sy'n gysylltiedig â'r offerynnau ariannol yn y polisïau cyfrifyddu. Yr amlygiad mwyaf i risg credyd ar ddiwedd y cyfnod adrodd yw swm cario pob dosbarth o ased ariannol a grybwyllir uchod.

Mae'r dileadau polisi yn cynnwys symiau a ddilewyd gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr mewn perthynas â chanslo'n rhannol, oedran, marwolaeth, methdaliad a methu â gweithio.

## 6.1 Benthyciadau i Fyfyrwyr

Mae benthyciadau i fyfyrwyr mewn addysg uwch ac addysg bellach yn tarddu o Lywodraeth Cymruac yn cael eu cydnabod ganddi.

### Benthyciadau i fyfyrwyr

O dan IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu cydnabod yn ôl gwerth teg drwy'r Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SOCNE). Wrth bennu gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio model llif arian wedi'i ddisgowntio (gweler isod) sy'n cynnwys yr holl lifoedd arian parod disgwyliedig, gan gynnwys y llog y disgwylir iddo ddod i law. O ganlyniad, cydnabyddir un symudiad gwerth teg bellach yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

Wrth ystyried dibynadwyedd y mewnbynnau a ddefnyddir wrth benderfynu ar werth teg, mae benthyciadau i fyfyrwyr wedi'u categoreiddio fel mewnbynnau lefel 3 o dan y safonau cyfrifyddu, a ddiffinnir fel hyn: *If one or more of the significant inputs is not based on observable market data, the instrument is included as level 3*. Mae gwerth teg benthyciadau i fyfyrwyr, felly, yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio model ariannu Llwybr Enillion Stochastic (StEP) a ddarperir gan Adran Addysg Llywodraeth y DU.

Cyfrifir gwerth teg benthyciadau newydd hefyd gan ddefnyddio'r model StEP sy'n defnyddio data am ddemograffeg myfyrwyr addysg uwch er mwyn darogan y tebygolrwydd y byddant yn ad-dalu benthyciadau. Mae sawl amrywiad o'r model, wedi'u haddasu ar gyfer benthycwyr sy'n cymryd gwahanol fathau o fenthyciadau: benthyciadau cyn 2012 ac ôl-2012 (benthyciadau Israddedig, Rhan-Amser a Meistr a Doethuriaeth Ôl-raddedig). Mae'r modelau i gyd yn dibynnu ar set gymhleth o ragdybiaethau, ac yn arbennig enillion benthycwyr. Modelau hirdymor yw'r rhain, ond maent yn defnyddio rhagolygon hirdymor a byrdymor diweddaraf (adeg y modelu) y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer RPI, cyfraddau sylfaenol a thwf enillion. Wrth eu natur, mae gwerth y llyfrau benthyciadau i fyfyrwyr yn ansicr gan eu bod yn dibynnu i raddau helaeth ar amgylchiadau macroeconomaidd ac enillion graddedigion dros y 30 mlynedd nesaf, yn ogystal â nifer o ragdybiaethau cymhleth eraill. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y modelau ad-dalu'n cael eu hadolygu'n ffurfiol bob blwyddyn ac mae'r symiau'n adlewyrchu'r amcangyfrif fel yr oedd ar 31 Mawrth 2023.

Ar gyfer 2022-23, mae Llywodraeth Cymru wedi dechrau defnyddio 1 pwynt canran o gynnydd/gostyngiad ar gyfer holl amodau economaidd dadansoddi sensitifrwydd benthyciadau myfyrwyr. Yn y gorffennol, mae Llywodraeth Cymru wedi defnyddio cyfuniad o bwyntiau canran, codiadau/gostyngiadau canran, ac 0.1 pwynt canran ar gyfer y gyfradd ddisgownt. Yn ein barn ni mae defnyddio 1 pwynt canran o gynnydd neu ostyngiad: er enghraifft ar gyfer newidyn 9%, effaith cymhwyso 8% neu 10% ar gyfer pob newidyn, yn rhoi dadansoddiad cliriach a symlach o effaith symudiadau yn y newidynnau, yn enwedig mewn blynyddoedd lle mae llawer o anwadalrwydd mewn amodau economaidd. Ni ellir cymharu'r canlyniadau hyn yn uniongyrchol â datgeliad 2021-22.

## Newidynnau Allweddol

Disgrifir isod y newidynnau allweddol a'r rhagdybiaethau a ddefnyddir yn y model. Yn ogystal, mesurir sensitifrwydd gwerth llyfr net benthyciadau i fyfyrwyr, ar 31 Mawrth 2023, i bob newidyn:

**Cyfradd ddisgownt:** Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr egwyddorion o dan IFRS 9 ac wedi defnyddio'r gyfradd uchaf sy'n perthyn i'r benthyciad myfyrwyr neu'r gyfradd fel y'i nodir ym mhapur diweddaraf System Gwariant Cyhoeddus (PES) Trysorlys Ei Fawrhydi, sef RPI minws 1.3% (2021-22: minws 1.1%). Hon yw cyfradd ddisgownt hirdymor Trysorlys EF, sef cost benthyca hirdymor Llywodraeth Cymru. Ar gyfer pob 1 pwynt canran o gynnydd yng nghyfradd ddisgownt Trysorlys EF bydd gostyngiad o £686.4m yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn golygu cynnydd o £744.2m.

**Chwyddiant RPI:** Mae'r model yn defnyddio cyfraddau RPI yn unol â rhagolygon tymor byr yr OBR (Mawrth 2023) tan 2027-28, a phenderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR o 2028-29 ymlaen. Arferid defnyddio RPI mis Hydref, ond eleni defnyddir cyfradd mis Mawrth er mwyn cyd-fynd yn agosach â Gweinyddiaethau eraill. Mae'r rhagolwg RPI hirdymor yn sefydlogi ar gyfradd o 2.00% o 2030-31. Bydd RPI uwch yn cynyddu llog ar gyfer y mwyafrif o benthyciadau, a fydd yn arwain at ostyngiad yn y swm cario. Mewn cyfnodau lle ceir lefel uchel o RPI, gellir galluogi darpariaethau deddfwriaethol er mwyn lleihau dros dro yr uchafswm llog sy'n daladwy ar Gynllun 2 a Chynllun 3 benthyciadau i fyfyrwyr. Bydd cynnydd o 1 pwynt canran yn yr RPI a ragwelir yn arwain at ostyngiad o £370.7m yn llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at gynnydd o £351.8m yn y llyfrwerth.

**Enillion graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd twf enillion enwol cyfartalog tymor byr yn unol â rhagolygon tymor byr yr OBR (Mawrth 2023) tan 2027-28, a phenderfynyddion economaidd hirdymor yr OBR o 2028-29 ymlaen. Tybir bod twf enillion hirdymor ar gyfradd o 3.71% o 2028-29, a 3.83% o 2036-37. Bydd cynnydd mewn enillion graddedigion yn cynyddu gwerth cario benthyciadau i fyfyrwyr. Ar gyfer pob cynnydd o 1 pwynt canran mewn enillion graddedigion, bydd llyfrwerth net y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr yn cynyddu £370.1m; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £412.1m yn llyfrwerth net benthyciadau myfyrwyr.

**Trothwy enillion graddedigion:** Cafodd y trothwy ad-dalu ar gyfer yr holl fenthyciadau ar ôl 2012 ei godi o 1 Ebrill bob blwyddyn o 2018-19 i 2021-22 yn unol â thwf enillion. Ar 15 Chwefror 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y bydd y trothwy ad-dalu (ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23) ar fenthyciadau ar ôl 2012 yn cael ei gynnal ar £27,295 y flwyddyn, sef yr un gyfradd ag ym mlwyddyn dreth 2021-22. Ar gyfer benthyciadau cyn 2012, trothwy enillion 2022-23 oedd £20,195 y flwyddyn. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dosbarthiad Incwm Graddedigion:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd dosbarthiadau incwm graddedigion yn y dyfodol yn debyg i rai graddedigion yn y gorffennol ac fe'u seilir ar ddata hanesyddol yr Arolwg o'r Llafurlu, Panel Aelwydydd Prydain a data gweinyddol a ddelir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Nid fu hyn yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Dileu'n rhannol:** Mae dileu'n rhannol yn bolisi gan Lywodraeth Cymru sy'n gymwys i fenthyciadau cynnal a chadw, lle y gellir cymhwyso dilead o hyd at £1,500 wrth gael yr ad-daliad cyntaf yn erbyn y benthyciad os nad oes gan y myfyriwr unrhyw daliadau, costau, treuliau neu gosbau heb eu talu mewn perthynas â'r benthyciad neu os ydynt yn torri cytundeb y benthyciad. Fel penderfyniad polisi, nid yw hyn wedi bod yn destun dadansoddiad sensitifrwydd.

**Cyfraddau sylfaenol:** Mae'r model yn rhagdybio y bydd cyfraddau sylfaenol Banc Lloegr yn cyd-fynd â rhagolygon yr OBR (Mawrth 2023) ar gyfer y rhagolwg cyfan. Cymhwysir cap cyfradd sylfaenol i gyfraddau llog Cynllun 1 pan fo'r gyfradd sylfaenol yn isel a'r gyfradd RPI yn gymharol uchel; bydd cynnydd yn y rhagolwg cyfradd sylfaenol yn cynyddu'r gwerth cario yn yr achos hwn. Bydd cynnydd o 1 pwynt canran yn y gyfradd sylfaenol yn arwain at gynnydd o £18.4m yn llyfrwerth y llyfr benthyciadau i fyfyrwyr; bydd gostyngiad o 1 pwynt canran yn arwain at ostyngiad o £28.9m.

Mae data hanesyddol dros y deng mlynedd diwethaf yn dangos sut mae newidiadau diweddar i dwf enillion, cyfraddau RPI a chyfraddau sylfaenol yn cymharu â'r lefelau presennol a'r rhagolygon hirdymor:

- Rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer twf enillion ar hyn o bryd yw 3.83%. Ar adeg y modelu, 5.77% oedd rhagolwg yr OBR ar gyfer cyfartaledd y flwyddyn ariannol o dwf enillion yn 2022-23; yn y deng mlwyddyn ariannol flaenorol, roedd ffigurau alldro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio rhwng 1.23% a 6.59%.
- Rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer RPI ar hyn o bryd yw 2.00%. Ar adeg y modelu, 12.91% oedd rhagolwg yr OBR ar gyfer RPI mis Mawrth yn 2022-23; yn y deng mlwyddyn ariannol flaenorol roedd ffigurau alldro'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amrywio rhwng 0.90% a 9.00%.
- Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd rhagdybiaeth hirdymor yr OBR ar gyfer cyfraddau sylfaenol yn codi i 3.90% yn 2071-72. Ar adeg y modelu, roedd rhagolwg yr OBR ar gyfer y gyfradd sylfaenol yn 2.34% ar gyfartaledd yn ystod 2022-23; yn ystod y deng mlwyddyn ariannol flaenorol, roedd yr alldroadau yn amrywio rhwng 0.10% a 0.75%.

Defnyddir nifer o ragdybiaethau eraill yn y model, ond nid yw newid y rhain i ganlyniadau rhesymol eraill yn cael effaith sylweddol ar werth y llyfrau benthyciadau. Mae llawer o'r rhagdybiaethau yn annibynnol ar ei gilydd, er y gallent newid ar yr un pryd.

Gellir dod o hyd i ddata ar y newidynnau allweddol uchod, gan gynnwys rhai hanesyddol, ar wefannau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (www.ons.gov.uk); y Swyddfa'r Cyfrifoldeb Cyllidebol (www.obr.uk); a Banc Lloegr (www.bankofengland.co.uk).

Mae gwybodaeth ystadegol am fenthyciadau i fyfyrwyr ar gael ar wefan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (y datganiad ystadegol diweddaraf: Student Loans in Wales: 2022 i 2023 – GOV.UK (www.gov.uk).

### Cyfalaf Difidend Cyhoeddus Ymddiriedolaethau'r GIG

Cynrychiolir buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Ymddiriedolaethau'r GIG gan Gyfalaf Difidend Cyhoeddus (PDC). Delir PDC yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9 ar gost hanesyddol, llai amhariadau – yn gyson â blynyddoedd blaenorol. Adeg cyfuno Ymddiriedolaethau'r GIG caiff y buddsoddiad PDC ei ddileu.

## 6.2 Asedau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi offerynnau ariannol, yn enwedig benthyciadau, i gyrff eraill y sector cyhoeddus yng Nghymru a chyllid a benthyciadau i fusnesau i gefnogi datblygu economaidd. Mae'r benthyg hwn yn digwydd fel rhan o'i gweithgareddau arferol ac nid yw Llywodraeth Cymru yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch masnachu yn yr offerynnau ariannol hyn. Fel offerynnau dyled syml delir y mwyafrif o asedau ariannol Craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer casglu llif arian parod contractiol, ac felly maent yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio o dan IFRS 9. Mae asedau ariannol Cymorth i Brynu – Cymru yn cael eu dal yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, ac maent yn cael eu dileu o'r cyfrif Craidd wrth i Fanc Datblygu Cymru gael ei gyfuno. Ni ddelir unrhyw asedau ariannol perthnasol yn ôl gwerth teg drwy Wariant Net Cynhwysfawr Cyfunol Arall yn y cyfrif Craidd.

Cyfrifir gwerth teg llyfr benthyciadau rhannu ecwiti Cymorth i Brynu – Cymru drwy nodi llifoedd arian parod disgwyliedig yn y dyfodol a disgowntio'r rhain ar gyfradd briodol. Mae'r cyfrifiad hwn yn defnyddio nifer o ragdybiaethau, yn enwedig rhagolwg ar gyfer y Mynegai Prisiau Tai (HPI) yn y dyfodol, cyfradd ddisgownt yn seiliedig ar ystod o fondiau tai tebyg a phroffil adbryniadau benthyciadau. Mae'r model yn defnyddio data trafodiadau arsyladwy a data rhagolwg HPI, a ddarperir drwy ddadansoddiad annibynnol o'r farchnad, i ragweld y gyfradd HPI hirdymor yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion am fodel gwerth teg Cymorth i Brynu – Cymru yng nghyfrifon Banc Datblygu Cymru PLC.

Wedi'i gynnwys yn 'Asedau Ariannol Eraill' ar 31 Mawrth 2023 roedd buddsoddiad o £17.8m ym Maes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyfyngedig (CIAL) drwy WGC Holdco Limited a benthyciad o £26.3m gan Lywodraeth Cymru i CIAL. Yn y flwyddyn ariannol 2020-21 o ganlyniad i effaith y pandemig COVID-19 ar y diwydiant awyrennau a gweithrediadau CIAL, penderfynodd Llywodraeth Cymru ddileu £42.6m o ddyled y maes awyr (gan gynnwys llog wedi cronni) i sicrhau'r debygoliaeth orau o adennill y benthyciad, gan adael balans o £26.3m o fenthyciad ar 31 Mawrth 2022. Fe wnaeth cau'r maes awyr oherwydd COVID-19 am ran helaeth o 2020-21 effeithio hefyd ar brisiad WGC Holdco ac felly fuddsoddiad Llywodraeth Cymru yn y maes awyr, gan arwain at amhariad o £43.5m a phrisiad buddsoddi o £17.8m ar 31 Mawrth 2022. Ni fu unrhyw newidiadau i'r prif fenthyciad a'r gwerthoedd buddsoddi yn 2022-23.

Mae'r asedau ariannol Grŵp eraill ac eithrio'r rhai â CIAL a nodir uchod yn cynnwys: buddiannau ariannol Llywodraeth Cymru mewn cyd-fentrau, benthyciadau a buddsoddiadau eraill, benthyciadau Buddsoddi i Arbed gydag Awdurdodau Lleol a chyrff cyhoeddus eraill £758m (2021-22: £747m); ac asedau a ddelir gan Fanc Datblygu Cymru PLC £390m (2021-22: £489m) ac asedau ariannol grŵp eraill £4m (2021-22: £1m).

# 7. Stocrestri

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Asedau Datblygu | 205 | 205 | 173 | 173 |
| Cyffuriau[1] | 22 | 58 | 28 | 61 |
| Deunydd telathrebu dros ben | - | - | - | - |
| Halen ffyrdd | 2 | 2 | 2 | 2 |
| Defnyddiau traul eraill | 1 | 93 | 1 | 122 |
| **Cyfanswm** | **230** | **358** | **204** | **358** |

[1] Wedi'i gynnwys yn y stocrestr cyffuriau craidd ar 31 Mawrth 2023 mae £3.9m (2021-22: £8.9m) mewn perthynas â nwyddau traul COVID-19 gan gynnwys pecynnau prawf llif unffordd a meddyginiaethau a drosglwyddwyd i Lywodraeth Cymru o Adrannau eraill Llywodraeth y DU heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt, fel rhan o ymateb ehangach i'r pandemig COVID-19 a dosbarthu rhai cyflenwadau a gaffaelwyd gan Lywodraeth y DU.

# 8. Symiau Derbyniadwy drwy Fasnach, Asedau Ariannol ac Asedau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC[1] £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC[1] £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 196 | 490 | 205 | 341 |
| Treth arall | 15 | 16 | 13 | 98 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnus | 261 | 365 | 104 | 169 |
| | **472** | **871** | **322** | **608** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau derbyniadwy drwy fasnach | 5 | 159 | 6 | 162 |
| Rhagdaliadau | 14 | 18 | 17 | 19 |
| Symiau derbyniadwy eraill | 12 | 35 | - | 1 |
| | **31** | **212** | **23** | **182** |
| **Cyfanswm** | **503** | **1,083** | **345** | **790** |

[1] Wedi'i gynnwys yng nghyfanswm derbyniadau Grŵp drwy fasnach mae £242m (2021-22: £245m) o fenthyciadau a ddelir ar gost amortedig gan Fanc Datblygu Cymru PLC. Mae cynnwys ffigurau mewn symiau derbyniadwy drwy fasnach yn adlewyrchu'r ffordd y cânt eu trin yn y cyfrifon archwiliedig sylfaenol gan fod trafodiadau benthyciadau ar gyfer Banc Datblygu Cymru PDC yn rhan o'u busnes craidd.

# 9. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **161** | **1,482** | **640** | **1,828** |
| Cyrff sydd newydd gael eu cyfuno | - | | - | 8 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod | (133) | (128) | (479) | (354) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **28** | **1,354** | **161** | **1,482** |
| **Roedd y balansau canlynol yn cael eu dal yn:** | | | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 26 | 197 | 149 | 344 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | 2 | 1,157 | 12 | 1,138 |
| **Cyfanswm** | **28** | **1,354** | **161** | **1,482** |

# 10. Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Symiau sy'n ddyledus cyn pen un flwyddyn:** | | | | |
| Trethi a nawdd cymdeithasol | 3 | 128 | 2 | 86 |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | 1,135 | 2,311 | 1,099 | 2,195 |
| Incwm Gohiriedig yr Undeb Ewropeaidd | - | - | 60 | 60 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | 525 | 730 | 938 | 1,146 |
| Symiau sy'n daladwy i Gronfa Gyfunol Cymru | 19 | 19 | 98 | 97 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill[1] | 10 | 15 | - | - |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd[1] | 5 | 50 | - | - |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd cyllid, PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill[1] | - | - | 10 | 35 |
| | **1,697** | **3,253** | **2,207** | **3,619** |
| **Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn:** | | | | |
| Symiau taladwy drwy fasnach a symiau taladwy eraill | - | 18 | - | 2 |
| Croniadau eraill ac incwm gohiriedig | - | 14 | - | 104 |
| Rhwymedigaethau o dan PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill | 322 | 360 | 142 | 186 |
| Rhwymedigaethau o dan lesoedd[1] | 51 | 337 | - | 85 |
| | **373** | **729** | **142** | **377** |
| **Cyfanswm** | **2,070** | **3,982** | **2,349** | **3,996** |

[1] Rhannwyd ac ailenwyd penawdau ar gyfer 2022-23 i adlewyrchu mabwysiadu IFRS 16 a dileu'r gwahaniaeth rhwng lesoedd cyllid a lesoedd gweithredol.

# 11. Darpariaethau ar gyfer Atebolrwyddau a Thaliadau

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Balans ar 1 Ebrill** | **1,632** | **1,731** | **1,306** | **1,410** |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 419 | 476 | 625 | 702 |
| Darpariaethau nad oes mo'u hangen ac a adferwyd | (217) | (244) | (158) | (168) |
| Trosglwyddo | (23) | (24) | - | (4) |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn | (173) | (203) | (141) | (209) |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,638** | **1,736** | **1,632** | **1,731** |
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 398 | 463 | 362 | 412 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 421 | 435 | 463 | 481 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 819 | 838 | 807 | 838 |
| **Balans ar 31 Mawrth** | **1,638** | **1,736** | **1,632** | **1,731** |

## Grŵp Llywodraeth Cymru yn unig

| | Other £m | Welsh Risk Pool[1] £m | Total £m |
|---|---|---|---|
| **Dadansoddi amseriad disgwyliedig llifoedd wedi'u disgowntio:** | | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 76 | 387 | 463 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | (20) | 455 | 435 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 181 | 657 | 838 |
| **Cyfanswm** | **237** | **1,499** | **1,736** |

[1] Cynhelir Cronfa Risg Cymru fel rhan o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre, y mae ei chyfrifon i'w gweld yn www.www.felindre.gig.cymru/.

## 11.1 Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Craidd Llywodraeth Cymru yn cynnwys:

### Darpariaethau Iechyd

Mae gan Lywodraeth Cymru ddarpariaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd, ar gyfer Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (WIBSS) ac ad-daliadau Cronfa Risg Cymru a ddisgwylir yn y dyfodol.

Mae WIBSS yn darparu un cynllun symlach o daliadau cymorth ex gratia i unigolion a'u teuluoedd y mae hepatitis C a HIV wedi effeithio arnynt wedi iddynt gael eu trin â gwaed halogedig yng Nghymru.

Ar 25 Mawrth 2021 cyhoeddwyd trefniadau cymorth ariannol ychwanegol wedi'u hôl-ddyddio hyd at fis Ebrill 2019 (i sicrhau cydraddoldeb ar draws pedwar cynllun y DU) ar gyfer buddiolwyr presennol. Y balans ar ddarpariaeth WIBSS, ar 31 Mawrth 2023, yw £122.1m (2021-22: £166.8m).

Mae darpariaethau WIBSS yn seiliedig ar y cyfraddau taliadau cydradd newydd gyda codiad chwyddiant CPI yn cael ei gymhwyso i'r llif arian parod yn y dyfodol. Mae'r rhain wedyn yn cael eu disgowntio yn ôl y cyfraddau a gyhoeddir bob blwyddyn yn y papur PES.

O 2021-22, mae taliadau blynyddol yn cael eu chwyddo gan y cyfraddau chwyddiant CPI a gynhwysir yn y papur PES a gyhoeddir bob mis Rhagfyr. Mae'r newid o'r mynegeion CIH i CPI yn cyd-fynd â gwledydd eraill y DU ers cyflwyno'r taliadau cydradd. Cafodd y taliadau eu codi i'r cyfraddau newydd am y tro cyntaf yn 2021-22 (gan gynnwys elfennau wedi'u hôl-ddyddio o 2018-19 ymlaen).

Ar 17 Awst 2022, yn dilyn argymhellion a wnaed yn yr astudiaeth fframwaith iawndal ac yn adroddiad interim cyntaf yr Ymchwiliad, cyhoeddodd Llywodraeth y DU y byddai taliadau iawndal interim o £100,000 yn cael eu talu i fuddiolwyr presennol a phartneriaid unigolion a fu farw a oedd yn derbyn taliadau cymorth rheolaidd ar adeg y cyhoeddiad. Ar 31 Mawrth 2023, roedd £22.2m wedi'i dalu.

Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn helpu cyrff GIG Cymru gyda rheoli risg a setlo hawliadau y mae anghydfod yn eu cylch ar gyfer honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster fel cyflogwr. Balans WRP ar 31 Mawrth 2023 yw £1,499m (2021-22: £1,430m).

Mae sefydliadau GIG Cymru yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu ddeongliadol ar gyfer esgeulustod clinigol, anafiadau personol a chostau amddiffyn y mae eu hamseru neu eu swm yn ansicr ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r gwariant sydd ei angen i setlo'r rhwymedigaeth. Ariennir hawliadau drwy Wasanaethau Cronfa Risg Cymru (WRPS) sy'n derbyn dyraniad brigdor blynyddol gan Lywodraeth Cymru i dalu am gost ceisiadau am ad-daliad a gyflwynir i'r Pwyllgor WRPS bob deufis. Mae unrhyw ddiffyg yn cael ei fodloni'n uniongyrchol gan aelodau ar sail rhannu risg y cytunwyd arno.

Gwneir amcangyfrifon sylweddol mewn perthynas â hawliadau sydd ar y gweill am esgeulustod clinigol ac anafiadau personol. Darperir rhagdybiaethau o ran y canlyniad tebygol, yr atebolrwyddau posibl ac amseriad yr hawliadau ymgyfreitha hyn gan gynghorwyr cyfreithiol annibynnol.

Gwneir darpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn unol ag IAS 37. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer achosion tebygol ac achosion sicr yn seiliedig ar amcangyfrifon achos o hawliadau unigol a dderbyniwyd gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg Partneriaeth Cydwasanaethau. GIG Cymru. Mae'r cyfreithwyr yn amcangyfrif gwerth yr achos gan gynnwys ffioedd amddiffyn, gan ddefnyddio barn broffesiynol a thrwy gael cyngor gan gwnsler. Yna caiff prisiadau eu disgowntio ar gyfer yr elfennau colli yn y dyfodol gan ddefnyddio disgwyliad oes unigol a thablau actiwaraidd Adran Actiwari'r Llywodraeth (tablau Ogden) a chyfradd ddisgownt anafiadau personol o minws 0.25%. Mae atebolrwyddau'r dyfodol ar gyfer achosion penodol a thebygol sydd â thebygolrwydd o 95%-100% a 50%-94% yn y drefn honno yn cael eu dal fel darpariaeth ar y fantolen. Fel arfer, mae achosion yn cymryd nifer o flynyddoedd i'w setlo, yn enwedig ar gyfer achosion gwerth uchel lle mae angen cyfnod datblygu i sefydlu hyd a lled yr anaf a achoswyd.

Mae'r rhan fwyaf o hawliadau gwerth uchel (>£1m) yn cael eu setlo gyda Gorchymyn Talu Cyfnodol (PPO) lle telir rhan neu'r cyfan o werth terfynol y setliad dros oes yr hawliwr. Pan fydd achosion yn cael eu setlo gyda threfniant PPO, crëir darpariaeth unigol drwy luosi gwerth talu blynyddol cysylltiedig mynegai'r hawlwyr â nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes. Mae nifer y blynyddoedd o ddisgwyliad oes yn cael ei ddisgowntio yn ôl lluosyddion tabl Ogden gan ddefnyddio cyfradd ddisgownt enwol Trysorlys EF ar gyfer darpariaethau cyffredinol a gyhoeddir yn flynyddol ym mhapur PES, ynghyd â ffactor chwyddiant.

Mae Cronfa Risg Cymru yn rhan o Gydwasanaethau GIG Cymru, a gynhelir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae rhagor o fanylion am gyfrifo darpariaethau a'r gorchmynion talu cyfnodol wedi'u cynnwys yng nghyfrifon Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Yn unol â Chyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i gefnogi amgylchiadau lle'r oedd rheolau treth pensiynau wedi effeithio ar staff clinigol a oedd eisiau gweithio oriau ychwanegol, ac mae wedi penderfynu bod staff clinigol sy'n aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG ac sydd, o ganlyniad i waith a wnaed ym mlwyddyn dreth 2019-20, yn wynebu talu treth ar dwf eu budd-daliadau pensiwn GIG, yn cael dewis bod Cynllun Pensiwn y GIG yn talu'r tâl hwn a bod eu pensiwn yn cael ei leihau pan fyddant yn ymddeol. Bydd swm cyfatebol yn cael ei dalu pan fyddant yn ymddeol gan sicrhau eu bod yn cael iawndal llawn am effaith y didyniad. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ariannu'n llawn gan Lywodraeth Cymru heb unrhyw gost net i gyflogwyr y GIG. Roedd gan staff clinigol tan 31 Mawrth 2022 i ddewis y cynllun hwn a gallent wneud newidiadau hyd at 31 Gorffennaf 2026. Codwyd darpariaeth o £21.5m mewn perthynas â hyn yn 2021-22. Ar 31 Mawrth 2023 mae'r ddarpariaeth wedi gostwng i £11.7m, a hynny'n bennaf oherwydd newidiadau yn y gyfradd ddisgownt net a ddefnyddir at ddibenion cyfrifyddu.

### Darpariaethau Eraill

Mae hyn yn cynnwys amrywiol atebolrwyddau phensiynau a chyflogaeth mewn perthynas â chyn-gyflogeion a darpariaeth sy'n gysylltiedig â gweithgarwch cyflenwi Llywodraeth Cymru.

## 11.2 Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru

Mae Darpariaethau Grŵp Llywodraeth Cymru yn cynnwys y darpariaethau Craidd a nodir uchod, a darpariaethau a ddelir gan endidau cyfunol. Darpariaethau eraill y GIG yw'r rhain yn bennaf, gan gynnwys pensiynau a darpariaethau ar gyfer y £25,000 cyntaf o hawliadau esgeuluster clinigol nad yw'n cael ei ad-dalu gan Gronfa Risg Cymru.

# 12. Atebolrwyddau Digwyddiadol

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/ esgeuluster cyflogwr | 1,193 | 1,216 | 1,267 | 1,288 |
| Rhwymedigaethau contractiol posibl o dan Ddeddf WDA 1975 | 10 | 10 | 10 | 10 |
| Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill | 450 | 458 | 94 | 95 |
| Cynllun uwch-noddwyr Wcráin | 15 | 15 | - | - |
| **Cyfanswm** | **1,668** | **1,699** | **1,371** | **1,393** |

**(i) Hawliadau Cyfreithiol – honiadau o esgeuluster meddygol/esgeuluster cyflogwr**

Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod rhaid i Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Cymru 2006 dalu atebolrwyddau Cronfa Risg Cymru os bydd cyrff y GIG yn peidio â bodoli. Cynhwysir hefyd atebolrwyddau digwyddiadol sy'n ymwneud â hawliadau cyfreithiol o dan Gynllun Atebolrwyddau'r Dyfodol y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol.

**(ii) Hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill**

Mae hawliadau cyfreithiol a chontractiol eraill yn cynnwys hawliadau cyfreithiol a chontractiol sydd ar y gweill ac atebolrwyddau digwyddiadol sy'n gysylltiedig ag indemniadau a gwarantau contractiol. Ar 31 Mawrth 2023, cynhwysir atebolrwydd digwyddiadol newydd o £351m mewn perthynas â chynlluniau Model Buddsoddi Cydfuddiannol Addysg gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Sir y Fflint. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi nodiadau addewidiol ynghylch y bwriad i ddyroddi Llythyrau Cymeradwyo Cyllid ar gyfer cyfraniadau i Daliadau Gwasanaeth Blynyddol dros gyfnod o 25 mlynedd. Disgwylir i hyn ddechrau yn 2024-25. Bu cynnydd o £5m yng gwerth yr atebolrwyddau digwyddiadol presennol ar gyfer indemniadau neu warantau contractiol masnachol oherwydd ffactorau chwyddiant. Ni chyhoeddwyd unrhyw warantau newydd.

**(iii) Cynllun uwch-noddwyr Wcráin**

Mae Llywodraeth Cymru yn uwch-noddwr o dan gynllun Cartrefi i Wcráin Llywodraeth y DU. Mae nawdd yn golygu bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi cymorth i bobl o Wcráin, a oedd wedi cael fisâu o dan y cynllun uwch-noddwyr, i ddod i Gymru i gael llety a chymorth yn ystod y chwe mis cyntaf. Ar 31 Mawrth 2023, mae gan Lywodraeth Cymru atebolrwydd digwyddiadol o £15m mewn perthynas â'r costau llety posibl i bobl o Wcráin sydd â fisa o dan y cynllun. Ers 10 Mehefin 2022, nid oes unrhyw geisiadau newydd yn cael eu derbyn.

## 12.1 Atebolrwyddau Digwyddiadol Heb eu Meintioli

### Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Future Valleys Project Co Limited (Cymoedd y Dyfodol) i ddylunio ac adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Er bod risgiau sylweddol wedi'u trosglwyddo i Gymoedd y Dyfodol, fel rhan o'r contract, mae rhai ohonynt yn dal i fod yn nwylo Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys costau ychwanegol cyfyngedig sy'n gysylltiedig â phandemig, tariffau masnach a godir ar nwyddau penodol sy'n deillio o ymadael â'r UE, a diffygion cudd posibl sy'n ymwneud â strwythurau penodol sy'n bodoli eisoes pe bai unrhyw rai'n cael eu darganfod. Nid oes unrhyw newidiadau ar gyfer 2022-23

Ar ddyddiad y fantolen ar 31 Mawrth 2023, ni ellir gwneud amcangyfrif dibynadwy i alluogi creu darpariaeth, a datgelir atebolrwydd digwyddiadol heb ei feintioli.

### Atebolrwyddau Digwyddiadol Cyfrinachol na ellir eu Meintioli

Mae gan Lywodraeth Cymru rai atebolrwyddau digwyddiadol na ellir eu meintioli, nad oes modd eu datgelu oherwydd cyfrinachedd cyfreithiol. Ar hyn o bryd nid oes sicrwydd ynghylch yr amseriad na'r all-lif ariannol, os oes rhai o gwbl, ac o'r herwydd ni ellir meintioli'r effaith ariannol.

## 12.2 Atebolrwyddau Digwyddiadol Annhebygol

Cyflwynir atebolrwyddau digwyddiadol yma lle bernir bod y debygoliaeth o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn annhebygol. Oherwydd hyn, nid ydynt yn bodloni meini prawf IAS 37 i'w datgelu yn y datganiadau ariannol, ond fe'u cyflwynir yma at ddibenion tryloywder. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd lle mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i warantau neu indemniadau, ond lle nad oes arwyddion ar hyn o bryd y bydd y rhain yn cael eu defnyddio. Er bod yr holl gamau lliniaru wedi'u cymryd ac y byddant yn cael eu cymryd i leihau'r risg a'r amlygiad, ni ellir dileu'r risg yn llwyr. Os ystyrir bod hynny'n briodol, mae atebolrwyddau digwyddiadol yr ystyrir bod y tebygolrwydd y byddant yn digwydd yn fwy nag annhebygol yn cael eu datgelu yn Nodyn 12 uchod.

Yn 2019 cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwydd, gwarantau, indemniadau a cholledion posibl y gellir eu meintioli (sydd wedi'u datgelu) a rhai na ellir eu meintioli o dan y 'Cytundeb Grant' â'i ddarparwr (Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymru) a'r cytundeb indemniad ('held harmless agreement') â'r Adran Drafnidiaeth.

### Atebolrwyddau Digwyddiadol Annhebygol y gellir eu Meintioli:

£dim.

### Atebolrwyddau Digwyddiadol Annhebygol na ellir eu Meintioli:

#### Gwasanaethau Trenau

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu indemniad i'r darparwr gwasanaethau trenau yn erbyn newidiadau gan yr Adran Drafnidiaeth i daliadau cynlluniedig ar gyfer mynediad i draciau. Yn yr un modd mae Llywodraeth Cymru wedi'i hindemnio gan yr Adran Drafnidiaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwarant mewn perthynas â chyflogeion Network Rail sy'n ymuno â Thrafnidiaeth Cymru ac sy'n aros yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd os bydd unrhyw ddiffygion yn cael eu creu ar gyfer adran newydd y cynllun.

### Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465

Yn 2020, cytunodd Llywodraeth Cymru i sicrwyddau, indemniadau a cholledion posibl na ellir eu meintioli mewn perthynas â'r tri phwynt canlynol o dan y contract â chonsortiwm Cymoedd y Dyfodol i ddylunio ac adeiladu, ariannu a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (rhannau 5 a 6). Ar ddiwedd y contract, mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn tâl dileu swydd os nad yw rheoliadau TUPE yn gymwys ac nad oes cynigion cyflogaeth yn cael eu gwneud i staff cyd-ddarparwyr prosiectau/darparwyr gwasanaethau.

Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn newidiadau perthnasol yn y gyfraith; ar achosion o newidiadau diffiniedig penodol yn y gyfraith, mae'r partïon yn cytuno i addasu'r Tâl Gwasanaeth Blynyddol yn unol â hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi indemnio Cymoedd y Dyfodol yn erbyn risg na ellir ei hyswirio; os na ellir yswirio rhai risgiau, mae'r partïon yn cyfarfod i adolygu sut y bydd y risg yn cael ei rhannu. Os na cheir cytundeb, gellir terfynu'r cytundeb mewn ffordd sy'n debyg i force majeure, neu mae Llywodraeth Cymru yn cymryd risg yswiriant. Nid oes unrhyw dystiolaeth y bydd y tri maes hyn yn cael eu cynnwys, ac felly datgelir atebolrwydd ddigwyddiadol annhebygol heb ei feintioli.

### Gwarantau:

O dan amgylchiadau arbennig mae Llywodraeth Cymru'n gweithredu fel gwarantwr ar gyfer y cyrff a noddir ganddi neu mewn perthynas â gwaith seilwaith cyhoeddus. Nid oes yr un o'r gwarantau hyn yn berthnasol.

### Indemniadau:

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i indemnio cyrff Trosglwyddo Stoc Tai rhag canlyniadau ariannol tynnu'r Cynllun Lliniaru Treth ar Werth yn ôl neu ei ddiwygio yn y dyfodol.

Mae'r atebolrwyddau'n rhoi sicrwydd am £419m i ddeg sefydliad ac mae cyfnod yr atebolrwydd yn amrywio. Nid oes unrhyw bryderon ar hyn o bryd ynghylch parhad y cynllun, a bernir bod y posibilrwydd y bydd yr atebolrwydd yn aeddfedu yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd digwyddiadol.

Mae Cynllun Indemniad y Llywodraeth yn darparu indemniadau i alluogi Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Cymru, a sefydliadau cymwys eraill i gael benthyg gwrthrychau a gweithiau celf. Bernir bod y tebygolrwydd y gweithredir ar y gwarantau hyn yn rhy annhebygol i gael ei gynnwys fel atebolrwydd digwyddiadol.

Gwerth y gwarantau hyn ar 31 Mawrth 2023 oedd £44m (2021-22: £31m).

**Llythyrau Cysur:**

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Gronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW) ar gyfer atebolrwyddau o £1m yn y dyfodol. O gofio lefel sylweddol y cronfeydd wrth gefn yn RIFW, bernir bod ei bod yn dra annhebygol y bydd yr atebolrwydd hwn yn codi.

Mae Llywodraeth Cymru wedi dyroddi llythyr sicrwydd Busnes Gweithredol i Trafnidiaeth Cymru i gwmpasu atebolrwyddau presennol ac yn y dyfodol sy'n codi yn unol â'r cytundeb rheoli (rhwng Llywodraeth Cymru a Trafnidiaeth Cymru) a'r llythyrau cylch gwaith cyfnodol y mae Llywodraeth Cymru yn eu dyroddi i Trafnidiaeth Cymru.

## 13. Atebolrwyddau Eraill

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlCe £m | Grŵp LlC £m |
| Diffygion cronfeydd pensiwn | 6 | 7 | 11 | 35 |
| Cronfa Benthyciadau Gwladol (yn ddyledus ar ôl pum mlynedd)[1] | 10 | 10 | 11 | 10 |
| Benthyciadau banc Banc Datblygu Cymru | - | - | - | - |
| Arall[2] | - | - | - | 1 |
| **Cyfanswm** | **16** | **17** | **22** | **46** |

[1] Balansau'r Gronfa'r Benthyciadau Gwladol yw cronfeydd benthyciadau gwladol a gafodd eu benthyg ymlaen i Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn wreiddiol i Gorfforaeth Datblygu'r Canolbarth. Cafodd y rhain eu trosglwyddo wedyn i Fwrdd Datblygu Cymru Wledig (DBRW) yn yr 1980au; ac i Awdurdod Datblygu Cymru pan ddiddymwyd DBRW yn 1998. Ers i WDA gael ei ddiddymu yn 2006, Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am ad-dalu'r prifswm a llog.

[2] Roedd atebolrwyddau eraill yn cynnwys £0m (2021-22: £1m) sy'n cael eu datgelu fel atebolrwyddau cyfredol yn y Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

# 14. Symudiadau mewn Cyfalaf Gweithio heblaw Arian Parod

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 (Ailgyflwyno)[1] | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stocrestri (ac eithrio asedau datblygu) | 6 | 32 | (1) | 25 |
| **(Cynnydd)/gostyngiad mewn symiau derbyniadwy:** | | | | |
| Cyfredol | (149) | (261) | (101) | (205) |
| Anghyfredol | 6 | (16) | (4) | 45 |
| **Cynnydd/(gostyngiad) mewn symiau taladwy:** | | | | |
| Cyfredol | (515) | (396) | 67 | 183 |
| Anghyfredol | 174 | 165 | 67 | 57 |
| Elfen gyfalaf taliadau mewn perthynas â lesoedd a PFI a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill ar y fantolen | 17 | (239) | 10 | (38) |
| Addasiad arall | (2) | 59 | - | (1) |
| Llai symudiadau yn y cyflenwad Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy | 82 | 82 | 323 | 323 |
| Llai symudiadau yn yr incwm Cronfa Gyfunol Cymru sy'n daladwy | 2 | 2 | (1) | (1) |
| | **(379)** | **(572)** | **360** | **388** |

[1] Mae ad-dalu benthyciadau a thrafodiadau gyda Chronfa Gyfunol Cymru wedi'u hailgyflwyno i roi gwell eglurder o ran trafodiadau gyda'r Gronfa.

Mae symudiadau mewn cyfalaf gweithio heblaw arian parod ar gyfer 2021-22 yn adlewyrchu effaith symiau derbyniadwy a thaladwy a ddelid gan gyrff newydd eu cyfuno yn 2021-22.

# 15. Lesoedd

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu IFRS 16 ‘Leases’ o 1 Ebrill 2022, yn unol â FReM. Mae IFRS 16 yn disodli IAS 17 ‘Leases’ ac yn cael gwared ar y gwahaniaeth rhwng lesoedd gweithredol a lesoedd cyllid i lesddeiliaid.

## 15.1 Asedau Hawl-i-Ddefnyddio

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | |
|---|---|---|---|
| | Tir ac Adeiladau £m | Arall £m | Cyfanswm £m |
| **Cost neu brisiad** | | | |
| Cydnabyddiaeth gychwynnol ar 1 Ebrill 2022 | 177 | 28 | 205 |
| Ailddosbarthiadau[1] | 67 | 139 | 206 |
| Ychwanegiadau | 12 | 142 | 154 |
| Ailbrisiadau | (4) | - | (4) |
| Dadgydnabod | (21) | - | (21) |
| Ailfesur | - | - | - |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **231** | **309** | **540** |
| **Dibrisiant** | | | |
| Ailddosbarthiadau[1] | 6 | 57 | 63 |
| Codwyd tâl yn y flwyddyn | 24 | 45 | 69 |
| Ailbrisiadau | (1) | - | (1) |
| **Ar 31 Mawrth 2023** | **29** | **102** | **131** |
| **Swm cario ar 31 Mawrth 2023** | **202** | **207** | **409** |
| Adran graidd ar 31 Mawrth 2023 | 42 | - | 42 |
| Cyrff iechyd ac is-gwmnïau ar 31 Mawrth 2023 | 160 | 207 | 367 |

[1] Ar gyfer Craidd Llywodraeth Cymru, mae swm cario’r ailddosbarthu yn cynnwys £13m o Eiddo, Offer a Chyfarpar a £6m o Asedau Ariannol. Ar gyfer Grŵp Llywodraeth Cymru, mae swm cario’r ailddosbarthu yn cynnwys £104m o Eiddo, Offer a Chyfarpar sy’n gysylltiedig ag endidau is-gwmni a oedd eisoes wedi cymhwyso IFRS 16 cyn 1 Ebrill 2022 ac £20m o Eiddo, Offer a Chyfarpar ar gyfer cyrff Iechyd.

## 15.2 Atebolrwyddau Lesoedd

### Dadansoddiad aeddfedrwydd

| | Ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| **Tir ac adeiladau** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 6 | 25 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 20 | 83 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 34 | 103 |
| | **60** | **211** |
| Llai'r elfen log | (4) | (14) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **56** | **197** |
| **Arall** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | - | 37 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | - | 87 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | 99 |
| | **-** | **223** |
| Llai'r elfen log | - | (11) |
| **Gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **-** | **212** |
| **Cyfanswm gwerth presennol y rhwymedigaethau** | **56** | **409** |
| Cyfredol | 5 | 57 |
| Anghyfredol | 51 | 352 |

## 15.3 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Cost llog | 1 | 3 |
| Incwm is-lesoedd | (16) | (11) |
| Cost ar gyfer lesoedd gwerth isel a thymor byr | 1 | 6 |

## 15.4 Symiau a gydnabyddir mewn Datganiad o Lifoedd Arian

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | |
|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Cyfanswm all-lif arian parod ar gyfer lesoedd | 7 | 65 |

## 15.5 Cysoni rhwng IAS 17 'Operating Lease Commitments' ar 31 Mawrth 2022 ac IFRS 16 'Lease Liabilities' ar 1 Ebrill 2022

Mae'r tabl hwn yn cysoni swm ymrwymiadau lesoedd gweithredol Grŵp Llywodraeth Cymru ar 31 Mawrth 2022 â'r atebolrwyddau lesoedd ar 1 Ebrill 2022, yn union ar ôl mabwysiadu IFRS 16.

| | Grŵp LlC | |
|---|---|---|
| | £m | £m |
| **Ymrwymiadau lesoedd gweithredol ar 31 Mawrth 2022** | | **232** |
| **Addasiadau rhwng IAS 17 ac IFRS 16:** | | |
| Ymrwymiadau lesoedd cyllid ar 31 Mawrth 2022 | 106 | |
| Effaith disgowntio | (1) | |
| Ymrwymiadau lesoedd gwerth isel a byrdymor | (3) | |
| Addasiad ar gyfer TAW na ellir ei adennill, a adroddwyd o dan IAS 17 | (10) | |
| Asesu cyfnodau ymestyn lesoedd | 7 | |
| Taliadau gwasanaeth ac elfennau eraill sydd y tu allan i gwmpas IFRS 16 | (16) | |
| Arall | 6 | |
| Is-gyfanswm yr eitemau a gysonir | | 89 |
| **Atebolrwyddau les ar 1 Ebrill 2022** | | **321** |

# 16. Ymrwymiadau Cyfalaf ac Ymrwymiadau Eraill

## 16.1 Ymrwymiadau Cyfalaf

Ymrwymiadau cyfalaf wedi'u contractio sydd heb eu cynnwys fel arall yn y datganiadau ariannol hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 88 | 624 | 102 | 591 |
| Buddsoddiadau a benthyciadau | 10 | 10 | 16 | 16 |
| **Cyfanswm** | **98** | **634** | **118** | **607** |

## 16.2 Atebolrwyddau PFI a Threfniadau Consesiynau Gwasanaeth Eraill

Mae gan y Byrddau Iechyd Lleol naw contract PFI, y mae wyth ohonynt ar fantolen. Oherwydd cyflwyno IFRS 16, nodwyd yn 2022-23 bod y PFI presennol sydd oddi ar y fantolen yn cynnwys les, felly mae'r ased hawl-i-ddefnyddio sy'n ymwneud â'r les wedi'i gydnabod ar ôl trosglwyddo. Nid oes unrhyw gontractau â chyfanswm ymrwymiad unigol o fwy na £500m. Cynhwysir manylion y cynlluniau unigol yng nghyfrifon statudol y Bwrdd Iechyd Lleol unigol.

### 16.2.1 Ddim ar y fantolen

**Contract PFI Bute Avenue**

Ers 2000 mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i dalu £5.1m bob blwyddyn, yn gysylltiedig â'r mynegai, i'r contractwr preifat sy'n gysylltiedig â phrosiect Bute Avenue (PFI), tan fis Tachwedd 2025. Mae partner y sector preifat yn cynnal rhwydwaith ffyrdd Bute Avenue am 25 o flynyddoedd (o 2000-01). Ar ôl y cyfnod hwn caiff y ffordd ei throsglwyddo i Gyngor Sir Caerdydd. Nid yw'r ffordd yn ased i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas â thrafodiadau PFI nad ydynt ar y fantolen oedd £11,395,349 (2021-22: £9,726,967); ac mae'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt fel a ganlyn:

| | Ar 31 Mawrth 2023 £m | Ar 31 Mawrth 2022 £m |
|---|---|---|
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 10 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 24 | 31 |
| Hwyrach na phum mlynedd | - | - |
| **Cyfanswm** | **36** | **41** |

### 16.2.2 Ar y fantolen

#### Contract PFI yr A55

Cynhelir rhwydwaith ffyrdd yr A55 gan gontractwyr am gyfnod o 30 o flynyddoedd (o 1998), ac ar ôl hynny bydd perchnogaeth yr A55 yn mynd yn ôl i Lywodraeth Cymru. Mae'r ffordd yn cael ei thrin fel un o asedau Llywodraeth Cymru ac mae'r taliadau unedol yn cynnwys dwy elfen – taliadau lesoedd cyllid wedi'u priodoli a thaliadau gwasanaeth.

Y cyfanswm a godwyd yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr mewn perthynas ag elfen gwasanaeth PFI ar y fantolen neu drafodiadau consesiynau gwasanaeth eraill oedd £10,386,445 (2021-22: £4,572,817). Mae cyfanswm y rhwymedigaethau yn y dyfodol o dan PFI ar y fantolen a threfniadau consesiynau gwasanaeth eraill wedi'u cynnwys yn y tabl isod am bob un o'r cyfnodau hyn.

| | Ar 31 Mawrth 2023 £m | Ar 31 Mawrth 2022 £m |
|---|---|---|
| **Isafswm taliadau lesoedd** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 12 | 12 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 48 | 48 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 12 | 24 |
| | **72** | **84** |
| Llai'r elfen log | (7) | (9) |
| **Cyfanswm** | **65** | **75** |

| | Ar 31 Mawrth 2023 £m | Ar 31 Mawrth 2022 £m |
|---|---|---|
| **Elfennau gwasanaeth sy'n ddyledus yn y dyfodol** | | |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 8 | 10 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 9 | 14 |
| Hwyrach na phum mlynedd | (3) | - |
| **Cyfanswm** | **14** | **24** |

**Model Buddsoddi Cydfuddiannol yr A465**

Ar 28 Hydref 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gontract â Cymoedd y Dyfodol i ddylunio, adeiladu, cyllido a gweithredu cynllun i ddeuoli'r A465 rhwng Dowlais a Hirwaun (Rhannau 5 a 6). Ymrwymwyd i'r contract o dan Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru. Mae'r trefniant contractiol hwn yn bodloni'r diffiniad o drefniant consesiwn gwasanaeth ac mae i'w gyfrif ar y fantolen.

Mae'r prosiect yn cynnwys elfen adeiladu (wedi'i rhannu'n bum cam), ac yn y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol yn gyfrifol am droi'r A465 o Ddowlais Top i Hirwaun yn ffordd ddwy lôn ym mhob cyfeiriad. Daw'r cytundeb i ben 30 mlynedd ar ôl cwblhau'r cyfnod adeiladu terfynol ym mis Mai 2025, ac yn ystod y cyfnod hwnnw bydd Cymoedd y Dyfodol yn gweithredu ac yn cynnal Rhannau 5 a 6 o'r A465. Bydd taliadau gwasanaeth blynyddol yn daladwy gan Lywodraeth Cymru i Cymoedd y Dyfodol o ddyddiad cwblhau cam cyntaf yr adeiladu ym mis Gorffennaf 2024, hyd at ddiwedd y cytundeb. Cyfanswm yr ymrwymiad gan gynnwys TAW na ellir ei adennill yw £1,455m (2021-22: £1,455m), gyda £143m yn ddyledus yn hwyrach na blwyddyn a heb fod yn hwyrach na phum mlynedd (2021-22: £98m), a £1,312m yn ddyledus yn hwyrach na phum mlynedd (2021-22: £1,357m).

Mae ased sy'n cael ei adeiladu o £267m (2021-22: £78m) ac atebolrwydd cysylltiedig o £267m (2021-22: £78m) wedi cael eu cydnabod ar 31 Mawrth 2023 (wedi'u cynnwys yn Nodiadau 4 a 10).

## 16.3 Ymrwymiadau Ariannol Eraill

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gontractau na ellir eu dileu (nad ydynt yn lesoedd, contractau PFI na chonsesiynau gwasanaeth eraill ) ar gyfer gwasanaethau. Dyma'r taliadau y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, wedi'u dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad yn dod i ben ynddo:

| | Ar 31 Mawrth 2023 | | Ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m | Craidd LlC £m | Grŵp LlC £m |
| Ddim hwyrach nag un flwyddyn | 377 | 426 | 390 | 438 |
| Hwyrach nag un flwyddyn a ddim hwyrach na phum mlynedd | 233 | 327 | 323 | 463 |
| Hwyrach na phum mlynedd | 268 | 268 | 287 | 287 |
| **Cyfanswm** | **878** | **1,021** | **1,000** | **1,188** |

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant ar gyfer nifer o endidau yn flynyddol. Mae'r grantiau wedi'u hymrwymo yn rhan olaf y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 er mwyn rhoi sicrwydd i'r corff sy'n eu cael. Gan eu bod yn ymwneud â'r flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024 ac yn cael eu hariannu gan ddyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru am y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024, nid ydynt wedi'u datgelu o fewn yr ymrwymiadau uchod.

Mae Rheilffyrdd Trafnidiaeth Cymu (TfWRL) yn is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Trafnidiaeth Cymru, sydd bellach yn gyfrifol yn weithredol am ddarparu gwasanaethau rheilffordd yn ddiogel ac yn ddibynadwy i bobl a chymunedau Cymru a'r Gororau. Er bod TfWRL yn eiddo i Trafnidiaeth Cymru ac yn cael ei reoli'n llwyr ganddo, mae'n gweithredu o dan ei drwydded a'i gymeradwyaeth ei hun, a reoleiddir gan y Swyddfa Rheilffyrdd a Ffyrdd annibynnol yn ei rôl fel rheoleiddiwr diwydiant rheilffyrdd y DU.

Mae Cytundeb Grant Gweithredwr y Dewis Olaf rhwng TfWRL a Gweinidogion Cymru yn nodi cyfnod o bum mlynedd o 7 Chwefror 2021. Mae Gweinidogion Cymru yn ymwybodol o'r risgiau ariannu refeniw (farebox) posibl a'u dyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau i deithwyr o dan adran 30 o Ddeddf Rheilffyrdd 1993 dros y cyfnod hwn. O ystyried yr ansefydlogrwydd parhaus yn niferoedd y teithwyr yn dilyn y pandemig COVID-19, mae'n amhosibl amcangyfrif yn ddibynadwy werth y cymhorthdal hwn ar gyfer y blynyddoedd i ddod ar hyn o bryd.

Wedi'i gynnwys o fewn ymrwymiadau ariannol eraill mae £143m (2021-22: £188m) o ymrwymiadau TfWRL ar gyfer taliadau trac sefydlog, depo a mynediad i orsafoedd. Mae TfWRL wedi asesu'r taliadau hyn fel rhai nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o les o dan IFRS 16, felly maent wedi'u cynnwys fel ymrwymiadau ariannol eraill.

## 17. Trafodiadau Partïon Cysylltiedig

Mae Llywodraeth Cymru'n cael y rhan fwyaf o'i chyllid gan Gronfa Gyfunol Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r awdurdodau lleol, Cyrff y GIG yng Nghymru, is-gyrff a Chyrff a Noddir. Ystyrir y cyrff hyn yn bartïon cysylltiedig y mae Llywodraeth Cymru wedi cael amryw o drafodiadau perthnasol â hwy yn ystod y cyfnod. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cymru wedi cael nifer o drafodiadau gyda chyrff eraill y Llywodraeth a chyrff y Llywodraeth Ganolog, yn bennaf Swyddfa Cymru, yr Asiantaeth Taliadau Gwledig a'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Nid oes unrhyw rai o Weinidogion Cymru, staff rheoli allweddol na staff partïon wedi ymgymryd ag unrhyw drafodiadau partïon cysylltiedig â Llywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn, ac eithrio fel y nodir isod:

Mae Mark Drakeford (y Prif Weinidog) a Vaughan Gething (Gweinidog yr Economi) yn aelodau o Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro, a gafodd gyllid grant o £252,803 yn 2022-23.

Mae Lesley Griffiths (y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd) yn un o Is-lywyddion Eisteddfod Ryngwladol Llangollen a gafodd £77,000 o gyllid grant yn 2022-23.

Mae priod Jane Hutt (y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip) yn un o Ymddiriedolwyr a Chyfarwyddwyr Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro a gafodd daliad o £12,240 yn ystod y flwyddyn am wasanaethau a ddarparwyd i Lywodraeth Cymru.

Mae Jeremy Miles (Gweinidog y Gymraeg ac Addysg) a Rebecca Evans (y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol) yn aelodau o Undeb Credyd Celtic, a gafod £521,533 o gyllid grant yn 2022-23.

Mae Julie Morgan (y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol) yn un o Is-lywyddion Hosbis y Ddinas a gafodd £28,088 o gyllid grant yn 2022-23.

Mae Lynne Neagle (y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant) yn un o Is-lywyddion Ymddiriedolaeth Amgueddfa Torfaen a gafodd £98,704 o gyllid grant yn 2022-23.

Mae Ellen Donovan (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn un o gyfarwyddwyr anweithredol Gofal Canser Marie Curie a gafodd gyllid grant o £144,921 yn 2022-23. Mae hi hefyd yn un o gyfarwyddwyr anweithredol yr Awdurdod Meinwe Dynol a gafodd £62,450 o gyllid grant yn 2022-23.

Roedd Eluned Morgan, (y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol) (daeth y buddiant i ben ym mis Mawrth 2023) yn aelod blaenllaw o bwyllgor Gŵyl Syniadau Tyddewi a gafodd £6,365 o gyllid grant yn 2022-23.

Aled Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol) yw Cadeirydd Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a gafodd gyllid grant o £4,373,451 yn 2022-23.

Mae Gareth Lynn (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn Gadeirydd Annibynnol Ymddiriedolwyr Cynllun. Buddion Ymddeol (pensiwn) Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau. Gwneir y penodiad gan Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a thelir tâl cydnabyddiaeth amdano. Cafodd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau £39,853 am wasanaethau a brynwyd yn 2022-23.

Mae Meena Upadhyaya (Cyfarwyddwr Anweithredol) yn un o Ymddiriedolwyr Race Equality First a gafodd £252,564 gan gynnwys cyllid grant yn 2022-23. Mae Meena yn un o Ymddiriedolwyr Race Council Cymru a gafodd £160,875 gan gynnwys cyllid grant yn 2022-23.

Mae partner Tracey Burke yn un o lywodraethwyr Coleg Caerdydd a'r Fro a gafodd £67,190,525 yn 2022-23. Mae ei phartner hefyd yn Gadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr Prifysgol Metropolitan Caerdydd a gafodd £6,597,027, gan gynnwys grant a chyllid o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr UE, yn 2022-23. Cafodd Llywodraeth Cymru hefyd £10,700 o incwm gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd yn 2022-23, yn bennaf mewn perthynas â llogi ystafelloedd a digwyddiadau hyfforddi'r sector cyhoeddus.

Er bod trafodiadau partïon cysylltiedig wedi'u nodi a'u datgelu uchod ar gyfer Gweinidogion ac Uwch-swyddogion, sef trafodiadau rhwng Llywodraeth Cymru ac endidau y mae gan yr unigolion berthynas parti cysylltiedig â hwy, ni fyddent hwy wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r broses gaffael i ddyfarnu contractau na'r broses o ddyfarnu unrhyw grantiau.

Datgelir trafodiadau partïon cysylltiedig Cyrff y GIG yng Nghymru ac is-gyrff eraill yn eu cyfrifon cyhoeddedig eu hunain.

## 17.1 Canlyniadau Cwmnïau Cyfunol o dan Berchnogaeth Lwyr

| | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 | | Y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 | |
|---|---|---|---|---|
| | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m | Elw/(Colled) £m | Cyfalaf Cyfrannau a Chronfeydd Wrth Gefn £m |
| Grŵp Banc Datblygu Cymru[1] | (24) | 313 | (20) | 332 |
| Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP | 1 | 48 | - | 47 |
| WGC Holdco Limited | - | 18 | - | 18 |
| Careers Choices Dewis Gyrfa Limited | (5) | 24 | (5) | (17) |
| Grŵp Trafnidiaeth Cymru | (26) | 1,619 | (30) | 1,522 |

[1] Buddsoddiad o 49,999 o gyfranddaliadau £1 cyffredin, 25c wedi'u rhandalu.

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u cyfuno gan ddefnyddio ffigurau drafft os nad oes cyfrifon terfynol ar gael, gan nad ydynt yn sylweddol wahanol i'r rhai a ddatgelwyd.

## 17.2 Mân Is-gyrff a Buddiannau Eraill

Cynhwysir y Cyd-fentrau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

- Canolfan Gynadledda Ryngwladol Cymru Cyfyngedig – Mae Llywodraeth Cymru yn berchen ar 50% o'r cyfalaf cyfranddaliadau a ddyroddwyd ar gyfer y Ganolfan Gynadledda, ac mae'r 50% arall yn cael ei ddal gan The Celtic Manor Resort Limited.
- Airbus Endeavr Wales (EADS Foundation Wales gynt) – cyd-fuddiant mewn cwmni cyfyngedig drwy warant. Mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno ar y cyd ag Airbus Defence and Space Ltd (Cassidian Holdings Limited gynt) a Phrifysgol Caerdydd.

Ni chynhwysir y buddiannau canlynol gan Lywodraeth Cymru yn y cyfrifon cyfunol:

Adrannau Anweinidogol Llywodraeth Cymru – yn destun gorchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Awdurdod Cyllid Cymru

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru – yn destun gorchymyn dynodi ond yn amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Comisiwn Dylunio Cymru (Design Commission for Wales Limited)
- Hybu Cig Cymru Cyf
- Diwydiant Cymru (Sector Development Wales Partnership Limited)
- Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyfyngedig
- Y Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol
- Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol
- Busnes Rhyngwladol Cymru Cyfyngedig
- Comisiynydd Plant Cymru
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Cwmni Egino Limited
- GCRE Limited[1]
- Adnodd Cyfyngedig (Cwmni Adnoddau Addysg Dwyieithog)
- Estyn (Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru)
- Cymwysterau Cymru
- Cyngor y Gweithlu Addysg

[1] Mae gweithgareddau GCRE Limited yn 2022-23 yn fwy na'r lefel berthnasol ar gyfer cyfuno, ond maent yn berthnasol i Grŵp LlC yn ei gyfanrwydd. Er ei fod wedi'i ddynodi ar gyfer ei gyfuno, mae gwaith ar y gweill gyda'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i asesu a ellir diwygio'r dosbarthiad cychwynnol a neilltuwyd i GCRE yn ôl-weithredol. Disgwylir i broses y Swyddfa Ystadegau Gwladol o ddosbarthu GCRE Limited ddod i ben yn ddiweddarach ym mlwyddyn ariannol 2023 neu'n gynnar yn 2024.

Is-gwmnïau Llywodraeth Cymru nad ydynt yn destun gorchymyn dynodi ac sy'n amherthnasol at ddibenion cyfuno:

- Welsh Development Management Limited

**Student Loans Company Limited – y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr**

Mae Llywodraeth Cymru'n dal un gyfran â gwerth enwol o £1. Mae Llywodraeth Cymru yn berchen arno ar y cyd â'r Adran Addysg, Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Gogledd Iwerddon. Mae'r gyfran yn rhoi daliad o 5% yn y cwmni i Lywodraeth Cymru.

**Elusennau'r GIG**

Mae elusennau'r GIG yng Nghymru'n is-gwmnïau i'r Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Nid ydynt yn ddarostyngedig i orchymyn dynodi ac maent yn amherthnasol at ddibenion cyfuno.

Gellir dod o hyd i Gyfrifon Statudol endidau a nodir yn 17.1 a 17.2 ar eu gwefannau eu hunain neu ar wefan Tŷ'r Cwmnïau www.gov.uk/government/organisations/companies-house.

## 18. Digwyddiadau wedi'r Cyfnod Adrodd

Hysbyswyd cyrff GIG Cymru mewn cylchlythyr cyflogau a anfonwyd ar 25 Mai 2023 gan Lywodraeth Cymru, o'r trefniadau cyflog ychwanegol ar gyfer gweithwyr sy'n dod o dan delerau ac amodau'r Agenda ar gyfer Newid yng Nghymru ar gyfer 2022-23, a fydd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Bydd cyrff GIG Cymru yn gwneud "taliad adfer" anghyfunol, pro rata i staff a gyflogir ar delerau ac amodau'r Agenda ar gyfer Newid (mae hyn yn cynnwys y rhan fwyaf o staff y GIG, gan gynnwys staff nyrsio, ond nid yw'n cynnwys staff meddygol). Nid yw'r costau hyn wedi'u cydnabod yn natganiadau ariannol 2022-23 oherwydd mai'r digwyddiad rhwymo oedd cyhoeddi'r cynnig y cytunwyd arno gyda'r Gweinidog ar 20 Ebrill 2023, sydd felly ar ôl 31 Mawrth 2023. Bydd y costau'n cael eu cyfrif yng Nghyfrifon Blynyddol 2023-24 cyrff GIG Cymru. Y gost amcangyfrifedig yw £95m.

Ar 1 Ebrill 2023 disodlwyd y Cynghorau Iechyd Cymuned a oedd yn cael eu cynnal gan Fwrdd Iechyd Lleol Powys gan Llais, (Corff Llais y Dinesydd). Mae Llais yn gorff cenedlaethol annibynnol, a fydd yn cynrychioli pobl Cymru o ran siapio gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

### Rheoli concrit awyredig awtoclafiedig cyfnerth (RAAC)

Mae Llywodraethau'r DU yn ymwybodol o rai o ddiffygion RAAC ers y 1990au. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig eraill ers 2018 i ystyried y goblygiadau posibl o ran rheoli adeiladau sydd â RAAC ar draws ystad y sector cyhoeddus. Adroddodd Llywodraeth y DU (yr Adran Addysg) ar 31 Awst 2023 fod digwyddiadau wedi dod i'r amlwg dros gyfnod yr haf a oedd yn codi pryder ynghylch mwy o risg o ran diogelwch. Er mwyn ymateb, sefydlwyd gweithgor

ar draws Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r ymateb i'r mater cymhleth hwn sy'n symud yn gyflym.
Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu, ac wedi gofyn i berchnogion adeiladau sector cyhoeddus eraill a/neu berchnogion ystadau a/neu'r rhai sy'n gyfrifol am reoli safleoedd, gomisiynu arolygon newydd brys o adeiladau'r sector cyhoeddus gan gynnwys ysgolion. Nid oes RAAC wedi'i ganfod o fewn ystad weinyddol Llywodraeth Cymru. Mae safleoedd mewn pum ysgol, dwy brifysgol a thri choleg addysg bellach wedi'u nodi fel rhai â RAAC, ynghyd â chwe safle yn yn ystad GIG Cymru. Perchnogion yr adeilad a/neu'r ystad, y landlordiaid a/neu'r rhai sy'n gyfrifol am reoli'r safle sy'n gyfrifol am y risgiau a'r costau sy'n gysylltiedig â RAAC. Mae hyn yn cynnwys y costau sy'n gysylltiedig â nodi a rheoli RAAC.
Mae Llywodraeth Cymru yn buddsoddi yn yr ystad gyhoeddus drwy raglenni buddsoddi cyfalaf strategol fel y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy a rhaglen gyfalaf GIG Cymru Gyfan. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £12.8m i Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o gyllideb Gyfalaf GIG Cymru Gyfan i reoli ac adfer materion RAAC a nodwyd yn Ysbyty Llwynhelyg, Hwlffordd.

## 19. Awdurdodwyd i'w Cyhoeddi

Awdurdododd y Prif Swyddog Cyfrifyddu y datganiadau ariannol hyn i'w cyhoeddi ar 29 Tachwedd 2023.

# Atodiad A – Polisïau Cyfrifyddu

## A.1 Eiddo, Offer a Chyfarpar

### Asedau Rhwydwaith

Mae asedau rhwydwaith yn cael eu prisio ar gost amnewid ddibrisiedig (DRC) yn unol â'r canllawiau yn FReM ar gyfer asedau arbenigol nad oes prisiadau marchnad ar gael ar eu cyfer. Er mwyn cynhyrchu'r prisiadau hyn mae angen defnyddio rhagdybiaethau, amcangyfrifon a barn broffesiynol.

Ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd, y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yw'r System Prisio Asedau Awdurdodau Ffyrdd (RAAVS).

Ar gyfer y rhwydwaith rheilffyrdd mae'r gwaith ar y model a ddefnyddir i gynhyrchu'r prisiad yn cael ei wneud gan Trafnidiaeth Cymru (TrC) gyda chefnogaeth gan Atkins Limited (priswyr proffesiynol) gan ddefnyddio data a ddarperir gan TrC.

Cynhelir prisiadau llawn o asedau'r rhwydwaith bob pum mlynedd fan bellaf. Mae prisiadau interim yn defnyddio cyfres o gostau safonol i brisio cydrannau unigol asedau'r rhwydwaith a mynegeion i ailbrisio'r rhain yn flynyddol. Mae dyddiad y prisiad llawn diwethaf ar gyfer Asedau'r Rhwydwaith wedi'i gynnwys yn Nodyn 4.1.

#### Y Rhwydwaith Ffyrdd

Cydnabyddir bod y rhwydwaith cefnffyrdd yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau cymwys a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys pedair elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: tir; palmant ffordd; strwythurau (megis pontydd a chwlfertau); a chyfathrebu (megis arwyddion negeseuon electronig).

Mae'r elfen palmant ffordd yn cael ei phrisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunwyd arnynt i nodi cost adnewyddu gros mathau cymwys o ffyrdd ar sail adeiladu newydd ar safle maes gwyrdd. Caiff y cyfraddau hyn eu hailbrisio'n flynyddol gan ddefnyddio mynegeion i adlewyrchu prisiau cyfredol.

Caiff strwythurau eu prisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o strwythur ar safle maes gwyrdd lle mae'r rhain ar gael; ond caiff strwythurau arbennig, sy'n tueddu i fod yn unigryw eu natur, eu prisio gan ddefnyddio costau penodol sy'n cael eu diweddaru i'r prisiau cyfredol.

Caiff cyfathrebu ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau y cytunir arnynt i nodi cost amnewid mathau cymwys o gyfathrebu.

Caiff tir ei brisio gan ddefnyddio cyfraddau Asiantaeth y Swyddfa Brisio wedi'u rhannu yn ôl Awdurdod Lleol a gwerthoedd gwledig/trefol. Mae'r prisiad hefyd yn cynnwys asesiad o gostau iawndal prynu tir.

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cynnal potensial gwasanaeth y rhwydwaith ffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gyfalafu.

Mae ffyrdd newydd yn cael eu hailgategoreiddio o Asedau sy'n cael eu Hadeiladu pan fydd y manylion strwythurol wedi'u darparu gan yr awdurdod Asiant i'w mewnbynnu i'r model, a allai fod beth amser ar ôl i'r ffordd agor.

Cyfeirir at drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros gynnal a chadw darnau o'r ffordd fel rhan o'r rhwydwaith cefnffyrdd i rwydwaith yr Awdurdod Lleol neu oddi wrtho fel 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' yn eu trefn. Mae 'creu statws cefnffordd' neu 'dynnu statws cefnffordd' oddi wrth yr Awdurdodau Lleol neu ei roi iddynt yn cael ei drin fel trosglwyddiad oddi wrth adrannau llywodraeth eraill neu iddynt. Ymdrinnir â ffyrdd a strwythurau y tynnwyd eu statws fel gwarediadau o safbwynt cyfrifyddu heb unrhyw gost ynghlwm wrthynt. Mae'r elw neu'r golled gysylltiedig yn cael eu prosesu drwy'r gronfa gyffredinol.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

Palmant Ffordd a Strwythurau – Mynegai Baxter

Cyfathrebu – Mynegai BEAMA

Tir – Mynegeion tir a gynhyrchir gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisio. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw falans credyd a ddelir yn y gronfa ailbrisio nes i'r credyd ddodi ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

### Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Caiff ased rhwydwaith rheilffyrdd Llinellau Craidd y Cymoedd (CVL) ei chydnabod yn ased seilwaith unigol yn unol â'r canllawiau perthnasol a amlinellir yn FReM. Er hynny, mae'n cynnwys chwe elfen neilltuol y cyfrifir amdanynt yn wahanol: gwrthgloddiau; strwythurau; trydaneiddio, offer a signalau; eiddo gweithredol; traciau; a thelegyfathrebu.

Cyfrifir y gost amnewid ddibrisiedig (DRC) drwy bennu cost amnewid gros ar gyfer rhwydwaith CVL yn gyntaf. Yna caiff y gost amnewid gros ei haddasu (neu ei "dibrisio") i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o gyflwr a chapasiti rhwydwaith CVL; y gost amnewid gros hon wedi'i haddasu yw'r gost amnewid ddibrisiedig.

Pennir y gost amnewid gros yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae'r canllawiau'n gofyn am ragdybiaethau penodol gan gynnwys:

- ased cyfatebol modern sy'n cael ei drin fel rhwydwaith sy'n union yr un fath o ran swyddogaeth, graddfa a chysylltedd, ond a adeiladwyd gan ddefnyddio manylebau a dulliau modern;
- adeiladu ar unwaith ar safle maes gwyrdd.

Er mwyn pennnu'r prisiad DRC terfynol, addasir y gwerth amnewid gros i adlewyrchu amcangyfrif gorau'r rheolwyr o fywydau defnyddiol yr asedau sy'n weddill, gan ystyried cyflwr a chapasiti'r rhwydwaith.

Y ffactorau mynegeio a gymhwysir i'r model yw:

Tir – Y Mynegai Prisiau Defnyddwyr gan gynnwys costau tai perchen-feddianwyr (CPIH)

Adeiladau – Y Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI)

Caiff yr holl waith cynnal a chadw sy'n cadw potensial gwasanaeth y rhwydwaith rheilffyrdd ei gyfalafu. Mae gwariant olynol sy'n ychwanegu at wasanaeth neu oes yr ased CVL yn cael ei gyfalafu.

Cynhwysir gwelliannau ac adnewyddiadau i'r ased CVL fel un swm ar gost fel asedau sy'n cael eu hadeiladu, hyd nes y cânt eu defnyddio, pryd y caiff yr ased ei drosglwyddo i gategori'r Rhwydwaith Rheilffyrdd a'i brisio yn ôl DRC.

Cymerir symudiadau ar i fyny o ran gwerth i'r gronfa ailbrisio. Mae symudiadau ar i lawr o ran gwerth yn cael eu gosod yn erbyn unrhyw gredyd a ddelir yn y gronfa ailbrisio nes i'r credyd ddodi ben a chânt eu gosod fel traul wedyn yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Tir ac Adeiladau (gan gynnwys Anheddau)

Mae Llywodraeth Cymru a'i chyrff cysylltiedig yn cyfalafu eiddo rhydd-ddaliadol lle mae'n cael ei gadw i'w ddefnyddio gan y corff ei hun. Caiff tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol eu dal ar werth y farchnad agored at ddefnydd presennol; yr eithriad yw eiddo o natur arbenigol a gedwir ar gost amnewid ddibrisiedig. Mae tir ac adeiladau'n cael eu prisio gan ddefnyddio prisiadau proffesiynol naill ai bob pum mlynedd, neu'n flynyddol, gyda mynegeion priodol yn y blynyddoedd rhwng hynny ar gyfer prisiadau nad ydynt yn flynyddol. Mae Llywodraeth Cymru'n defnyddio mynegai misol y Banc Data Eiddo Buddsoddi (IPD) ar gyfer mynegeion Canolbarth Lloegr a Chymru.

## Offer a Chyfarpar

Mae offer a chyfarpar (sy'n cynnwys offer a pheiriannau, offer trafnidiaeth, technoleg gwybodaeth a gosodiadau a ffitiadau) yn cael eu dal ar gost hanesyddol. Gan mai oes ddefnyddiol fer sydd i'r dosbarthiadau hyn o asedau, dim ond am bris gormodol y gellid cael ailbrisiadau dibynadwy o'r asedau hyn. Ni ddefnyddir unrhyw amcangyfrif arwyddocaol wrth brisio'r dosbarthiadau hyn o asedau.

Y lefel isaf ar gyfer cyfalafu asedau unigol ac asedau wedi'u grwpio yw £5,000.

## Asedau Treftadaeth

Mae Llywodraeth Cymru'n dal nifer o asedau treftadaeth anweithredol lle mae'r gwerth diwylliannol, addysgol a hanesyddol yn annhebygol o gael ei adlewyrchu'n llawn mewn gwerth ariannol sy'n deillio o fecanwaith neu bris y farchnad. Mae'r asedau hyn yn arbenigol eu natur a naill ai ni ellir sicrhau prisiadau dibynadwy, neu ni ellid eu sicrhau ond am bris gormodol. Nid yw Llywodraeth Cymru, felly'n cyfalafu'r asedau hyn yn y cyfrifon.

# A.2 Dibrisiant

## Y Rhwydwaith Ffyrdd

Mae'r gost dibrisiant ar gyfer y rhwydwaith ffyrdd yn cynnwys tair elfen:

i. tâl cynnal a chadw blynyddol;

ii. amcangyfrif o'r dirywiad parhaol yng nghyflwr y rhwydwaith yn y flwyddyn (a gyfrifwyd gan y model cyfrifiadur ar sail y data diweddaraf am gyflwr y rhwydwaith y cyfeirir ato yn y nodyn asedau anghyfredol uchod;

iii. dibrisiant wedi'i gyfrifo o'r strwythurau a chyfathrebu.

Cyfrifir am ddibrisiant mewn perthynas â'r palmant ffordd drwy gyfeirio at y potensial gwasanaeth a asesir gan arolygon cyflwr a gyflawnir dros y rhwydwaith cyfan fel rhan o raglen dreigl sy'n cwmpasu pob darn o'r ffordd bob pum mlynedd. Y gost dibrisiant flynyddol ar gyfer arwynebedd y ffordd yw gwerth y potensial gwasanaeth a ddisodlwyd drwy'r rhaglen cynnal a chadw, plws neu lai unrhyw addasiad sy'n deillio o'r arolwg cyflwr blynyddol. Mae'r elfennau Strwythurau a Chyfathrebu'n cael eu dibrisio gan ddefnyddio'r dull llinell syth sy'n cael ei gymhwyso i'r costau adnewyddu wedi'u hailbrisio, a hefyd yn cael eu harchwilio bob pum mlynedd i nodi unrhyw newidiadau eraill. Nid yw tir yn cael ei ddibrisio.

Dangosir oes cydrannau ffyrdd yn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Arwynebedd y rhwydwaith | hyd at 20 o flynyddoedd |
| Strwythurau'r rhwydwaith | 20 i 120 o flynyddoedd |
| Cyfathrebu'r rhwydwaith | 2 i 15 o flynyddoedd |
| Tir | nid yw'n cael ei ddibrisio |

## Y Rhwydwaith Rheilffyrdd

Mae cydrannau'r rhwydwaith rheilffyrdd yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol sy'n weddill; mae'r rhain fel arfer yn gyfartaleddau wedi'u pwysoli ar gyfer ystod o gydrannau, o ystyried cymhlethdod y strwythurau hyn. Crynhoir y cyfartaleddau wedi'u pwysoli isod:

| | |
|---|---|
| Gwrthgloddiau | Hyd at 94 mlynedd |
| Strwythurau | Hyd at 25 mlynedd |
| Signalau a Phŵer | Hyd at 25 mlynedd |
| Eiddo Gweithredol | Hyd at 19 mlynedd |
| Traciau | Hyd at 12 mlynedd |
| Telegyfathrebu | Hyd at 7 mlynedd |

Mae hon yn farn feirniadol sy'n seiliedig ar y data sydd ar gael. Mae angen barn ofalus mewn rhai achosion, yn enwedig ar gyfer cydrannau nad ydynt yn cael eu hadnewyddu'n aml, megis strwythurau a gwrthgloddiau. Mae rhai cydrannau'n gallu cael oes hir iawn; fodd bynnag ar gyfer y prisiad hwn, mae'r oes yn cael ei chapio ar 100 mlynedd oherwydd ansicrwydd cynhenid y tu hwnt i'r cyfnod hwnnw.

Adolygir dulliau dibrisiant, oes ddefnyddiol a gwerthoedd gweddilliol ar ddyddiad pob Datganiad o Sefyllfa Ariannol.

## Asedau Eraill

Darperir dibrisiant yn ôl cyfraddau a gyfrifir i ddileu gwerth asedau anniriaethol ac eiddo arall, asedau eiddo, offer a chyfarpar drwy randaliadau cyfartal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifiedig.

| Anheddau | Gweddill oes |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | hyd at 85 o flynyddoedd |
| Offer, peiriannau a chyfarpar trafnidiaeth | 5 i 15 o flynyddoedd |
| Technoleg gwybodaeth | 3 i 10 o flynyddoedd |
| Asedau meddalwedd anniriaethol | 2 i 10 o flynyddoedd |
| Gosodiadau a ffitiadau | 3 i 20 o flynyddoedd |

Nid yw tir rhydd-ddaliadol ac asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu dibrisio.

Mae amhariadau asedau sefydlog diriaethol yn cael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y cyfnod y maent yn codi.

# A.3 Ymchwil a Datblygu

Mae gwariant ymchwil a datblygu yn cael ei godi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y mae'n cael ei dynnu, ac eithrio lle mae'n cyfeirio at brosiect pendant a lle gellir barnu bod y buddion yn sicr. Mae'r gwariant sy'n cael ei ohirio'n cael ei gyfyngu i werth buddion a ddisgwylir yn y dyfodol ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail systematig dros y cyfnod y disgwylir elwa ar y prosiect.

# A.4 Asedau Ariannol

## Benthyciadau a Chyllid Ad-daladwy

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyciadau a chyllid ad-daladwy i gwmnïau grŵp (e.e. Banc Datblygu Cymru), cyrff eraill y sector cyhoeddus a chwmnïau'r sector preifat at ddibenion datblygu economaidd neu amcanion gweithredu polisi. Delir yr asedau ariannol hyn at ddibenion casglu taliadau contractiol y prifswm ac unrhyw log sydd i'w godi, ac fe'u delir yn ôl cost wedi'i hamorteiddio yn unol ag IFRS 9.

Mae benthyciadau Cymorth i Brynu – Cymru a reolir gan Fanc Datblygu Cymru yn fenthyciadau rhannu ecwiti ac fe'u delir yn ôl gwerth teg drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## Cyfalaf Difidend Cyhoeddus

Delir Cyfalaf Difidend Cyhoeddus ar gost hanesyddol, llai amhariadau, yn unol â dehongliad FReM o IFRS 9.

## Buddsoddiadau

Delir buddsoddiadau yn endidau grŵp is-gwmnïau ar gost yng Nghyfrif Llywodraeth Cymru yn unol â IAS 27. Delir buddsoddiadau mewn cyd-fentrau ar werth teg.

Cyfrifir am fenthyciadau a buddsoddiadau ecwiti a wneir gan Fanc Datblygu Cymru yn unol ag IRS 9 lle mae offerynnau dyled a ddelir i gasglu taliadau contractiol y prifswm a'r llog yn cael eu dal yn ôl cost wedi'i hamorteiddio a delir buddsoddiadau ecwiti yn ôl gwerth teg drwy Elw a Cholled. Nodir manylion llawn polisïau cyfrifyddu Banc Datblygu Cymru ar gyfer asedau ariannol, gan gynnwys colledion credyd disgwyliedig, yn eu Hadroddiad Blynyddol a'u Cyfrifon.

## Benthyciadau i Fyfyrwyr

Polisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru yw cydnabod ychwanegiad at y llyfr benthyciadau myfyrwyr pan fydd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr (SLC) wedi rhoi'r benthyciad i'r myfyriwr. Cesglir ad-daliadau benthyciadau gan SLC a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF). Yn achos ad-daliadau a wneir drwy SLC, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y taliad pan fydd SLC wedi cael yr arian parod a diweddaru cofnod y benthyciwr. Yn achos ad-daliadau a gesglir drwy'r system drethi, cydnabyddir hyn pan ddaw'r symiau sy'n ddyledus i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn ariannol yn ôl amcangyfrif CThEF i law. Dangosir gwerthoedd benthyciadau i fyfyrwyr yn net o ddileadau a amcangyfrifir yn y dyfodol ac maent yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

Yn unol â'r ffordd y mae FReM yn cymhwyso IFRS 9, mae benthyciadau i fyfyrwyr yn cael eu categoreiddio fel benthyciadau a symiau derbyniadwy ac yn cael eu cario yn ôl gwerth teg drwy Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Nodir esboniad manwl o'r dull gweithredu ar gyfer prisio yn Nodyn 6. Nodir datgeliadau sy'n ymwneud â risg, sy'n ofynnol o dan IFRS 7, ym Mholisi Cyfrifyddu A.17.

## A.5 Asedau Anghyfredol a Ddelir i'w Gwerthu

Dynodir asedau anghyfredol yn rhai sy'n cael eu dal i'w gwerthu os caiff eu swm cario ei adfer drwy ei werthu yn hytrach na thrwy ddefnydd parhaus. Bernir bod yr amod hwn yn cael ei fodloni yn unig pan fydd y gwerthiant yn debygol iawn a bod yr ased ar gael i'w werthu ar unwaith yn ei gyflwr presennol. Rhaid i'r rheolwyr ymrwymo i'r gwerthiant a dylid disgwyl cwblhau hyn cyn pen un flwyddyn i ddyddiad y dosbarthiad.

Mae'r asedau anghyfredol sy'n cael eu dal i'w gwerthu'n cael eu mesur ar lefel isaf swm cario a gwerth teg, llai costau i werthu.

## A.6 Stocrestri

Mae asedau datblygu, gan gynnwys tir a ddelir i'w ddatblygu yn y dyfodol ac eiddo adeiledig nad oes mo'i angen at eu defnydd eu hunain, a ddelir gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn y pen draw, yn cael eu dangos ar lefel isaf cost hanesyddol a phrisio asedau proffesiynol, gan ddileu unrhyw amhariad adeg ailbrisio i Ddatganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae gwrthdroi perthnasol yn achos amhariadau blynyddoedd blaenorol yn cael ei ddileu i'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr os oes tystiolaeth bresennol o gynnydd mewn gwerth yn deillio o wariant blynyddoedd blaenorol.

Mae stocrestri eraill yn cael eu prisio ar gost adnewyddu a gwerth gwireddadwy net, pa un bynnag yw'r isaf. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad oes gwahaniaeth o sylwedd rhwng y gost adnewyddu a chost hanesyddol stociau. Mae stociau sydd ag oes economaidd ddefnyddiol gyfyngedig yn cael eu dileu ar ddiwedd eu hoes.

## A.7 Incwm Gweithredol

Mae incwm gweithredol yn cyfeirio'n uniongyrchol at weithgareddau gweithredol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cysylltiedig. Mabwysiadodd Llywodraeth Cymru IFRS 15 'Revenue from Contracts with Customers' o 1 Ebrill 2018. Cyflwynodd IFRS 15 fodel pum cam newydd ar gyfer cydnabod refeniw o gontractau â chwsmeriaid. Cyfrifwyd am holl refeniw Llywodraeth Cymru sy'n dod o fewn cwmpas y safon hon, yn unol â hi.

Mae refeniw o'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â rhaglenni, cronfeydd a mentrau Ewropeaidd yn cael ei ddwyn i gyfrif yn unol â grantiau sy'n daladwy ac fe'i dangosir yn Nodyn 2. Mae'r cronfeydd yn cael eu talu i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Mae'r cronfeydd hyn wedyn yn cael eu trosglwyddo i'r adran berthnasol yn Llywodraeth Cymru ac fe gyfrifir amdanynt yn Nodyn 3.

## A.8 Treuliau Gweithredu Eraill

Cydnabyddir treuliau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau pan fyddant wedi'u cael, ac i'r graddau y byddant wedi'u cael. Fe'u mesurir yn ôl gwerth teg yr ystyriaeth sy'n daladwy.

## A.9 Treth ar Werth (TAW)

Mae Llywodraeth Cymru'n adennill rhai elfennau ar TAW ar gyfer gwasanaethau busnes a gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan. Yn achos gwariant arall ar nwyddau a gwasanaethau, cofnodir y rhain yn gynhwysol o TAW.

## A.10 Costau Ymadael yn Gynnar

Mae'n ofynnol i Lywodraeth Cymru dalu cost ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion PCSPS arferol mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu yn llawn am y gost hon pan fo'r rhaglen ymddeoliad cynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n rhwymo. Caiff Llywodraeth Cymru, o dan rai amgylchiadau, setlo rhywfaint neu'r cyfan o'i hatebolrwydd ymlaen llaw drwy wneud taliad i Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth yn y Bank of England i gredydu'r Bleidlais Blwydd-daliadau Sifil. Mae trefniadau tebyg yn bodoli ar gyfer cyflogeion cyrff iechyd sy'n ymddeol yn gynnar.

Ar gyfer cyflogeion cyn-uno a chyn-weithwyr yr hen Awdurdod Datblygu Cymru yng Nghynllun Pensiwn Rhondda Cynon Taf, mae Llywodraeth Cymru'n talu cost ychwanegol buddion y cynllun mewn perthynas â chyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar.

## A.11 Lesoedd

### Pontio i IFRS 16

Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu IFRS 16, fel y dehonglir ac yr addasir ef yn FReM, gydag effaith o 1 Ebrill 2022. Mae IFRS 16 wedi'i gymhwyso'n ôl-weithredol, yn unol â FReM, ac mae'r effaith gronnol ar y dyddiad cymhwyso cychwynnol yn cael ei chydnabod fel addasiad i falans agoriadol ecwiti trethdalwyr.

Mae'r dulliau ymarferol a'r esemptiadau canlynol wedi'u cymhwyso yn unol â chanllawiau Trysorlys EF ar gymhwyso IFRS 16:

- Nid yw contractau y nodwyd yn flaenorol eu bod yn cynnwys les o dan IAS 17 ac IFRIC 4 wedi'u hailasesu ar y dyddiad cymhwyso cychwynnol ac maent wedi'u cyfrif fel lesoedd.
- Defnyddiwyd dull ôl-edrych wrth benderfynu ar dymor y les pan fo'r contract yn cynnwys opsiynau i ymestyn neu derfynu'r les.
- Cymhwyswyd y gyfradd fenthyca gynyddrannol o 0.95% i'r atebolrwyddau les a gydnabyddir ar y dyddiad cymhwyso cychwynnol.
- Nid yw'r darpariaethau trosiannol wedi'u cymhwyso i lesoedd â thelerau a ddaeth i ben o fewn deuddeg mis i'r dyddiad cymhwyso cychwynnol.
- Ni wnaed unrhyw addasiadau ar gyfer lesoedd asedau gwerth isel o dan £5,000.

Yn unol â FReM, mae cytundebau llywodraeth o fewn y DU yn cael eu trin fel contractau, hyd yn oed pan na ellir eu gorfodi'n gyfreithiol. Caiff contractau o'r fath eu trin fel rhai sydd o fewn cwmpas IFRS 16 os ydynt yn cyfleu'r hawl i ddefnyddio ased.

Mae rhagor o wybodaeth am fabwysiadu IFRS 16 ar gyfer cyrff iechyd yng Nghymru ar gael yn eu cyfrifon statudol.

Roedd Grŵp Banc Datblygu Cymru, Career Choices Dewis Gyrfa Limited a Grŵp Trafnidiaeth Cymru, fel is-gwmnïau sy'n paratoi cyfrifon statudol o dan Ddeddf Cwmnïau 2006, eisoes wedi cymhwyso IFRS 16 o 1 Ebrill 2019. Yn unol â pholisi cyfrifyddu Llywodraeth Cymru o beidio â gwneud addasiadau cysoni wrth gyfuno oni bai bod yr effaith yn berthnasol, ni wnaed unrhyw addasiad, wrth gyfuno, ar gyfer y gwahaniaethau amseru amherthnasol wrth fabwysiadu IFRS 16 yng Nghyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23.

Nid oes gan WGC Holdco Limited na Chronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio LLP lesoedd.

## Fel Lesddeiliad

Pan fydd les yn cael ei nodi, cydnabyddir ased hawl-i-ddefnyddio ac atebolrwydd les cyfatebol ar y dyddiad cychwyn. Nid yw hyn yn cynnwys lesoedd tymor byr a lesoedd lle mae'r ased sylfaenol o werth isel. Ar gyfer lesoedd o'r fath, mae taliadau'r les yn cael eu cydnabod fel cost ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

Lesoedd tymor byr yw'r rhai sydd â chyfnod o 12 mis neu lai. Mae trothwy o £5,000 wedi'i osod ar gyfer nodi asedau sydd o werth isel.

### Mesur Cychwynnol

Cyfrifir atebolrwydd y les yn seiliedig ar werth presennol taliadau les heb eu talu dros gyfnod cymwys y les a bennir yn unol ag IFRS 16. Caiff atebolrwydd y les ei ddisgowntio gan ddefnyddio cyfraddau Trysorlys EF a gyhoeddir ym mhapurau PES fel cyfradd fenthyca gynyddrannol.

Mae'r ased hawl-i-dddefnyddio yn cael ei fesur yn ôl cost i ddechrau, sy'n cynnwys swm cychwynnol atebolrwydd y les, ynghyd ag unrhyw gostau uniongyrchol cychwynnol yr eir iddynt ac amcangyfrif o'r costau i adfer yr ased sylfaenol, llai unrhyw gymelliadau les a dderbyniwyd.

### Mesur Dilynol

Caiff atebolrwydd y les ei addasu ar gyfer cronni llog, taliadau, ailasesiadau ac addasiadau, er enghraifft ailwerthuso tebygolrwydd yr opsiynau a roddir gan gontract presennol y les, megis pan nad oes disgwyl i'r opsiwn o estyniad gael ei arfer mwyach.

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros y tymor les cysylltiedig. Mae'r ased hawl-i-ddefnyddio yn cael ei leihau'n gyfnodol gan golledion amhariadau, os oes rhai, ac yn cael ei addasu ar gyfer ailfesuriadau penodol o atebolrwydd y les.

Mae asedau hawl-i-ddefnyddio yn cael eu mesur wedyn gan ddefnyddio'r model cost fel procsi ar gyfer gwerth cyfredol yn y defnydd presennol. Defnyddir y model cost fel procsi gan nad oes gwahaniaeth perthnasol rhwng y prisiad a gynhyrchir gan y model cost o'i gymharu â'r model ailbrisio.

### Fel Lesydd

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu fel lesydd, penderfynir ar adeg cychwyn pob les ai les gyllid neu les weithredol yw hi.

Mae taliadau les a dderbynnir o dan lesoedd gweithredol yn cael eu cydnabod fel incwm ar sail llinell syth dros gyfnod y les.

## A.12 Grantiau

Cofnodir grantiau sy'n daladwy, neu a delir, fel gwariant yn y cyfnod y mae'r digwyddiad neu'r gweithgaredd sy'n rhoi hawl i'r grant yn digwydd.

# A.13 Buddion Cyflogeion

## A.13.1 Buddion Cyflogeion Tymor Byr

Caiff cyflogau a thaliadau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth eu cydnabod yn y cyfnod pan geir y gwasanaeth gan gyfleogeion.

## A.13.2 Pensiynau

Cynhwysir y mwyafrif o gyflogeion presennol a blaenorol Llywodraeth Cymru yn narpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PSPCS) a ddisgrifir yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Nid yw elfennau buddion diffiniedig y cynllun yn cael eu hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cost ddisgwyliedig yr elfennau hyn ar sail systematig a rhesymol dros y cyfnod y mae'n elwa ar wasanaethau cyflogeion drwy dalu i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) symiau a gyfrifir ar sail gronnus. Mae'r atebolrwydd i dalu buddion yn y dyfodol yn gost i PCSPS. O ran y cynlluniau cyfraniadau diffiniedig, mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod y cyfraniadau sy'n daladwy am y flwyddyn.

Cydnabyddir yr holl enillion a cholledion actiwaraidd sy'n deillio o addasiadau profiadau a newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraidd drwy gronfeydd wrth gefn yn y cyfnod y maent yn codi.

Mae rhai o gyn-staff Awdurdod Datblygu Cymru, staff presennol Banc Datblygu Cymru PLC a staff Career Choices Dewis Gyrfa Ltd yn cymryd rhan mewn nifer o Gynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru sy'n gynlluniau a ariennir gan aml-gyflogwr.

Mae rhai o staff Llywodraeth Cymru'n cyfrannu at: Cynlluniau'r Adran Iechyd a'r Ymddiriedolaeth Lles Nyrsys.

Mae cyflogeion cyrff iechyd yn cymryd rhan yng nghynllun pensiwn y GIG. Mae gwybodaeth am y cynllun hwn i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG.

Mae cyflogeion Trafnidiaeth Cymru yn cymryd rhan yn y Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd.

Mae'r polisïau cyfrifyddu manwl a'r datgeliadau o atebolrwyddau/asedau pensiwn cyflogwyr sydd wedi'u cynnwys yng Nghyfrif Cyfunol Llywodraeth Cymru ar gyfer is-endidau i'w gweld yng Nghyfrifon Cryno'r GIG (Cynllun Pensiwn NEST a'r GIG), cyfrifon Grŵp Trafnidiaeth Cymru (cyfraniad diffiniedig a'r Cynllun Pensiwn Rheilffyrdd), cyfrifon Grŵp Banc Datblygu Cymru (cyfraniad diffiniedig a Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol) a chyfrifon Career Choices Dewis Gyrfa Ltd (Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol).

# A.14 Y Fenter Cyllid Preifat a Threfniadau Consesiynau Gwasanaeth Eraill

Mae Trysorlys EF wedi pennu y bydd rhaid i gyrff llywodraeth gyfrif am gynlluniau consesiwn gwasanaeth ar gyfer seilwaith pan fo'r corff llywodraeth yn rheoli'r defnydd o'r seilwaith a'r buddiant gweddilliol yn y seilwaith ar ddiwedd y trefniant, yn unol ag egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r ased consesiwn gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar ynghyd ag atebolrwydd i dalu amdano. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir o dan y contract yn cael eu cofnodi fel treuliau gweithredol.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu'n gydrannau fel a ganlyn, gan ddefnyddio technegau amcangyfrif priodol lle bo angen:

a) Taliad am werth teg y gwasanaethau a gafwyd;

b) Taliad am yr ased consesiwn gwasanaeth gan gynnwys costau cyllid;

c) Taliad am amnewid elfennau o'r ased yn ystod yr 'amnewid ar ddiwedd cylch oes' yn y contract.

Cofnodir gwerth teg y gwasanaethau a dderbynnir yn y flwyddyn o dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn costau'r rhaglen.

Caiff asedau consesiwn gwasanaeth eu cydnabod fel eiddo, offer a chyfarpar:

a) os yw'n debygol y bydd manteision economaidd sy'n gysylltiedig â'r ased yn y dyfodol yn dod i'r sefydliad;

b) os gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy.

Mae'r meini prawf uchod i gydnabod asedau, ynghyd â thelerau ac amodau penodol y cytundeb rhwymol, yn cael eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cydnabod yr ased consesiwn gwasanaeth yn ystod y cyfnod y mae'r ased yn cael ei adeiladu neu ei ddatblygu.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu cydnabod a'u prisio yn yr un modd ag asedau anghyfredol eraill o'r un math generig.

Mae asedau consesiwn gwasanaeth sydd wedi'u cwblhau yn cael eu mesur i ddechrau yn ôl gwerth teg pan ddechreuir eu defnyddio, yn unol ag egwyddorion IFRS 16. Wedyn, mae'r asedau'n cael eu mesur yn ôl gwerth teg, sy'n cael ei ddiweddaru yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Cydnabyddir yr atebolrwydd consesiwn gwasanaeth ar yr un pryd â'r ased consesiwn gwasanaeth. Mae hyn yn cael ei fesur ar yr un swm â gwerth teg yr ased consesiwn gwasanaeth ac yn cael ei fesur o ganlyniad fel les yn unol ag IFRS 16. Cyfrifir cost ariannu flynyddol drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y les i atebolrwydd agoriadol y les am y cyfnod a chaiff ei chodi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr. Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei dyrannu fel rhentiad les yn cael ei chymhwyso i dalu'r gost ariannu flynyddol ac i ad-dalu atebolrwydd y les dros dymor y contract.

## A.15 Enillion a Cholledion y Gyfradd Gyfnewid

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru yn gofyn am gyllid rhaglenni oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar lefel yr Ewro sy'n cyfateb i'r sterling y mae ei angen ac yn talu cronfeydd allan wedyn mewn sterling. Mae elw neu golled ar y trafodiadau hyn yn cael ei chyfrifo yn unol ag IAS 21.

Mae trafodiadau eraill mewn arian cyfredol tramor yn cael eu trosi'n sterling yn ôl y gyfradd sydd mewn grym ar y dyddiad hwnnw. Cymerir gwahaniaethau cyfnewid i ystyriaeth yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr.

## A.16 Darpariaethau

Yn unol ag IAS 37 'Provisions, Contingent Liabilities and Contingent Assets', gwneir darpariaethau ar gyfer atebolrwyddau a thaliadau ar ddiwedd y flwyddyn pan fo rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol bresennol yn bodoli (h.y. rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol), pan fo'r all-lif adnoddau y bydd eu hangen i setlo'r rhwymedigaeth yn debygol a phan fo modd gwneud amcangyfrif rhesymol o'r rhwymedigaeth.

Pan fo gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio cyfraddau disgownt Trysorlys EF.

## A.17 Atebolrwyddau Digwyddiadol

Mae atebolrwydd digwyddiadol yn rhwymedigaeth bosibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol na fydd ei bodolaeth yn cael ei gadarnhau oni bai y bydd, neu na fydd, un neu ragor o ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol nad ydynt o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru yn llwyr; neu'n mae'n rhwymedigaeth bresennol nad yw'n cael ei chydnabod oherwydd nad yw hi'n debygol y bydd angen taliad i setlo'r rhwymedigaeth neu oherwydd na ellir mesur swm y rhwymedigaeth mewn modd digon dibynadwy.

Datgelir atebolrwyddau digwyddiadol yn Nodyn 12, fel sy'n ofynnol gan IAS 37, os bernir bod y debygoliaeth o drosglwyddo budd economaidd mewn setliad yn fwy nag annhebygol. Datgelir atebolrwyddau digwyddiadol annhebygol yn Nodyn 12.2, yn unol â FReM, er mwyn bod yn dryloyw. Mae atebolrwyddau digwyddiadol annhebygol yn cynnwys gwarantau, indemniadau a llythyrau cysur.

# A.18 Offerynnau Ariannol

Mae IFRS 7 yn ei gwneud yn ofynnol datgelu gwybodaeth sy'n caniatáu i'r defnyddiwr werthuso arwyddocâd offerynnau ariannol ar berfformiad ariannol, a natur a graddau ei gysylltiad â risgiau allweddol sy'n deillio o offerynnau ariannol.

Gan fod y mwyafrif o adnoddau Llywodraeth Cymru yn cael eu talu gan Gronfa Gyfunol Cymru, mae i offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig wrth greu risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw'n gorff sector cyhoeddus.

## Risg Credyd

Amcan Llywodraeth Cymru yw adfer dyled yn llawn, ac rydym yn mynd ar drywydd hynny yn weithgar. Y polisi yw defnyddio gweithdrefnau rheoli credyd arferol ar gyfer rheoli'r risg o ddiffygdaliad gan ddyledwyr masnach drwy swyddogaeth Cyfrifon Derbyniadwy. Oherwydd natur a gwerth dyledwyr, bernir mai bach iawn yw'r risg credyd cysylltiedig. Cyflwynodd IFRS 9 fodel blaengar o'r credyd y disgwylir ei golli, a dull gweithredu tri cham o ran darparu ar gyfer dyledion. Oherwydd y risg credyd isel, mae'r colledion credyd a ddisgwylir o dan gamau 1 a 2 i Lywodraeth Cymru'n amherthnasol. Gwneir darpariaethau cam 3 ar gyfer dyledion amheus pan fydd dyledion dros 6 mis oed.

Mae gan Lywodraeth Cymru rwymedigaeth statudol i roi benthyciadau i fyfyrwyr, ac ni chaniateir iddi ddal benthyciadau yn ôl ar sail statws credyd gwael. Mae'r amlygiad i'r risg o beidio ag ad-dalu benthyciadau'n cael ei reoli a'i fonitro a chyfrifir am yr effaith yn y prisiad blynyddol.

## Risg i'r Farchnad

Y prif risgiau yw i'r portffolio Benthyciadau i Fyfyrwyr yn sgil symudiad ar i lawr yn yr economi a allai arwain at gynnydd yn niweithdra benthycwyr, gan effeithio ar eu gallu i ad-dalu benthyciadau myfyrwyr. Effeithir ar fenthyciadau i fyfyrwyr hefyd oherwydd yr effaith negyddol bosibl wedyn ar dwf enillion graddedigion, sy'n estyn y cyfnod amser cyn i fenthyciadau gael eu had-dalu ac yn estyn y cyfnod ad-dalu. Gallai hyn effeithio ar y gwerth cario yn y cyfrifon. Gallai arwain hefyd ar gynnydd mewn dileadau gan ei fod yn cynyddu'r debygoliaeth na fydd rhai graddedigion o bosibl yn ad-dalu eu benthyciadau'n llawn erbyn diwedd cyfnod y benthyciad.

## Risg Arian Cyfred Tramor

Mae Llywodraeth Cymru'n agored i risg arian cyfred bach iawn ar ei thrafodiadau ym maes arian cyfred tramor, ac eithrio cronfeydd a ddaw i law oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Nid yw dewisiadau lliniaru'r sector preifat ar gael. Er hynny, mae cyfanswm y cyllid a ddaw i law oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn cael ei reoli er mwyn sicrhau bod y cyllid sydd ar gael yn cael ei ddyrannu'n hyblyg i brosiectau, fel y gellir bodloni lefelau gwariant wedi'u targedu. Mae hawliadau cyllid oddi wrth y Comisiwn hefyd yn brydlon er mwyn cyfyngu ar oedi rhwng tynnu gwariant a'i ad-dalu.

## Risg y Gyfradd Llog

Asedau ariannol cyfradd amrywiadwy Llywodraeth Cymru yn bennaf yw ei benthyciadau i fyfyrwyr sydd â chap cyfradd llog a bennir yn RPI neu gyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Y gyfradd llog ar fenthyciadau cyn 2012 yw'r isaf o RPI a chyfradd sylfaenol Banc Lloegr plws 1%. Mae faint o log sydd i'w ad-dalu felly'n destun gwamaliadau yn y gyfradd sylfaenol ac RPI. Mae'r tebygolrwydd y bydd Llywodraeth Cymru'n adennill gwerth enwol benthyciadau a roddir yn cael ei gynyddu pan fydd cyfradd sylfaenol Banc Lloegr yn isel a'r gyfradd chwyddiant yn gymharol uchel, am fod y gyfradd sylfaenol yn dod i rym ar gyfer y benthyciadau hyn. Mae effaith risg y gyfradd llog ar gyfer benthyciadau i fyfyrwyr a roddir o dan gynllun cyn 2012 yn cael ei ffactora i mewn i'r gwerth cario gan fod y model ad-dalu benthyciad i fyfyrwyr yn cyfrifo effaith cyfradd llog ar lifoedd arian parod a ddisgwylir. Mae risg ynghlwm wrth ragamcanu faint o log sy'n daladwy ac, os ceir cyfraddau sylfaenol sy'n is nag RPI, amherir ymhellach ar lifoedd arian parod y dyfodol.

## Risg Hylifedd

Nid yw Llywodraeth Cymru yn benthyca ond oddi wrth y Gronfa Benthyciadau Gwladol, ac mae'n dibynnu'n bennaf ar gyllid a ddaw i law oddi wrth Senedd y DU drwy Gronfa Gyfunol Cymru ar gyfer ei gofynion arian parod. Nid oes rheswm dros gredu na fydd cyllid ar gael yn y dyfodol, felly ar y sail hon nid yw'n agored i risgiau hylifedd. Hefyd nid oes ganddi adneuon sylweddol, ac mae'r holl asedau ac atebolrwyddau perthnasol wedi'u henwi mewn sterling, felly nid yw'n agored i risg cyfradd llog na risg cyfradd arian cyfred heblaw'r risgiau sy'n deillio o dderbyn cronfeydd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd mewn Ewros.

Pan fo gwerth arian o ran amser yn berthnasol, mae darpariaethau'n cael eu disgowntio i'r gwerth presennol gan ddefnyddio darpariaethau disgownt real Trysorlys EF.

# A.19 Safonau cyfrifyddu newydd eu cyhoeddi nad ydynt mewn grym eto

Mae nifer o safonau a deongliadau cyfrifyddu newydd a diwygiedig wedi cael eu cyhoeddi ond nid ydynt mewn grym eto, ac felly nid ydynt wedi cael eu mabwysiadu eto yn y cyfrifon hyn. Mae'r rhain yn cael eu hystyried ar hyn o bryd gan y Bwrdd Cynghori ar Adroddiadau Ariannol (FRAB) i'w cynnwys mewn FReM yn y dyfodol. Gallai'r Safon ganlynol gael effaith ar Gyfrifon Cyfunol Llywodraeth Cymru yn y dyfodol pan gaiff ei mabwysiadu:

### IFRS 17 'Insurance Contracts' – yn effeithiol o 1 Ebrill 2025

Mae'r Bwrdd Safonau Cyfrifyddu Rhyngwladol (IASB) wedi cyhoeddi IFRS 17 'Insurance Contracts' sy'n disodli IFRS 4 'Insurance Contracts'. Mae'r safon newydd yn gosod disgwyliadau cliriach ar gydnabod, dosbarthu a mesur asedau ac atebolrwyddau mewn perthynas â chontractau yswiriant. Mae IFRS 17 mewn grym ar gyfer y cyfnodau cyfrifyddu sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023 neu wedi hynny. Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi canllawiau ar gymhwyso'r Safon, gan nodi ei bod yn orfodol i gyrff llywodraeth ganolog ei mabwysiadu ar 1 Ebrill 2025 ac y bydd mabwysiadu cynnar yn cael ei ganiatáu fesul achos.